

CYFRES BEIRDD YR UCHELWYR

Gwaith Siôn ap Hywel ap Llywelyn Fychan

CANOLFAN UWCHEFRYDIAU  
CYMREIG A CHELTAIDD  
PRIFYSGOL CYMRU

CYFRES BEIRDD YR UCHELWYR

*Cyfarwyddwr*

Yr Athro Geraint H. Jenkins, BA, PHD, DLITT

*Golygydd y Gyfres*

Ann Parry Owen, BA, PHD

*Cymrodyr Ymchwil*

M. Paul Bryant-Quinn, STB, BA

R. Iestyn Daniel, BA, PHD

Rhiannon Ifans, BA, PHD

Owen Thomas, BA, LLB

*Golygyddion Ymgynghorol*

Yr Athro Emeritws J.E. Caerwyn Williams,

MA, BD, DLITT, DLITT CELT, FSA, MRIA, FBA

Yr Athro Emeritws R. Geraint Gruffydd, BA, DPHIL, FBA

*Bwrdd Golygyddol*

Gareth A. Bevan, MA

Yr Athro Dafydd Johnston, BA, PHD

A. Cynfael Lake, MA, PHD

Peredur Lynch, BA, PHD

# GWAITH SIÔN AP HYWEL AP LLYWELYN FYCHAN

golygwyd gan  
A. CYNFAEL LAKE



ABERYSTWYTH  
CANOLFAN UWCHEFRYDIAU CYMREIG A CHELTAIDD  
PRIFYSGOL CYMRU  
1999

© Prifysgol Cymru ©, 1999.  
Adargraffiad gyda mân gywiriadau, 2023.

Cyhoeddir y gwaith hwn dan drwydded [CC BY-NC-SA 4.0](https://creativecommons.org/licenses/by-nc-sa/4.0/).



Am ymholiadau ynglŷn â hawliau atgynhyrchu eraill, cysyllter â'r Ganolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru, Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth, Ceredigion, SY23 3HH.

Mae cofnod catalogio'r llyfr hwn ar gael gan y Llyfrgell Brydeinig.

ISBN 0 947531 55 6

Cysodwyd gan staff Canolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru.

Cydnabyddir yn ddiolchgar gefnogaeth ariannol y Coleg Cymraeg Cenedlaethol a Phrifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant tuag at baratoi'r adargraffiad digidol hwn. Am wybodaeth bellach cysyllter ag Ann Parry Owen, apo@cymru.ac.uk.

## *Rhagair*

Y mae'r testun a gynigir yma, megis *Gwaith Huw ap Dafydd ap Llywelyn ap Madog* a gyhoeddwyd yn rhan o gyfres Beirdd yr Uchelwyr y Ganolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd yn 1995, yn seiliedig ar draethawd a gyflwynwyd am radd M.A., ryw ugain mlynedd yn ôl bellach. Hyfrydwch yw cael cydnabod fy niolch i Mr W. Gerallt Harries am ei gyfarwyddyd manwl a'i arweiniad sicr pan oeddwn yn dechrau mynd i'r afael â chanu'r Cywyddwyr. Mawr yw fy niolch hefyd i aelodau'r Bwrdd Golygyddol am eu sylwadau gwerthfawr ar y testun, ac i staff Geiriadur Prifysgol Cymru ac Adran Lawysgrifau'r Llyfrgell Genedlaethol am eu cymorth hwy. Digon yw dweud bod fy nyled i Dr Ann Parry Owen, golygydd y gyfres, yn un fawr, a'm bod yn gwir werthfawrogi ei gofal a'i thrylwyredd. Yn ystod y misoedd diwethaf, bûm ar ofyn Mr Ceri Davies, Dr John Gwynfor Jones a Mr M. Paul Bryant-Quinn, a bu'r tri yn barod iawn i'm cynorthwyo.

Rhestrir y ffynonellau, pan ddigwydd y testun mewn rhagor nag un llawysgrif, yn ôl eu pwysigrwydd, ond dilynwyd arfer y gyfres o restru'r ffynonellau yn ôl trefn yr wyddor lle y ceid amllder o gopïau. Nodir yr amrywiadau bob tro yn orgraff y llawysgrif flaenaf. Defnyddir bachau petryal pan fo gair neu eiriau yn eisiau yn y gwreiddiol, a dynodir y llythrennau neu'r geiriau a ychwanegwyd gan y golygydd mewn teip italig.

A. Cynfael Lake  
Mawrth 1999



# Cynnwys

*Tud.*

RHAGAIR v

BYRFODDAU

Llyfryddol .....	xi
Termau a geiriau .....	xvii

GWAITH SIÔN AP HYWEL AP LLYWELYN FYCHAN

RHAGYMDRODD.....	1
------------------	---

TESTUN

1. Moliant Dafydd ab Owain, abad Maenan.....	13
2. Marwnad Tomas Pennant, abad Dinas Basing .....	15
3. Awdl farwnad Syr Hywel ab y Dai .....	18
4. Marwnad Syr Hywel ab y Dai .....	22
5. Moliant Pirs Conwy, archddiacon Llanelwy .....	25
6. Gofyn tarw gan Birs Conwy, archddiacon Llanelwy, dros Robert Llwyd, person Gwytherin .....	28
7. Moliant Ithel ap Gruffudd .....	31
8. Marwnad Tudur Llwyd o Iâl .....	34
9. Marwnad Sioned ferch Robert ab Ieuan Fychan .....	38
10. Marwnad Siôn ap Dafydd ab Ithel Fychan, Broneirian .....	42
11. Marwnad Tudur Aled .....	45
12. Gofyn march gan Robert Fychan, Berain, dros Ddafydd .....	49
13. Gofyn Ysglatys gan Wiliam ap Wiliam, Cwchwillan, dros Huw ap Rhys, Llanddyfnan.....	51
14. Moliant Ynys Môn .....	54
15. Awdl i Dduw a'r Grog yn Llanfair .....	59
16. I'r Grog.....	63
17. Teyrnog Sant .....	66
18. Awdl i Wenfrewy .....	69
19. Awdl i Saint y Catrin.....	73
20. Cywydd Merch.....	76
21. Cywydd Merch.....	78

22.	Cywydd Merch.....	82
23.	Cywydd Merch.....	86
24.	Cywydd Merch.....	91
25.	Cywydd Merch.....	94
26.	I ganmol y cardwyr a'r diswyr .....	97
27.	Ateb Gruffudd ab Ieuan ap Llywelyn Fychan .....	101
28.	Englynion Siôn ap Hywel a Thudur Aled i'r picin yn Ninas Basing.....	107
29.	Englyn Siôn ap Hywel a Thudur Aled i Dai ap Wiliam .....	108
30.	Englyn i ferch.....	109
31.	Toddeidiau Siôn ap Hywel a Thudur Aled.....	110
32.	Cwpledi o waith Dafydd ab Edmwnd, Dafydd ap Gwilym, Siôn ap Hywel a Thudur Aled .....	111

#### ATODIAD

i	Cywydd i'r niwl.....	112
ii	Cywydd Cadi.....	117

NODIADAU.....	119
GEIRFA.....	183
ENWAU PERSONAU .....	199
ENWAU LLEOEDD .....	201
LLAWYSGRIFAU.....	203
MYNEGAI I'R LLINELLAU CYNTAF .....	213
MYNEGAI I'R GWRTHRYCHAU.....	215



# Byrfoddau

## Llyfryddol

Arch Camb	<i>Archaeologia Cambrensis</i> , 1846–
B	<i>Bwletin y Bwrdd Gwybodau Celtaidd</i> , 1921–93
Bangor	Llawysgrif yng nghasgliad Llyfrgell Prifysgol Cymru, Bangor
Bangor (Mos)	Llawysgrif yng nghasgliad Bangor (Mostyn) yn Llyfrgell Prifysgol Cymru, Bangor
BaTh	<i>Beirdd a Thywysogion</i> , gol. M.E. Owen a B.F. Roberts (Caerdydd, 1996)
BD	<i>Brut Dingestow</i> , gol. Henry Lewis (Caerdydd, 1942)
BDG	<i>Barddoniaeth Dafydd ab Gwilym</i> , gol. Owen Jones a William Owen (Llundain, 1789)
BL Add	Llawysgrif Ychwanegol yng nghasgliad y Llyfrgell Brydeinig, Llundain
BI BGCC	<i>Blodeugerdd Barddas o Ganu Crefyddol Cynnar</i> , gol. Marged Haycock (Llandybïe, 1994)
BI N	<i>Y Flodeugerdd Newydd</i> , gol. W.J. Gruffydd (Caerdydd, 1909)
Bodewryd	Llawysgrif yng nghasgliad Bodewryd, yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth
Bodley	Llawysgrif yng nghasgliad Llyfrgell Bodley, Rhydychen
BrM	<i>Breuddwyd Maxen</i> , gol. Ifor Williams (Bangor, 1908)
BRh	<i>Breudwyt Ronabwy</i> , gol. Melville Richards (Caerdydd, 1948)
Brog	Llawysgrif yng nghasgliad Brogyntyn, yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth

- ByCy *Y Bywgraffiadur Cymreig hyd 1940* (Llundain, 1953)
- ByCyAt *Y Bywgraffiadur Cymreig 1941–1950 gydag Atodiad i'r Bywgraffiadur Cymreig hyd 1940* (Llundain, 1970)
- CAMBM *Catalogue of Additions to the Manuscripts in the British Museum in the years 1841–1845* (London, 1850)
- CAMBM 1876–81 *Catalogue of Additions to the Manuscripts in the British Museum in the years 1876–1881* (London, 1882)
- Card Llawysgrif yn Llyfrgell Ganolog Caerdydd
- CC J. Fisher, *The Cefn Coch MSS* (Liverpool, 1899)
- Chirk Llawysgrif yng nghasgliad Chirk, yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth
- CLC *Cydymaith i Lenyddiaeth Cymru*, gol. Meic Stephens (Caerdydd, 1986)
- CLC<sup>2</sup> *Cydymaith i Lenyddiaeth Cymru*, gol. Meic Stephens (argraffiad newydd, Caerdydd, 1997)
- CM Llawysgrif yng nghasgliad Cwrtmawr, yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth
- CSTB *Cywyddau Serch y Tri Bedo*, gol. P.J. Donovan (Caerdydd, 1982)
- CTC C.T. Beynon Davies, 'Cerddi'r Tai Crefydd' (M.A., Cymru [Bangor], 1973)
- Cy *Y Cymmrodor, the Magazine of the Honourable Society of Cymmrodorion*, 1877–1951
- Cylchg CHSFeir *Cylchgrawn Cymdeithas Hanes a Chofnodion Sir Feirion(n)ydd*, 1949–
- Cylchg LlGC *Cylchgrawn Llyfrgell Genedlaethol Cymru*, 1939–
- Dafydd Trefor: Gw S.E.I. George, 'The Poetical Works of Syr Dafydd Trefor' (M.A., Cymru [Caerdydd], 1929)
- DE *Gwaith Dafydd ab Edmwnd*, gol. Thomas Roberts (Bangor, 1914)
- DGA *Selections from the Dafydd ap Gwilym Apocrypha*, ed. Helen Fulton (Llandysul, 1996)

- DGDG *Detholiad o Gywyddau Dafydd ap Gwilym*, gol. Ifor Williams (Bangor, 1927)
- DGG<sup>2</sup> *Cywyddau Dafydd ap Gwilym a'i Gyfoeswyr*, gol. Ifor Williams, Thomas Roberts (ail arg., Caerdydd, 1935)
- DN *The Poetical Works of Dafydd Nanmor*, ed. Thomas Roberts and Ifor Williams (Cardiff and London, 1923)
- DNB *Dictionary of National Biography* (22 vols., London, 1908–9)
- DrOC *Drych yr Oesoedd Canol*, gol. Nesta Lloyd a Morfydd E. Owen (Caerdydd, 1986)
- DWH Michael Powell Siddons, *The Development of Welsh Heraldry* (3 vols., Aberystwyth, 1991–3)
- L. Dwnn: HV *Heraldic Visitations of Wales*, gol. S.R. Meyrick (Llandovery, 1846)
- G *Geirfa Barddoniaeth Gynnar Gymraeg*, gol. J. Lloyd-Jones (Caerdydd, 1931–63)
- GCC D. Simon Evans, *Gramadeg Cymraeg Canol* (Caerdydd, 1960)
- GDG *Gwaith Dafydd ap Gwilym*, gol. Thomas Parry (Caerdydd, 1952)
- GDID *Gwaith Deio ab Ieuan Du a Gwilym ab Ieuan Hen*, gol. A. Eleri Davies (Caerdydd, 1992)
- GDLI *Gwaith Dafydd Llwyd o Fathafarn*, gol. W. Leslie Richards (Caerdydd, 1964)
- GEO *Gwaith Einion Offeiriad a Dafydd Ddu o Hiraddug*, gol. R. Geraint Gruffydd a Rhiannon Ifans (Aberystwyth, 1997)
- GGH *Gwaith Gruffudd Hiraethog*, gol. D.J. Bowen (Caerdydd, 1990)
- GGI<sup>2</sup> *Gwaith Guto'r Glyn*, gol. J. Llywelyn Williams ac Ifor Williams (ail arg., Caerdydd, 1961)
- GHC *Gwaith Hywel Cilan*, gol. Islwyn Jones (Caerdydd, 1963)

- GHD *Gwaith Huw ap Dafydd ap Llywelyn ap Madog*, gol. A. Cynfael Lake (Aberystwyth, 1995)
- GIG *Gwaith Iolo Goch*, gol. D.R. Johnston (Caerdydd, 1988)
- GLD *Gwaith Lewys Daron*, gol. A. Cynfael Lake (Caerdydd, 1994)
- GLGC *Gwaith Lewys Glyn Cothi*, gol. Dafydd Johnston (Caerdydd, 1995)
- GLM *Gwaith Lewys Môn*, gol. Eurys I. Rowlands (Caerdydd, 1975)
- GLIBH *Gwaith Llywelyn Brydydd Hoddnant, Dafydd ap Gwilym, Hillyn ac eraill*, gol. Ann Parry Owen a Dylan Foster Evans (Aberystwyth, 1996)
- GLILI *Gwaith Llywarch ap Llywelyn 'Prydydd y Moch'*, gol. Elin Jones (Caerdydd, 1989)
- GMW D. Simon Evans, *A Grammar of Middle Welsh* (Dubin, 1964)
- GO *L'œuvre poétique de Gutun Owain*, gol. E. Bachellery (Paris, 1950–1)
- GP *Gramadegau'r Penceirddiaid*, gol. G. J. Williams ac E. J. Jones (Caerdydd, 1934)
- GPC *Geiriadur Prifysgol Cymru* (Caerdydd, 1950–)
- GSCMB 'Guide to the Special Collections of Manuscripts in the Library of the University College of North Wales Bangor' (cyfrol anghyhoeddedig, Prifysgol Cymru, Bangor, 1962)
- GSC *Gwaith Siôn Ceri*, gol. A. Cynfael Lake (Aberystwyth, 1996)
- GST *Gwaith Siôn Tudur*, gol. Enid Roberts (Caerdydd, 1980)
- GTP *Gwaith Tudur Penllyn ac Ieuan ap Tudur Penllyn*, gol. Thomas Roberts (Caerdydd, 1958)
- GWL<sup>2</sup> ii *A Guide to Welsh Literature 1282–c. 1550 Volume II*, ed. A.O.H. Jarman & Gwilym Rees Hughes, revised by Dafydd Johnston (Cardiff, 1997)

- Gwyn Llawysgrif yng nghasgliad J. Gwyneddon Davies yn Llyfrgell Prifysgol Cymru, Bangor
- HAA Rhŷs W. Hays, *The History of the Abbey of Aberconway 1186–1537* (Cardiff, 1963)
- HCLI *Gwaith Huw Cae Llwyd ac Eraill*, gol. Leslie Harries (Caerdydd, 1953)
- HMNLW *Handlist of Manuscripts in the National Library of Wales* (Aberystwyth, 1943–)
- HPF J.Y.W. Lloyd, *The History of the Princes, the Lords Marcher, and the Ancient Nobility of Powys Fadog* (6 vols., London, 1881–7)
- Hywel Rheinallt: Gw E.W.O. Davies, 'Testun Beirniadol o waith Hywel Rheinallt' (M.A., Cymru [Aberystwyth], 1967)
- IGE<sup>2</sup> *Cywyddau Iolo Goch ac Eraill*, gol. Henry Lewis, Thomas Roberts ac Ifor Williams (ail arg., Caerdydd, 1937)
- J Llawysgrif yng nghasgliad Coleg Iesu, Rhydychen
- LBS S. Baring-Gould and John Fisher, *The Lives of the British Saints* (4 vols., London, 1907–13)
- Lewis ab Edward: Gw R.W. Macdonald, 'Bywyd a Gwaith Lewis ab Edward' (M.A., Lerpwl, 1960–1)
- LlyB *Llywelyn y Beirdd*, gol. J.E. Caerwyn Williams, Eurys Rolant ac Alan Llwyd (Caernarfon, 1984)
- LICy *Llên Cymru*, 1950–
- LIDC *Llyfr Du Caerfyrddin*, gol. A.O.H. Jarman (Caerdydd, 1982)
- LIGC Llawysgrif yng nghasgliad Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth
- J.E. Lloyd: HW J.E. Lloyd, *A History of Wales* (London, 1911)
- Llst Llawysgrif yng nghasgliad Llansteffan, yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth
- MCF Mynegai Cyfrifiadurol i Farddoniaeth, Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth

- MFGLI *Mynegai i Farddoniaeth Gaeth y Llawysgrifau* (Caerdydd, 1978)
- Mont Coll *Collections Historical and Archaeological ... by the Powysland Club, 1868–*
- J. Morris-Jones: CD John Morris-Jones, *Cerdd Dafod* (Rhydychen, 1925)
- Mos Llawysgrif yng nghasgliad Mostyn, yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth
- NCE *New Catholic Encyclopaedia* (15 vols., Washington, 1967)
- NEB *The New Encyclopaedia Britannica* (Chicago, 1986)
- NLWCM J.H. Davies, *The National Library of Wales: Catalogue of Manuscripts*, i (Aberystwyth, 1921)
- OBWV *The Oxford Book of Welsh Verse*, ed. Thomas Parry (Oxford, 1962)
- OED<sup>2</sup> *The Oxford English Dictionary* (second ed., Oxford, 1989)
- PACF J.E. Griffith, *Pedigrees of Anglesey and Carnarvonshire Families* (Bangor, 1914)
- Pant Llawysgrif yng nghasgliad Panton, yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth
- Pen Llawysgrif yng nghasgliad Peniarth, yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth
- Penrhos Llawysgrif yng nghasgliad Penrhos, yn Llyfrgell Prifysgol Cymru, Bangor
- PFTA A. Cynfael Lake, 'Pedwar o Farwnadwyr Tudur Aled' (PhD Cymru [Aberystwyth], 1994)
- PKM *Pedeir Keinc y Mabinogi*, gol. Ifor Williams (Caerdydd, 1930)
- RWM *Report on Manuscripts in the Welsh Language*, ed. J. Gwenogvryn Evans (London, 1898–1910)
- SCWMBLO F. Madan and H.H.E. Craster, *Summary Catalogue of Western Manuscripts in the Bodleian Library at Oxford* (Oxford, 1924)

Stowe	Llawysgrif yng nghasgliad Stowe, yn y Llyfrgell Brydeinig, Llundain
TA	<i>Gwaith Tudur Aled</i> , gol. T. Gwynn Jones (Caerdydd, 1926)
D.R. Thomas: HDStA	D.R. Thomas, <i>The History of the Diocese of Saint Asaph</i> (3 vols., Oswestry, 1908–13)
TCHSDd	<i>Trafodion Cymdeithas Hanes Sir Ddinbych</i> , 1952–
THSC	<i>The Transactions of the Honourable Society of Cymmrodorion</i> , 1892/3–
Trans Liverpool WN Soc	<i>Transactions of the Liverpool Welsh National Society</i> , 1885–1912
Treigladau	T.J. Morgan, <i>Y Treigladau a'u Cystrawen</i> (Caerdydd, 1952)
TWS	Elissa R. Henken, <i>Traditions of the Welsh Saints</i> (Cambridge, 1987)
TYP <sup>2</sup>	<i>Trioedd Ynys Prydein</i> , ed. Rachel Bromwich (second ed., Cardiff, 1978)
WATU	Melville Richards, <i>Welsh Administrative and Territorial Units</i> (Cardiff, 1969)
WCD	P.C. Bartrum, <i>A Welsh Classical Dictionary: People in History and Legend up to about A.D. 1000</i> (Aberystwyth, 1993)
WCCR	Glanmor Williams, <i>The Welsh Church from Conquest to Reformation</i> (Cardiff, 1976)
WG	J. Morris Jones, <i>A Welsh Grammar</i> (Oxford, 1913)
WG1	P.C. Bartrum, <i>Welsh Genealogies AD 300–1400</i> (Cardiff, 1974)
WG2	P.C. Bartrum, <i>Welsh Genealogies AD 1400–1500</i> (Aberystwyth, 1983)
WL1	<i>Barddoniaeth Wiliam Llŷn</i> , gol. J.C. Morrice (Bangor, 1908)
WM	<i>The White Book Mabinogion</i> , ed. J. Gwenogvryn Evans (Pwllheli, 1907; adargraffiad Caerdydd, 1973)

xvi

GWAITH SIÔN AP HYWEL

YB

*Ysgrifau Beirniadol*, 1965–

YCM

*Ystorya de Carolo Magno*, gol. Stephen J. Williams (Caerdydd, 1930)



*Termau a geiriau*

a.	ansoddair, ansodd-eiriol	gol.	golygydd, golygwyd gan
adf.	adferf	grb.	gorberffaith
angh.	anghyflawn	grch.	gorchmynnol
amhff.	amherffaith	grff.	gorffennol
amhrs.	amhersonol	gthg.	gwrthgyferbynier, gwrthgyferbyniol
amr.	amrywiad		
anh.	anhysbys	gw.	gweler
ardd.	arddodiad, arddodiaid	Gwydd.	Gwyddeleg
arg.	argraffiad	H.	Hen
<i>art.cit.</i>	<i>articulo citato</i>	h.y.	hynny yw
b.	benywaidd (ac weithiau berf)	<i>ib.</i>	<i>ibidem</i>
		<i>id.</i>	<i>idem</i>
be.	berfenw	<i>l.c.</i>	<i>loco citato</i>
bf.	(f.) berf, -au	ll.	lluosog; llinell
c.	<i>circa</i>	Llad.	Lladin
c.	(g.) canrif	llau.	llinellau
C.	Canol	llsgr.	llawysgrif
cf.	cymharer	llsgrau.	llawysgrifau
Cym.	Cymraeg	m.	mewnol
cys.	cysylltair, cysylltiad	myn.	mynegol
d.g.	dan y gair	neg.	negydd, -ol
dib.	dibynnol	<i>ob.</i>	<i>obiit</i>
diw.	diweddar	<i>op.cit.</i>	<i>opere citato</i>
e.	enw	p.	priod
eb.	enw benywaidd	pres.	presennol
e.c.	enw cyffredin	prff.	perffaith
ed.	<i>edited by, edition</i>	prs.	person, -ol
e.e.	er enghraifft	pth.	perthynol
eg.	enw gwrywaidd	r	<i>recto</i>
e.p.	enw priod	rh.	rhagenw, rhagenwol
<i>ex inf.</i>	<i>ex informatione</i>	S.	Saesneg
f.	ffolio	<i>sc.</i>	<i>scilicet</i>
<i>fl.</i>	<i>floruit</i>	<i>s.n.</i>	<i>sub nomine</i>
ff.	ffolios	td.	tudalen
ffig.	ffigurol	tt.	tudalennau
g.	(c.) canrif	un.	unigol
g.	gwrywaidd	v	<i>verso</i>
		vols.	<i>volumes</i>



# Rhagymadrodd

## *Y bardd a'i waith*

Diogelwyd gwybodaeth am gynefin Siôn ap Hywel, am ei ach, ac am gyfnod ei flodeuo. Yn ei nodyn rhagarweiniol i'r gerdd 'Medra' o'm pwyll, mydr o'm pen'<sup>1</sup> yn llawysgrif BL Add 14866, ysgrifennodd David Johns:<sup>2</sup> *John ap howel prydydd o emyll ffynnon Wenfrewy*,<sup>3</sup> ac ymhelaethodd ar hyn yn yr un llawysgrif pan gofnododd y geiriau *John ap Howel gwr o emyl tref y fynnon, yn amser tudyr aled*<sup>4</sup> wrth odre'r cywydd 'Bwriais fryd, briwais y fron'.<sup>5</sup> Ailadroddir y nodyn yn Gwyn 3, llawysgrif a luniwyd gan Jasper Gryffyth.<sup>6</sup> Nid rhyfedd, felly, i'r bardd ganu awdl i'r santes Gwenfrewy,<sup>7</sup> ac i bennaeth yr abaty a oedd yn gysylltiedig â'r ffynnon a ddenai'r pererinion yn eu lluoedd.<sup>8</sup> Yn ôl Thomas Lloyd, Plas Power, fodd bynnag, yr oedd ei gartref ryw dair milltir o Dreffynnon, i gyfeiriad y gogledd, oblegid fe'i disgrifia yn *wr o Vertyn yn Chwitffordd yn Nhegaingl*,<sup>9</sup> ac y mae hyn yn cyd-

<sup>1</sup> Cerdd 23.

<sup>2</sup> Arno, gw. ByCy 416 a CLC<sup>2</sup> 377 lle y rhoddir ef yn ei flodau yn y blynyddoedd 1573–87. Hefyd Garfield H. Hughes, 'Cyfieithiad Dafydd Johns, Llanfair Dyffryn Clwyd o "Weddi Sant Awgwstin"', Cylchg LIGC vi (1949–50), 295–7. Cofnododd David Johns bytiau blasus am y beirdd y bu'n copïo eu gweithiau, ac am amgylchiadau cyfansoddi'r cerddi unigol. Yn ei law ef y mae'r nodyn, 'Mi a welais 1572 hen wraic a welsai un arall a fyssai'n ymddiddan a Dafydd ap gwilym', gw. RWM ii, 1031.

<sup>3</sup> BL Add 14866, 106<sup>r</sup>.

<sup>4</sup> BL Add 14866, 100<sup>v</sup>.

<sup>5</sup> Cerdd 25.

<sup>6</sup> Gw. *Gwyneddion 3* (Caerdydd, 1931), v–vii, a f. 172<sup>r</sup> yn y llsg. lle y copïwyd '... hen odl o waith Taliesin ... ac a drodd cyd-oeswr cu i mi [sef David Johns, er nas enwir] i wersau lladin Saphic, 1580'.

<sup>7</sup> Cerdd 18.

<sup>8</sup> Gw. y cyfeiriadau isod at Domas Pennant, abad Dinas Basing. Yn Pen 184, copïwyd [*En*]glyn ag *Owdwl Gwenfrewi yn kalyn*. Dilynir yr englyn

[F]frwd ffrwythlon dirion ffrwd ir wych glochav  
ffrwd grychias ddwr berw grych  
ffrwd glayarwen ffrwd eglurwch  
ffrwd o win Saint ffrwd o nant sych.

gan y geiriau yr *Awdl yn dechrau*, a chofnodwyd enw'r bardd ar ddiwedd y gerdd yn unol â'r arfer. Nid oes enw bardd wrth yr englyn, a gellid tybio, ar sail y modd y cysylltwyd y ddwy gerdd, mai eiddo Siôn yw'r ddwy. Mewn llsgrau. eraill, fodd bynnag, priodolir yr englyn hwn i Wiliam Tomos ab Edward (J 138 [= RWM 16], 18<sup>v</sup>; LIGC 3039B [= Mos 131], 59; ni phriodolir yr englyn i Siôn Philip yn BL Add 14984, 97<sup>r</sup>, er gwaethaf yr hyn a nodir yn MCF; yr englyn sy'n dilyn yn y llsg. yw ei waith ef).

<sup>9</sup> Dyma un o'r ffeithiau a ychwanegodd Thomas Lloyd ar ei gopi o *Repertorium Poeticum Moses*

fynd â sylw Thomas Wiliems mai yn Chwitffordd y'i claddwyd.<sup>10</sup> A cheir ateg i hyn wrth ystyried yr hyn sy'n hysbys am ei deulu.

Cofnodir ach y bardd yn *Welsh Genealogies* fel a ganlyn: Siôn, 'prydydd', ap Hywel ap Llywelyn Fychan ab Ieuan ap Dafydd ap Cynfrig ab Ieuan ... Edwin,<sup>11</sup> a gelwir y bardd wrth yr enw 'llawn', Siôn ap Hywel ap Llywelyn Fychan, yn nifer o'r llawysgrifau, er mai Siôn ap Hywel yw'r ffurf a arferir yn y llawysgrifau cynharaf.<sup>12</sup> Ei fam oedd Mallt, merch Dafydd Fychan ab Ieuan o Gefnamwlch, ac ail wraig Hywel ap Llywelyn Fychan oedd hi.<sup>13</sup> Yr oedd Siôn yn un o ddeg o blant; yr oedd iddo saith brawd—un ohonynt, Syr Tomas, yn berson Llanddoded yn ôl *Welsh Genealogies*<sup>14</sup>—a dwy chwaer. Cysylltir Hywel, y tad, â Brynpolyn ym mhlwyf Llanelwy,<sup>15</sup> ond ymsefydlasai disgynyddion Siôn, brawd y prydydd, ym Mertyn Uwch Glan, treflan yn Chwitffordd.<sup>16</sup> Ar sail cofnod Thomas Lloyd, felly, y cysylltir y bardd â'r dreflan hon; y mae'n bosibl na wyddai fod gan Siôn ap Hywel frawd o'r un enw a drigai ym Mertyn.

O droi at un o hynafiaid Siôn, sef Cynfrig ab Ieuan, gwelir mai Tangwystl ferch Robert oedd ei wraig, a'i brawd hi oedd Ithel, archddiacon Llanelwy, a gwrthrych un o farwnadau mwyaf nodedig Iolo Goch.<sup>17</sup> Chwaer iddi oedd Angharad, a phriodasai hi â Chynfrig ap Bleddyn Llwyd, gorphendaidd Tudur Aled.<sup>18</sup> Cyfeiria Siôn at y cyswllt gwaed rhyngddo a Thudur yn ei farwnad i'r prifardd:

Ewythr ag aur wrth roi gwin,  
A'm athro yn fy meithrin,  
A'm dewisgar i'm dysgu,  
Och Fair, a'm cyfrinach fu.<sup>19</sup>

Gan fod Siôn yn arfer yr ymadrodd 'ewythr', diau fod yma awgrym fod Tudur yn hŷn nag ef, ac y mae hyn yn cyd-fynd â'r dystiolaeth ddiamwys yn y llinellau a ddyfynnwyd, mai Tudur oedd ei athro barddol (*athro ... i'm*

Williams, sef LIGC 717B, gw. M.T. Burdett-Jones, 'Poetarum Nomina Thomas Lloyd, Plas Power', Cylchg LIGC xxviii (1993–4), 249–54. Codir cwr y llen ar ddysg Thomas Lloyd yn ysgrif E.D. Jones, 'Thomas Lloyd y Geiriadurwr', Cylchg LIGC ix (1955–6), 180–7.

<sup>10</sup> Gw. BL Add 31055, 48'.

<sup>11</sup> WG1 277; WG2 540.

<sup>12</sup> Priodolir cerdd 26 yn llsgrau. Bangor (Mos) 11 a Card 2.68 [= RWM 19] i Siôn ap Hywel Wyn, ac arferir y ffurf Siôn ap Hywel Fychan mewn chwe llsgr. sy'n cynnwys cerdd 21.

<sup>13</sup> WG2 1661.

<sup>14</sup> Nid yw D.R. Thomas: HDStA ii, 317–20 yn cadarnhau hyn gan fod bwlech yn rhestr enwau rheithorion Llanddoded am y blynyddoedd 1397–1530.

<sup>15</sup> Gw. WATU 22.

<sup>16</sup> Gw. WATU 156, 223.

<sup>17</sup> GIG cerdd XV. Canodd y bardd iddo hefyd i erchi march ac i ddiolch am y cyfryw, gw. cerddi XII, XIII.

<sup>18</sup> WG1 511; WG2 971. Trafodir cysylltiadau teuluol Tudur Aled gan Cledwyn Fychan yn ei ysgrif 'Tudur Aled: Ailystyried ei Gynefin', Cylchg LIGC xxiii (1983–4), 50–7.

<sup>19</sup> Isod 11.59–62.

*dysgu ... a'm cyfrinach fu*). Ystyriai y marwnadwyr eraill Dudur yn athro iddynt;<sup>20</sup> Siôn yn unig sy'n arddel cyswllt teuluol.

'Yn amser tudyr aled' y canai Siôn, yn ôl tystiolaeth David Johns. Ni ellir dweud i sicrwydd ym mha flwyddyn y ganed Tudur, na pha bryd yn union y bu farw, ond cynigir iddo fyw rhwng tua 1465 a 1525.<sup>21</sup> Yn llawysgrif LIGC 3050D [= Mos 147], a thrachefn yn Llst 30, nodir bod Siôn yn ei flodau yn y flwyddyn 1480—ond nid yw'r dyddiad hwn yn llaw'r copiŵyr; fe'i hychwanegwyd yn ddiweddarach—ac ailadroddir yr un dyddiad yn union ar ddeg o achlysuron eraill.<sup>22</sup> Dyma'r dyddiad a roddir gan Dr John Davies, Mallwyd, yn ei eiriadur yn y rhestr o enwau'r beirdd Cymraeg,<sup>23</sup> a'i ddilyn ef, yn ddiaw, a wnaeth pob un a roes y dyddiad hwn i'r bardd. Ysyaeth, nid oes yr un gerdd y gellir ei dyddio cyn gynhared â hyn. Gwelodd y bardd yn dda amseru dwy o'i gerddi, ond i gyfnod diweddarach y perthyn y rhain, sef ei awdl i Wenfrewy, a ganwyd yn 1512:

Pymthecant (mi a'i gw'rantwn)  
A deuddeg oed oedd Duw gwyn.<sup>24</sup>

a'i farwnad i'r abad Tomas Pennant a fu farw yn 1527:

Oed y Brenin, Duw Brynwr,  
Wrth gof am farwolaeth gŵr:  
Tri phumcant, tyfiant Dofydd,  
Ugain a saith—gwae ni!—sydd.<sup>25</sup>

Ymddengys mai'r gerdd gynharaf y gellir ei dyddio yw'r cywydd i Ddafydd ab Owain, abad Maenan, a ganwyd rhwng 1490 a 1503. Ar sail yr hyn sy'n hysbys am y gwrthrychau y canwyd iddynt, yr unig beth y gellir ei ddatgan gyda sicrwydd yw fod Siôn yn canu erbyn 1503, a'i fod yn dal i ganu yn 1532. Nid oes un gerdd na allai'r bardd fod wedi ei chyfansoddi yn ystod y blynyddoedd hyn, fel y dengys y tabl isod:

<sup>20</sup> GSC 45.9 *F'athro hoywdwf weithredoedd*; GLD 25.37 *Ein ysgol oedd, yn was glân*; GLM XCL3 *F'athro, bu wir, f'aeth o'r byd*; GHD 15.49–50 *A'r galon ... Ym fu wythdryll am f'athraw*; TA 738 *Fy llyfr oedd a'i fwyall frau* (Lewys Morgannwg), *ib.* 744 *Fo aeth i'r gro f'athro grym* (Raff ap Robert).

<sup>21</sup> CLC<sup>2</sup> 733.

<sup>22</sup> Gwelir y dyddiad 1580 (mewn llaw ddiweddarach) yn LIGC 6499B, 664 wrth droed yr awdl i Saint y Catrin (cerdd 19), ond y mae'n amlwg mai gwall am 1480 sydd yma. 1480 yw'r dyddiad a roddir yn yr un llsgr. ar ddiwedd y cywydd i Fôn (cerdd 14), gw. td. 684.

<sup>23</sup> Gw. M.T. Burdett-Jones, "Index Auctorum" Henry Salesbury ac "Authorum Britannicorum Nomina" John Davies', Cylch LIGC xxvi (1989–90), 360. Ond nis enwir ymhlith ffynonellau Henry Salesbury, gw. *ib.* 354–6, nac ymhlith ffynonellau'r geiriadur a ysgrifennodd Thomas Wiliems rhwng 1604 a 1607, gw. M.T. Burdett-Jones, "Catalogus Authorum Britannicorum" Thomas Wiliems', Cylch LIGC xxvii (1991–2), 109–110. Nid oes enghreifftiau o'i waith ychwaith yng ngeirlyfr Wiliam Llŷn yn Card 82, gw. Roy Stephens, 'Geirfâu Wiliam Llŷn', LlyC xv (1984–8), 312.

<sup>24</sup> 18.46–7.

<sup>25</sup> 2.1–4.

Moliant Dafydd ab Owain (cerdd 1)	1490–1503
Awdl Gwenfrewy (cerdd 18)	1512
Marwnad Syr Hywel ab y Dai (cerddi 3 a 4)	cyn 1517
Marwnad Tudur Aled (cerdd 11)	c. 1525
Marwnad Tudur Llwyd o Iâl (cerdd 8)	cyn 1525 <sup>26</sup>
Marwnad Sioned a'i gŵr, Siôn ap Dafydd (cerddi 9–10)	cyn 1525 <sup>27</sup>
I'r Grog (cerdd 16)	cyn 1527 <sup>28</sup>
Marwnad Tomas Pennant (cerdd 2)	1527
Moliant Pirs Conwy (cerdd 5)	1508–32
Gofyn tarw gan Birs Conwy (cerdd 6)	c. 1532
Gofyn march gan Robert Fychan (cerdd 12)	cyn 1543 <sup>29</sup>
Gofyn ysगतys gan Wiliam ap Wiliam (cerdd 13)	1500–41 <sup>30</sup>
Awdl i Dduw a'r Grog yn Llanfair (cerdd 15)	c. 1518–43 <sup>31</sup>
Cywydd Teyrnog Sant (cerdd 17)	1535–43 <sup>32</sup>
Moliant Ithel ap Gruffudd (cerdd 7)	?

Diogelwyd ewyllys *John ap howell gentylman* a luniwyd *The seconde day of may In the yere of our lord god m ccccc and xxxvii ... by the hands of sr henry motte curatt of saint mrgarets churche In westmynstr In the prsens of henry conwey*.<sup>33</sup> Crybwyllir dau o'i blant, sef mab yr addewir iddo *my cote & ii sherte my cape my hoose my sword & bukler and my dowblede*, a merch, ac enwir ei chwaer, Alis Llwyd, a'i dad yng nghyfraith, Dafydd ap Robert Llwyd. Gadewir deuswllt i ficer Chwitffordd a 26 swllt ac 8 ceiniog i ficer Treffynnon *to be my supervysore*. Nid annichon mai yn 1537 y bu farw'r bardd, a chrybwyllwyd eisoes ei gyswllt â Threffynnon ac â Chwitffordd. Ysywaeth, nid yw'r unigolion a enwir yn yr ewyllys i'w gweld yn ach y bardd, a rhaid derbyn mai Siôn ap Hywel arall a luniodd yr ewyllys hon.<sup>34</sup>

<sup>26</sup> Fe'i marwnadwyd gan Dudur Aled, gw. TA LXXIX, a chan Lewys Môn, gw. GLM LXVIII. Ganed ei frawd, Siôn Abad, tua 1470–5, gw. Cledwyn Fychan, *art.cit.* 58, ac fe'i hetholwyd yn abad Glynegwestl yn 1503, gw. WCCR 387.

<sup>27</sup> Un o chwe mab Dafydd ab Ithel Fychan oedd Siôn. Gwelodd Ieuan ap Dafydd ab Ithel Fychan gladdu ei bum brawd, ac fe'i marwnadwyd yntau gan Dudur Aled, gw. TA LXXVII.

<sup>28</sup> Enwir Tomas Pennant yn y cywydd hwn, ac y mae'n amlwg ei fod ar dir y byw pan y'i canwyd.

<sup>29</sup> Rhoddwyd i Ruffudd Hiraethog, a ganodd farwnad i Robert Fychan, warant disgybl pencerddaidd yn 1545/6, ond yr oedd yn canu er tua 1535 'o leiaf', gw. GGH xxv–xxviii.

<sup>30</sup> Bu farw Wiliam ap Gruffudd ap Robin yn 1500, a chanwyd y cywydd, felly, rhwng y flwyddyn honno a 1541 pan benodwyd Wiliam ap Wiliam, ei fab, yn siryf Arfon.

<sup>31</sup> Ar sail y cyfeiriad at y Deon Ffowc Salbri.

<sup>32</sup> Eto ar sail y cyfeiriad at y Deon Ffowc Salbri.

<sup>33</sup> Llsg. Thorne 130 yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth.

<sup>34</sup> Cynigir mai Siôn ap Hywel ap Bel ap Tudur a'i lluniodd, gw. WG2 1775. Elen, merch Dafydd Llwyd ap Robert Llwyd oedd ei wraig, a dichon mai ei chwaer hi yw'r Alis a enwir (er na ddigwydd yr enw yn WG2). Marged, merch Siôn Aer Conwy II oedd ei fam, ac yr oedd hi yn nith, felly, i Birs Conwy, yr archddiacon y canodd Siôn ap Hywel, 'prydydd', iddo. Ail ŵr Marged oedd Siôn Aer y Conwy. Priododd am y trydydd tro ag Elis ap Harri ap Cynfrig, gw. WG2 500–1, a phlentyn o'r briodas honno oedd Marged a enwir yn yr ewyllys, sef hanner chwaer Siôn ap Hywel.

Erys ar glawr chwech ar hugain o gywyddau ac awdlau o waith y bardd, ynghyd â dyrnaid o englynion a chwpledi. Nid oes amheuaeth nad yw Siôn yn enghraifft wiw o'r uchelwr a ganai ar ei fwyd ei hun, oblegid o blith y darnau a ddiogelwyd, eu hanner yn unig sy'n gerddi defodol. Cerddi serch a cherddi crefyddol yw'r rhan fwyaf o'r gweddill. Bernir iddo ganu chwe chywydd serch a phum cerdd grefyddol, tair o'r rhain yn gerddi i saint, a dwy i grogau, y naill yn Llanfair Dyffryn Clwyd a'r llall yng nghapel Gwenfrewy yn Nhreffynnon, nid nepell o gartref y bardd. At hyn, canodd gywydd i'r cardwyr a chywydd i fawrygu Ynys Môn a'i thrigolion. Awgryma natur y canu nad oedd rheidrydd arno i glera, ac mai yn achlysurol yn unig y prydyddai. Yn wir, o blith y cerddi defodol, tair yn unig sy'n gerddi moliant, ond gwelir iddo lunio saith marwnad (gan gynnwys un i'r bardd, Tudur Aled) a thri chywydd gofyn. Ni roddir amlygrwydd i linach y gwrthrychau yn y cerddi hyn. O blith marwnadwyr Tudur Aled, y tebycaf iddo yw Raff ap Robert, bardd y dywedodd Siôn Tudur amdano:

Cafodd yn rhwydd bob blwyddyn  
Fawrhad ar ei fara ei hun.<sup>35</sup>

er nad yw ei gynnrych ef mor helaeth â'r eiddo Siôn. Deg o gywyddau ac awdlau a ganodd Raff, sef un gerdd foliant, chwe marwnad, un cywydd duwiol, un cywydd serch, ac un cywydd i'r bardd Siôn Tudur. Ond lluniodd liaws o englynion, rhyw drigain i gyd, rhai mawl a dychan, rhai serch a chrefyddol.<sup>36</sup>

Arwyddocaol hefyd yw daearyddiaeth canu Siôn. Uchelwyr y gogledd-ddwyrain a folwyd ac a farwnadwyd ganddo, ac yn ei gynefin y canai'r bardd, a barnu wrth dystiolaeth y cerddi sydd ar glawr. Yr unig eithriad yw'r cywydd gofyn ysgratys gan Wiliam ap Wiliam ap Gruffudd, Cwchwillan, dros Huw ap Rhys, Llanddyfnan,<sup>37</sup> ond dangosir bod cyswllt teuluol agos rhwng teulu Cwchwillan a theulu Broneirian yn Ysgeifiog.<sup>38</sup> Ail wraig Wiliam ap Gruffudd oedd Gwerful, chwaer Sioned ferch Robert Fychan o Goetmor, Llanllechid. Priodasai hi â Siôn ap Dafydd ab Ithel Fychan o Froneirian, a lluniodd y bardd farwnad iddi, ac un arall i'w gŵr yn fuan wedyn. Diau mai cyswllt Siôn ap Hywel â Sioned a'i gŵr a'i dug i Gwchwillan. Ac nid annichon mai yn ystod ei ymweliad â Llanddyfnan y canodd Siôn ei gywydd mawl i Ynys Môn.

O edrych yn fanylach ar y gwrthrychau y canodd Siôn iddynt, gwelir bod y gŵr eglwysig yn hawlio lle pur amlwg. O blith y tair cerdd ddefodol ar

<sup>35</sup> GST 141.19–20.

<sup>36</sup> Golygwyd ei ganu yn PFTA.

<sup>37</sup> Cerdd 13.

<sup>38</sup> Gw. cerdd 9, y nodyn brig.

ddeg, canwyd chwech i wŷr eglwysig, sef Dafydd ab Owain, abad Maenan, Tomas Pennant, abad Dinas Basing, Syr Hywel ab y Dai, person Chwitffordd, Pirs Conwy, archddiacon Llanelwy, a Robert Llwyd, person Gwytherin. Nid oes amheuaeth nad oedd cyswllt arbennig rhwng y bardd a Hywel ab y Dai gan iddo lunio awdl a chywydd marwnad i'w goffáu, digwyddiad pur anghyffredin, a barnu wrth y canu a oroesodd.<sup>39</sup> Canwyd i Birs Conwy, yntau, ar ddau achlysur. Fe'i cyfarchwyd mewn cywydd mawl, a bu i Siôn erchi tarw ganddo ar ran Robert Llwyd, person Gwytherin.<sup>40</sup> Ond nid yw'r ffeithiau moel hyn yn gwneud cyfiawnder â'r nawdd a dderbyniodd y bardd o du'r gwŷr eglwysig. Marwnadwyd Tomas Pennant, ond fe'i henwir hefyd yn yr awdl i Wenfrewy, a thrachefn yn y cywydd i'r Grog yn y capel ger ffynnon y santes, a gwelir bod elfen o foli cynnil yn y naill gerdd a'r llall.<sup>41</sup> Anodd credu nad ar ei gais ef y lluniodd Siôn y ddwy gerdd hyn. Tystia Siôn a Thudur Aled i letygarwch yr abad yn yr englyn a luniodd y ddeufardd ar y cyd.<sup>42</sup> Yn rhan olaf ei gywydd i Deyrnog, nawddsant Llandyrnog, deisyf Siôn hiroes i'r deon. Ffowc Salbri, deon Llanelwy, oedd y gŵr hwn, ac yr oedd hefyd yn ficer Llandyrnog. At hyn, meddai'r hawl ar ofalaeth Llanfair Dyffryn Clwyd, ac er na chyfeirir ato yn yr awdl a ganodd y bardd i'r Grog yn yr eglwys, ymddengys mai ei ysgogiad ef a barodd i Siôn ganu'r awdl dan sylw, a'r cywydd i Deyrnog yn yr un modd.<sup>43</sup> Enwir dau wŷr eglwysig arall yn y canu, sef Siôn Abad, brawd Tudur Llwyd o Iâl,<sup>44</sup> a Syr Harri, mab Siôn ap Dafydd ab Ithel Fychan,<sup>45</sup> ond ni chanodd Siôn iddynt hwy yn unigol.<sup>46</sup>

Yr oedd y gwŷr eglwysig y canwyd iddynt yn enwog am eu nawdd i feirdd, a gellid tybio y byddai Siôn wedi taro ar ei gyd-brydyddion ar eu haelwydydd. Ymfalchïai Siôn mai Tudur Aled oedd ei athro barddol, a gellir dychmygu'r ddau yn llys Tomas Pennant yn Ninas Basing yn yfed medd yr abad, a Siôn yn ateb yr englyn a ganodd Tudur i'r llestr gwin.<sup>47</sup> Ar achlysur tebyg, nid hwyrach, y lluniodd Siôn barodi ar doddaid ei athro,<sup>48</sup> ac arwydd arall o'r cyswllt rhwng y ddeufardd yw'r paladr a luniodd Siôn i ragflaenu'r esgyll o waith Tudur.<sup>49</sup> Dadlennol hefyd yw'r hyn a ddywed David Johns ynghylch amgylchiadau llunio'r cywydd 'Medra' o'm pwyll, mydr o'm pen'

<sup>39</sup> Cerddi 3–4.

<sup>40</sup> Cerddi 5–6.

<sup>41</sup> Cerddi 16 ac 18.

<sup>42</sup> Gw. cerdd 28.

<sup>43</sup> Cerddi 15 ac 17.

<sup>44</sup> Gw. 8.90. Canodd Tudur Aled iddo ar ddau achlysur, gw. TA I, XXVIII.

<sup>45</sup> Gw. 10.60.

<sup>46</sup> Ceir cipolwg ar y nawdd a estynnid i'r beirdd gan y clerigwyr yn ysgrif Cledwyn Fychan, 'Y Canu i Wŷr Eglwysig Gorllewin Sir Ddinbych', TCHSDd xxviii (1979), 115–82.

<sup>47</sup> Cerdd 28.

<sup>48</sup> Cerdd 31.

<sup>49</sup> Cerdd 29.



(cerdd 23).<sup>50</sup> Gelwir sylw isod at y tebygrwydd amlwg rhwng marwnad Siôn i Dudur Llwyd o Iâl a cherdd Tudur i'r un gwrthrych.<sup>51</sup> Bardd arall y bu Siôn yn ymwneud ag ef oedd Gruffudd ab Ieuan ap Llywelyn Fychan. Canodd Siôn i glodfori'r cardwyr, ac fe'i hatebwyd yn chwyrn gan Ruffudd.<sup>52</sup> Yr oedd a wnelo Gruffudd ab Ieuan â'r eisteddfod gyntaf a gynhaliwyd yng Nghaerwys, ac y mae lle i gredu mai dogfen a luniwyd ar gyfer y cynulliad hwnnw yw Statud Gruffudd ap Cynan sydd, ymhlith pethau eraill, yn gwahardd y beirdd rhag chwarae cardiau.<sup>53</sup>

Yr oedd Gruffudd ab Ieuan, yntau, yn ŵr bonheddig a ymroes i lunio nifer o gywyddau ac awdlau serch. Canodd Siôn ap Hywel, fel y nodwyd, chwe chywydd serch<sup>54</sup> a geill fod y lle amlwg a roddodd i'r pwnc yn dystiolaeth bellach mai bardd a ganai ar ei fwyd ei hun ydoedd. Un wedd amlwg ar y cerddi hyn yw'r ymorchestu diedif ar ran y bardd. Canwyd un cywydd 52 llinell ar y cymeriad 'H', ac un arall, ac ynddo yr un nifer yn union o linellau, ar y cymeriad 'B' 'a chroes gynghanedd yn y rhan fwy ohono'.<sup>55</sup> Camp rethregol sydd yn y cywydd 'Medra' o'm pwyll, mydr o'm pen', sef disgrifio merch o'i chorun i'w sawdl, gan ganolbwyntio ar bob rhan o'i chorff yn ei thro.<sup>56</sup> Y dychan, a'r defnydd cywrain o eiriau cyfansawdd, sy'n hynodi'r cywydd i Eiddig,<sup>57</sup> a gwelir yr un elfennau yn y cywydd i'r Niwl, er mai mewn un llawysgrif yn unig y priodolir y gerdd i Siôn ap Hywel.<sup>58</sup> Er mai syml ddigon yw'r arddull yn y cywydd i Gadi y barnai Thomas Wiliems y gallai fod yn waith Siôn ap Hywel, nid yw hwn ychwaith heb ei orchest. Ailadrodd yr enw 'Cadi' yw'r gamp y tro hwn, a gwneir hynny ym mhob cwpled.<sup>59</sup>

Efallai fod awdlau Siôn, a'i arferion wrth gynganeddu, yn ateg bellach i'r awgrym mai bardd ydoedd a ganai ar ei fwyd ei hun. Canodd bedair awdl: Marwnad Syr Hywel ab y Dai, I Dduw a'r Grog yn Llanfair, I Wenfrewy, I Saint y Catrin (cerddi 4, 5, 18 a 19). Y mae'r gyntaf yn ddigon rheolaidd, er bod rhai llinellau, fe ymddengys, wedi eu colli. Gwneir defnydd cywrain o gymeriad geiriol a llythrennol yn ail ran yr awdl hon, ac yn yr awdl i Saint y Catrin, a sicrhawyd undod yn yr awdl i Wenfrewy trwy ailadrodd enw'r

<sup>50</sup> BL Add 14866, 106<sup>r</sup> ac isod td. 86.

<sup>51</sup> Gw. td. 137.

<sup>52</sup> Cerddi 26 a 27.

<sup>53</sup> Sylwer ar y cyfarwyddyd a roddir i'r prydyddion: *Hevyd nad elont i dafarnau neu i gornelau kuddiedic i chwaraeu dissiau neu gardiau neu warae arall am dda*, gw. J.H. Davies, 'The Roll of the Caerwys Eisteddfod of 1523', Trans Liverpool WN Soc, 1904-5, 1908-9, 97. Sylwer hefyd ar yr hyn a ddywed Siôn ar achlysur arall. Wrth iddo geisio march gan Robert Fychan ar ran rhyw ŵr o'r enw Dafydd, esbonnir bod yr eirchiad yn oedranus *heb allu rhodiaw / O'r dref i'r chwaryfa draw*, gw. 12.31-2.

<sup>54</sup> Trafodir dilysrwydd y rhain isod.

<sup>55</sup> Cerddi 20 a 25.

<sup>56</sup> Cerdd 23.

<sup>57</sup> Cerdd 21.

<sup>58</sup> Atodiad i.

<sup>59</sup> Atodiad ii.

santes yn safle'r brifodl yn y rhan gyfatebol. Ar y llaw arall, dilynir trywydd pur wahanol yn yr awdl i'r Grog trwy gyfuno toddeidiau a chwpledi 10 sillaf, a hynny mewn dull ymddangosiadol fypwyl. Yn yr awdl i Wenfrewy, ceir proestio yn hytrach nag odli mewn un pennill o gyhydedd hir. Yn ail ran yr awdl i Saint y Catrin wedyn, bodlonir ar lunio penillion sy'n cynnwys llinellau o gynghanedd bengoll. Gwelir yn yr awdlau nodweddion cyfarwydd, ond dangosodd Siôn y gallai arbrofi a dilyn ei drywydd ei hun pan fynnai.

Ystyriai'r beirdd y groes yn rhagorach na'r cynganeddion eraill, ac fe'i defnyddiwyd yn helaeth gan Dudur Aled a'i gyd-brydyddion yn chwarter cyntaf yr unfed ganrif ar bymtheg. Gwelir y cynganedd hon yn 90.3% o linellau Siôn Ceri<sup>60</sup> ac yn 82.6% o linellau Huw ap Dafydd ap Llywelyn ap Madog.<sup>61</sup> Canodd Raff ap Robert lai o gywyddau na'r ddau fardd hyn, ond yr un yw'r patrwm yn ei gerddi yntau: 86% yw'r cyfartaledd yn ei achos ef.<sup>62</sup> O droi at Siôn ap Hywel, gwelir darlun pur wahanol sy'n ategu'r hyn a awgrymwyd eisoes. Dadansoddiwyd y cynganeddion yn y cywyddau defodol ac yn y cywyddau crefyddol,<sup>63</sup> a chafwyd mai 61% o linellau'r bardd sy'n cynnwys y groes:

nifer llinellau 1362

croes	730	54%
traws	412	30%
sain	148 <sup>64</sup>	11%
llusg	68	5%
eraill	4	

Cyfrifwyd y llinellau hynny ac ynddynt gytsain ganolgoll ymhlith y cynganeddion traws. O aiddosbarthu'r rhain a'u hychwanegu at y llinellau croes, newidir ychydig ar y darlun:

croes	831	61%
traws	311	23%

Ni welir mwy na 67% o linellau croes yn yr un o gywyddau Siôn, 73% yw'r

<sup>60</sup> Gw. GSC 13.

<sup>61</sup> Gw. GHD 9. Gw. ymhellach Eurys I. Rowlands, 'Dadansoddiad o Gynghanedd Lewys Môn', LICy iv (1956-7), 135-61. Y cyfartaledd yn ei achos ef yw: 81% (croes), 10% (traws), 8% (sain), 1% (llusg).

<sup>62</sup> Td. 7 yn yr adran ar Raff ap Robert yn PFTA. Yr hyn sy'n ddiddorol yn ei achos ef yw'r newid sy'n digwydd yn ei ganu. Y mae cyfartaledd y groes yn uwch yn y cywyddau a luniodd yn y dauddegau a'r tridegau, gw. *ib.* 7-8.

<sup>63</sup> Cynhwysir yn y dadansoddiad y cywydd i Fôn (cerdd 14) a'r cywydd i ganmol y cardwyr a'r diswyr (cerdd 26). Trafodir y cywyddau serch isod ar wahân am fod lle i amau awduraeth rhai ohonynt.

<sup>64</sup> Y mae chwech o'r rhain yn sain gadwynog.

uchaf a gyrhaeddir ar ôl aiddosbarthu'r llinellau ac ynddynt gytseiniad canolgoll. O edrych ar y cywyddau unigol gwelir rhaniadau pendant:

dros 60% mewn 7 cywydd (cerddi 5, 6, 7, 8, 10, 11, 13)

rhwng 49% a 54% mewn 6 chywydd (cerddi 2, 4, 9, 14, 16, 17)

rhwng 24% a 30% mewn 3 chywydd (cerddi 1, 12, 26)

Pa beth bynnag a ddywedir am awdlau'r bardd a'i arferion wrth gynganeddu, nid oes amheuaeth nad oedd yn w'r hyddysg yn y chwedlau, sef un gangen ar y Tri Chof y disgwyliid i bob prydydd eu meistroli. Digwydd yn ei ganu, fel yng nghanu ei gyfoeswyr, liaws o gyfeiriadau arwynebol at arwyr o bob math:

Ni bu *i* Eidol neu Badarn,  
 Ewinedd arth, wayw un ddarn ...  
 Bedd Tudur a fesurynt  
 Wrth fedd Maelgwn Gwynedd gynt.  
 Llai rhyw dir lle rhoed Urien,  
 Llai arch o hyd Llywarch Hen.<sup>65</sup>

Berned a Bened beunoeth,  
 Beuno dan ei ben y doeth.<sup>66</sup>

Pe byw Sabel ac Elen,  
 Pe rhoid merched Pria' Hen ...<sup>67</sup>

Dengys y tri dyfyniad hoffter y bardd o ddsbarthu enwau yn drioedd. Caiff Siôn achos i gyfeirio at y traddodiad cyfarwydd am fantell Tegau, at y tri hedyd a roes Seth dan dafod ei dad, ac at y Nawyr Teilwng. Ond dengys hefyd ei fod yn gyfarwydd â'r chwedlau am yr arwyr y cyfeiria atynt. Crybwyllir Syr Gei o Warwig a'r cyfnod a dreuliodd yn feudwy, sonnir am y frwydr rhwng Brutus a Phendrasus a ddisgrifir ym Mrut Sieffre, ac enwir Ongler, un o arwyr cylch Siarlymaen, yn y farwnad i Dudur Llwyd o Iâl; yn yr un cywydd adroddir un o'r hanesion a gofnodwyd yn y chwedl, a'i ddefnyddio i bwysleisio nad oes ddianc rhag angau.

Fel yn achos cynifer o'r Cywyddwyr, ni wnaed ymgais i ddwyn ynghyd ganu Siôn nes i Owain Myfyr a'i nai, Hugh Maurice, fynd ati, ar ddiwedd y ddeunawfed ganrif, i lunio casgliadau o ganu'r beirdd unigol ar sail y deunydd a gynullwyd gan y Morrisiaid a'u cyfeillion. Copiwyd wyth o gywyddau Siôn yn llawysgrif BL Add 31078, sef cerddi 5, 6, 10, 12, 14, 21, 23, a 26 (ynghyd â cherdd 27, ateb Gruffudd ab Ieuan).<sup>68</sup> Rhestrir tri o'r

<sup>65</sup> 8.71–2, 83–6.

<sup>66</sup> 2.19–20.

<sup>67</sup> 9.65–6.

<sup>68</sup> O Isgr. Llŷst 30 y copiwyd cerdd 5, BL Add 14976 yw cysail cerdd 6, BL Add 31056 yw cysail cerdd 10, &c.

rhain, sef cerddi 5, 12 a 14, gan Foses Williams yn ei *Repertorium Poeticum*, ond nodir y tair hyn, a cherdd 15 yn llawysgrif Llŷst 57.<sup>69</sup> Y llawysgrifau a fu yn ei feddiant, ac ym meddiant ei dad, Samuel Williams, a'i galluogodd i lunio'r mynegai arloesol hwn, a daeth y rhain, maes o law, yn rhan o gasgliad Llansteffan.<sup>70</sup> Digwydd y pedair cerdd hyn mewn llawysgrifau a berthyn i'r casgliad hwnnw. Ychydig a wyddai Moses am gerddi defodol y bardd, ac yn wir, pe na buasai am ddyrnaid o destunau cynnar, collasid nifer o'r rhain. Yn llawysgrif Card 3.4 [= RWM 5] yn unig y digwydd y ddwy gerdd i Syr Hywel ab y Dai;<sup>71</sup> Pen 114 a ddiogelodd y cywydd i'r abad Dafydd ab Owain,<sup>72</sup> ac oni bai am BL Add 14999, diflanasai y farwnad i Domas Pennant, y cywydd i'r Grog a'r cywydd i Deyrnog.<sup>73</sup> Bu llawer mwy o gopïo ar ganu serch Siôn ap Hywel, ond tâl nodi bod tri o'r cywyddau hynny yn llawysgrif Pen 76 a luniwyd yn ystod oes y bardd neu yn fuan wedi ei farw.<sup>74</sup>

Er prinned y copïau mewn ambell achos, nid oes le i amau awduraeth y cerddi defodol na'r cerddi crefyddol ychwaith, ac eithrio'r awdl i Gatrin.<sup>75</sup> Mewn dwy ffynhonnell gymharol ddiweddar y diogelwyd hon, ond er bod y ddwy yn enwi Siôn ap Hywel, rhaid cydnabod nad yw ail ran yr awdl cyn gywreiniad â'r rhannau cyfatebol yn yr awdlau eraill a ganodd y bardd, oblegid cyfres o benillion sy'n cynnwys cynganeddion pengoll a geir ynddi, a geill mai bardd arall a ganodd i'r santes hon. Wedi dweud hynny, y mae'n arwyddocaol fod Siôn yn enwi'r santes ar achlysur arall, ac fel y gwelwyd eisoes, y mae rhai nodweddion anghyffredin ddigon i'w canfod yn yr awdlau dilys.

Y mae awduraeth y cerddi serch, ar y llaw arall, yn fater mwy astrus o lawer. I Siôn yn unig y priodolir cerdd 20, a gellir dadlau yn bur hyderus o blaid rhoddi iddo gerddi 21 a 23, er bod beirdd eraill yn cael eu henwi yn yr amryfal llawysgrifau—priodolir cerdd 23 i Dudur Aled, i Fedo Brwynllys, i Ddafydd ap Gwilym, i Ieuan Dyfi, i Ruffudd ab Ieuan ap Llywelyn Fychan, yn ogystal ag i Siôn. Y mae'r gystadleuaeth yn fwy uniongyrchol yn achos y cerddi eraill. Hawlia Robin Ddu gerdd 22, a Bedo Brwynllys gerdd 24. Yn achos y ddwy hyn, ymddengys fod i'r naill gywydd a'r llall ddwy gynsail, a'r ddwy yn gwahaniaethu nid yn unig ar fater awduraeth, ond hefyd o

<sup>69</sup> Dosbarthwyd y llinellau yn ôl trefn yr wyddor yn y *Repertorium Poeticum* (Londini, 1726), ond fe'u dosbarthwyd dan enwau'r beirdd unigol yn Llŷst 57. Ychwanegodd Thomas Lloyd at restr gyhoeddedig Moses Williams yn ei gopi ef, LIGC 717B. Cofnodir yno linellau cyntaf tair cerdd arall o eiddo Siôn, sef cerddi 10, 18, 19.

<sup>70</sup> Gw. RWM ii, v–vi.

<sup>71</sup> Cerddi 3 a 4. Nid dibwys mai gŵr o Lanasa yn Nhegeingl a'u copïodd, sef Elis Gruffydd, gw. CLC 236–7.

<sup>72</sup> Cerdd 1.

<sup>73</sup> Cerddi 2, 16 a 17.

<sup>74</sup> Cerddi 23–5.

<sup>75</sup> Cerdd 19.

safbwynt trefn y llinellau a'u nifer. I Siôn y priodolir y fersiwn mwyaf ystyrllon, ac ar y tir hwnnw yr hawlir y ddau gywydd iddo. Nid oes modd torri'r ddadl yn achos cerdd 25. Un gynsail sydd yn yr achos hwn, ond bod rhai llawysgrifau yn enwi Dafydd ab Edmwnd ac eraill yn enwi Siôn ap Hywel.

Ysywaeth, nid yw cyfansoddiad cynganeddol y cywyddau o gymorth wrth geisio pennu eu hawduraeth. Dangosir isod ddsbarthiad y cynganeddion yn y cywyddau serch y bernir mai Siôn a'u canodd, ac yn y ddau gywydd a wrthodir i Ddafydd ap Gwilym, ac a gynhwyswyd yn yr Atodiad.

	<b>Croes</b>	<b>Traws</b>	<b>Sain</b>	<b>Llusg</b>
Bwriais fryd, briwais y fron (25)	94.2	3.8		
Hyll yw'n gwaith, hollwn y gwŷdd (20)	90.4	7.7	1.9	
Y ddyw fwyn ni ddaw yn f'ôl (24)	67.2	25.9	1.7	5.2
Medra' o'm pwyll, mydr o'm pen (23)	32.8	32.8	26.6	7.8
Gwra mae'r ferch a gerais (21)	28.9	13.5	42.3	15.3
Treio cannoed, troi Conwy (22)	17.3	27.0	36.5	19.2
Oed â rhiaid addfeindeg (Atodiad i)	30.0	10.0	32.0	28.0
Cadi, dyn ieuanc ydwyd (Atodiad ii)	29.4	35.3	26.5	8.8
Cf. y ganran yng nghanu defodol Siôn ap Hywel	61	23	11	5

Cyfetyb y ddau gywydd ar yr un cymeriad, a gallai hyn ategu'r ddadl o blaid Siôn ap Hywel. Pur debyg hefyd yw mynychder y pedair cynganedd yn 'Medra' o'm pwyll, mydr o'm pen' ac yng nghywydd Cadi, ac nid yw 'Gwra mae'r ferch a gerais' yn wahanol iawn i'r cywydd i'r Niwl, dwy gerdd lle y ceir elfen o ddyfalu ac o ddychanu. Fodd bynnag, pan edrychir ar y chwe blaenaf, y gwahaniaethau sydd amlycaf yn hytrach na'r tebygrwydd. Ofer chwilio am gynganedd sain yn 'Bwriais fryd, briwais y fron' er bod rhagor na thraean llinellau 'Gwra mae'r ferch a gerais' yn cynnwys y gynganedd hon.<sup>76</sup> Y mae'r groes yn cyfrif am 94.2% o linellau 'Bwriais fryd, briwais y fron', ond y mae'r cyfartaledd cyn ised â 17.3% yn 'Treio cannoed, troi Conwy'. Gellid defnyddio'r dystiolaeth hon i ddadlau dros briodoli 'Treio cannoed, troi Conwy' i Robin Ddu, ond yr oedd tri o gywyddau defodol Siôn ap Hywel yn cynnwys 30% neu lai o gynganeddion croes, fel y nodwyd uchod.<sup>77</sup> Dengys y ddwy gerdd ddilys, 'Hyll yw'n

<sup>76</sup> Y mae chwe enghraifft o sain gadwynog yn y cywydd a'r unig enghraifft ddiamheuol o sain drosgl.

<sup>77</sup> Y cywydd i'r abad Dafydd ab Owain oedd un ohonynt. Dadansoddodd Eurys Rolant ugain o gywyddau Tudur Aled, a chael bod y cyfartaledd uchaf o gynganeddion sain yn y cywydd i'r abad

gwaith, hollwn y gwýdd' a 'Gwra mae'r ferch a gerais', y gellid disgwyl cryn begynu wrth droi o'r naill gywydd at y llall. Priodol pwysleisio hefyd fod cryn amrywio gyda golwg ar themâu ac arddull y dosbarth hwn o gerddi, ac y mae hyn yn effeithio ar gyfansoddiad cynganeddol y cywyddau unigol.

*Cerddi yr amheuir eu hawduraeth*

*Blinais yn dwyn er mwyn merch*

Enwir Siôn mewn tair ffynhonnell, a llawysgrif Card 2.114 [= RWM 7] yn un ohonynt. Enwir Bedo Brwynlllys mewn tair llawysgrif arall (gan gynnwys Pen 76), ond ar Fedo Aeddren y tadogir y cywydd yn y rhan fwyaf o'r llawysgrifau. Cyhoeddwyd y cywydd yn CSTB yn yr adran 'Awduraeth Ansicr', gw. Cerdd XXX.

*Oed â rhiain addfeindeg (Atodiad i) a Cadi, dyn ieuanc ydwyd (Atodiad ii)*

Y mae'r dystiolaeth lawysgrifol yn gadarn o blaid Dafydd ap Gwilym yn achos y ddau gywydd hyn, ond priodolir y naill a'r llall i Siôn ap Hywel mewn un ffynhonnell. Golygwyd y ddau, a thrafodir eu hawduraeth yn yr adran 'Nodiadau' isod.

*Y Drindod yw'r pennod pêr*

Fe'i priodolir i Siôn ap Hywel yn BL Add 14984, ond i Siôn ap Hywel ap Tudur mewn dau le arall, LIGC 670D a LIGC 6499B, a dichon mai ei eiddo ef ydyw. Digwydd y cywydd hefyd yn CM 242, ond diflannodd y tudalen a gynhwysai ddiwedd y gerdd, neu, fel y nodwyd yn y llawysgrif, 'collwyd rhai[n] neu fe lladradwyd'! Un gerdd arall a briodolir i'r bardd hwn, gw. MFGLI 3461.

## 1

*Moliant Dafydd ab Owain, abad Maenan*

Af i'r côr sy'n egored,  
 A'r llys a'i dorau ar lled,  
 Lle nid oes o'r eurlanw dai,  
 4 Os mynnwn, eisiau mw nai,  
 Na dydd gorffen heb hena int,  
 Nac awr heb roi gorau braint.  
 Mae'n olau rhwng maenol a rhiw  
 8 Maenan fal nawdd-dir Myniw.  
 Dafydd, gafell gwin melys,  
 Dewin wyth wlad, down i'th lys,  
 Abad brenhindraul Aber  
 12 Conwy, glyn lle cân y glêr.  
 Amlach dy glod no'r blodau,  
 Wythran hael, a'th aur 'n ei hau.

Galon ywen, glain gloywlwyd,  
 16 Colon a nerth C'lynin wyd;  
 Pen derwen, brenhinbren hir,  
 Brochwel wyd, braich Elidir,  
 A llin Rhodri brenhinwraidd  
 20 A Rhirid flwng, euraid Flaidd;  
 Gwaed 'Lystan dros buman byd,  
 Glodrydd frenin, gloyw edryd,  
 A Gwennwys hael, a'u haelwyd,  
 24 A ffyrf o gorff, Randwlff, wyd.

Ucha' dysg, ni chaid ysgol  
 Na dyn na safo yn d'ôl.  
 Leder perffaith wythwaith wyd  
 28 Ladin, a rheiol ydwyd.  
 Ddoe y bu rhod ddadl ddi-ball  
 Acw a'r esgob cyfrwysgall.  
 Yna'i gyrraist 'n ei goron  
 32 (Y Sais) i dewi â sôn.  
 Mur dadl, ener od ydwyd,  
 Dwrn a sêl y deyrnas wyd.

Mae tair mynachlog o'r tau,  
 36 A'u bywyd chwychwi biau,  
 A thair coron o'n ynys,  
 Athro, yn llawn, a thair llys.  
 Gras yn uwch no gair sy i neb  
 40 A adwaenir yn d'wyneb.  
 Ni bu wrth lidio heb wedd  
 O'r ebyd ond arabedd.  
 Can bwtri yt a rifwyd,  
 44 Can bwrdd, a llu'n cywain bwyd.  
 Nid oes, o chynhalian' dŷ,  
 Fil ohonyn' fal hynny.  
 Pawb a leinw, pobl ynys,  
 48 Pibau o'r llongau i'r llys;  
 Cawn rost o'th bymtheg cegin  
 Ac aur chweugeiniau a gwin.  
 Dafydd, aml yw dy ofyn,  
 52 Dwg ddengwlad danad dy hun.  
 Arglwydd 'r y canpwn mw nai,  
 Abad fal lleuad, nid llai.

Hir gan Iago, o'n gobraith,  
 56 Y bu'n y môr a'i boen maith.  
 Hwv gennyf fi *no* blwyddyn  
 Heb eich adnabod yw hyn.  
 Na bo f'oes i gyfrifol  
 60 Na dydd, na hanner yn d'ôl.  
 Y Ddwy Wynedd a feddych!  
 Yn bab yn Rhufain y bych!

*Ffynhonnell*  
 Pen 114, 213

*Darlleniadau'r llawysgrif*

4 ..eissie.. 6 ..gorev.. 7 ..yn ole.. rryw 15 kalon.. 19 llin.. 21 ..gelistan dros  
 bvnnan.. 22 ..ederyd 23 ar.. 24 ..randwlf.. 26 ..ssafo n.. 28 ..reiol.. 29 doe..  
 33 ..enorod.. 34 ..dyrnas.. 38 athraw llawn.. 39 a gras..noc air ssy neb  
 40 ..edweynir.. 41 ..lidiaw.. 44 a kan.. 51 ..dofyn 53 ..ar y.. 54 ..val y..  
 57 ..gennyf i vlwyddynn 58 ..ydnabod..



*Marwnad Tomas Pennant, abad Dinas Basing*

- Oed y Brenin, Duw Brynwr,  
 Wrth gof am farwolaeth gŵr:  
 Tri phumcant, tyfiant *Dofydd*,  
 4 Ugain a saith—gwae ni!—sydd.
- Duw, uchel nid â achwyn,  
 Drwy gof hyd Dydd Brawd âi gŵyn.  
 Ethna faith, loyw oddaith liw,  
 8 Dau ddialedd o dôi ddilyw.  
 Trydydd, a maint yr adwy,  
 Trôi Iesu faith trais sy fwy:  
 Dwyn i'r bedd daioni'r byd  
 12 I dŷ'r aberth, Duw, 'r ebyd.  
 Nid dyn oesol *tan* Iesu,  
 Nid mawr o'i fath; nod mawr fu.  
 Pwy,—âi'n y gro—pen *i* Gred,  
 16 Pab arnom cwmpio Berned?  
 Ac ni bu neb o'r ebyd  
 Un, ŵr, barch ynn, rhof a'r byd!
- Berned a Bened beunoeth,  
 20 Beuno dan ei ben y doeth.  
 Dygant y gladdedigaeth,  
 Do, dan nen dy dŷ, Duw a wnaeth.  
 O ddwfn pen Adda, a'i ddaed,  
 24 Y dôi gwres Mab Duw gryswaed.  
 Obry *neintiai* bren Antwn  
 Yn glanhau o galon hwn.  
 I'w bridd âi wyneb a'i ras  
 28 A llawr teml lle rhoed Tomas.  
 O'r bedd, aur byw uddun,  
 Eu dysg, nef i enaid un.
- Cau'n ynys acw'n annoeth,  
 32 Caewyd ddoe ei arch, Cadw Ddoeth.  
 Padrau am y padriarch;  
 Pa ddyn un ffortun a pharch?

36 Pana bai well, bell ballwyth,  
 Betai'n fôr y byd hwn fyth  
 Pan ddôl'r awr pan dduai'r oes,  
 Pennant, a gwypiai 'i einioes?

40 Abad Tomas, urddas fu,  
 Basing, wrth wyneb Iesu,  
 A minnau byth ym min bedd  
 Mewn galar heb ymgeledd.  
 44 Drwg oedd, gweddi'n dragwyddol,  
 Draean awr dario'n ei ôl.  
 Drwm f' eisiau draw am Foesen,  
 Duw, mae'r byd yma ar ben.  
 48 Dall iawn,—pa fai?—'n dŷwyll wyf,  
 Drwy waith hoedl, ar draeth ydwyf.  
 Diwyg wan, Mab Duw a'i gŵyr,  
 Dyn noeth a aned neithwyr.  
 52 Gwledd irddawn arglwydd urddol,  
 Gwres nef, mae gras yn ei ôl.  
 Yntau'n marw, âi wynt moroedd  
 Oer Ogledd ym, arglwydd oedd.

56 Gwledd rydd arglwydd o'r eiddaw,  
 Gwin, wyth lyn ganwaith o'i law.  
 Truan a'i gŵyr,—treio'n gwaith,  
 Tomas aeth o'r tai ymaith.  
 60 Llawr di-wag, llawer i'w dai,  
 Llu o weiniaid a'u llanwai  
 Ac amryw bobl o Gymru  
 A Lloegyr fawr; llai gwŷr fu.  
 64 Ni ch'tunai'i chau hyd henoed  
 Yno ddrws neuadd erioed.  
 Egored Duw, gŵr y tŷ,  
 Drws hwn, Mab Mair dros hynny.  
 68 *Rhôi ei ddysg a'i aur a'i dda,*  
 Eu llwyrdasg, i'r holl wyrda.  
 Llanwai fwnai llaw'n fynych  
 Lle bai'r drab, eu llwybr a'u drych  
 72 A'u cronicl, aur yno,  
 A'u Peibl fawr, pawb o'i ôl fo.  
 Ni wnâi ebyd anniben  
 Glod tŷ ond o'u [ ] hen.

- 76 Tomas, er urddas i'r iaith,  
D'air adeilodd dŷ i'r dalaieth.  
Swydd un o'r tri Thomas dda  
Sy rwndwal, Tomas, 'r India.  
Oes (Pwy un? Tomas Pennant)
- 80 Drwy *diroedd* sydd drydydd sant?  
Efô'n ben a fu'n y byd  
I lwybr can mil o ebyd.  
Pab â gem,—pwy heb gymysg?—
- 84 Pan nad ef fu'u pen a'u dysg?  
Di-ddadl ym mhob dydd ydoedd,  
Dug am ras digymar oedd.  
Torres aml y tri symud,
- 88 Tri *och* i bawb, trwch yw'r byd.  
Naturiol cael nod hiroes,  
(Ni bu ry *hir* gan neb 'r oes)  
Ond na roes, dromoes dramwy,
- 92 Dduw hael ynn ganmlynedd hwy!  
P dda gynt pioedd y gwaith,  
Pwy a elwir P eilwaith?  
Pe pen *cyngor* y Goron,
- 96 —Pa fodd hardd?—P fyddai hon.  
Arglwyddost, dad abad, oedd,  
Eryr llwyd o'r ieirll ydoedd.
- 100 Arglwydd hyd ei fywyd fu  
Â gwledd oes Arglwydd Iesu.  
Gan ei fynd llawer gwae'n f'au!  
Gan oes gwae ni o'i eisiau!

*Ffynhonnell*BL Add 14999, 72<sup>v</sup>*Darlleniadau'r llawysgrif*

2 ..fyrfoleath.. 3 ..tyfiant ofvdd 4 ..faith.. 6 ..go.. 7 ..addaith.. 8 ..y doe.. 9 ..main..  
13 ..dan.. 15 ..y gred 17 ..er ebyd 18 ..yn.. 19 berned abend.. 22 ..wneth 24  
..gres.. 25 ..noytiai.. 26 in.. 27 oi.. 28 ..tyml.. 29 ar.. 32 kawyd.. 33 pydray.. 34  
..affarth 36 ..byd twn.. 37..pen ddevai roes 38 ..gwypiaf enies 41 ..mine.. 43  
..gwefi yn.. 47 ..fai dowyll.. 48 ..ydwy 51 gledd gwirddawn.. 59 ..oi.. 60  
..wenied.. 62 ..gwir.. 63 ..henodd 64 ..drws.. 65 ygored.. 67 troe ddysg.. 70  
..dravb.. 73 ninai..amiben 74 ..oi gwuad.. (*aneglur*) 75 ..ir.. 76 ..ydeilodd  
dyrdalith 80 ..ddiwedd.. 86 du gam ras.. 88 tri iach.. 90 ..bu reir.. 92 duw  
hael yn.. 95 ..kygor.. 100 ar gledd.. 102 ..hieisiau

*Awdl farwnad Syr Hywel ab y Dai*

- 4           Brytaniaid a gaid heb gadach—rhuddwisg,  
               A'u rhoddion heb eiriach;  
               'F aeth i ballu fyth bellach,  
               Acw i'n oes canu'n iach.
- 8           Yn iach, wyf bellach heb au—na chalon,  
               Ni cheled fy ngruddiau;  
               Yn iach, y byd mawrfryd mau,  
               Yn iach, f'annwyl, och finnau!
- 12          Och, maith o anobaith, 'ddwy 'n wibiad,—o dda,  
               E ddaw maen i wastad;  
               Yn iach wledd fynych i wlad,  
               Yn iach aur ynn na chariad.
- 16          Digariad, di-stad, di-stôr—o dda, digerdd,  
               Duw, dugost ein trysor;  
               Doe'r âi'r cwymp i dorri'r côr,  
               Drylliaist, Mab Duw, yr allor.
- 20          Temloedd, alloroedd, i'r llawr—yr aethant,  
               Aruthraidd fu'r tymawr;  
               Tros Wynedd troi ias Ionawr,  
               Torri'r môr trwy'r awyr mawr.
- 24          Mawr wenwyn yw dwyn mab y Dai—a'i gyrchu,  
               Gwae eirchiaid a'i 'dwaenai;  
               Aeth yr urddas mewn glas glai,  
               Mae'n noeth wŷr am na thariai.
- 28          Ni thariodd, syrthiodd pum sêl—ein teyrnas  
               Mynd teŷrnwaed Ithel;  
               Ni bydd aur i neb a ddêl,  
               Nis rhoir, nid byw Syr Hywel.

- 32 Syr Hywel, Samwel, somed—gwŷr heddiw,  
Y rhoddion a gollod;  
Syrthio o'r crair, syth eryr Cred,  
Y said dur a'r Groes fo'u torred.
- 36 Torri cledd anrhydedd, rhyw Edwin—fawrnerth,  
Mae'r fernagl yn ei fin;  
[ ]  
Torres gwerth wtres y gwin.
- 40 Gwinoedd ynsoedd, gwaë ein nasiwn—byth,  
I ba beth y canwn?  
Dydd olew doe a ddylwn,  
Diwedd rhoi fu'r dydd oer hwn.
- 44 Hwn yw'r byd llychlyd fal llechlas—briddfedd,  
Breiddfyw yr holl deyrnas;  
Hir fawrddig, hwyr yw f'urddas,  
HoywDduw, 'n llwyr heddiw y'n llas.
- 48 Lladd gwŷdd gwinwydd lle'dd oedd y gweiniaid,  
Lladd y prydyddion, lladd pêr doddiaid,  
Lladd yn lle'r oedd hŷn, lladd yr haid—wenyn,  
Llyn, â lludded, aur ynn, eu lladd yn ddyrnaid.
- 52 Ni phery oes i ddynion, yn ffres ddeunaid,  
Ni myn llygion gredu eu llygaid;  
Nithio pawb yno, pob enaid—Cristion,  
Nod dydd am ddewrion, nid hawdd ymddiriaid.
- 56 Mawr ar y brenin meirw'r barwniaid,  
Mawr fydd eu dygiad, meirw fydd y dugiaid;  
[ ]  
Meirw llu bedydd, meirw'r holl abadiaid;  
Meirw ffest o'r fforest 'r offeiriaid—anhwyl,  
Mwy y peris anhwyl meirw'r personiaid.
- 60 Syr Hywel, cwrel y cywiriaid,  
Syr Hywel falchwiw os ar feilchiaid,  
Syr Hywel, sêl a said—yr eglwyswyr,  
Syr Hywel, eryr gasul euraid.

- 64 Gwae ni o'r marw, gwae ni o'r muraid,  
Gwae ni, wŷr byddair gwan, o'r beddaid;  
[ ]  
Gwae ni o'r erchwyn, gwae ni o'r archaid,
- 68 Aethom, ddwyfil, fyth yn ymddifaid,  
Am wŷr, aberthwr, oer yw'r barthaid,  
Ac udaw a chwynaw, uchenaid—truan  
Ar wŷr, anniddan yw'r neuaddaid.
- 72 Aeth yma wŷr aflan o waith mawr aflaid,  
Aeth yn y 'sgubor a'th ynys gobaid;  
Aeth y brau Ladin fyth, breladiad,  
Aeth Duw â'r erchwyn, aeth da yr eirchiaid;  
Aeth Chwitffordd heb ordd, ganbyrddaid—gwinoedd,  
76 Aeth gwleddoedd lluoedd; llefain heb ysbaid.
- O'r tario ir oeddem *er* torri, ei roddiaid,  
O'r trais, llaw angau, torres y llongaid;  
O'r byd efryd, afraid—ei falchedd,  
80 O fonedd, trawsedd trais ymddiriaid.
- Oer i lu arwain yr eloraid,  
O'i roi'n y ddaear oer yw na ddywaid;  
Oer yw y gloesion o'r un eglwysaid,  
84 Oeres y bonedd wŷr Rys heb enaid;  
Oerant nas gwelant ysgolaid—Awstin,  
Oeres y Ladin o wres aelwydaid.
- Gwae ni, ysyfaeth, ei gyniseifiaid,  
88 Gan fynwes y côr gwae ni'n fyw nas caid;  
Gwir Dduw a godai, a gwardd ei geidwaid,  
Gair Beuno a wnâi gwŷr byw yn un naid;  
Gwaith Lasar 'r y ddaear, oni ddywaid!  
92 [ ] yn iach, gwers y Groes fendigaid.
- [ ], llai ym yw'r arddaid,  
Llai aur a llynnoedd, llai yw'r llonaid;  
Llai rhan Llaw Arian, llew euraid—wisgoedd,  
96 Lle'r oedd ym bunnoedd, yn nef y bo'i enaid.

100           Gŵr ar wŷr dethol, gorau o'r doethiaid,  
               Gŵr pur ei synnwyr, gorau o'r personiaid,  
               Gŵr dibrin o'r gwin, g;naid—yn haelaf,  
               Gŵr o'r brut hynaf, gorau o'r Brytaniaid.

Brytaniaid a gaid, &c.

*Ffynhonnell*

Card 3.4 [= RWM 5], 86

*Darlleniadau'r llawysgrif*

3 waeth.. 4 ..ynn oes.. 6 ..cheledd.. 9 ..o annobait i ddwy.. 10 addaw..  
 12 ..yn.. 13 dygariad..diystoor.. 15 ..i rrair..dorri koor 19 ..Wynned..  
 25 ..tyrnas 26 ..ithael 32 ..torroed 35 [ ] 36 torroes.. 37 gwioed..gwa..  
 41 ..llechllas.. 42 braidd vyw...dyrnas 45 ..oedd gweinaid 46 lladd  
 prydyddion.. 48 ..aur yn.. 54 ..dygiaud.. 56 ..meirw holl.. 57 ..annwyl 58  
 ..annwyl.. 59 ..i kywiriaid 61 ..sel said.. 63 ..mvriaid 71 ..avlad 72 ..ath y  
 ynys gobad 77 ..ir tori.. 80 ..trowsed.. 81 ..i llv..elorriaid 82 oi rroi.. 85  
 ..ysgolied.. 87 ..yssywaeth..gynnysseivied 89 ..a godde.. 91 gwait lassar..ni  
 ddywid 98 ..personiad 99 ..gwaid..

*Marwnad Syr Hywel ab y Dai*

- Chwitffordd, oedd briffordd braffwin,  
 Sy oer goed heb sawyr gwin.  
 Mae'n oer lef, mwy'r aflafen,  
 4 Marw ein parch a'n mur a'n pen.  
 Lle'n wag oer llan a garwn,  
 Lle 'rhawg nid ymillir hwn.
- Traw na choed, tref yn *ei* chwyr,  
 8 *Na* mwg, *na* maen, na magwyr.  
 Ei oes oedd byradwys uddunt  
 O wres ei ffridd gynnes gynt.  
 12 Lle oer yw hwn,—llwyr wae hi!—  
 Lludw'r oddaith oll drwyddi.  
 Âi glaw oer heb glaearu;  
 Glaw'r farn ar y glêr *a* fu.  
 Dwyn y byd mae Duw'n ei bêl,  
 16 Doe'n sarhau, dwyn Syr Hywel.  
 Llauer yn waeth lle'r âi'n wâr,  
 Llew du yn holli daear,  
 A bwrw'n gaeth ein bro ni gynt;  
 20 Y tri blaidd, mae trwbl uddunt.  
 Bu ladd gwŷr a *r*hoi bloedd gau,  
 Blingiwyd y bobl o'i angau.  
 Oera' gloes a ryglywsoch  
 24 Rhoi i'r llew'r cwymyp â'r llurig coch.
- Samson, ei ddwyfron oedd iâ,  
 Syrthiodd plas ar ei wartha'.  
 O *thorres*, anrhaith weryd,  
 28 Ddoe arna' bwys ddarn o'r byd,  
 Dal fy nhâl drwy ofal draw  
 Dan y dŵr, Duw'n ei daraw.  
 Od aeth, e fodded ieithau,  
 32 Aeth y môr â'r 'mogor mau  
 A'm dillad, e'm diwylliai,  
 A'm bywyd oll, mab y Dai.  
 Doe ydd âi 'nhraed i ddwyn rhodd,  
 36 Duw dradwy a'm didroediodd.



O Fair dda, wyf ar ddeol,  
Ofer yw ym fyw ar ei ôl.

40 Torres, mawr yw'n afles ni,  
Trosol aur trwy'r seleri  
Pan fwriwyd, pen afarwy,  
Person mawr; para sôn mwy?  
44 Ni fwriant, sathrant bob sêl,  
Fyth ddaear ar fath Hywel.  
Mae'n llai rhoi mw'nai am wŷr,  
Mae galarwisg am glerwyr.  
48 Gwae ais cenedl Is Conwy,  
Gwae ni am aur a gwin mwy.

O roi'i wyneb ar unwaith,  
Asa, mewn arch, somi'n iaith.  
52 Naw och fi na chât'i fywyd  
Neu na bôm yn n'widio byd.  
Er byw hwn mynnwn 'y mod  
Saith gudd, Dofydd, dan dyfod.

'I oes oedd ac urddas iddaw,  
56 Syr Hywel, dros heol draw:  
Wrth gadarn nerthog ydoedd  
Ac i'r gwan trugarog oedd.  
Ni ddown i'w neuadd onest,  
60 Nid oedd rhaid un dydd ar west.

I'r ddaear gau ddoe 'r âi'r gŵr,  
Ynghudd y mae 'nghywyddwr.  
64 Mae yr eisiau mor resynt;  
Mab y Dai ni 'mguddiai gynt.  
Pwy a'm erys? Pe'm eurai  
Pob gŵyl fy nisgwyl a wnâi.  
68 Yn ei law hael, 'y neol hwn,  
Yn ei wledd annwyl oeddwn.  
Och fi'n ôl, uwch fu fy naid,  
O roi f'anwes ar f'enaid.  
72 Od oedd yn anrhydeddu,  
Oedd dda i feirdd ddydd a fu.  
Ni bo gwaeth, da'r aeth *ei rodd*,  
Iesu, iddo, nis haeddodd.  
76 Colli'n lle *a'n* gwehelyth,  
Ni all beirdd ei ynnill byth.

Och, wen Fair,—na chawn fyrroes!—  
Am un o'i fath mwy yn f'oes!

*Ffynhonnell*

Card 3.4 [= RWM 5], 256

*Darlleniadau'r llawysgrif*

3 mae yn..nor avlaven 6 ..anillir.. 7 ..trevynwch wyr 8 mwc maen na..  
14 ..gler vu 21 ..a hroi.. 23 ..ar glowssoch 24 ..y kwymp.. 27 othroes..wryd  
32 ..ymogor.. 35 37–8, 35–6 39 torroes.. 40 ..ttrwy y.. 41 pen.. 50 assaph..  
54 ..davudd.. 61 ..y gwr 63 ..eisse.. 64 ..nid ymgvddai.. 70 o Roi.. 73 ..da  
iraeth erioedd 75 ..yn lles gwehelyth 76 ..beridd..

*Moliant Pirs Conwy, archddiacon Llanelwy*

- Y ddaear braff dduoer heb rodd,  
 Ei graeanwellt a grinodd,  
 Ond erw braff dan dor bryn  
 4 A rôl gynnail i'r gwenyn:  
 Llys a gardd lluosog oedd,  
 Llannerch lle bu'r holl winoedd;  
 Ffyrf fu wlith a phorfa las  
 8 Ffrith y gerdd, ffrwyth ac urddas,  
 A gŵr o ddysg mewn gardd win  
 A bair anadl i'r brenin.
- Yr archiagon â'r chwegair,  
 12 Ni ein dy ffyn mewn dwy ffair.  
 Egores yn deg arab  
 Y Mastr Pirs ffenestri'r pab.  
 Yr oedd haul ar ddeheulaw  
 16 A'i liw'n dy rudd, elain, draw.  
 Dyn at ras, dawn y trosol,  
 Diweniaith wyd, down i'th ôl.  
 Ni roed, y cawr euraid call,  
 20 Er esgob un o'r ysgall.  
 I ddwyn rhent ni ddaw yn rhad  
 Wŵr o Loegr er ei lygad.  
 Aber o ddŵr, bur ei ddal,  
 24 Afon wyt heb faen atal;  
 Fyrdsyl 'n y demyl, nid oedd  
 Fawr adwyth, morfur ydoedd.  
 Holl arfer cwrt a'r Llyfr Coch  
 28 A'r ffresiant a ddeffroesoch.  
 Deunyddiaist W newyddaur,  
 Yn dwymyn iach, Duw, mewn aur.  
 Stanlai ryw ys da'n y rhôl  
 32 A wnâi'r Iesu wyn rasol.
- Gellid, o molid milwyr,  
 Foli dy gorff, flodau gwŷr.  
 Uwch wyd yn wŵr, ni chaid neb  
 36 A adwaenai dy wyneb;

Uwch yn y gwaed, a chan gwell,  
 O iach Edwin a Chadell.  
 Rhy lân wyd, rhoi lyn i wŷr,  
 40 Rhy fân ydyw Rhufeinwyr.

Er cyn Croes magwyd Moesen  
 I dreio ffrwd â'i dri phren,  
 A'r triphren o nen y nant  
 44 At dwf Iesu tyfasant.  
 O dri gwreiddyn, draig ruddaur,  
 Y tyfaist, ystynnaist aur.  
 Haeledd a bonedd beunoeth  
 48 I chwi (a dysg) uwch y doeth.  
 Cerwyni acw a rannwyd  
 O fewn y wledd Iefan /wyd;  
 Da'r llyn a'r darllaw unwaith  
 52 Rhwng deufur caer f'ancur faith.  
 Bu'r llyn mwy, berllan y medd,  
 O'th win rhad a'th anrhydedd:  
 Saig a roed mewn siwgr oedd,  
 56 Saig Ludd, a sew a gwleddoedd;  
 Dy ginio, aer Degannwy,  
 Dy ddesgil i fil oedd fwy.  
 Da yw euraid don dy wrid teg,  
 60 Doeth oedd fyned i'th faneg.  
 Da y gwelais dy galyn,  
 F'oes oedd hwy fisoedd o hyn.  
 O bai esgob i'w wisgoedd,  
 64 Nid dy feirdd [            ].  
 Er aros aer ar y sydd  
 Am Aer Conwy mae'r cynnydd.

Iesu, arwydd y seren,  
 68 Sy'n euro had Siôn Aer Hen.  
 Ys da, wenith ei nithiad,  
 Wedi'i hau ydyw ei had.  
 Oes wyrion a'i mesurynt?  
 72 Oes rôl o gyff Israel gynt?  
 Cawn ym bob *ancwyn* yma,  
 Conwyaid oll, cawn eu da.  
 Cawn urddas yn y plasoedd,  
 76 Cludo eu mawl clod ym oedd.  
 Caid ganllwyth o'r coed gwinllawr,  
 Caffom oes at y cyff mawr.

*Ffynonellau*A—Llst 30, 220 B—BL Add 31078, 194<sup>v</sup>*Amrywiadau*

7 *B* ffurf.. 11 *A* archiagon., *B* archaiagon.. 14 *AB* i..y pab 16 *B* ..rodd.. 17 *A* ..a daw yn y., *B* ..a daw n y.. 18 *B* diweniaeth.. 21 *AB* ..y rhad 25 *AB* ..yn y deml.. 26 *AB* ..mor fyr.. 29 *A* devnyddaist., *B* ..y.. 30 *AB* ..dwym yn.. 31 *B* ..ys dan rol y wlad 35 *AB* ..cheid.. 44 *A* ..i tyfasant 49 *B* ..accw ranwyd 50 *AB* ..llwyd 51 *A* ..darllo., *B* ..llyn darllo.. 52 *AB* ..fynkvr.. 64 *AB* ..feirdd[ ] 66 *B* ..mawr.. 70 *AB* wedi hav.. 73 *B* carwn., *AB* ..amkwyn..

*Gofyn tarw gan Birs Conwy, archddiacon Llanelwy, dros Robert Llwyd,  
person Gwytherin*

- 4 Aed dy wyneb hyd henaint,  
 Archiagon, dwg goron Gaint.  
 Oes lys i'th urddasol waed?  
 Oes wardrop, Asa eurdraed?  
 Yn wir lun, yn wrol wyd,  
 A Phedr, irbraff ydwyd.  
 8 Un dyn a wna Duw'n ei nerth  
 O radd Iesu i'r Ddiserth:  
 Derwen ir, mab i deyrn wyd  
 Drwy Stanlai, Andras dulwyd.  
 12 Y parc brenhingamp o win  
 A gaiff had o gyff Edwin.
- 16 Cenau ir wyd, cai win 'r iaith,  
 Cynyddaist acw'n oddaith.  
 Tân yn iawn, gwynt a 'nynnwyd,  
 Tua'r allt dechrau taro'r wyd.  
 Os oes esgobiaid Saeson  
 Wrth wynt blaen yr oddaith hon,  
 20 Gwŷr ydynt wedi gwridaw  
 Garw; dy wres a'u gyr draw.  
 Tery'r oddaith tua'r Rhuddallt,  
 Tân brwd at wyneb yr allt.
- 24 Ar ei deitl, aerod atlaes,  
 E ddôl â mud o dda maes,  
 A'i dda'n y gyr a ddôl'n gall  
 I dario i wlad arall.  
 28 Mastr Llwyd o'r maestir llydan,  
 Mynnai le yd, maenol lân.  
 O'r Mars lle rhôi aur am win  
 Aeth i oror Wytherin.  
 32 Mae ffrith a dŵr, mae ffrwyth deg,  
 Mae'r gorthir mawr i'r gwartheg.  
 Heb ŵr i'w mysg hy â berw mawr,  
 Heb gae arnyn', heb gornawr.

Archiagon, Aron eurwisg,  
 36 Ais a nerth Asa'n ei wisg,  
 Dyro i'th walch dy aur a'th win  
 A tharw lliw catberth eirin,  
 A'i dor yn frwd o arial,  
 40 A'r dwst ar ei war a'i dâl;  
 Darn coedallt a'i drwyn cidwm,  
 Drymer o fewn ceuder cwm.  
 Gwae a wŷyr gwan o'i aros,  
 44 Gwas talgrych fforddrych mewn ffos.  
 Llefain gan nant, llyfn ei gnawd,  
 Llwyth buwch, cair llaeth o'i bechawd.  
 Wrth fuwch ym mhorth y fuches  
 48 E fag o'i groen fwg a gwres:  
 Trymwas hagr, trwm y sigl,  
 Tewddu trwm, tŷ o huddygl,  
 Â gwain a chwd, ac yn chwern,  
 52 Wrth y tor, werthyd hirwern;  
 Brau oddaith hir, brath a hwrdd,  
 Blowmon mewn blew a ymwrdd;  
 Pwynio tymp mewn pen twmpath  
 56 Plymen lloi, pawl mwy no llath.  
 Tua'r gwlyth un tew, ir glwyd,  
 Tagell hyd at ei egwyd;  
 Twrc ydyw tyrau cedyrn,  
 60 Tarw ag ôd tew ar ei gyn;  
 Bu wrid mawnlo, bord manwlith,  
 Byr ôl ei ffroen, baril ffrith.  
 Almari, aelïau morwch,  
 64 Â gown yn llac ac yn llwch;  
 Baeli gweunllethr, bol gwinllong,  
 Bwla oedd flaidd â bloedd flong;  
 Mal afanc yn ymlyfu,  
 68 Môr-dwrch â gown mwyar du;  
 Tuth drom, nid hoywaith, dramawr,  
 Tarw â llais main, tôr llaes mawr;  
 Durol blwng, daearol blanc,  
 72 Du'r efel ydyw'r afanc;  
 Lledwyllt, gan gŵn y llidiawdd,  
 Lliw mwg glo yn llamu clawdd;  
 Cau mewn maes cymain â march,  
 76 Cwmwl a rôl i'r ci amarch.

Llawn ei gwd, lloi ynn a gais,  
 Lliw mawnbwll llwm, o'i unbais:  
 Gweini mab, hylog enwir,  
 80 Gwm y nant, lliw gwmon ir.  
 Caiff meingorff buwch cyff mawngu,  
 Clyw pwys ei dâl, y clips du;  
 Llun both, mab llaesgroth lleisgryg,  
 84 Llwdn buwch â lliw odyn byg;  
 Gwryd o led, gwar hyd lin,  
 Gloen, gaeth w'r, Glyn Gwytherin.

88 Mastr Pirs, moes draw i'r person  
 Mwyarliw bryd morlo bron.  
 E a rydd o'i aur a'i dda  
 I ti, Eisag tŷ Asa,  
 Ei bwyth o rodd, esgob oedd,  
 92 Am y tarw, em y tiroedd.

### *Ffynonellau*

A—BL Add 14969, 149<sup>r</sup> B—BL Add 14976, 191<sup>r</sup> C—BL Add 15000, 183<sup>r</sup>  
 D—BL Add 31078, 175<sup>v</sup> E—Card 4.10 [= RWM 84], 316 F—LIGC 18B,  
 322

### *Amrywiadau*

2 *F* arch diagon.. 4 *F* ..wardrob.. 6 *F* ..dyn ir braff.. 10 *A-DF* ..stalai.. 12 *C*  
 ..y gyff.. 15 *D* ..gwynt a myn wyd 17 *E* os esgobiaid.. 21 *C* ..rhualt, *E* ..tua  
 rhyddallt 28 *C* mynau., *F* mynni le yt.. 32 *B* ..i gwartheg, *F* ..a gwartheg 33  
*F* ..hy berw.. 34 *F* ..gau., *C* ..aryn.. 37 *D* ..air.. 43 *F* gwae ni wyr., *E* ..gann..  
 44 *F* gras.. 49 *F* ..ond trwm.. 52 *C* ..hirwen 53 *D* brau o waith hir.. 56 *F*  
 ..llo.. 61 *D* ..mewn lo.. 68 *E* mor drwch.. 76 *F* ..roi r ci.. 77 *D* ..lloi yma a  
 gais, *F* ..llo yna gais 78 *D* ..mewnbwll.. 79 *F* gweni.. 80 *A* ..liw.. 83 *ABCEF*  
 ..lleisgrys 84 *ABCEF* ..bys 87 *AC* ..moes darw.. 88 *C* mwy orliw bryd.. 91 *E*  
 ..a rodd.. 92 *D* ..karw..



*Moliant Ithel ap Gruffudd*

- Oer oedd ofal ar Ddyfed,  
 Hud tywyll oedd at ei lled.  
 Mwy gofal Ystrad Alun  
 4 Ym maen a dŵr am un dyn:  
 Mynd Ithel fal mab Elen,  
 Myned fal hynt Mawndfil hen.  
 Y Gŵr sy a'i lun ar Groes led,  
 8 Duw mawr, da yw ei 'mwarded,  
 Asenfriw Iesu wynfraich  
 Yw'r Ddelw Fyw, eurddail faich,  
 Os carchar sy ar fy marwn,  
 12 Duw, Tad hael, fo'i detyd hwn.  
 Os i'r India—da y dêl—  
 Ydd aeth, efô ddaw, Ithel.  
 Fo ddaw goddaith drwy eithin,  
 16 Doed gwalch, tad, enaid, y gwin.
- A phan aeth, torri'i phen oedd,  
 Irwlad ar olew ydoedd,  
 Gwelais (ac arswydais i)  
 20 Freuddwyd yn fore iddi:  
 Dŵr a fu hallt drwy fy hun,  
 Dilyw ar Ystrad Alun.  
 Troes mordwy trais am wrda,  
 24 Trosti'n ddwfn fo'i troes Duw'n dda.  
 Y traeth ar led wrth y lan  
 Yw'r wlad a'r ddaear lydan.  
 Y môr trwm ar war y traeth  
 28 Gŵr o chyfyd gor'chafiaeth.
- Draw o'i weled yr wylais,  
 Dyn un sir dan ewin Sais;  
 Y cinio ffals yn Salsbri,  
 32 A gwadu a wnaent ein gwaed ni:  
 Ennyn twyll yno i'n taid,  
 Muellt oer am wallt euraid.  
 Ni bu ar wasg, âi bar onn,  
 36 ŵr gywirach i'r Goron.

Pen yn nal, poen fu'n 'nylu,  
 Pendrasus gan Frutus fry.  
 Ni ddoeth Ithel walltfelyn  
 40 I'r fan y doeth er ofn dyn.

O'm bron, post obry i'm pen,  
 Am waed Reinallt mae draenen.  
 Er dewredd neu drawsedd draw  
 44 Nis beiddiant roi cosb iddaw.  
 Mwya' twrn am waed teyrnas  
 I ddug a iarll oedd ei gas.  
 Ni ddaw i Sais, addas oedd,  
 48 Roi'r glud ar eryr gwladoedd.  
 Ni ddeil hual o wialen  
 Ar irgarw gwyllt o'r graig wen.  
 Ni thyr caer uthr er corwynt,  
 52 Wrth lid rhyw gythraul o wynt.  
 Mae'r gwallt melynfrig i wŷr,  
 Mawr melyn, am war milwr.  
 Ni tharia gwal na Thŵr Gwyn  
 56 Y cawr melynfrig hirwyn.  
 Ni allo'r iarll o'r lle'r aeth  
 I'w berth euraid borthoriaeth.

Afal ir glas, Faelor gledd,  
 60 Ac un enaid gan Wynedd,  
 Aed o'r ogof fal dragwn,  
 A sarff ar Bowys yw hwn;  
 Y gŵr brigog ei arial,  
 64 Y ddraig a'i 'winedd ar Iâl;  
 Syr Gei â'r fiswr gwead,  
 Sir y Fflint asur a phlad.  
 Marchog caeth, a merch a'i câr  
 68 A dreulia'r fodrwy alar.  
 I'w dduges wen e ddygynt,  
 Ni ddorai Gei, fodrwy gynt.

Da fu'r brenin, fortwin faith,  
 72 Dwyn Iason i'w dŷ noswaith;  
 Cael caer Iason, cael croesaw,  
 Cael cost ar ieirll, cael cist draw.  
 Felly'r iarll â'r fwyall rudd  
 76 A'r griffwnt yw aer Gruffudd.

Aur o liw'r gwallt, olew'r gwin,  
Yma doed am waed Edwin.

80                    Arglwydd, rhodded gledd rhuddaur,  
Derbyn gwalch drwy bân ac aur.  
Nid mynd o'i wlad, farchnad faith,  
A ddelo iddi eilwaith.  
84                    Drwy stad o urddas y dêl!  
Duw gywaethog, dwg Ithel!

*Ffynonellau*

A—Pen 100, 445 B—BL Add 14901, 18<sup>v</sup> C—Llst 133, rhif 140

*Amrywiadau*

3 *ABC* ..ystryd.. 13 *B* ..ei del 17 *ABC* ..torri phen.. 22 *BC* ..ystryd.. 23 *B*  
troest.. 31 *C* ..ffaes.. 37 *ABC* ..fv nyly 45 ..tyrnas 49 *B* ..haul oi.. 52 *ABC*  
..gythrel.. 54 *B* ..ar war.. 62 *B* ..sarss.. 64 *B* ..Wynedd.. 65 *ABC* ..gwaead  
67 *AC* marchokaych., *B* marchoccaeth.. 69 *ABC* ..ni ddygynt 70 *ABC* fo  
dorei.. 71 *B* ..fortwyn.. 74 *ABC* ..kost..

*Marwnad Tudur Llwyd o Iâl*

Torred y rhif, troed y rhain,  
 Tri brad at wŷr o Brydain:  
 Brad gwŷr Medrod pan godynt,  
 4 Brad tywyll gan gyllyll gynt;  
 Brad a garchwedl, brwd gyrchu  
 Brytaen fawr, brad tân a fu.  
 Am darw yn Iâl, mwy darn iau,  
 8 Mwy'r un brad ym marn brudiau  
 Pan golled, a dewred oedd,  
 Tudur, drwg o hynt ydoedd,  
 Wrth ei aml nerth i ymwan  
 12 Ag antur, Tudur, i'r tân,  
 Ac anian brwd, gwenwyn brau,  
 Ac awr ddrwg awyrddreigiau.  
 Lladd eryr, llewaid arial,  
 16 Llew du Dafydd Llwyd o Iâl.

Ni las yn y rhyfel wŷr  
 Ond dewrwas ac anturiwr:  
 20 Un dramgwydd â'r Arglwydd Rhys,  
 Ac un friw â gwayw'n frowys;  
 Taro'r mur, tŵr ym Merwig,  
 Troi'i wayw'n frath, torrai'n ei frig;  
 Dellten o gethren gythrudd,  
 24 Darn grin a dorrai'n y grudd.  
 Ar Dudur, irad ydyw,  
 Nid oedd frath nodwydd o friw.  
 O briwai, ni nodai neb,  
 28 Gwir anap, gwr ei wyneb.  
 Ni ryfelodd ar filwr  
 O law ddyn a laddai wŷr.  
 Nid âi'r einioes i drannoeth,  
 32 Ni adai Dduw ond a ddoeth.

Arthur wŷr wrth yr eirias,  
 Ongler, Olifer a las.  
 Fo las Ector yn forau  
 36 Â gwayw'n y brwd egni brau.

Nid oedd o'r dynged uddun,  
 Nesáu'r oed, einioes i'r un.  
 Gwŷr Siarllys ar gwrs irladd  
 40 A fu'n y llys, ofn eu lladd.  
 Dros y nos cau'r drws a wnaent,  
 Mewn y tŵr maen y tarient.  
 Ni bu fyw neb, ei ofn oedd,  
 44 —'Nid oedd oed?—eu dydd ydoedd.  
 Ni aned mab, enaid mawr,  
 Ond i'w ddwyn mewn dydd unawr.  
 Ni wŷr dyn yr awr y daw  
 48 Na'r dydd a farnwyd iddaw.  
 Briw Tudur, llafn hirddur, Llwyd,  
 Banbri, oedd ben y breuddwyd,  
 Neu daer dwyll,—on'd irad oedd?—  
 52 Neu drais herwyr drwy'r siroedd.  
 O bu ladd gwŷr fal blaidd gynt  
 Neu siwrnai wynias arnynt,  
 Nid oedd eniwed i wŷr;  
 56 On'd adwy a wnâi Dudur?  
 Bu ddewr y baedd o Warwig,  
 Brau fu'r oes yn berwi'i frig.  
 Eryr cad ar Iorc ydoedd,  
 60 Ector ym Maelor mwy oedd.

Torred oes, taer dewiswyd,  
 Tawed ieirll oll, Tudur Llwyd.  
 Os gwaed, digymysg ydoedd,  
 64 At waed yr ieirll Tudur oedd;  
 Asen tarw os anturiwr,  
 Os dewr a gwych yn feistr gŵr.  
 Y dydd cyn ei fynd o Iâl  
 68 Ni wnâi Dduw yno ddial:  
 Fo rôl'r wlad fawr ar ei law,  
 Am deyrnas amod arnaw.  
 Ni bu *i* Eidol neu Badarn,  
 72 Ewinedd arth, wayw un ddarn.  
 Torred adwy, troed Idwal,  
 Trip i'n oes, torri pen Iâl.  
 Nid âi ddiwrnod oddi arnom,  
 76 Nis rhoed ar waith, aesawr drom.

Duw gu, trwm dygut dy rodd,  
 Dwyn hoedl y dyn a hedodd.  
 Gwn ballu; gwae ni bellach  
 80 Gael yn ei ôl galon iach.  
 Ni bu'n ynys na bonedd  
 ŵr un faint i'w roi'n ei fedd.  
 Bedd Tudur a fesurynt  
 84 Wrth fedd Maelgwn Gwynedd gynt.  
 Llai rhyw dir lle rhoed Urien,  
 Llai arch o hyd Llywarch Hen.  
 O bu lawn na bai 'leni  
 88 Y llawr yn wag; llwyr wae ni!

Brawd o'r twf un bryd â'r tad  
 Sy anobaith,—Siôn Abad.  
 Ynnill brawd ni all brodyr,  
 92 Ond ei nai yn dwyn ei wŷr.  
 Od yw ifanc ei dyfiad,  
 Yfory dwg arfau'i dad.  
 Ni chaid arnyn', awch dyrnawd,  
 96 Mewn trin i frenin ryw frawd.

O Dduw, cyd a ddaw coedydd  
 Er holli o wynt yr holl wŷdd?  
 Cwypm derwen, o'r nen fu'r naill,  
 100 A dyr y mangoed eraill.  
 Glaw aeth am walch, galaeth mawr,  
 Glaw tir Rhufain gwlad Trefawr.  
 Galwyd hoedl, gwae lu Tudur,  
 104 Glaw'n waed o galonnau'i wŷr  
 Fal pe syrthiai—ai reiad?—  
 'R awyr i lawr ar y wlad  
 Neu dôi fôr i'w difuriaw  
 108 Neu'i llosgi trwyddi hyd draw.

Ni bu wrth ddwyn eu bywyd  
 Ben heb waedd byw yn y byd.  
 Doe'r âi'r carol drwy'r cerrig,  
 112 Diryfedd oedd dyrfa ddig.  
 Ni thyfant fyth o ofal;  
 Dau gwae Ddyffryn Clwyd ac Iâl.  
 Llaw i Dudur Llwyd ydoedd,  
 116 Llaw Gai neu Deŷmllug oedd.

Llaw dewredd oll a dorred;  
Llaw Grist a laddodd holl Gred.

*Ffynonellau*

A—Pen 86, 59 B—Pen 121, 160 C—LIGC 20574A, 218

*Amrywiadau*

3 *A* ..pen.. 5 *BC* brad i.. 6 *AC* bryttain.., *B* bryttan.. 11 *AB* wrth amyl nerth..  
13 *B* ..brawd.. 14 *BC* ..a wyr.. 17 *C* a las.. 20 *B* ..friw gwayw n.. 21 *C* taro  
mur.. 22 *B* ..torrai n frig 24 *C* draen.. 25 *B* ..iriad.. 26 *A* nid oed.. 28 *BC*  
..gwrr.., *C* ..i hwyneb 29 *AB* ni ryfaiiodd.. 30 *A* ..lladdai wor 31 *B* [31–2]  
32 *A* nid ai ddvw ond a doeth 38 *A* ..enioes.. 39 *C* gwyr i.., *A* ..siarles.. 40 *B*  
..llv.., *A* ..ofyn.. 41 *B* dros nos.., *C* ..drws wnent, *A* ..a nent, *B* ..a wnent 42 *C*  
..man.. 43 *AC* ..oi ofn.. 44 *C* na dydd oed.. 48 *C* na dydd a farned.. 49 *B*  
..hirddv.. 51 *A* nidawae i dwyll diwad oedd, *B* nid air dwyll di wad oedd  
52 *C* ..drwy siroedd 53 *A* o bv lladd.. 55 *A* ..niwed.. 56 *C* nid adwy.. 58 *A*  
..yn berw i frig 61 *A* ..i dywiswyd 63 *A* oes.. 66 *A* os dewr gwych yn feistyr  
gwr 68 *B* ..i ddial 70 ..dyrnas.. 71 *ABC* ni bv idol.. 76 *ABC* ..asawr.. 77 *AB*  
dvw trwm y.., *C* ..dygit.. 78 *AB* ..hoedyl dyn.. 81 *A* ni bv yw ynys.., *B* ni bv  
ynys.., *C* ..yn i ynys.. 85 *AB* llai o dir.. 87 *C* ni bu.., *AB* ..y leni 88 *A* llawr..,  
*BC* llawer.. 92 *B* ond oi nai.. 94 *ABC* ..i dwg.. 95 *B* ..dvrnawd 98 *A* ir.. 99 *C*  
..for naill 105 *C* ..pei syrthiad.. 106 *C* awyr.. 107 *B* nev o doe.. 108 *B* nev i  
logi.. 114 *AB* nid iach dyfryn klwyd a ial 116 *ABC* llaw gaem ne.., *C*  
..dehyrllug.. 117 *A* ..dewred..

*Marwnad Sioned ferch Robert ab Ieuan Fychan*

- Ni welir tes o law'r tad,  
 Na llewych yn y lleuad,  
 Na gwin o boptu i Gonwy,  
 4 Nac aur, na medd o gyrn mwy,  
 Na neb i'r wyneb yr oedd  
 Am gannwyll, mam y gwinoedd.
- Saith wae fi os aeth i fedd  
 8 Sioned, arglwyddes Wynedd.  
 Awn i gyd, iawn yw gadael,  
 O'r tir am ferch Rhobert hael:  
 12 Cau drws yn lle cad yr aur,  
 Colli rhoddion cell rhuddaur.  
 Och, oer grain, achau'r grynwst,  
 Ochain rhai truain fu'r trwst;  
 16 Och Dduw, ennyd, och ddynion,  
 —Na bai oed hwy bywyd hon!—  
 Osod, wenloer o Stanlai,  
 Drych y wledd mewn derw a chlai,  
 20 Llaw arglwyddes, lloer gwleddoedd,  
 Lleuad aur Ieuan Llwyd oedd.  
 Gwenwyno'n byd—gwae ni'n bur!—  
 Gwedi urddas gwaed Iarddur.  
 24 Tri baich sy'n troi heb iechyd,  
 Tros bawb torri oes y byd.  
 Blwyddyn, angau biau bâr,  
 A'i ddiwedd fydd i ddaear.  
 28 Gwaith angau, dagrau fu'i dwyn,  
 Gloes i Wynedd, glas wenwyn.  
 Saeth fu'r loes, saith oerfel iaf,  
 Sioned, hyd fedd tysinaf.
- Oeres wrth farw yr Iesu,  
 32 Do, awyr ddofn daear ddu.  
 Tegeingl aeth yn wlad hygoll,  
 Trais Duw a ddoeth trosti oll.  
 Y wlad hon am eiliw tes,  
 36 Ei llawr ymhell a oeres:



- Llom fydd draw, fal drylliaw drych,  
 Lleuad pan gollo'i llewych.  
 Aethwyd unwaith â Dwynwen  
 40 Fal Iesu'n dal Sioned wen.  
 Deillion o dai a wellynt,  
 Dewinion, gael Dwynwen gynt.  
 Duw o'i nawdd lladdawdd ni'n llwyr,  
 44 Dwyn Sioned, dawn a synnwyr.  
 Duw ynn a roes dawn yr iaith;  
 Deled ei bywyd eilwaith!
- Dwyn calon yr haelioni,  
 48 Dwyn gormodd o'n anfodd ni;  
 Dwyn croeso i'n oes, dwyn Croes Naid,  
 Doe, Duw gwyn, di-dau gweiniaid.  
 Doe rhoes o'i llaw dros y llail  
 52 Dwyrodd gwragedd-da eraill.  
 Di-glo oedd hwnt ei gwledd hi,  
 Duw â'i wledd a dâl iddi.  
 Digaled, yd addfed oedd,  
 56 Didolc am roi da ydoedd.  
 Llyna gneuen o'r henaaur,  
 Llawn oedd o gynhwyllyn aur.  
 Y byd trwch, fegis bwrw traeth,  
 60 A 'mrafaeliodd marfolaeth.
- Pan aeth gwawr Goetmawr i gyd,  
 Y wraig eurwallt, i'r gweryd,  
 Weithian bid grin y gwinwydd,  
 64 Ni chair y gwin coch o'r gwŷdd.  
 Pe byw Sabel ac Elen,  
 Pe rhoid merched Pria' Hen,  
 Ni ddygynt, foneddigion,  
 68 Gwen ei lliw, gannwyll i hon.  
 Lle'dd oeddynt lluoedd Addaf,  
 Lleuad oedd hon, lliw dydd haf.  
 Os ymadrodd, nis medrynt,  
 72 Is y bu glod Sibli gynt.  
 Llwyn irfrig, lleian eurfron,  
 Llaes oedd ei mantell i hon.
- Mae gown i mi ac annwyd,  
 76 A gwely oer, Iago lwyd.

- Ni wn—adyn iawn ydwyf—  
 I b'le trof; heb lety'r wyf.  
 Mae afon i'm bron heb wres,  
 80 O'r golwg deigr a'i gweles.  
 Am ais gul ymysg olew  
 'Y mron rhoed fal marian rhew.  
 Torres fal bôn caterwen  
 84 Tulath o hil talaith hen.  
 Marw o'r byd mawr a'r bedydd,  
 Mae awyr ddu am wawr ddydd.
- Aeth alaeth fyth a welir  
 88 Ar Siôn fal brenin Pers hir.  
 'Ni thorres Duw—a thristáwn—  
 Oes hir ar frenhines hwn?  
 Mynnai'i rhoddi mewn rhuddaur,  
 92 Meinir, a'i chorff mewn arch aur.  
 Mwy bu cri, pob mab a'i cred,  
 Mars heno marw o Sioned.  
 Arwydd y sydd ar rudd Siôn,  
 96 Am wraig hael mae oer calon.  
 Ni chudd y grudd o'r gwreiddyn  
 Gystudd calon don mewn dyn.  
 Oer fu alaeth ar filwr,  
 100 A thost ar bennaeth o ŵr.  
 Byw nid oes, bu newid ynn,  
 Bwa lanach, heb linyr.  
 Daearu hon, nid â 'rhawg  
 104 Dros gof o dir Ysgeifiawg.  
 Yno'dd aeth—mae Nudd weithian?—  
 I'th gôr lawer bendith gwan.
- Bwrw cainc, mae ynn barc o hon,  
 108 Bur o ganol brig Einion.  
 Y mae meibion o Sioned  
 A rôl'r car oll ar wŷr Cred:  
 Trillew, un at yr allawr,  
 112 Eurddail am un urddol mawr,  
 (Adda oedd i'w ddiweddu,  
 Tair gwialen o'i ben y bu.  
 Tri dynnod a roes Moesen,  
 116 Torrai ffrwd dŵr Pharo hen.)  
 Ac ni chad o'r Tad dinam,  
 Iricirll mawr, wŷr well eu mam.

- 120 Yr un wraig, aur ynn a roes,  
Oedd gannwyll i ddeugeinoes.  
Y da a roes ynn yn drysor,  
Ym mynwes Duw mae'n ystôr.
- 124 Gwell o adfyd, golledfawr,  
Farnu'n oes neu farw'n un awr  
No'n bod yn ddynion bydol  
Yn rhoi oes ynn ar ei hôl.

*Ffynonellau*

A—Pen 80, 69 B—LIGC 435B, 93<sup>v</sup> C—LIGC 6681B, 44 D—LIGC 17113E, 23<sup>r</sup> E—LIGC 20574A, 336 F—BL Add 14991, 256<sup>r</sup> G—LIGC 2033B, 52<sup>v</sup>

*Amrywiadau*

1 *FG* ..lawer tad 2 *CFG* ..llewyrch.. 3 *B* ..a bobtv.. 4 *FG* ..o gymru.. 5 *BCD* ..yn r wyneb.. 7 *C* saith gwae.. 11 *BCD* kaer.. 13 *BCG* ..a chav r., *F* ..a chaie r.. 17 *BCD* ..olwen.. 18 *C* ..clai 21 *B* gwenynen beirdd., *CD* ..yn beirdd.. 22 *B* ..arddvr 23 *BC* ..yn tori.. 24 *BCD* ..yn tori oes byd 26 *BCD* ..y ddavar 27 *BCD* ..fv dwyn.. 29 *F* ..fu loes.. 30 *B* ..ty synaf 31 *B–G* ..farw r.. 32 *BCD* ..a daiar., *C* ..dofn.. 35 *FG* yw.. 36 *C* y llawr.. 37 *FG* llon., *B* ..fyd., *D* ..drylliav.. 38 *BCD* ..ban., *BCFG* ..llewyrch 39 *AEFG* [39–40] 41 *A–G* ..a ellynt 43 *D* dwv nawdd., *BC* ..i nawdd.. 44 *BCD* ..mynd an synwyr 46 *BC* delid., *C* ..iw.. 48 *C* ..gormod.. 50 *BCD* do., *B* ..gweniaid, *C* ..gweinaid 51 *BCD* ..ai llaw... 52 *B* duwyrodd.. 53 *E* ..oedd hwn.. 54 *BCD* ..eiddi 59 *BCD* ..fal.. 60 *AC–G* amrafaeliodd., *FG* ..marwolaeth 62 *F* gwraig.. 63 *BCD* ni bydd ond krin.. 64 *BCD* ..chair gwin koch ar y.. 85 *BCD* marw r byd..or bedydd 89 *BD* ..a thristaiwn 91 *A–G* mynnai roddi.. 92 *F* ..a chorff.. 93 *E* ..pob ai ked 94 *BCD* ..marw Sioned 96 *B* ..galon 97 *F* ni rudd..ar gwreiddyn, *G* ni rhudd.. 101 *FG* ..bo.. 104 *BCD* ..gof dy fair o.. 105 *AEFG* [105–8] 109 *C* ..i Sioned 110 *F* ar aer.. 111 *FG* ..an at.. 113 *AEF* addaf., *C* ..diweddv 116 *E* ..ffrwd tir.. 120 *C* ..devgeinoes 121 *AEFG* y da roes., *FG* ..yn drysawr 124 *F* farnu r.. 125 *BCD* na bod., *F/G* ran/non bodlon dynion.. 126 *BCD* ..rhoi n hoes awr yn i hol

*Marwnad Siôn ap Dafydd ab Ithel Fychan, Broneirian*

- Bwriwyd derwen, brau torres,  
 Brig mawr lle bu rywiog mes.  
 Ni thorres un fath dderwen  
 4 Ond Duw o'r brenhingoed hen.  
 Os ddoe'r âi is y ddaear  
 Siôn, dwf ac asennau dâr,  
 Nid âi yno, ni 'dwaenynt,  
 8 W'r fwy'i gorff a'i arfau gynt.  
 Gwae wŷr, wylant gau'r olew  
 Glaw dŵr hallt ar glwydau rhew.  
 Bu'n oes yn bibonwy iâ,  
 12 Bu 'Sgeifiog heb ais gyfa'.
- Y baedd du bioedd y dawn  
 O du Ririd i'r wyriawn.  
 Mwy'i dda, enw a meddiannoedd,  
 16 Mwy no'r ieirll mewn maner oedd.  
 Chwemaib Dafydd a'i ruddlath,  
 Chwemaib ieirll, ni chaem o'u bath.  
 Y gwŷr o'r gwaed gorau gynt,  
 20 O waed Dafydd y tyfynt.  
 Llai o rudding lle'r oeddynt,  
 Lle gwag a ddrylliodd y gwynt.  
 Lle torres, holliad derwen,  
 24 Llawr gan waedd Llaneurgain wen,  
 Oer yw bod yn w'r bydol  
 Iefan, ei hun, fyw'n eu hól.
- Broneirian, wybren araul,  
 28 Bydd rhew lle ni byddo'r haul.  
 Lluwch wrthi, llai yw chwerthin,  
 Llwyn gwag yw perllan y gwin.  
 Lle budd, yn gannwyll y byd,  
 32 Lle'r oedd haf llariaidd hefyd,  
 Aeth hyn fal achreth Ionawr;  
 Aeth Lanslod i'r fedrod fawr.  
 Pwy'n fyw heb ben i'w fywyd?  
 36 Pawb â i'r awr; ni wŷr pa bryd.

Marw a wnawn mewn murn anodd;  
 Marw fu Mab Mair o'i fodd.  
 Ni buont hir eu bywyd  
 40 Nawnyn bioeddyn' y byd.  
 Na gwin o bell, nac un byw,  
 Na da swydd nid oes heddiw.  
 44 Dy fryfiau, glwth angau glew,  
 Un bil ni wnai heb olew.  
 Yn y bryf, âi onn breufawr,  
 Yr âi Siôn i aros awr.

48 Ai marw Siôn, Emrys hael,  
 Gwythi Dafydd ac Ithael?  
 Marw Sioned, Emrys unawr,  
 Mair a'i Mab, dyna'r marw mawr.  
 Ydeiliwyd eu dwy elor,  
 52 Arwain eu cyrff i'r un côr.  
 Dyna gôr, dawn o gariad,  
 Doeth i'w lawr fendith y wlad.  
 Siôn, mae rhoddion mawr heddiw?  
 56 Sioned, bydd eisiau nad byw.

Mawr yw, main môr a mynydd,  
 Meibion yn ôl Siôn y sydd:  
 Y meitr o aur ym myw tri,  
 60 Asa, rhoer i Syr Harri;  
 Gwnâi'n well nawugain allawr,  
 Geilw Dduw, y mab gloywddu mawr;  
 Dyn byw etyb dan batent,  
 64 Duw gwyn rhoed mewn deugain rhent.  
 Hywel, da i'w fetel fo,  
 Hwn a fyn hyn a fynno;  
 Dwrn eryr, derwen euraid,  
 68 Dyn â blaen, da iawn ei blaid;  
 Gŵr ir am y gŵr arall,  
 Gŵr sy heddiw yn lliw'r llall.  
 A'i wayw yn rest, yno'r aeth  
 72 Ar Wiliam ei wrolaeth;  
 Irber ydyw o'r brodyr,  
 Un nid gwell, enaid y gwŷr.  
 Tri am Siôn, byd trwm y sydd,  
 76 Troi llanw mae'r tri llawenydd.

80

Gŵr a'i glod yn graig lydan,  
 Gŵr ni roes ei gorn ar wan,  
 A gŵr y rhoid gair a rhodd,  
 Ac i urddas a gerddodd.  
 Duw Iôn a fu dan ei fedd,  
 Dod i'r gŵr dy drugaredd.

*Ffynonellau*

A—Pen 80, 76 B—LIGC 435B, 92<sup>r</sup> C—Pen 72, 97 D—LIGC 6681B, 39  
 E—LIGC 17113E, 24 F—Brog (y gyfres gyntaf) 6, 3<sup>v</sup> G—BL Add 31056,  
 167<sup>r</sup> H—LIGC 2033B, 55<sup>r</sup> I—BL Add 31078, 187<sup>r</sup> J—Pen 129, 2 (llau. 1—  
 30)

*Amrywiadau*

1 *BD* ..i torres 3 *I* ..math.. 5 *GI* os doe.. 7 *AHJ* ..dwenynt 8 *B-FJ* ..fwy  
 gorff.. 9 *B-F* ..wylent.. 10 *GI* ..o.. 11 *H* ..oes y.. 13 *F* ..bioedd dawn 15 *B-FJ*  
 mwy oedd enw., *B* ..y meiddionoedd, *CD* ..y meiddinoedd, *EF*  
 ..meiddinoedd, *J* ..y meddinoe[ ] 16 *B-FJ* ..iarll.. 17 *D* ..rrvddlath 18 *BFJ*  
 ..iarll., *B-FJ* ..ni chem i bath, *H* ..i bath 21 *GI* llai ruddinge.. 22 *AH* ..i  
 drylliodd., *GI* ..i drylliad.. 25 *H* oer y byd., *B* ..bod wr., *CDFJ* ..bod i wr.,  
*E* ..o wr.. 27 *AEGHI* brynn.. 28 *GI* ..byddo havl 29 *CD* lvwch.. 30 *B-FJ* lle..  
 31 *F* lle bu., *A-EGHI* ..bydd.. 32 *B* ..llaraidd.. 33 *F* aeth hin.. 34 *H*  
 ..feddrod.. 35 *AGHI* ..i fowyd, *F* ..oi fowud 36 *AGHI* pawb ir awr.. 37 *H*  
 marw wnawn.. 39 *B-F* ..bvant.. 41 *B* ..nog.. 45 *F* yn ei brif., *CD* ..brif.. 47  
*AGHI* a marw yw.. 48 *B-F* a gwithi., *I* gwith i Ddavydd.. 49 *AGHI* marw  
 sion.. 50 *FH* ..dyna marw.. 51 *B-F* ydeilwyd.. 52 *AGHI* ..y kyrff., *BCF* ..i  
 korff.. 53 *B-E/F* dynar kor..yw/ywr kariad 54 *F* ..i lawr., *AGHI* ..bendith.,  
*F* ..i wlad 55 *BCD* ..maer.. 56 *BCDF* ..byd iesie.. 58 *B-F* ..ar ol.. 59 *B-F* y  
 meityr avr., *F* ..y myw r tri 65 *I* i roi da., *AGHI* ..yw fattel.. 66 *B-F* hwnnw  
 a fyn.. 68 *GI* ..da n i blaid 71 *GI* ..yn rrest.. 72 *B-F* ..wroliaeth 73 *H* ..ydyw r  
 brodryr 76 *B-F* troir.. 79 *F* ..rhaid..

*Marwnad Tudur Aled*

Doe bwriwyd tad y brut hen,  
 Diwreiddiodd Duw yr awen.  
 Ni rown byth ar awen bur  
 4 Yr ail tad ar ôl Tudur.  
 Gwedi a wnaeth, gwaith gwydyn,  
 Gorwedd gwawd fal y gwraidd gwyn.  
 O gerdd na chorff gwrdd ni chair  
 8 'R un a geidw'r arian gadair.  
 Iaith Roeg, mae'n waeth yr egin,  
 Weithian y gwraidd aeth yn grin.  
 Ni bu lediaith o'i blodau  
 12 Na gwan frig ei awen frau.  
 Aeth crair awenyddiaeth Cred  
 Ar elor, Tudur Aled.

Os hael, dewr a grymus oedd,  
 16 Os gwaed digymysg ydoedd.  
 Parabl teg gramadegwr  
 Pêr oedd, a phob camp ar w'r.  
 Awenydd—'f aeth—ynn oedd fêl,  
 20 Irgoed iach o'r gwaed uchel.  
 Llin ddwysbraff, llawndda ysbryd,  
 Llawen ei ffriw, llun a phryd.  
 Y maes dug am ostegion  
 24 Â cherdd na fu harddach hon.

Llai'n cynnyrch oll yn canu,  
 Llew, bwriodd feirdd, llwybraidd fu.  
 Ar y radd orau'r oeddynt,  
 28 A gorau gwaith y gwŷr gynt.  
 A ninnau oll ni wnawn waith  
 Ond gwanfost genfigenwaith.  
 Collwn, brydyddion callwerth,  
 32 Cân y byd fal cywion y berth.  
 A brau a doeth heb air dig  
 Ar aur ddadl, w'r urddedig,  
 Ac aur byw bob gair o'i ben,  
 36 Ar gywydd rywiog awen,

Ac ar ddysg (ac arwydd oedd)  
 Ac ar awdl gorau ydoedd.  
 Canu croyw englynion craff,  
 40 Cu dewinbraw' cadwynbraff;  
 Cerdd hoywferch, câi rodd hefyd,  
 Cerdd gŵr, aur cwyradd i gyd.  
 Tudur cun, tad aur canu,  
 44 Taliesin Caerfyrddin fu.

Uwch fu'i rodd a chyf'rwyddyd  
 No neb o'n oes yn y byd:  
 Dull Edyrn, deuwell ydoedd,  
 48 Dafod Aur, a'i dyfiad oedd.  
 Trôï'n bost at yr awen bur  
 Tydai; gwell oedd gerdd Tudur.  
 Rhoed iddo'n anrhydeddus  
 52 Aur a gwledd rad Arglwydd Rhys.  
 Tri lle awen trwy'r lluoedd,  
 Tid i'r beirdd, Tudur biôedd.  
 Iesu wyn sy awenydd,  
 56 Awen bur o'i enau bydd.  
 Ynynnir awen union,  
 Acw o'r haul y cair hon.

Ewythr ag aur wrth roi gwin,  
 60 A'm athro yn fy meithrin,  
 A'm dewisgar i'm dysgu,  
 Och Fair, a'm cyfrinach fu.  
 Awen ddi-ddwl ynddo'dd oedd,  
 64 Awen awdl inni ydoedd,  
 A'r awenydd a rannwyd;  
 Ofer i'r un fwrw ei rwyd.  
 Cadwynai frig gwawd yn frau,  
 68 Cangau'n hawdd cynganeddau.  
 Di-gnwc, mor addfed y gwnâi,  
 Diddos y cyfrodeddai.  
 Annoeth yw mab o'n iaith mwy,  
 72 Am Dudur gormod adwy.

Dy awen, Grist, dawn i Gred,  
 Doed ar ôl Dudur Aled  
 I'm genau am a ganwn  
 76 O gân hardd i gwyno hwn.



80 Ni châi un pen, achwyn pur,  
Ond odid, awen Dudur.  
O'i fynd, oer fu ynn y daith  
O ddolur; na ddôl eilwaith!

84 Nawdd Dduw, tost na wyddiad dyn  
Na'i awr brudd na'i oer briddyn.  
Pêr gwyn ar imp ir a gad,  
Prydydd heb gwypio'i rediad.  
Ofer cowfaeth, fry cyfyd,  
Ofereidd byw heb feirdd byd.  
88 Marw a wnaeth, mae'r un weithion,  
Mordwy cerdd, mawr y dug hon?  
Tudur gwrdd, tad ar gerddau,  
Tân praff, a'r gwynt yn parhau.

92 Tad nawnef, tŷ dyn annwyl,  
Tudur aeth at dad yr ŵyl,  
Ac enaid heb neb gwnnach,  
Ac awen ir fal gwin iach.  
96 Darfu 'mhwyll, doe'r âi fy mhen,  
Dra fwy' fyw darfu f'awen.  
Tudur, cerdd a ddatodef,  
Aled wyn aeth i wlad nef.

### *Ffynonellau*

A—Card 2.114 [= RWM 7], 584 B—BL Add 14966, 197<sup>r</sup> C—LIGC 6499B, 208 D—BL Add 31059, 104<sup>v</sup> E—BL Add 10313, 168<sup>v</sup> F—LIGC 2288B, 87 G—LIGC 668C, 93 H—CM 242, 185 I—J 139 [= RWM 14], 68

### *Amrywiadau*

1 *B* ..i bwriwyd., *BDE* ..brvd.. 5 *F* [5–6] 6 *A–EG–I* ..fal gwraidd.. 7 *F* ..a chorph., *I* ..i chair 8 *F* yr un geidw r., *GH* ..gadw r.. 10 *F* ..ei gwraidd., *H* ..a aeth.. 11 *CGH* ..ai blodav, *E* ..na blodau, *F* ..ond blodau 12 *E* ..iw awen.. 13 *HI* ..awenyddiaith.. 16 *F* os waed., *H* os digymmysg.. 19 *G* awen., *A–I* ..faith., *BH* ..ym.. 24 *ACHI/BDE* ..cherdd fv/a fv., *F* ..fe oedd., *A–FI* ..harddwch., *H* ..harddwych., *I* ..o hon 25 *BDE* llai cynyrch.. 27 *I* ..ar oeddynt 28 *I* ..or gwur., *AC* ..gwynt 29 *A–H* ninne.. 32 *I* kan i budd., *ACI* ..i berth, *DE* ..kowion berth, *F* awn heb oed fal cywion i berth 37 *H* ..ddysg arwydd.. 38 *ACFGH* ar owdwl., *I* ar odl., *F* ..y gorau.. 39 *I* kanu yn kroyw., *ACG–I* ..englyn., *F* canai hoyw englyn croyw craff 40 *F* cu a dawn

brawf., *H* cu dawn a braw.. 43 *F* ..gun..ganu 45 *A-I* ..fv rodd.. 48 *F* ..ei  
 dyfiad.. 50 *D* tydain.. 52 *E* ..rhad.. 53 *G* ..trwy n.. 54 *F* ..a bioedd 55 *H* ..sy  
 ai awenydd 56 *A-EG-I* ..i bydd 58 *E* ..hael.. 59 *ACI* ewyrth., *BDE*  
 ewyrthr., *G* ewyth.. 62 *BDE* ..Fair ych., *ACG-I* ..am ych.. 64 *ACGH*  
 ..owdwl yn., *I* ..odl yn.. 65 *F* yr.. 67 *A-EG-I* kadwynav., *BDE* ..cnwd., *GH*  
 ..cnawd., *I* ..ry frau 69 *ACG* dy gnwk., *I* ..aeddffed.. 73 *H* ..Crist.. 74 *ACG-I*  
 ..ar elor.. 75 *B* ..y ganwn, *G* ..garwn 76 *I* ..o.. 77 *CF-I* ..poen.. 79 *BD-FH*  
 ..fv n y daith 81 *A-CE-I* ..duw., *F* ..wyddid., *CF-H* ..hyn 83 *G* ..or imp., *I*  
 ..imp pur.. 84 *AH* ..gwympo., *F* ..gwymp iw., *E* ..rhediad 85 *F* oferedd in  
 feirdd ynfyd, *H* ..y cyfyd 86 *DE* overed., *F* ..o feirdd.. 87 *FI* marw wnaeth.,  
*G* ..mae hwn.. 93 *F* ..gwynnach 95 *H* ..o mhen 96 *G* ..rwy.. 97 *I* ..ddattodaf

*Gofyn march gan Robert Fychan ap Tudur, Berain, dros Ddafydd*

Y mab diodwin gwinau,  
 Dur oddaith braisg, dewrddoeth brau,  
 Robart, winfaeth benaethryw,  
 4 O wraidd arglwyddiaidd yw;  
 Difri'n y gad dwyfron gŵr,  
 Dewr ag wyneb d'roganwr;  
 Milwr rhodddglud o Dudur,  
 8 Melwas doeth mewn maelys dur;  
 Glanbren ffrwyth gwin swydd Ddinbych,  
 Gwraidd Heilin farwnlin Frych;  
 T'wysogryw *dad*, codiad call,  
 12 Tid euraid o'r taid arall;  
 Llin â rhyw, llawen y rhydd,  
 Llwyn aur yw'r berllan irwydd;  
 O barch ni weled neb well;  
 16 O waed Rhobin nid rhybell.

Eryr ar saethyddwyr sias,  
 Egin teyrn ugain teyrnas;  
 Pennaeth hybarch o Farchudd,  
 20 Pwys a nerth, yn pasio Nudd;  
 Cyw eryr llwyd caerau'r llys,  
 Ceidw ei ran, cadwayw'r ynys.  
 Pren ir, y ddwysir a ddaw,  
 24 A dwy ynys sy danaw.  
 Hapus fab glân, gwaywdan gwych,  
 Hwylus bonheddig haelwych,  
 Hawdd y cawn, rywioglawn wraidd,  
 28 Hwyl ar ŵr hael arwraidd.

Dafydd, ni flinai'i dafod,  
 Canu wyf fi, cwynai'i fod,  
 Fy mod heb allu rhodiaw  
 32 O'r dref i'r chwarywfa draw,  
 Na cherdded na myned mwy,  
 Troi mae'r oed, trymhau'r ydwy'.

- Caf gan ŵr rhwydd arglwyddwaed  
 36 Yn rhodd rhag mynd ar 'y nhraed  
 Ebofarch garrir gweirbawr,  
 Egwydfain yn llemain llawr;  
 Tân o'r sarn dan ei garnau  
 40 Tros wrych a thros garwffos gau;  
 Gyr gweill o gerrig allan  
 Gwreichion fal tewynion tân.  
 Dwyglust, mynych ymffustynt,  
 44 Fal dwy ddeilen aethnen ŷnt;  
 Ffroenau trwyadl anadlfawr,  
 Ffeuai mal meginau mawr.  
 Yn fy llaw pan fo'r awen,  
 48 Yna bydd ewyn o'i ben.  
 Da y try'n chwythu dan chwys,  
 Derwen o 'nifail dyrys;  
 Llygadlon, arr aflonydd,  
 52 Llydan a hir fal llwdn hydd.
- Rhwysg brenhinwalch difalchgryf,  
 Rhoi bu aur tawdd, Rhobart hyf.  
 Caiff o'i erwydd, cyff Urien,  
 56 Coed mawr o hil Coedmor hen,  
 A chael eurdid o 'Lidir,  
 A da Siob, a dwyoes hir.

*Ffynonellau*

A—LIGC 6495C, 98<sup>r</sup> B—Llst 124, 360 C—BL Add 31078, 197<sup>v</sup>

*Amrywiadau*

2 B ..o ddoeth.., C ..a ddoeth.. 4 C ..arglwyddaidd.. 7 BC ..rhoddglod.. 9 C  
 ..sir ddimbych 11 ABC ..tad.. 14 A llin.. 15 A ..welwyd.. 17 BC eryr a.. 18 C  
 egni.., ABC ..tyrnas 21 BC ..caer avr llys 22 BC ..cadwai r.. 27 A  
 ..rywiowglaw ir wraidd 30 A ..kwynai vod 32 BC ..chwareyfa.. 36 BC vn  
 rhodd..fy nhraed, C ..myned.. 37 BC ..garn.. 39 BC tan ar sarn gan.. 40 BC  
 ..a ffos.., ABC ..garffos.. 41 BC gyrrv.. 43 BC ..amffvstynt 44 AB ..ddeilien..  
 46 B/C ffroenav fal/mal.. 47 C [47–58] 48 AB yna i.. 51 B ..are.. 52 B llydan  
 hir fal y.. 55 B ..oi herwydd.. 56 B ..Coetmor.. 57 B ..evrddid Elidir

*Gofyn ysghatys gan Wiliam ap Wiliam, Cwchwillan,  
dros Huw ap Rhys, Llanddyfnan*

- Doed i eryr da'i doriad  
 Aur yn dorch, arian ei dad.  
 Ydd oedd fal arglwydd iddynt  
 4 Am sir Gaer, ei mesur gynt.  
*Eu galw at ieirll, gweled hon,*  
 A wnaeth eu pennau'n noethion.  
 Ni sorrynt yr holl siroedd;  
 8 Waywlamp wych, Wiliam pióedd.  
 Dur, asau llew dros y llall,  
 A'i lu mawr Wiliam arall.  
 Tai Ruffudd, cynnydd cannwell,  
 12 Ti a wnaut y tai yn well;  
 Tynnu'r gost henaur a gwin,  
 Tribwrdd a meddiant Rhobin.
- Ŵyr wyt Rys, euraid drysawr,  
 16 Llawn fost yng Nghwchwillan fawr.  
 Dyro dy glaim, dur dy gledd,  
 Derwas henwaed, dros Wynedd.  
 Rhoi gwin sy rywiog o ŵr,  
 20 Rhyw ariandai yr Hendwr.  
 Ar gedym eurgae ydwyd,  
 Aur egin, llew o'r Gŵn Llwyd.  
 Dwyn iach blodeuyn uchaf,  
 24 Eich gwaed yn gyfuwch a gaf.  
 Yn y tir iawn yt arwain,  
 Esgair ymysg aur a main.  
 Llawnwaith—pwy o'r holl ynys  
 28 Mor lân ei fwrdd?—mawr ei lys.  
 Dy neuadd deg dan wýdd dôl,—  
 Drych i Wynedd drwy'i chanol.  
 Dwrn eryr dewr a'n eurodd  
 32 Arfon draw, erfyn dy rodd.

Mae i Huw ap Rhys lys laswen,  
 A phyrth heb huling i'w phen.

36 Uwch ei mur un cochl ni myn  
 Na rhwydwellt braff, na rhedyn.  
 Diddos, aberffos, ni bu  
 Do brwynwellt wedi braenu  
 40 Fai'n gysgod—fain i'w gwisgaw  
 Faich da, 'n drwm—i uwchdan draw.  
 Cael neuadd, tad cynnal tŷ,  
 Cwyn hwn a'i daid cyn hynny.  
 44 Henaidd do hon oedd dywell;  
 Ysglatys wisg gled sy well:  
 To glaswyn, tew eglwyswaith,  
 Tân a gwynt nis tyn o'u gwaith;  
 Myrdd yn y gist, murddun gallt,  
 48 Main ysgwâr 'mynwes gorallt;  
 Llun tonnau llyn at Ionawr,  
 Lliwdrem iâ fal llwydrew mawr;  
 Lle bai'n dew oll heb un don,  
 52 Llai'r awch mantell o wreichion;  
 Bleidwaith had, blad a thewdwr,  
 Brigawns tew nis bwrw gwns tŵr.

56 Lowri hirwen, loer Harri,  
 Lân hael, oleuwen, yw hi,  
 Main eglwysliw mewn glaswlith,  
 Main nadd i neuadd ei nith.  
 60 Ei llaw eurdrom llawerdraul,  
 Ei lliw fal y gannwyll haul.  
 Ar hon, ei gair yw hynny,  
 Gerrig o fron y graig fry.  
 Hawl y wlad, hael oleudeg,  
 64 Hi fyn eu dwyn i hafn deg.  
 Dug merch oleudeg y main,  
 Dau a rifwyd o Rufain,  
 A cherrig gan ferch hirwen  
 68 O ddŵr yn nhir 'Werddon hen.

Meistr Wiliam, mae ais Droelys,  
 Mae hap rhodd i Huw ap Rhys.  
 Nid rhif hynod, trof hynny,  
 72 Ond hyn êl ar ben y tŷ.  
 Doir â'i long i dir y wlad;  
 O'u dwyn, llaw Dduw amdanad!

*Ffynonellau*

A—Pen 100, 477 B—Llst 133, rhif 150 C—BL Add 14901, 23<sup>r</sup> D—CM 12, 457

*Amrywiadau*

1 *B* doed ei., *D* ..da dorriad 3 *AB* ..fel.. 5 *A–D* i.. 6 *AC* ..i., *B* ..y pennau n..  
 12 *D* ..wnait.. 16 *D* ..fost wyt., *ABC* ..ynghwch wiliam.. 18 *C* dewrwas.,  
*ABC* ..tros.. 23 *D* ..ach.. 28 *D* ..ai lys 30 *B* drych Wynedd.. 35 *B* ..un coch..  
 39 *B* ..fin.. 40 *A–D* faych dan drwm., *D* ..i fwch dan.. 41 *D* ..calon ty 42 *C*  
 ..i daid.. 46 *A–D* ..oi gwaith 50 *A* ..fel.. 53 *ABC* bleidwaith blad 54 *A–D*  
 brigans., *C* ..gwrs.. 63 *D* ..haul.. 64 *ABC* hi a fyn., *D* ..ei dwyn 65 *D* ..ei  
 main 68 *ABC* ..yn hir.. 70 *D* a hap rhos.. 74 *AC* yw., *BD* iw..

*Moliant Ynys Môn*

- Ple trig y pendefigion?  
 Pebyll y medd pob lle 'Môn.  
 Un llun yw'r tir meillionaur,  
 4      Wyneb y wlad, â nobl aur.  
       Lle di-drist, llaw Duw drosti,  
       Llun haul, fal perllan yw hi.  
       Mae'n gaer llu mewn gorllewin,  
 8      Môr sydd gylch am orsedd gwin.  
       Mae dŵr mawr am dir meirion,  
       Mam y tair talaith yw Môn:  
       Lle brigog lle bai ragor,  
 12     Llwyn mâl yn droell 'n y môr.  
       Dwg yno rad Duw'n ei gryd,  
       Da llawn ei Dywell Ynys;  
       Gwlad gron mewn golud a gras,  
 16     Gerlant yn y môr gwyrilas.
- Yn ystôr, ynys dirion,  
       Y saint a fu'n dewis hon.  
       Tir yn grwn, tirionog rodd,  
 20     Teyrn Iesu a'i tyrnasodd.  
       O dri achos, edrychynt,  
       Y bu'n fam i Gymru gynt:  
       Fry yn honno frenhiniaeth  
 24     Holl Gymru a fu ar faeth.  
       Os gwŷr i ras y Goron,  
       Os meirch, mwyaf urddas Môn.  
       Ni thorred cyfraith Harri  
 28     Na'i sêl yn ei chwmpas hi.  
       Ni thrig, ni thyr o agos,  
       I'r tir neb a rotio'r nos.  
       Ni ddeiryd gwledydd oerion  
 32     Ar olud teg i'r wlad hon:  
       ÿd ar goll o'u daear gynt,  
       Od oedd, heb ddyrnaid iddynt,  
       Ir y caem ÿd o'r cymydau,  
 36     A Duw ei hun wedi'i hau.



Da lluniodd, wlad y llawnion,  
 Duw mawr chwe chwmwd ym Môn:  
 Un yw gardd, enw ag urddas,  
 40 Ym Môn o lan Menai las;  
 Wrth fwrdd cwmwd Malltraeth faith  
 Y troed teilwng tair talaith;  
 Nofies cyn geni Iesu  
 44 Neifion i Lifon â'i lu,  
 —A chwmwd hen, perchen parch,  
 Gwynfyd tir Arglwydd Gynfarch—  
 A thir a ddoeth â'i fwriad,  
 48 A'i lys yng nghanol y wlad;  
 Cwmwd mawr, caem wawd a medd  
 Cynan, uchelfainc Gwynedd;  
 Afrlladen aur, llydan wiw,  
 52 A 'sodes Iesu ydiw.

Mae pob peth, difeth dyfiad,  
 Maenol wych, yma'n y wlad:  
 Tai â gwnïad teg newydd,  
 56 Templau saint amal iawn sydd;  
 Gweilch, ieirll yn dwyn eurglych oedd,  
 Gwenith amal a gwinoedd,  
 A'r beirdd mawr fal yn llawr llys  
 60 A fu 'Môn, y Fam Ynys.  
 Llyisiau trwyddi'n llenwi'r llawr  
 Mewn gwyrthfaich, a main gwerthfawr;  
 Tro môr hallt, tra mawr yw hi,  
 64 Main nadd ym mhob man iddi;  
 Grwn, a theg pob grawn o'i thir,  
 Gorau ordor a gweirdir;  
 Pasg ogyrch, pysg o eigion,  
 68 Croyw a hallt fo'u cair o hon;  
 Gweled adar gwlad Idwal,  
 Gwylltion a dofion, i'w dal;  
 Da carnol breiniol o bris,  
 72 Da parod, Duw a'u peris.

Ni lwydodd oll 'n y wlad dda,  
 Larder canmil o wyrda.  
 Cludwn i'w thai clod ni thyr,  
 76 Clawr gwastad clêr a gwestwyr.  
 Tylodion cant o wledydd  
 Trwy Fôn, eu hen gartref, fydd.

- 80 Nid âi'n hil, ond gwehilion,  
I'n byw fyth oni bai Fôn.
- 84 Cybi, Seiriell, ddiogel ddawn,  
Eilian, Dwynwen, wlad uniawn,  
Llun y wlad, llawn, oludog,  
Llyna groes mal llun y Grog.
- 88 Iesu, n'ad o'i ras i neb  
Edrych yno drychineb,  
Na tân marwolaeth yno  
Ar Fôn byth, erfyn na bo.  
Rhad aml lle rho Duw yma  
Ym Môn i'r dynion a'r da.

*Ffynonellau*

A—BL Add 14978, 24<sup>v</sup> B—Llst 125, 250 C—LIGC 5273D, 61<sup>r</sup> D—  
Bodewryd 2, 44 E—LIGC 6499B, 681 F—LIGC 832E, 1 G—LIGC  
1024D, 5 H—BL Add 31078, 190<sup>v</sup> I—Bangor 5946, 30 J—Bangor 13829,  
38

*Amrywiadau*

1 *F* ..ein.. 2 *D* be ballau medd.., *F* pebyll medd pob lle yw... *J* pebyll medd...  
*CI* ..a medd.., *ACEG-J* ..y mon 3 *I* byd llon.. 4 *D* ..fal.., *I* ..ar.., *C* ..fal nobleu  
aur, *B* ..nobel.., *F* ..o aur 5 *E* ..ddidrist..Dduw.. 6 *I* llyn hardd.., *CFI* ..mal.., *J*  
..fel pellen.. 7 *F* main.., *EGH* ..gair.., *CDF* ..min.. 9 *J* mae r.., *C* ..mirion, *D-  
GI* ..Meirion 11 *ABEG* ..llel.., *F* ..bu.. 12 *D* ..mal troell.., *IJ* ..mel.. 13 *C*  
..duw gwyn a rys, *D* ..Duw rys, *F* ..Duw gwynn rys 14 *B* ..llawen.., *I* ..y.., *A-  
I* ..dowyll.. 15 *H* ..gron golud.., *D* ..golud gras 16 *CE* garlant.., *D* gardd  
lawn.., *F* garddlant.., *I* garland.., *DFI* ..gwyrddlas, *ABEGH* ..gwirlas, *C*  
..gwrlas 18 *E* ..y sy yn.., *DG* ..sy yn.. 19 *D* ..trionog.., *I* ..tariannog.. 21 *J* ..yr  
edrychynt 22 *CDF* i bv fam.., *I* ei bod yn fam gymmen gynt, *H* ..fam  
Gymru.. 23 *I* un hoyw fal brenhinaeth, *CF/D* fry n / try yn honn fal y.. 24 *I*  
ei gemmau.., *E* ..Gymru fu.. 25 *D* oes.., *CD* ..dann ras.. 26 *D* oes.., *A-CEG-  
J* ..mwy.., *D* ..mwy.., *F* ..mwy yw.., *G* ..y Mon 27 *D* ..thorre.. 29 *D* ni thriaa  
eithr o achos, *CF* ..eithr.., *I* ..ai nyth oer agos, *J* ..thyr agos 30 *D* ..rodia r..,  
*EFGI* ..rodio r.. 31 *D* ni ddewyd.. 32 *CF* ..olvd hir.., *D* ..olud neb.., *E* ..y  
wlad.. 33 *C*..ar y goll.., *D* ..ddaear.., *F* ..ai da yr gynt 34 *D* yd  
oedd..ddyniad.., *FJ* ydoedd.. 35 *D* tir.., *F* caem.., *H* ar.., *I* ni gaem yd.., *J* ini  
caem yd on.. 36 *CDJ* ..wedi hau 37 *A-CEGHJ* da y.., *D* da llanwodd.., *F* da  
lloniwyd.., *I* ..a dull union 38 *I* ..y chwe.., *B-FIJ* ..chwmd Mon, *H* ..chwe  
chnwd Mon 39 *D* a i dw gwirddawn ag urddas, *CIJ* ..enwog vrddas 40 *D*  
Mon a r lan.., *CFI* ..ar lann.., *EG* ..o lai.. 41 *E* wr y fyrdd cwmmwd  
Malldraeth, *G* wr y fwrdd.., *J* 43-4, 41-2 42 *CD* yr oedd.., *EG* i tiroedd

teilwng., *F* tir teilwng or., *I* y dae r.dair., *DH* .y tair.. 43 *EG* missies., *H* eisioes., *I* nosies..geni r., *J* cesid.. 44 *BG* neision., *D* Neif., *J* weision.. 46 *ABEGH* gwnfyd., *CDF* gwn fod i., *I* gwinfardd i., *DEG* ..Cynfarch 47 *C* ..i wriad, *DF* ..i wriad, *I* ..ei fwriad 48 *H* ar.. 49 *C* ..cawn., *D* ..can., *E* ..cawn a medd, *I* ..caem yd.. 50 *BI* ..Wynedd 51 *CDFI* ..yw 52 *D* ddwys wywdeg Iesu ydyw, *HJ* osodes., *CFI* ..ydyw 54 *F* mann olau wych mewn y.. 55 *D* 56–55, *CF/D* tai / ai gwniad teg o., *H* tai gwiniad., *B* ..gwndai., *EG* ..wg newydd 56 *D* mawl y saint yn aml y sydd, *H* teimlaw., *CFI* ..aml y sydd 57 *ABEGHJ* gweilch yn dwyn., *C* ..ieirll dwyn., *D* ..i ieirll dwyn., *H* ..eurgylch.. 58 *D* a.. 59 *DJ* a., *I* ..mal.. 60 *D* fu y Mon., *C* ..y Mon fam., *E–GIJ* ..y Mon.. 61 *D* lle sydd drwyddi n., *H* llyfre., *FI* ..llenwi llawr 62 *A–CEGH* ..gwrthvaych., *D* ..gwrth-faen., *F* ..gwrthfeilch., *I* ..gwerthfaith., *J* ..gwyρθfaeth., *DJ* ..maen., *EG* ..anian.. 63 *CDF* [63–4], *I* mor hallt teg a mawr., *B* tro mawr.. 64 *EG* maen.. 65 *D* crwn..rhan., *I* grawn..grwnn.. 66 *CF* ..ardar., *DI* ..ardal., *G* ..gweindir 67 *I* campus gogau., *CDF* ..agos., *HI* ..pysg eigion 68 *C* croyw neu hall., *D* croyw n hallt a cheir., *F* ..hallt ceir., *CDF* ..yn honn 72 *G* ..a peris 73 *D* oni lwydodd oll y., *G* mi lwyddodd., *I* ni lwydodd yn., *EFJ* ..lwyddodd.. 74 *I* warder.. 75 *C* clown oi thai., *D* clyd yn ei thw., *EG* ..ei thai., *F* ..oi thai., *I* ..i thai.. 76 *D* clauar..y cwestwyr, *B* ..glera a., *J* ..o gwestwyr 78 *D* sir., *J* drwy Fon eurfro gartre., *F* ..eu gartre.. 79 *I* + i, *D* nid all gwledydd tylodion, *F* nid yw n hil., *J* nid ae u hil., *I* nid ai hil di wehilion, *C* ..vn hil.. 80 *D* mor byw., *I* iw.. 81 *C* + ii, *D* + iii, *I* + iv, *D* ..Seiriol diogael., *E* ..Seiriol., *I* ..ddi-gel.. 83 *B* llon..olvdawg, *I* llyna wlad., *J* llyn.. 84 *C/D* llenwi gras er llvn / lun., *F* llenwi r gras er llun., *I* ..fal.. 85 *CDF* Iessu na roed., *I* nod Iesu nad yn oes neb, *B* ..ai ras., *J* ..o ras.. 86 *F* a., *J* ..o drychineb 87 *AB* ..marvolaeth., *FJ* ..farfolaeth., *I* ..na marwolaeth.. 88 *AEGH* arfon., *J* ar Fon na than erfyn na fo, *H* ..ni.. 89 *CEFGI* ..aml rho., *D* ..aml rhoed., *ABJ* ..lleiri.. 90 *I* ..ar dynion..

## i

Tair talaeth eu maeth yw Môn  
Aeth a'r gair eithr y Goron  
O'r un gwaed, (rhain o godiad  
Y Môn) saith Goron a gad.

## ii

os vn gwaed ir ai n godiad  
y mon saith goron a gad

## iii

Or un gwaed i rae n godynt  
Cafodd Môn saith Goron gynt

*iv*

Ni wn i le yn y wlad

I Gybydd neu Leidr gwibiad

*Awdl i Dduw a'r Grog yn Llanfair*

- Ymryson Efa am 'r afal—o'r pren  
 Fu'r pryniad a'r gofal,  
 Ac Adda, da gwyddai dâl,  
 4 A Duw a ddug y dial.
- HaelFab Mair, aur grair, ar y Groes—y'i rhoed,  
 Rhaid oedd brynu pumoes;  
 Hyrddu'n arw, oer fu'r farwloes,  
 8 Hoelion yn greulon 'n y Groes.
- 'R y Groesbawl 'ffernawl ffyrnig—i'w gorddi  
 Ag irddur gwenwynig,  
 A'th weled yn frathedig  
 12 I'th gorff drwy Dy waed a'th gig.
- Dy wythi, frig, a chig a chur—'r y Groes,  
 A gresyn fu'r dolur;  
 D'eurdraed dan frathau gwaetgur,  
 16 Disgleirbryd, mewn penyd pur.
- Duw, pur fu'r dolur a'r dialedd—ddugost  
 Drwy ddygyn a chwerwedd;  
 Dy roi'n uthrfriw'n y diwedd,  
 20 Di-ofn fu yn y dyfn fedd.
- Tydi'n codi o'r cadarn fur,  
 Nid o fodd plant cableiddbur,  
 A chodi'r haul a'r loywloer,  
 24 A pheri'n wag uffern oer.
- Dros D'eurdraed rhedwaed, rhydost—fu'r poenau  
 A'r penyd a ddugost;  
 Dros bumoes ar y Groesbost  
 28 Duw lwyd a dynnwyd yn dost.

Pand oer-dost y'th dynnwyd? Pand â'r drain—garw  
 Rhoi'i goron wieilddrain?  
 Pygan fu, hwyr gredu'r rhain,  
 32 Plaid falais Peilad filain.

Gwthio o'r dall milain trwy'r gwythiau—cwbwl,  
 Cael cabyl ac angau,  
 Gwayw llifeidlas dan D'asau,  
 36 Gelyn dur i'r galon dau.

Tithau ddyw Gwener arteithiwyd—ar gabl,  
 Duw, yn gwbl y'th laddwyd;  
 Tair cether ddur a gurwyd  
 40 Drwy Dy gorff; briwedig wyd.

Yr wyd, y Grog euraid grys,  
 Mewn blin gysur, dolur dwys,  
 Yn ael, Arglwydd ebrwyddloes,  
 44 Yn Llanfair lân i'th ddangos.

Dangosiad Dy wyneb gwridwaed,—Duw flin,  
 Dy f'lynwallt, dioferdraed,  
 A'th gorff oll yn archollwaed  
 48 O'th drem egluraidd i'th draed.

Dy draed yn irwaed dan oerion—frathau,  
 Aberau dafnau a briwiau dyfnion,  
 Y Grog ddisgleirbryd a weryd wirion,  
 52 A mil a notaist am *leu* anudon.

O'r nef, urddastref ddiestron—genedlfawr,  
 Y doethost i'r llawr, friwedig fawrfron;  
 Hyfryd, gwir iechyd, gwreichion—arianlliw,  
 56 Lle'r wyt Ti heddiw lliw aur toddion.

Gwyrthfawr yr allawr, gwreichion—llewyrchus,  
 Garw o gledd dylynus, y Grog, ladd y dynion;  
 Gwnaethost yn fud am *leu* anudon,  
 60 A chwech o'u hanras ni sylfason'.

Ti leddaist y seithfed heb hocedion,  
 Aruth fu eu twyll, yn y weithred hon,  
 Llun Iesu waetgoll â mil o archollion,  
 64 Yn Dad, yn Fab, yn Ysbryd rhadlon.

68 'N iacháu'r crupliaid yn achwyn—cyn dyfod,  
Yn frenin, 'mherod, yn fyw y rhai meirwon;  
Yr ynfyd ddêl i ddanfon—tân fflamgwyr,  
Eglur ei synnwyr, eglurwres union.

72 Yn Llanfair yr wyd, lle i anfon—o bell,  
A gwŷr a'i cymell gydag aur ceimion;  
D'arwain a wnair dirion ynys drwyddi  
I 'gluro g'leuni i g'lonnau'r g'lynion;  
Gwisgwyd, bendigwyd gwirion—sidangrys,  
GwirFab moliannus, ag aur fain m'lynion.

76 Rhwymwyd gwir broffwyd â garw breiffion—gebystrau,  
A thorri'r cymalau dan friwiau'r fron,  
A'th wyneb yn waedrestr a than farn estron,  
A lladrad gwerylad, a llid Herod greulon,  
A syched yniâl yn lladd dy galon  
80 Pan oeddut ar y Grog dros Gristnogion.

84 Yno'r addewis un o'r Iddeon  
Y finegr llygredig a bustl gwenwynig,  
Ac iraid ar ei frig, a'i roi gar dy fron;  
Wylodd Mair; llithrodd dros ei llathraidd—ruddiau  
Gwedi'r dŵr golau gwaed o du'r galon.

88 Ein Harglwydd gwiwddoeth, n'ad ni yn noethion  
I uffern y bradwyr a'i ffyrnau brydion;  
Ofn uffern gaead a'i mwg afradlon,  
A'i lliw ystyfnig a'i llewys dyfnion,  
Ofn y farn gadarn a gyfyd—pob dyn,  
Ac ofn ein gelyn rhag hyn o holion.

92 Pan fych, wirionwych, ar yr union—enfys,  
Yn Arglwydd gwaetgrys, cofus, cyfion,  
Er D'wryd ar Groes, er dirion—erchyll,  
Er Dy waed yn fentyll ar offernddryll ffon,

96 Er ffrydwaed Dy dâl, er brath Dy galon,  
Er Dy gur yniâl yn rhwym wrth golon,  
Er D'ysgyrsiad, gabliad gwbl, Iôn,—o archollau,  
Er Dy ddoluriau, er Dy ddwylo oerion,  
100 Er D'ofid o'th gorff, er D'afon—o'th draed,  
Er Dy ffriw'n gleiswaed, er Dy ffymig loesion,

104 Na ddod ni drwy ffenestr i farn estron—ffyrnig,  
 Nac i dân cenllystig na'i gerrig geirwon;  
 Cadw ni rhag y cythraul a'i hocedion,  
 Trwm wy', wŷr lesse, tor yr ymryson.

Ymryson Efa am 'r afal, &c.

*Ffynonellau*

A—LIGC 435B, 75<sup>r</sup> B—LIGC 1553A, 251 C—LIGC 6209E, 221 D—Llst 122, 299 E—BL Add 31056, 187<sup>r</sup>

*Amrywiadau*

1 BC ..ar prenn 2 AD a fvr.. 3 AD ..da i., A–D ..gwydde., E ..gwyddav.. 4 B gan Dduw..y ddial 5 BCE mab., A ..mab., ADE ..evrgrair., D ..a rhoed, E ..yroed 7 BCE ..arwloes 8 A ..yn groes, E ..yw groes 9 A–D ..i gorddi, E ..i gordd 10 AD ..vrddvr., E ..oerddwr.. 12 A–D dy gorff ath waed.. 15 E ..dan frath.. 16 D disglair bryd.. 17 E ..dolor dialedd., D ..dialedd., A–E ..a ddvgost 18 AD ..ddygyn boen.. 20 AD dy ofn a fv., E dy ofn fv.. 21 A ..kadarn oer fedd, DE ..cadarn fedd 22 AD ..kabyleidd boer, E ..cableidd loer 25 BC ..oerdraed.. 26 D ..dvgost 29 A pan., D ..ar ddrain.. 30 AD a rroi goron., BCE a rhoi coron.. 31 BC plygai lu hwyr gredai r rhain, E pygan lu.. 32 E ..pilad., A ..fvlain 33 E gwthiav r.gwbl, D ..trwy gwthiav.. 34 A ..kabyll angav 36 E gwielyn., AD ..drwy galon.. 37 E ..ddydd..arteithiwydd., BCD ..a arteithiwyd.. 38 BCE yn gwbl.. 39 BC ..dur.. 40 A ..briwiedig.. 41 BCE ir wyd.. 42 AD ..loes 43 BCE ..dolorloes 46 E ..felen.. 48 E ath..ath.. 49 E ..dan derion.. 50 B/C a bare ddafneu y prifwyd/briwie dyfnion, E a barav.. 51 D y gwr., E ..i wirion 52 A–E ..am lae.. 55 BCE hefyd., E ..wir.. 56 AD ..rwyd heddiw.. 57 BC gwrfawr., E gwrthfawr ar y llawr.. 58 ACD ..ogledd.. 59 A–E ..am lae.. 60 B chwech ac oi anras sefyllason 61 ADE ti a., BC di a., A ..hobedion 62 E aruthr.. 63 B ..archolion 65 A ..krvplaid., C ..kryplaid., E ..y cryplaid.. 66 B ynn fwy r ymward., BCE ..ynn fyw rhai., D ..yn yr ai meirwon 67 BCE [67], AD ..a ddel.. 68 A–E eglwr fydd i.. 69 E ..llai anfon.. 70 AD y gwir., E a gwr.cainon 71 E ag arwain., A ..a wnai.. 72 AD ..galonav gylynyon 74 BCE ..aur melynion 76 A ..klymav., AD ..dy fron.. 77 AD ..waedrest.. 80 A–E ..groes.. 84 BE ..llidiodd..llariaidd.. 85 A gwedi dwr., BCE ..y gwaed or galon 87 E ..vffern brudwyr.. 89 A a.. 90 AD ..i kyfyd., E ..bob.. 91 AD ag ofni., E ..hoelion 92 BC ..ar yr enfys 94 E ..wrid., A–E ..ar y groes er dy dirion.. 95 A ..y fferddyryll., C ..vffern dryll., E ..yfferddill.. 96 BCE ..a brath.. 97 E ..anial., BC ..wrth y.. 98 ADE ..dy siarssiad., D ..cabliad., AD ..kwbwl iawn archollav, BCE ..iawn.. 101 BC er dy ddiffriw yn., D er ffririw.. 102 B nad ddod., C nadodd., AD ..ffenest., A ..estron 103 E ..genllysdig., BC ..nac i., AD ..oerion 104 A–D ..kythrel., E ..cythrael ai holl.. 105 ADE ..wir Iesv..



16  
*I'r Grog*

Duw, 'r wirGrog, ydyw'r eurgrair  
Sydd fab i'r Arglwyddes Fair,  
A'r Iesu, eiriau oesir,  
4 Yw'r Grog adwyog waed ir;  
Un Duw a roed yn Dy wres  
I fro Gwen-frewy gynnes.  
Ias ddolur, Iesu ddulwyd,  
8 Uwchben Urddonen rhudd wyd:  
Dirwy Dy loes dŵr Dy wlith,  
Duw, gareglwîn Dy Groglith,  
A'r afon ir a yfid  
12 Â lliw'r Groes oll ar ei gwrid.  
Ager a sens i'n gwresáu,  
Arogl oedd i'r gweliâu.  
Graen aruth fu'i gur i'r nawradd;  
16 Gan Dy loes, a'r gwayw'n Dy ladd,  
Creigiau'n us, cerrig, a wnâi,  
Coedydd, pob cainc a wydai;  
Heli, lloer a haul llariaidd,  
20 Daear gron a dorrai'i gwraidd.

Gŵr marwol gwâr ymorwedd,  
Gwŷr byw yn agor y bedd.  
Tost a graen, tewaist, y Grog,  
24 Tridiau yn y tir oediog.  
Un dyddiol yn dioddef  
Â chnawd noeth uchod o nef.  
Dydd antur a fesurwyd,  
28 A dydd cyfrifol Duw wyd  
I'n dwyn yn ôl Dy eni  
Allan o'r tân lle'r aud Ti.  
A'r ddeudan hen, e ddwedynt,  
32 Un i'th gorff, yn oddaith gynt,  
A tân rhyfelboeth a iaf  
A rôl oddaith ar Addaf.  
Oer fyddai, ni ryfeddir,  
36 Od âi'r tân yn D'wryd hir.

Nid âi *i* laesgorff dylogi,  
Ni rannai'r tân arnat ti.

40 Arwydd gloyw ar rudd a glas,  
A'r dydd elw, euraid ddulas,  
Tost wÿdd yn dwyn tyst uddun,  
Tlawd yr ordeiniwyd dy lun.  
44 At olud aur, gŵr tlawd wyd,  
A thad pob coweth ydwyd.  
Triphren oedd Groes bumoes byd,  
A theiroel hir i'th wryd.  
48 Un Mab wyd yn y bydoedd,  
Yn dri dy gyfiawnder oedd.

Y gŵr du i'r dryglu draw  
A'th werthodd,—bydd waeth wrthaw.  
52 Fo'th rifai i waith yr afal  
*Er* deg ar hugain ar dâl.  
Anardd oedd iddo inni  
Roi'r newid hon arnat ti.

56 Drwy bumwaith, Mab perffaith pêr,  
Duw, tynnwyd Dy waed tyner,  
A phum ffrwd croes i'th loes led  
I'th gerygl, wythi 'gored;  
60 Gwrid angau'n gleisiau'n y glyn,  
Garw yw gloes y Grog laswyn.  
A'th ddelw yn noeth a hoeliwyd,  
A las, yn y capel wyd:  
64 Y berrau'n groes mewn barn grog;  
I'th grys, o wythi gwresog,  
Duw a'i raff waed ar ei ffon,  
Doeth hwylus waed o'th hoelion:  
68 Aber o'th fron o'r brath fry  
O waed ebrwydd hyd obry;  
Duw'n gwaedu, dinag ydwyd,  
Daear a nef, dirIon wyd.

72 Lle da a weithiwyd lle doethost,  
Llun Duw a'i erchyll yn dost:  
Iesu wyn *rhwing* ais y wal,  
Wyd ar Groes o dŵr grisial.  
76 Nid â gw lith na dŵr na glaw  
I'r tyddyn yr wyt iddaw;

80

Ni wnâi un wlad, yn iaen las,  
 Own i deml a wnâi Domas.  
 Di-gryn adeila Di i'r Grog  
 Dŷ gloyw, Mab Duw gweliog.  
 Gwna gartref yn y nefoedd  
 Iddo lys, dy feddwl oedd.

*Ffynhonnell*  
 B 14999, 84<sup>r</sup>

*Darlleniadau'r llawysgrif*

1 ..evgrair 3 ..eirie oisir 4 ..adwog.. 7 iaas o.. 8 ..aurddenen.. 9 dirwydloes..  
 10 ..gareglwyn.. 12 a lliw groes.. 13 ..in gwes au 15 gyraen..vu gyrir.. 16 gen  
 dyloes.. 17 kyreigiau.. 18 ..bob..wydai 20 ..dorei gwraidd 21 ..am orwedd  
 23 ..ac graen.. 24 tri diav.. 26 ..chynawd..iched.. 27 ..na dur.. 29 ..deni  
 30 ..lle rau ti 31 ..a ddwedynt 32 vn ai ith.. 36 o dair..yn dwridtir 37 nid ai  
 lays.. 38 ..ranner.. 42 ..ordeniwyd.. 43 adolud.. 44 ..bob.. 46 ..wrid 51 foth  
 rife.. 52 ir dec ar hvn gain.. 55 ..perffeithper 59 ..yngyleisiau yn glyn 60 ..y  
 groeg.. 61 ..holiwyd 64 ith gyrys.. 66 doeth i haylys..holionn 67 a ber..  
 73 ..rwgais.. 74 ..or dwr.. 79 ..dy r grog

17  
*Teyrnog Sant*

- Trisant a fydd tra oesir:  
Teyrnog, Pedrog, Cynog hir;  
Tri teilwng at ryw talaith,  
4 Tri phaun *ar hon*, tri phen-rhaith.
- Teg angel gwlad Tegeingl gynt,  
Teyrnog, penrhaith wyt arnynt,  
Orwyr Gunedda orhoff,  
8 Ystôr a glain Arwystl Gloff.  
Duw a oeles dy wely,  
Dy wir frawd yw Dier fry.  
Teyrnog, gŵr rhywiog o'r rhiw,  
12 Tudur dy frawd di ydiw.  
Dy frawd ydoedd Dyfrydawg,  
Duw dda'n rhoi dy ddawn yrhawg.  
Brawd Marchell, dirion belldir,  
16 Banhadl-wen, gwna'r byw'n hoedl hir.  
Ni chair dros un gŵr a chant  
Ond un gŵr; Duw yw'n gwarant.  
Barn meibion o'i fron un fryd,  
20 Brychan, a bair ynn iechyd.  
Dawn oedd, yn frodyr dy nain,  
Da'u rhagor, dau ar hugain.  
Naf a'u heurodd, Nef hirwen,  
24 Nerth wyd o Einion Yrth hen.  
Oes dim uwch no'th urddas di,  
Wir Dduwnawdd, ar ddaioni?
- Y Gwyddel, bydd drwg iddaw,  
28 Y dyn a'i lid yn ei law,  
Doeth ar hanner d'offeren,  
Drud bwnc, i dorri dy ben.  
Afraid oedd ei fryd iddaw,  
32 Afrwydd oedd ei dramgwydd draw.  
Ar ei gweryl 'r âi Geram,  
Annoeth o gof, e wnaeth gam.  
Dros gam, heb droi ysgemydd,  
36 Deigr a phoen a'i dug i'r ffydd.

Pwy âi i'r nefoedd? Pen Ifan;  
 Pen Teyrnog ddyledog lân.  
 Ceraint pawb yn y coroedd,  
 40 Cefnder yt, cyfiawnder oedd,  
 Einion, Meirion, a mawrwaith,  
 Seiriol cun sydd un o'r saith.  
 Plant Ithel sydd angel saint,  
 44 Da yn Nuw yw dy neiaint.  
 Cyfylder lliw, cai fordon,  
 Cawn *Dewi un* waed cannaid Non.  
 Ennyn y ffydd yn un ffordd,  
 48 Lugorn y ddwy olygordd.  
 Nid oes glwyf na dwys glefyd,  
 Na gwayw yn boen gan y byd,  
 Na gofid, na gwayw afiach,  
 52 Nas gwnaud yn ei wysg yn iach.  
 Gwae a'i dug, y gwayw dygyrch,  
 Gar dy gôr, gwareda gyrch,  
 A'th *lan* sy berffaith o lu,  
 56 A'th ras a wnaeth yr Iesu.

N'ad i'th blwyf un adwyth blin,  
 Na braw gŵr, na briw gerwin.  
 Teilwng wyt o wehelyth,  
 60 N'ad o'i *fewn un* niwed fyth.  
 Dy grys fal dagrau Iesu,  
 Da, 'r enaid, oedd o rew du.  
 On'd o ddirwest oedd warant  
 64 (Nid o ran swydd) yr aud yn sant?  
 Gwaedol bonheddig ydwyd,  
 A sant mawr ei urddas wyd.  
 Bu dy ran heb waed Ronwen  
 68 Hyd Duw, sant, wŵyr Brutus hen.  
 Cadwyn bren o'r [            ],  
 A'i lu o'th frenhinol waed.  
 Dy nerth oll rhag dŵr a than  
 72 Dwyoes a gatwo'r dean,  
 A cheidwad heddwch ydwyd  
 I bob dyn, cloch Dyffryn Clwyd.

O ran saint yr ynys hon,  
 76 I ni'r oedd yn arwyddion.  
 Trwbl yn troi *trwy'r* blaned rhôm,  
 Teyrnog, n'ad ddrygfaint arnom,

80                   A'th grair yn benrhaith i Gred,  
                       A'th wyl y down i'th weled,  
                       A'th weled heb feth eilwaith  
                       A wnawn o fewn y nef faith.

*Ffynonellau*

A—BL Add 14999, 70<sup>v</sup> B—Bodley Welsh f 4, 173 (llau. 1–54) C—LIGC 2010B [= Pant 42], 319 (llau. 1–54)

*Amrywiadau*

1 *BC* ..saint., *B* ..a sydd., *C* ..y sydd.. 2 *ABC* tyrnog.. 3 *A* ..teilwg.. 4 *A* tri ffin arrhwyn., *B* tri sain a rown., *C* ..a rown.. 5 *A* ..glad tegangl.. 6 *ABC* tyrnog., *AB* ..wyd.. 7 *A* o wyr gene dda., *BC* ..genau da goroff 8 *A* ysdar a glin arwystyr., *B* ..arwystr.. 11 *ABC* tyrnog., *BC* ..wr.. 12 *A* ..dyfrwd ti.. 15 *C* braw.. 16 *BC* banadlwen., *A* ..gwna y., *BC* ..gwnawn byw n., *B* ..hoedlir 17 *A* ni char.. 19 *A* barn e meibion..vn fryde 20 *A* ..a barn i iechyd 21 *A* 22–21 22 *A* da ir hagog.. 23 *A* ..hir wen 24 *A* nerthwyd o einon yrthen, *B* ..Einion ierth.. 26 *A* wyr.. 30 *A* drug.. 33 *A* ..geran 34 *BC* a noeth oi gof., *A* ..a wnaeth gan 35 *A* dros igan., *B* dros i gam.. 37 *AB* pwy air., *C* ..ai i..Ieuan, *B* ..pen fuan 38 *ABC* ..tyrnog.. 40 *A* ..kyfiawyder.. 41 *BC* Simon., *B* ..amhwrwaith 42 *C* Seirioel.. 43 *A* ..angelsant 44 *A* ..ydiw.. 45 *BC* cyfyrdyr liw., *A* ..lliw k[ ] fordon 46 *ABC* kawndy iawn waed., *BC* ..canid Non 47 *B* yn un., *C* un yn.. 48 *BC* ..i ddwy., *C* ..welygordd 49 *AB* ..glwy.. 50 *C* ..gwayw n y boen.. 51 *B* ..gofid gwayw.. 52 *B* nas gwnaid i ni wisc yn iach, *C* nas gwnaud di n wisci n iach 54 *ABC* ..gwared a.. 55 a than.. 57 ..blwy.. 59 teilwg wyd.. 60 ..ffawn newed.. 63 ..oed.. 64 ..swyd.. 65 gwadol bohedig.. 66 ..maw.. 67 ..wed.. 69 ..or kiawaed 74 ..deffryn.. 77 ..drwy r.. 78 tyrnog.. 82 a wna o fewn..

18  
*Awdl i Wenfrewy*

- Gwenfrewy, Duw fry, gwaed y fron,—mor debyg  
Ydyw'r aber i'r ffynnon;  
A gwaed rhudd yw godre hon,  
4 A'r gweryd, a'r main geirwon.
- Geirwon fantellfrig, ei gwerin—a bryn,  
Fal bron Saint y Catrin;  
8 Glwyswaed o'i mwnwgl iesin,  
Gwared gair o'r gwridog win.
- Llawnwîn ffons yn llenwi'n un ffair,—llu'n nofio'n  
Llyn afon y byddair;  
12 Lloer wingrofft, llawr ariangrair,  
Llwyth o fryn nef, llaeth o fron Mair.
- Mae'r dagrau mor deg 'r y main—o bryder,  
Baradwys holl Brydain;  
16 Dynion rhi', dôn' yno, 'r rhain,  
Dri rhif rhwng dorau Rhufain.
- Mawr yw'r gwyrthiau brau gwedi'i briwo—a wnaeth  
Nith ferch chwaer i Feuno:  
20 Troi gloywddwr, triagl iddo,  
Trwy grai gnwd daear a gro.
- Drwy y gro a'r dŵr a'r graean  
Y dôi weddi braff, nid oedd brin;  
24 Duw a rô'i i hoed ar y dŵr hwn:  
Dau bymtheg teg ydoedd oed hon,  
A diwedd ei hoed ydoedd hyn.
- Wedi hyn, o'r bryn, wir Brynwr—bydoedd  
Â bedydd, yr Ungwr,  
28 Gorau Brenin gwir Brynwr,  
Y gwnâi Dduw y gwin o ddŵr.

- Y dŵr anfoned i Wen—deg Frewy,  
 Dug friwiad bob gwythen;  
 32 Y gwaed pur am y pen,  
 Yr holl waed yw'r afrilladen.
- Afrilladen yw Gwen, a genau—'r Drindod,  
 Ac UnDuw'n archollau;  
 36 Mae'r ffrwd mor braff ei rhadau,  
 Mae gwres *ac* mae mwg o'r grau.
- Drwy hon, dŵr o'r fron wedi'r frawd,—o'i mynwes  
 Mae anadl y Drindawd;  
 40 O dir godre dŵr gwaedrawd,  
 Dwg yn iach enaid a chnawd.
- O law Tomas urddaswin  
 Yr aeth y gost ar waith Gwen:  
 44 Diwan adeilad, da iawn y dylud,  
 Da y darparwyd, iti darperir.
- Pymthecant (mi a'i gw'rantwn)  
 A deuddeg oed oedd Duw gwyn;  
 48 Dwy fodfedd am bunt o'r bont i'r clochdy,  
 O'r ddaear i frig yr eurdderw fry;  
 Deg mil, deg cant yw gwaith y tŷ—'n Sychnant,  
 A deugain rifant i dŷ Gwenfrewy.
- 52 Yn dorchau arian y dŵr a chwery  
 O'r berw graeanwyrdd i'r wybr *i* grynu;  
 Yn rhuad fal tarad' tery—tua'r wybren,  
 Yr Urddonen freuwen, am Wenfrewy.
- 56 Nid rhaid myned heb wared o'r dŵr a bery;  
 Os dyn gwan heinus, fo dynn Gwen hynny;  
 Os brad gan friwiad, Gwenfrewy—a'i barn;  
 Nac un ias gadarn na gwayw nis gedy.
- 60 Y dall a wyl o'i dywyll wely,  
 Y crupl gwan oerddig a gerdd ar i fyny;  
 Y byddar mudwar a 'medy—yn iach,  
 Fo'i clyw'n freuach ar wyl Wenfrewy.



- 64 Llawer enaid dyn ar llawr yn un tŷ,  
Lle doir ag offrwm lliw dŵr a gyffry;  
Lle berwodd ennaint yn llwybraidd ynny,  
Yn llyn y dyffryn llawen y deffry;
- 68 Cyrchu llu ati, llety—llan cleifion,  
Llanwan' yr afon yn llan Wenfrewy.
- O'r berw boglynwyrdd mawr yw'r boglynnu,  
Mae aur ar ei delwau, mor wir y dyly;
- 72 Mae'r gwrthiau mor frau mawr fry—'n Ewropa,  
Mae *mwnai*'r Afia am Wenfrewy.
- Mae'r gwaed yn ei mwnwgl wedi r'gymynu,  
Ni thorrai fo'i heinioes fyth er hynny;
- 76 'Ffernbyrd dybryd hyd obry—a'i llyncodd,  
Ei gelyn friwodd y glân Wenfrewy.

Gwenfrewy, Duw fry, &c.

### *Ffynonellau*

A—Pen 84, 154 B—Pen 184, 80 C—J 138 [= RWM 16], 252<sup>r</sup> D—LIGC 552B, 118<sup>r</sup> E—LIGC 5273D, 32<sup>r</sup>

### *Amrywiadau*

1 *D* ..mor [ ] 3 *D* ..goddre.. 4 *A-D* gweryd ar y.., *CD* ..gwirion 5 *C* gwirion.., *D* gwerion.., *A-D* ..ai bryn 6 *B* ..Sant.. 7 *AB* eglwyswaed.., *C* eglwyswaed mwnwgl.., *E* a.. 8 *E* gwaed..gwardig.., *A-E* ..a gair.., *C* ..ar.., *ABD* ..gweridog.. 9 *CD* llewnwin.., *A-D* ..ffons llenwi.. 10 *E* llann.. 11 *A* ..ewingnofft.., *BC* ..ewingrofft.., *D* ..ewing rwwft.., *E* ..wingorff.. 12 *E* ..llaeth fron aur 13 *A* [ ] dagre..main [ ], *E* ..main breuder 14 *BCD* paradwys.. prydain 15 *A* [ ] don.., *E* ..rhy edon yw r.. 16 *A* [ ] dore.., *E* ..vwch.. 17 *A* ..a brav wedi briw [ ], *B* ..gweithie wedi i.., *C* ..braw gwedi briw.., *D* ..gwrthiav a braw wedi briwo.., *E* ..brau n y bro.. 20 *A* ..gnai gnvd.., *CD* ..gnai.., *E* ..grav grud.. 21 *C* drwy r.., *E* ..y dwfr.. 22 *E* doe gweddi.., *A-D* ..gweddi.. 23 *E* ..dwfr.. 26 *A-D* ..y bydoedd 28 *A-D* ..yn gwir.., *E* ..yw r gwir.. 29 *ABD* ..dduw gwin.. 30 *E* y dwfr.., *B-D* ..a anfoned.., *A* ..i deg wen frewy 31 *D* ..friwad.., *B* ..bod.., *E* ..pob.. 32 *E* ..yw am.. 34 *B* [34–7], *ACD* ..y drindod 35 *E* ar vnduw.. 37 *AC-E* maer gwres maer mwg.. 38 *A* ..wedi r ff[ ], *B* ..ffrawd.., *C* ..ffrwd.., *D* ..fron r frawd.. 39 *AB* yw.., *C* i mae.., *E* ymanadl.. 40 *A* [ ]dir gwaedrawd, *E* ..dwfr.. 41 *A* [ ] yn iach.. 42 *A* [ ] law.., *C* ..urddas-wen 44 *A* [ ]ji wan.., *E* ..dylid 45 *A* [ ] da.., *B-D* a da.., *E* a da darparwyd.., *A-D* ..ag itti y.. 46 *A-D* yn bvmthekant.., *E* yn bynthehcant ni.. 47 *BCE* ..oedd oed.. 49 *A* ..ddair.., *D* ..fri..fryn 50 *B* [ ]ng mil a.., *C-E*

dengmil., *AC* ..a dekant., *E* ..a deucant., *C* ..gwaith ty sychnant, *D* ..sychnan[ ] 51 *C* [51], *ABDE* ..a rifant., *B* ..dv.. 52 *A–D/E* y dwr / y dwfr a chwery yn dorche arian 53 *E* ar..yn grynno, *A–C/D* ..wybyr grynnv / grynv 54 *BC* y rhvad., *B* ..fel., *E* ..taradr., *A–E* ..y tery., *A* ..teav r., *CD* ..trwy r.. 55 *E* vn..i wenfrewy, *D* ..am wenfre[ ] 56 *A–E* ..mynd., *E* ..dwfr.. 57 *D* or dyn., *B* ..gwahan., *AD* ..fo a dyn.. 59 *D* ..ais.. 60 *C* ..a weyl.. 63 *ABD* fo ai.. 64 *ABDE* ..ar lawr.. 65 *D* ..lliw yr dwr., *E* ..dwfr.. 66 *A* ..i yny 67 *E* ..llawer.. 68 *C* ..llv itti.. 69 *E* llanwe r afon.. 70 *D* o., *A* ..boglynwyrd., *A–D* ..boglynnav, *E* ..bolglymu 71 *A* mav., *A–D* ..ydylyn 72 *D* mae gwrthiav.. 73 *A* mae r fwnai afian., *B–D* mae r fwnai arrian., *E* mae r fwyna r., *C* ..ar.. 74 *ABDE* ..yn y mwnwgl., *B* ..wedi r gy[ ], *C* ..wedi gymynv, *D* ..wedir kymynv 75 *E* ni throe.. 76 *A* vfernbyrd., *B* ..an llynkodd 77 *E* elyn., *A–E* ..a friwodd., *BE* ..y lan..

*Awdl i Saint y Catrin*

- Cerdda'r ffordd rwydda', o wreiddyn—mawrddysg,  
 Mau arddel ymddiffyn,  
 O radau, lwyth eurwaed lin,  
 4 Oedd o fron Iddew frenin.
- Catrin, merch brenin, breiniol—y'th aned,  
 A'th henwi yn ddwyfol;  
 Doeth arab dy iaith wrol,  
 8 Gwyro ei hiaith, gwŷr o'i hól.
- I'th ôl, ferch ddwyfol, o ddyfyn—bobl,  
 (Bwy abl i'th erbyn?)  
 A'th groyw hyder i'th gredyn  
 12 Ar ddeau, Dad wirDduw, a dynn.
- Pob un a ddychryn o ddechre'r—Beibl,  
 A'r bobl ni losge;  
 O rad gwyρθ e red gwyρθie  
 16 Croes Duw, yn un Crist o ne'.
- Gras o nef a gwres yn un,  
 A thraw i dŵr a thrwy dân;  
 O'r golwg teg a'r galon,  
 20 Cywira' i Dduw, carai ddy.
- Pob dyn i'th ddilyn, a gweled—grisial,  
 Pen grasol, ffrwyth anghred;  
 I'th ddynion, da pan'th aned,  
 24 Ac i lu Crist olew Cred.
- Holl Gred, eidduned ddynion,—hyd atad,  
 Aed eto b'rerinion;  
 Rhwyd gwrolaeth, rhad greulon,  
 28 'N lladd 'neidiau, lluoedd 'nudson.

Anghyfion 'Ddewon oedd ddiwedd—Catrin,  
 Cytroed mynydd heulwedd;  
 Dygai angylion, degwedd,  
 32 Cwrffwr bun a'r corff i'r bedd.

Bedd rhyfedd, anrhydedd radau—o'r gras,  
 Dinas Mynydd Sinai;  
 Yn anian tân a 'nynnai,  
 36 Yn gerth, Duw, i'r berth y bai.

Perth wen Moesen, y mae eisys—â brig  
 Briwgyrn mynydd anghrys;  
 Moesen a gwympe'n gampus,  
 40 I lanw'r âi'i lu'n ddi-rus.

Dirus ferch gampus ag impyn—Trindod,  
 Tri, unDuw, a brenin;  
 Isel bêr barabl iesin  
 44 Ar Dduw i lawr ar ddau lin.

Ar ddeulin pawb addolent,  
 A thrwy gof, eu hathro gynt;  
 Oel i'th gôr, olew wyth gant,  
 48 Gwaith adar hen gaethdir hwnt.

Awn, dremynt, helynt hylwydd,—*yn* rhydd  
 Er gwydni byd tragwydd;  
 Ar dy wedd rhinwedd mor rhwydd,  
 52 Bryn yn aur, bron yn arwydd.

Pob arwydd mor rhwydd, pob irwydd y ca',  
 Pob crupul, ddydd Sul, dda swrn dyrfa;  
 Pob Mercher, hyder hedan' gynta',  
 56 Pob rhagor i'th gôr a'th gaer noddfa;  
 Pob noddfa i'r cla' rhag clwyf—tan blaid,  
 Pob rhaid corff enaid, dinad wyddfa.

Pob abad, pob cad a ddigwydda  
 Pan ddiffoddo'u lamp ar ddydd eitha';  
 Pawb yna wylia am weled—angel  
 60 A'i henw dan sêl, sawl pwy benna.

64 Er dy hyd, irdeb wyneb eira,  
 Er cur a dolur dilyn gyrfa,  
 Er gwaedrawd y cnawd, cnwd Catrina,  
 Er wyneb gwiriondeb, gwrando arna':  
 Na ad arna' ana', enaid,—Dyddbrawd,  
 68 Rhag sawd oer frawd o fryd Satana.

72 Er gras a gafas, gyfion archfa,  
 Er d'eirie hygle' eglur draetha',  
 Er gwen, grair Mair, merch Leoneisa,  
 Er Iesu a'i welïau penna',  
 Er y penna' enwa', iawnwaed—o fron,  
 I'th berson iach fron, galon rwydda'.

Cerdda'r ffordd rwydda', &c.

### *Ffynonellau*

A—LIGC 6499B, 663 B—Pen 120, 596

### *Amrywiadau*

1 *B* kerdh r ffordh rhwydh., *A* ..rhwydda.. 2 *AB* mae.. 3 *B* ..roday.. 13 *A* ..e ddychryn.. 15 *AB* ..a red.. 16 *B* ..dyw n yn krist.. 17 *B* ..yn yn 19 *B* ar.. 22 *AB* pan.. 24 *B* ..oley kred 25 *A* ..gred ai[ ], *B* ..ai dhined.. 26 *A* [ ] eto.. 28 *A* ..lleoedd., *B* ..lhe oedh.. 30 *B* kytraedh.. 36 *AB* ..bau 37 *AB* ..moesen mae.. 39 *AB* ..gwmpen.. 40 *AB* ..rai lu n.. 46 *AB* ..athro.. 49 *AB* ..hylwydd rhydd 53 *A* ..kaf 54 *AB* ..crupl.. 58 *B* ..dinay wydhva 59 *AB* ..ddigwyddaf 67 *AB* ..anaf.. 68 *B* ..Satna 70 *AB* ..dy eiriau hygleg.. 72 *AB* ..pennaf

20  
*Cywydd merch*

- Hyll yw'n gwaith, hollwn y gwŷdd,  
Hyll yw gwawd a'i holl goedydd.  
Henawr oedd honno i ni;  
4 Hwnt diwreiddiais hon trwyddi.  
Hyfain wisg, hoywfun wysgerdd,  
Honno a gaiff hynny o gerdd.
- Hyddfain nid wy', heddiw nid iach,  
8 Hiraeth a'm gwnaeth yn hwyrach.  
Hir serch heb droi annerch draw,  
Hyn oedd yn fy heneiddiaw.  
Hebog byw heb euog bwyll,  
12 Hedaf at 'y nyn hydwyll.  
Hudo dyn, un hediad wy',  
Hyn oedd feddwl hen Fawddwy.  
Hir ynn oedd herwa y nos,  
16 Hwn nid oedd hun na diddos.  
Hir boen yw herwa beunydd,  
Hwy arna' faich hëyrn fydd.  
Hen wae fi heno yn f'au,  
20 Hyd y fan hwde finnau:  
Hual 'y nhroed â hoelion,  
Hual y serch hoelies hon;  
Holion trwm am helynt rhai,  
24 Hon, Annes, a'u henynnai.  
Hwyr a' swydd i aros hon,  
Heno'r wyf hun yr afon.  
Hwyr y dowch am hir oedau,  
28 Hoyw Annes, fyth, hyn sy fau.
- Hëwyd wyneb hyd Annes  
Helaeth iawn o haul a thes.  
Hir ym ddwyn,—on'd ym mhrin ddail?—  
32 Ha' a gaea', hug wiail.  
Henwais wen, hynaws iaith,  
Hon, gwn ei henw ganwaith:  
Henw 'mun, hëwn ei mawl,  
36 Hi yn bedair henw bydawl.

- Herod bun, hiroed boenau,  
 Hurt iawn wyf, herwa' tan iau:  
 Hwyl ewig wedd haul a gwynt,  
 40 Heliwr a wŷr ei helynt.  
 Heliaf unfodd hael feinferch,  
 Heliais ym â hwyliau serch.  
 Hael ydyw'r ferch, haul drwy f'au,  
 44 Haeddodd morwyn hawdd'morau.  
 Hon a rydd bob hanner awr  
 Heddiw ymy hawddamawr.
- Hun ni chaf, hwy nych ofer,  
 48 Hun eos fach hafnos fer.  
 Hyfryd yw 'y neheufraich  
 Honno fydd heno yn faich.  
 Hynaws ced, hi onis caf,  
 52 Hon, o'i bodd, hen ni byddaf.

*Ffynonellau*

A—Card 2.114 [= RWM 7], 285 B—J 139 [= RWM 14], 191 C—Pen 112, 370

*Amrywiadau*

2 *B* ..a.. 3 *C* [ ] oedd.. 4 *B* ..tiwreiddwas.., *C* ..diwreiddiant..  
 5 *C* ..hoywvain.., *A-C* ..wisgerdd 10 *A* ..fynheneiddiaw 15 *AC* ..herwa nos  
 18 *B* ..arnai faich na.. 19 *B* ..honno.. 20 *B* ..fin.. 21 *B* [21-4] 25 *A* ..swyd..  
 27 *AB* hir.. 29 *C* ..hyd wyneb.. 30 *B* heleth.., *C* ..iawn havl.. 31 *B* ..ond yn  
 rhin.. 33 *B* ..waith 35 *B* ..a mawl 43 *A-C* havl..hael.. 44 *A* ..hawdd  
 ddanmorav, *B* ..hawdd ddanmiorau 46 *C* ..i mi..

21  
*Cywydd merch*

- Gwra mae'r ferch a gerais  
Cor o liw sud, carl o Sais.  
I minnau'r aeth hiraethfyd  
4 Os gwir golli'r maes i gyd.  
Gresyn i ferch gryswn fain  
Garu mêl y gŵr milain.  
Dy roi, 'nyn, mor dirion wyd,  
8 Dan Iddew byrflew barflwyd,  
Ni chai fyth, anwych yw fo,  
Un teg air ond dy guro.
- Na fyn was llibin glinfaw,  
12 Na'i bawen i'th lathrwen law.  
Gwell yt ddyn mwyn cynhwynawl  
Yn ordderch, meddylserch mawl,  
16 No chymryd, gwedd ynfyd gŵr,  
Bryd hasti, briod hwstwr.  
Na châr gwcwallt o alltud,  
Na fyn un bawddyn o'r byd,  
Na dyn celwyddfin cleddfoer,  
20 Na rhuad awen anad' oer.  
Llysa granc, byr afanc bach,  
Llwyd, begergrwyd', gwargrach.
- Y fun f'lenwen, wefr befrfrig,  
24 Liw eiry ar fron, loer aur frig,  
Ai gwir dy fod yn gwra  
(Uchenaid tost!) o chwant da?  
Os gwir hyn, nis ysgoraf,  
28 Onid gwir, f'enaidd a gaf.  
Na fyn arth o ddyn carthgrys  
Â'r henaidd, chwerw, wladaidd chwys.  
Dyn carnflew, byr Iddew bach,  
32 Du rhythdin, gaflgrin, gweflgrach,  
Dyn wen i'w rhoi dano ef,  
Gwyddwn mai drwg y gweddef.  
Gwrthod arddyngrest westai,  
36 Gweddwas caeth, gwae iddi os câi;



Carl hwstwr, gwedd teilwr tom,  
 Carthgwd, trwynffrwd, taranffrom;  
 Twrch bawlyd, hoen hirbryd hin,  
 40 Traws gleddlwfr, goeg trwsgleiddlin;  
 Corn hadlestr gwedd elestr gwyllt,  
 Cul ei ais, c'wely Esyllt;  
 Ci oerdra ffrom, cordarw ffrith,  
 44 Crynwas baw, aelfras bolfrith;  
 Llowdragagl dwrn, grinfagl groenfaw,  
 Llyrfaidd granc, byr afanc baw.

Gwrthod gywely gwrthun  
 48 O'th roddir i ddihir ddyn.  
 Bywyd i'r ferch, dreigserch dro,  
 Bâr Suddas, byrroes iddo,  
 A rhoi'r byrgwd mewn gwden,  
 52 A chwithe i minne, amen.

### *Ffynonellau*

A—BL Add 14967, 67<sup>v</sup> B—LIGC 5269B, 214<sup>v</sup> C—Pen 112, 479 D—LIGC 642B, 141<sup>r</sup> E—LIGC 834B, 282 F—LIGC 6471B, 154 G—LIGC 566B, 48<sup>r</sup> H—BL Add 10313, 39<sup>r</sup> I—Bangor 13512, 252 J—BL Add 31078, 179<sup>v</sup> K—CM 501, 12 L—LIGC 783B, 27

Collwyd rhannau o destun llawysgrifau D, E, F gan fod ymyl y tudalen neu'r ffolio wedi llwydo neu rwygo.

### *Amrywiadau*

2 *G* korluw a syd., *K* korluw a syl., *HL* ..sutt., *F* ..syt.. 3 *A* i nnavr aeth., *J* i miau r. 4 *GK* o gwir.. 5 *GK* gryssyn., *C* ..ir verch., *HL* ..yt ferch.. 6 *F* [ ] mul garu., *GHL* geirie mel garu., *BEI* ..moel.. 7 *F* ..roi yn., *C* ..y nyn., *L* ..y nyn dirion., *D* ..nyn dirion.. 8 *B* i.. 10 *GK* ddun deg aur., *F* ..aur., *A* ..ondygo, *J* ..ond digio 11 *GK* ..ddyn., *K* ..glinsaw 13 *F* ..wr..kynhwyn fawl, *HL* ..wr.. 14 *FI* ..meddylferch., *HL* ..meddygl-serch., *GK* ..mawr 15 *F* 16–15, *BEG-IL* na., *FHL* ..ysbrud gwr 16 *GK* pryd..priod.. 17 *AJ* nach gwkallt., *BEI* nac un kwkwallt., *CD* nach kwkwallt.. 18 *B* ..fynn bawddyn.. 19 *F* ..kelwyddog gweflboer, *GK* ..kwiliddwefl gweflboyr 20 *BEI* rhvad awen., *F* anrhwyddadl ruw anadl oer, *GK* rhuadl arw anadl., *AJ* ..rrvadl.. anadl., *CD* ..anadl.. 22 *H* llwyd fo gyrgrwyd llwfr., *L* llwyd fogurgwyd llwrf gwawrgrach, *BEI* ..a begergrwyd., *F* ..fegergrwyd llwrf gwargrach, *GK* ..fegergrwyd.. 23 *BE* y felenwen., *FGK* fy nun felen wefr., *I* y felynwen..benfrig, *HL* na i gorph oernych gwir ffyrnig, *ACDJ* ..bevrig 24 *BCEFL* lliw..lloer., *H* lliw eira r fron., *I* lli., *FL* ..eira., *GK* ..eira fron

loiw., *D* ..or., *DHI* ..lloer.. 25 *HL* os., *F* na fynn vn anoeth yna 26 *HL* ..a chnawd da 27 *F* [27–8], *BEI* ..nid esgoraf 29 *F* na fynn ath rad ddyn., *H* gwrthod arth o dyn.. 30 *F* arenaidd., *H* or., *GK* ..chwydd.. 31 *L* dyn aulflew., *F* ..krach flew., *GK* ..karthflew., *H* ..culflew.. 32 *F* drythdin., *GK* du rythin., *H* dyn., *J* ..rhychdin., *L* ..rythdin.. 33 *F* 34–3, *C–EIJ* ..yw roi., *F* ..i roi., *H* ..ai rhoi..e 34 *DH* ..gwedde 35 *H* gwrthod ei arddwrn., *I* gwrth arddyrn grefft., *GK* ..arddyrgest.. 36 *B* gweddwas gwae., *F* gwaed was kaeth gwdi os k[ ], *GK/H* gwadwas / gwdwas kaeth gwae di.. 37 *H* cael., *FHK* ..tailiwr.. 38 *H* ..truan ffrwd trwyn ffrom 39 *F* ..hirfryd hun, *GK* ..hen hirfryd hyn, *H* ..hen ysbryd hun 40 *F* [ ] gleddwr koeg trwsgleidd lun, *H* ciw sceddwlwfr coeg ysgwyddlwm, *B* ..gleddwfr., *I* ..gleddfwr..trwgleddlin, *GK* ..leddlwfr trysleidd lyn, *A–EJ* ..trwsgleddlin 41 *H* ..gwydd edlester.. 42 *F* [ ] i ail.. 43 *F* [ ] darw ffrom kor daewffrith, *G/K* ki oyr taer ffrom / ffun n teirffridd, *H* ci oer dewr ffroen cor draw., *BEI* ..kordraw.. 44 *BCEI* krinwas., *F* [ ] rin was., *GK* krinwas bawafllfras bolfrith, *H* trwyn fras baw.. 45 *F* [ ] dwr gagl grinflagl., *G* lodr gagl fwrn., *K* codrgayl fwin., *H* ..gagl grin., *B* ..dwr gringagl., *C–EI* ..dwr.. 46 *F* [ ] lya grank byrr afafank., *GK* lwfwr waidd., *H* llyfr-iaith.. 47 *ACDJ* ..gwrthvyn 48 *C* oth rhoddir., *H* oth yrir ir dihir., *J* ..iddi hir.. 49 *F* ..yt ferch drasserch., *HKL* ..it ferch.. 51 *GK* rhoddi r kayth gwd wrth wden 52 *GK* a hithe., *H* chwithe., *BEI* ..chwithe i minev., *J* ..minneu..

### Trefn

*GK* 1–6, 9–10, 7–8, 11–26, 29–30, 35–40, 43–6, 31–2, + i, 49–52

*H* 1–10, 13–18, 11–12, 21–6, 29–52

*L* 1–10, 13–18, 21–6, 31–2, 49–52

### i

krwydrwas karn krinwas krydd  
 kachiad ki krwydrad koydrydd  
 Ow gwae dy gorff gidag e  
 dilwydd bob man i dele  
 gwae fine ferch anherch gayl  
 fod rhai nith garai ith gayl  
 na bod vn rheudis yswallt  
 ddyn deg yn tynu dy wallt

### Pennawd

*B K*: i athrod rhwng i gariad ag un arall ag yw ddyfalv; *C* kowydd moliant merch ag yw hathrod ar dyn yr oedd i chenedl ar odde i dyweddio iddo; *D I* athrod rhwng Gruffudd ap Ieuan [ap Rhys Llwyd] ar ran i gariad a dyn yr oedd i thylwyth yn i rhoi iddo; *E J* athrod rhwng i gariad a dyn ar oedd ymryd i thylwyth ar i rhoi iddo ag i ddyfalv y kyfaill hwnw; *G* Ethrod; *HL I*

Ferch oedd yn mynd iw phriodi; *I* i athrod rhwn i gariad a Dyn yr oedd i thylwyth am i rhoi iddo

*Awduraeth*

*GK* Siôn ap Hywel ap Llywelyn Fychan; *A-EJ* Siôn ap Hywel Fychan (*ond casgliad o gerddi SHLIF yw'r olaf*); *I* Ifan ap Hywel Fychan (*?gwall am Siôn*); *F* Gruffudd ab Ieuan; *H* Cymro a'i cant; *L* Dienw

*Cywydd merch*

Treio cannoed, troi Conwy,  
 Taro'r wal â'r afal 'r wy',  
 Neu ddyn dall ar fôr allan  
 4 Yn ceisio 'mlusgo i'r lan,  
 Neu w'r a fai saith wryd  
 Mewn y bedd dyfna'n y byd;  
 Gorfedd rhwng iâ a'r garwfaen,  
 8 Gyrru 'mys drwy gwr y maen.

Bwriad serch ac anerchoedd  
 Ar ddyn wen,—anniben oedd.  
 Rhy wen oedd, rho' win iddi,  
 12 Rhy ddu, mi a wn, oeddwn i.  
 Balch fydd merch o'i hanerchion  
 A'i phryd teg, eiliw ffrwd ton.  
 Mab a fydd, awydd awen,  
 16 Mawr ei chwant i gael merch wen.  
 Tybied wrth ei mynd heibio  
 Ei bod yn well nog y bo.  
 Nid hwyrach, gwnnach no gŵr,  
 20 Ei bod o'i mewn yn bwdwr:  
 Bradog liw fydd brodiog len,  
 Bariaeth fydd ar ddyn burwen.

Am degwch Elen wenradd,  
 24 O'i phlegid bu'r llid a'r lladd.  
 Bu'r gad, llawn llwybyrfrad llid,  
 Gamlan drwy ladd ac ymlid,  
 A Gwenhwyfar, gain hoywfaeth,  
 28 Walltfelen, gnawdwen a'i gwnaeth.  
 Ac Efa, ddifwyna' ddyn,  
 Drwch aml, a dorrai orchymyn.  
 Y fad felen oedd benna',  
 32 Un deg, heb un rhinwedd da.

Teg arlwybr fydd draig wybrddydd,  
 Tân llidiog, rhyfelog fydd.

- 36 Na fydd falch, eiliw'r galchwawr,  
Ni phery pryd ennyd awr.  
Ni phery gloywder seren  
Na phryd ond ennyd i wen.
- 40 Ni ddylud, em wedd wiwlan,  
Ddirmygu dyn gloywddu glân.  
Mae i'm bryd innau'n brydferth  
Garu dyn burddu dan berth,  
A chynnal oed mewn coed cyll
- 44 Ein deuwedd, mi a'm dyn dywyll,  
A gochel dyn drem wenlas  
A rôl destun mewn glyn glas.  
Gwell ym un a faco llo,
- 48 Gwawr henaidd, no'r wawr honno.  
Gwell ym gael dyn, diffael don,  
Dywyll ag aelïau duon.  
Gorau i'r mab a garo merch
- 52 Garu hon a gyrru i'w hannerch.

*Ffynonellau*

A—Pen 93, 86 B—LIGC 3037B [= Mos 129], 212 C—CM 22, 49 D—BL Add 14994, 109<sup>v</sup> E—BL Add 14999, 92<sup>v</sup> F—BL Add 14988, 28<sup>r</sup> G—Card 2.114 [= RWM 7], 337 H—Pen 112, 399 I—CM 129, 380 J—L1st 122, 354 K—L1st 122, 351 (llau. 13–26)

*Amrywiadau*

1 *BCE* tori..treio., *DF* curio gan oed treio., *GHI* tori., *J* ..cynoed., *A* ..konwyf, *E* ..kannwy 2 *A* ..rwyf 3 *J* ..or mor.. 4 *J* a fai n ceisio ymlwybro., *A–F* ..ymlvsgo.. 6 *B–FJ* yn y bedd., *EJ* ..mwyaa., *D* ..yn byd 7 *BDF* gorwedd., *B–FJ* ..a garwfaen 8 *D* grymys., *B* ..y mis., *CFJ* ..y mys.. 9 *B–F* bwriais., *G–J* bwrw.. 10 *C* ..ag anniben.. 11 *D* rhy we., *C* ..rhof., *IJ* ..rhown.. 12 *DFI* ..mi wn.. 13 *CDF* ..a fydd., *E* ..ai., *DFK* ..anherchion 14 *D* oi., *B–FK* ..wyneb ffrïw ton 15 *E* ..ddawydd awen 16 *E* ..chant., *B–FJK* ..i garv.. 17 *AB* tybiaid., *EGHI* ..wrth fyned., *J* ..wrth fynd., *DF* ..myned.. 18 *I* ..yn amgen ni bo 19 *C* ..gwrach., *E* ..gwennach., *AEK* ..nai gwr 20 *GH* ..oddi fiewn., *I* ..oddfewn., *B* ..i mewn., *D* ..bwdr 21 *A* brodiawc.. bradawc., *E* baradog..byrudiog., *J* ..o liw brodiog., *B–GIK* ..fal., *GHI* ..llid..llen 22 *BCGHK* barieth., *DF* brraith., *E* baraith., *BCD* ..a fydd.. 23 *DF* yn deg wych.. 24 *D/F* oi / o phelegid i., *AE* ..fv r., *F* ..lid ar ladd 25 *BD/C* bygad / bv gad brvdd llawn llythvr llid, *E* bv ygad brvdd llawn llythyrydd llid, *F* bv god brvdd llawen llythyr llid, *GHI* bv gad rvdd llawn gyfrvdd llid, *J* bv gad brvdd llawn cythrudd llid, *K* ar gad brvdd llawn gythrvdd lid, *A* ..llwybrfad.. 26 *F* gomlan., *C* ..trwy., *J* ..bv ladd.. 27 *D* ..haywvaeth 28 *C* ..gwawdwenn., *E* ..gnowen.. 29 *A* [29–30], *C* a., *BEF*

..addwyna ddyn, *D* ..addwynoc ddyn, *J* ..addwyna o ddyn 30 *D* druch anwyl  
 a drodd i chymyn, *J* trwch., *F* ..a droe.. 31 *GHI* ar., *E* ..vu bena 32 *BCDF*  
 deg., *AJ* yn dec., *EGHI* oedd dec., *B-FJ* ..arwydd.. 33 *A-CE-J* ..ar lwybr.,  
*C* ..a fydd., *E* ..yw r ddraig., *GHI* ..wybyrwydd 34 *C* ton., *D* vanllidiog., *E*  
 ..rryselog., *GH* ..rraf fydd 35 *EJ* na fid..eilw kalchfawr, *J* ..balch., *B/C*  
 ..rryfalch liw / liw r kalchfawr, *DF* ..ry valch liw galchvawr 36 *B* ..y pryd  
 ond., *C* ..r pryd ond., *D* ..ei phryd ond., *J* ..r pryd., *F* ..ond enyd.. 37 *AE*  
 [37-8] 38 *D* ei phryd.. 39 *B-DF-I* ni ddyle., *E* ni ddyly., *J* ni ddyle r., *B*  
 ..y ganaidd wylan, *C* ..gannaid wylan, *D* ..ganaid wiwlan, *F* ..genaid wiwlan,  
*GHI* ..gemwedd wylan, *EJ* ..geinwedd wylan 40 *DEF* ..gloiw du.. 41 *J* mae  
 im bryd myna n., *B* ..ond iw brydferth, *CD* ..o rym brydwerth, *E* ..om grym  
 brydferth, *F* ..o rym brydferth 42 *D* ..cywirddu.. 43 *GH* i gynal., *I* ei gynal  
 oed., *B-DF* ..dan goed., *J* ..dan y coed.. 44 *DF* y dowedd., *I* ein deuoedd  
 awn i dowyll, *G* ..mewn yn dywyll, *H* ..awn i dowyll, *B-FJ* ..bvn.. 45 *A* [45-  
 50], *E* [45-8], *DF* 51-2, *J* ..dyn wen dremlas 47 *BDF* ..lo, *C* ..i llo 48 *DF*  
 wawr.. 49 *CDF* ..vn., *D* ..dyvael., *J* ..difael.. 50 *D* dawydd., *F* dowydd.. 51  
*D* garw., *J* a gore., *B-F* ..i fab.ferch 52 *D* garw..a gyrr., *A* ..gyrv w..

### *Trefn*

*GHI* 1-2, 9-12, + i, 23-8, 31-4, + ii, 19-20, + iii, 39-40, + iv, 21-2, 17-18,  
 43-4  
*J* 1-12, 13-18, 21-2, + v, 23-6, 27-36, + vi, 39-44, 49-52, + vii, 45-6, +  
 viii

### *i*

troea a las gynt trwy loes gwaith  
 troes duw anrrefn trisd anraith

### *ii*

tec wy eira yngayafnos  
 ne farig rrew ar frig rros  
 delw a evrer dal arian  
 deg i fryd loyw hyfryd lan

### *iii*

er ioed amyl ar dy dameg  
 i bwriwyd twyll ar bryd teg  
 dyn wenfwyn damwainfyd  
 dismydliw i ffrw ai ffryd

### *iv*

llawer iewn oll oi ranv  
 awr dda yn y dydd ar ddyn dv

v

gwen y fydd gymmen ag ir  
a thomlyd iawn o theimlir

vi

balchder o bvrder y bydd  
boen dirfawr bvan y derfydd

vii

gorav im pen na dyn wenfwyn  
garv dyn loywdd dan lwyn

viii

Ofer wedi r carv a fv  
a gais enaid gusanu  
o dduw pan elwy ir ddaiar  
a ddaw cof iddi ai car

*Awduraeth*

*ABEFJ* Siôn ap Hywel; *CD* Dienw; *F* Dafydd ap Gwilym; *GHI* Robin Ddu  
(*ychwanegwyd yn J* Robin ddv ai cant medd arall)

23  
Cywydd merch

*Wedi i Dudyr Aled wneythyr y cowyddau ychod* [‘Gofalu heb dŷ heb dâl’, ‘Serch a roes ar chwaer Epyllt’] *ef aeth siarad am danyn a llawer yn i canmol. Ond John ap howel prydydd o emyll ffynnon Wenfrewy a ddywad i Dudyr ganu yn dda iddo i hun ac na chlowsai ef fawr gerdd dda oi waith i verched, ond i wyr. Pa fodd ynte heb r tudyr i cenwch i i ferched. Yno i gwnaeth John ap howel y cowydd hwn.*

- 4 Medra’ o’ m pwyll, mydr o’ m pen,  
Marchwriaeth pob merch hirwen  
Ond un ni wnaeth Duw i neb  
O lun a moddawl wyneb:  
Mae parch yn ei hwyneb hi,  
Mae’n weddus pob man iddi.
- 8 Lliw ar fanwallt lloer feinir,  
Llwyth aur yw hwn, llathraidd hir.  
Disglair dâl, deg afal dydd,  
Dan aur a melfed newydd.  
Edau eurlliw i’w darllain  
12 Yw ael y ferch olau fain.  
Golwg wâr, lliw mwyar llwyn,  
Gloywddu, a mwnwgl addwyn:  
Main byw ym mhen dyn wenglaer,  
16 Muchudd balch ym mrig calch caer.  
Odid fyth, drem loywsyth draidd,  
O’r llu wyneb mor lluniaidd:  
Deurudd fal blodau eirin,  
20 Dau fan goch fal dafnau gwin;  
Mae trwyn moddus gwedduswyn,  
Main, bach, ni bu degach dyn;  
Gwefusau fal mannau’r mêl,  
24 Gwrid brig y cerrig cwrel;  
Pert ddannedd glwys, ddwys ddadl,  
Pur wnion mewn pêr anadl.  
Pwy lathreiddiach? Pleth ruddaur,  
28 Pêr yw blas pob parabl aur,  
A llaw fechan mewn maneg  
A gwenau doeth a gwên deg.



32 Mynwes gan fal rhan o'r haul,  
 Glaerwen, a mwnwgl araul.  
 Dwyfron fy nyn dirion dal  
 Dan grys fal dau faen grisial.  
 36 Ysgwyddau, breichiau un bryd  
 Lluniaidd dan bebyll unyd,  
 A hir yw, fy hoyw riain,  
 Ystlys y ddyn fedrus fain.  
 40 Am ei gwasg, yma'i gwisgwn,  
 Fy llaw i gau felly gwn.  
 Main ydyw'r llaw mewn dŵr llyn,  
 Oes aur am bob bys hirwyn?  
 44 Gorlliw 'winedd bysedd bun,  
 Gwridog mal y grae ydyn'.  
 Esgair dda'i llun i'm bun bach,  
 Ôd unnos nid yw wnnach.  
 48 Perffaith y moldies Iesu  
 Ei ffêr dan ei ffwrwr du.  
 Aur gaenen eira gweunydd  
 Yw'r traed dan ysgarlad rhudd.

52 Dinam, gyfliw ôd Ionawr,  
 Ydyw'r llun o'r iad i'r llawr.  
 Ni chaid tol, a'i gwched hi,  
 Na thwrn amherffaith arni.  
 56 Dug eurlun, ddyn bertlun bach,  
 Nis dug angyles degach.

Ucha' unrhodd, wych anrheg,  
 A ran Duw i riain deg:  
 60 Duw i'w dangos a'i gosyd  
 Uwchben holl degwch y byd.  
 Anrheg y ddyn feindeg fu  
 A roes deheulaw'r Iesu.  
 64 Pwy oedd—mae hap iddi—  
 Mor deg ei hanrheg â hi?

### *Ffynonellau*

A—BL Add 10314, 122 B—BL Add 14866, 106<sup>r</sup> C—BL Add 14880, 35<sup>r</sup>  
 D—BL Add 14880, 38<sup>v</sup> E—BL Add 14999, 91<sup>r</sup> F—BL Add 24980  
 [= RWM 36], 264 G—BL Add 31078, 172<sup>r</sup> H—Bodley Welsh e 7, 26<sup>v</sup> I—  
 Brog (y gyfres gyntaf) 1, 347 J—Brog (y gyfres gyntaf) 2, 218<sup>v</sup> K—Card  
 3.4 [= RWM 5], 252 L—Card 5.44, 160<sup>v</sup> M—Card 2.114 [= RWM 7], 735

N—Card 2.68 [= RWM 19], 710 O—Card 2.40 [= RWM 26], 50 P—Card 4.156 [= RWM 64], 359 Q—Card 2.202 [= RWM 66], 364 R—CM 10, 556 S—CM 27, 319 T—J 101 [= RWM 17], 293 U—LIGC 170C, 119 V—LIGC 560B, 216 W—LIGC 642B, 26<sup>v</sup> X—LIGC 970E [= Merthyr Tudful], 495 Y—LIGC 1246D, 27 Z—LIGC 1260B, 121 a—LIGC 1553A, 188 b—LIGC 9048E, 9<sup>v</sup> (llau. 1–12, 19–26) c—LIGC 11816B, 63<sup>v</sup> d—LIGC 13067B, 41<sup>r</sup> e—LIGC 21290E [= Iolo Aneurin Williams 4], 443 (*collwyd rhannau o'r testun*) f—Llst 47, 354 g—Llst 118, 411 h—Llst 125, 136 i—Llst 134, 271<sup>v</sup> j—Pen 76, 193 k—Pen 312, 21 (*dechrau yn unig*) l—Bangor (Penrhos) 1573, 53

### *Amrywiadau*

1 *GOWXb* medrav..., *SY* medrv..., *HK* mvdr..medra..., *VZh* mydr..medrai..., *I* mudr..madrodd..., *Afc* ..im pwyll..., *HPQ* ..am pwyll..., *M* ..amydr..., *U* ..mydru..., *Ib* ..madrodd..., *K* ..am pen 2 *A* marchwiriaith..., *EJNQ*T marchwrieth..., *H* mayrchwrieth..., *I* marchhwrieth..., *LXfi* merchwriaeth..., *W* marchwraiaeth..., *h* marchwraith..., *E* ..bob..., *DPSYd* ..irwen 3 *G* [3], *D* ..duw..dyn..., *P* ..ni wnn adwen neb, *XI* ..wnaeth dyn..., *AD-FH-NQ-VX-hj-l* ..na neb 4 *Ac* o ddawn..., *MQ* o lyn..., *P* ..na meddwl..., *J* ..aniddawl..., *X* ..moddaw.. 5 *Z* ..parch ei..., *f* ..am i.. 6 *Ac* ..weddaidd..., *EFHNP-RUK* ..bob.. 7 *AHKLNP-RUXcdfil* lliw aur..., *VZh* lliw r aur..., *e* [ ] o aur..., *a* ..aur veinir 8 *Z* [8], *K* llwyth avr tec oedd llathraidd ir, *D-FNP-RUVdh* ..oedd..., *j* ..oed hwn..., *L* ..hon.. 9 *Ac* grisial..., *K* ..tec..., *I* ..dec dal..., *b* ..deg afael ydd, *d* ..tec fal dydd, *BGOSWYk* ..deg fal y..., *HI* ..dw afal..., *NP-RUVZh* ..dwf afal..., *JTag* ..disgleirliw dydd 10 *LXefi* ..velfed.. 11 *c* o dau..., *jl* ..eirlliw..., *DLXefi* ..ai.. 12 *M* ..ael ferch..., *K* ..weinav vain, *D* ..fin 13 *AD-FHKMSYacdgij-l* golwg gwar..., *LXf* golwg lliw gwarr.. 14 *E* goloyw a..., *k* glowddu.. 15 *JTg* maen..., *j* man..., *Ac* dau fain..., *NQRUVZh* ..sy mhenn..., *Dd* ..bvn..., *J* ..ddyn.. 16 *H* mvwchudd fal..., *M* mvchwydd..., *j* mychwydd..., *D* ..ymlith.. 17 *j* odid vydd drem lowsydd draeth, *EISY* ..fydd..., *Fk* ..byth..., *M* ..dreim loywssyd raidd, *I* ..dragowydd draidd, *SY* ..lwysddydd.. 18 *I* or llyn..., *k* allu wyneb..., *j* ar ly..liniaeth 19 *MU* dwy rvdd..., *H* ..mal..., *DKNP-SUVZhkl* ..lliw..., *b* ..liw.. 20 *k* dau ddaf goch.. 21 *Ac* ei thrwyn..., *BDEG-JL-WY-bdf-ikl* a thrwyn..., *X* a thrwy..., *M* ..modd..., *EI* ..gweddus modduswyn, *VYZch* ..gweddvsfwyn, *O* ..wedduswyn, *W* ..gwyn 22 *Ib* mwyn..., *D* ..ni bv n., *P* ..ni fu., *AIMPZ* ..deccach.. 23 *CH/a* gwefysav mannav mel / or mel, *I* genav..or mel, *JKMTdgj* ..a mannae mel, *ADFLNP-RUVXZcephil* ..mannau mel 24 *E* byrig kwrid kerig kwrel, *I* fel bryc..., *e* [ ]kerrig y kwrel, *PU* ..o frig cerrig..., *K* ..brig kerig..., *LXFI* ..brig kerrig y kwrel 25 *AHKNP-RUVZbchl* per..., *E* bert..., *k* byrr..., *f* perton..., *D* ..agwys..., *C* ..perddwys ddadl, *ADbc* ..dwys dadl, *QRUY* ..o ddwys..., *P* ..o ddadl, *F* ..i ddadl 26 *E* bvr..., *ACEIKLRUXb-dfij* ..wynion..., *FGPQYk* ..vnion.. 27 *E* bwy..bleth..., *k* ..lathreiddia bleth..., *c* ..bleth..., *ABGKWcj k* ..rhuddaur 28 *VZ* ..blas parabl., *ACEFHMPN*—

Cywydd i Ddafydd ab Owain ap Deio ap Llywelyn ab Einion ap Celynin, gw. WG1 18; WG2 22; hefyd ByCy 90–1; D.R. Thomas: HDStA i, 220–1; CTC 297–304. Fe'i penodwyd yn abad Maenan tua 1490. Canwyd y cywydd hwn, felly, rhwng y flwyddyn honno a 1503 pan gysegrwyd ef yn esgob Llanelwy.

Dyma'r noddwr eglwysig *par excellence*. Ni chanodd cynifer o feirdd i'r un gŵr eglwysig arall. Erys ar glawr 25 cerdd a ganwyd iddo, a pherthyn 18 o'r rhain i dymor ei abadaeth ym Maenan (ond ni roes y gorau i'r swydd hon pan benodwyd ef yn esgob Llanelwy), gw. CTC cerddi 20–37 o waith Tudur Aled (7), Lewys Môn (2), Wiliam Egwad, Rhys Pennardd, Ieuan Llwyd Brydydd, Hywel Rheinallt, Gruffudd ap Llywelyn Fychan, Ieuan ap Tudur Penllyn, Owain ap Llywelyn ab y Moel, un bardd anhysbys, a Siôn ap Hywel, awdur y cywydd dan sylw.

5 **heb henaint** 'Heb bresenoldeb hynafgwyr'. Ond gellid diwygio yn *heb ennaint*, i. 'eli'; ii. 'badd', gw. GPC 1218.

6 *n wreiddgoll*.

7 **mae'n olau** Ymadrodd mwys. Naill ai cywasgiad o *mae ynn olau* (ll. *ól*, 'llwybr, ffordd'), neu *mae yn olau (golau*, a. 'disglair, llachar'; e. 'goleuni').

Wyth sillaf yn y ll.

8 **Maenan** Wedi'r goncwest Edwardaidd, codwyd castell newydd yng Nghonwy ar safle'r abaty, gw. HAA 61–77. Codwyd abaty newydd ym Maenan, ond ni pheidiwyd â'r hen enw, gw. llau. 11–12.

**Myniw** Dyma ddarlleniad y llsg. ond *Mynyw* yw'r ffurf a arferir gan Lewys Môn, e.e., GLM IV.49–50 *Gwae wŷr Môn grio'm Mynyw; / gwae windai beilch gan nad byw*. Gwelir Lewys Glyn Cothi, fodd bynnag, yn arfer y ffurf hon a *Myniw* (e.e. GLGC 8.9–10 lle yr odli'r *Myniw / lliw*). Ar sail rhai o'r darlleniadau, gellid tybio mai oddi ar dafoddeferydd y codwyd y cywydd, gw. Darlleniadau'r llawysgrif llau. 4, 6, 7, &c., a gallai hyn esbonio'r modd y camddehonglwyd *rhyw* am *rhiw* ym mraich gyntaf y cwpled. Gw. ymhellach y sylwadau ar odli'r ddeusain yw yn J. Morris-Jones: CD 248–9; hefyd D.J. Bowen, 'Pynciau cynganedd: odli i, u ac y', LICy xx (1997), 142.

- 9 **cafell** Gwedda'r ystyr 'cangell, teml' yn y cyd-destun, ond nid yw'r gynghanedd ar ei hennill. Gellid diwygio yn *gafel*, ffurf lafar *gafael*, 'meddiant'.
- 14 **wythran** Gall gyfeirio at ddysg yr abad (yr wythran ymadrodd a ddisgrifir ym Mhum Llyfr Cerddwriaeth Simwnt Fychan, gw. GP 94ff.), neu at ei linach hyd yr wythfed ach, cf. GLGC 182.5–8 *Y mae ardeml Meredydd / i'th law'n rhod rhwng wythlin rhydd. / Y mae treth Hywel Gethin / yngo'n y llall rhwng naw llin.*
- 15 Cynganedd wallus yn dechnegol, ond un foddhaus o ran ei sain ar gyfrif y modd yr ailadroddir y cytseiniaid *g.l.*, a cf. y ll. hon o eiddo Lewys Glyn Cothi, GLGC 26.50 *ac ar ôl eisiau'r gŵr grym.* Wrth ddiwygio *kalon* y llawysgrif, collwyd y cymeriad llythrennol, ond sylwer mai cymeriad llythrennol 'caled a meddal' sydd yn y cwpled sy'n dilyn. Ond gellid cynghanedd sain reolaidd trwy ddiwygio yn *Calon Owain, glain gloywnwyd.*
- 18 **Brochwel** Dangosodd Enid Roberts yn 'Gwehelyth', Mont Coll lx (1967–8), 55–6, a hefyd yn 'Hen Nantcriba', Mont Coll lxiii (1973–4), 170, fod tri Brochwel. Perthyn y cyntaf i'r 6g. (Brochwel Ysgithrog); yr ail i'r 8g. (Brochwel ab Elise); a'r trydydd i'r 10g. (Brochwel ab Aeddau). Cyffelybir Dafydd ab Owain i ffigurau hanesyddol blaenllaw yn y cwpled hwn ac yn y tri sy'n dilyn. Enwir nifer o'r rhain drachefn yng nghywyddau'r beirdd eraill a ganodd i'r un gŵr, cf. CTC 26.11–16:
- Rhodri a'i waed, eurdraed oedd,  
Rhyw Gwennwys yn rhoi gwinoedd;  
Gwaed Celynin frenhinawl  
Ag Owain, maeth, gwin a mawl;  
O'r achau gorau a gaf  
O du Randwlff hyd 'r Indiaf.
- Elidir** Anodd gwybod at ba gymeriad hanesyddol y cyfeiria Siôn ap Hywel yma, gw. G 469. Priododd Llywelyn ab Einion (gw. y nodyn brig) â Lleucu, merch Ednyfed Llwyd a hanai o gyff Tudur Trefor. I'r un cyff (ond i gangen arall) y perthynai Elidir ap Rhys Sais ... ap Tudur Trefor, gw. WG1 870.
- 19 **Rhodri** Rhodri Mawr a fu'n frenin ar Wynedd, Powys a Deheubarth yn y 9g.
- 20 **Rhirid ... Flaidd** Arglwydd Penllyn yn y 12g.
- 21 **puman** *Pump + man.* Nis cofnodir yn GPC 2927, ond cf. Hywel Rheinallt: Gw 43.13–14 *Gŵr rhyfedd mewn gwir hefyd / Yw'r Dean dros buman byd.*
- 21–2 **'Lystan ... / Glodrydd** Rheolwr y deyrnas Rhwng Gwy a Hafren y dirwynai ei thywysogion eu hach ato.

- 22 **edryd** ‘Ach, tras; gwehelyth’, gw. GPC 1168. Gall *edryd* hefyd fod yn amrywiad ar *edfryd*, i. ‘adferiad’; ii. ‘barn, penderfyniad, dedfryd’, gw. GPC 1164.
- 23 **Gwennwys** Sylfaenydd un o’r ddau gostoglwyth ym Mhowys, gw. L. Dwnn: HV ii, 27.
- 24 **Randwlff** Awgrymir yn CTC mai Ranulf III, Iarll Caer, oedd hwn. Ond yn y canu iddo, mawrygir Dafydd ab Owain am iddo adfer adeiladau’r abaty ym Maenan, gw. HAA 138. Sefydlwyd abaty Dinas Basing trwy nawdd Ranulf II, gw. ‘Basingwerk Abbey’, Arch Camb, First Series, i (1846), 98 a J.E. Lloyd: HW 500, ac efallai mai dwyn i gof ei gyfraniad ef a wneir yma.
- 28 **Lladin** Graddiodd yr abad yn Rhydychen, a thalodd Tudur Aled deyrnged i’w ddysg gan honni ei fod yn hyddysg mewn tair iaith, sef Groeg, Lladin a Hebraeg. Ond cyhuddodd Glanmor Williams y beirdd o wneud môr a mynydd o hyfedredd ieithyddol Dafydd ab Owain, gw. WCCR 393.
- 29–34 Cyfeiriad byr a chynnil at ryw anghydfod yn ymwneud ag esgob o Sais. Ni chynigir goleuni ar hyn yn HAA, ond y mae’n sicr y deallai cyd-brydyddion Siôn yr ergyd gan fod yr un syniad yng nghywydd Hywel Rheinallt, gw. CTC 309–10 a hefyd TA XVI.1–6, 69–74 a GLM LXV.55–60. O gofio am y gwrthdaro hwn, y mae’n eironig mai Sais o’r enw Edmund Birkhead a olynodd Ddafydd ab Owain yn esgob Llan-elwy, a dilynwyd hwnnw yn ei dro gan Henry Standish, gw. D.R. Thomas: HDStA i, 221. Sylwer hefyd ar yr hyn a ddywed Siôn yn ei gywydd i wŷr eglwysig arall, sef Pirs Conwy, archddiacon Llan-elwy, gw. cerddi 5.19–22; 6.17–20. Cafodd y ddau hyn bardwn cyffredinol gan y brenin Harri VIII yn ystod blwyddyn gyntaf ei deyrnasiad, gw. *Letters and Papers, Foreign and Domestic of the Reign of Henry VIII*, I / i (London, 1920), 246.
- 30 *f*led-lafarog.
- 33 *m* wreiddgoll neu  $m = n$ ; cf. 5.14, 7.41, 20.31. Gellid cryfhau’r gynghanedd trwy ddiwygio *ener od* yn *amherodr*.
- 35 **tair mynachlog** Yn ôl HAA 137, o Ystrad-fflur y daeth Dafydd ab Owain i Ystrad Marchell, ond tystia Rhys Pennardd a Hywel Rheinallt mai symud o Ystrad Marchell i Ystrad-fflur a wnaeth Dafydd, ac mai oddi yno yr aeth i Faenan.  
*m* wreiddgoll.
- 37 Yr ardd. yn cynnal ail odl y gynghanedd sain, a cf. 6.89.
- 38 *n* berfeddgoll (ar ôl diwygio’r ll. a sicrhau bod ynddi saith sillaf).
- 41 *n* wreiddgoll.

47 **lleinw** Yn ddeusill, neu *pobl*. ‘Y mae’r casgenni ... yn bodloni pawb’.

51 Diwygiwyd *dofyn* y llsgr., ond geill mai gair deusill yw *aml*.

54 Cf. GGI<sup>2</sup> CXX.32 (mewn cywydd i’r un gŵr) *Abad mal lleuad mewn llwyn*.

55–6 Gall y cwpld awgrymu i’r abad fynd ar bererindod i Santiago, ond ni welwyd cyfeiriad yn yr un o’r cerddi eraill i’r perwyl hwn. Ar yr arfer o bererindota, gw. Thomas Roberts, ‘Cywyddau Pererindod’, *Y Traethodydd*, 1944, 28–39. Y posibilrwydd arall yw fod y bardd yn cyfeirio at y cyfnod hir er pan welodd Ddafydd ab Owain ddiwethaf, a’i fod yn dwyn i gof fordaith yr apostol i Santiago. Am gyfeiriadau eraill gan y Cywyddwyr at fordaith Iago, gw. DN IV.25–8; GDID 8.39–40; GLGC 25.41, 82.29–30.

Cynghanedd lusc bengoll a welir ym mraich gyntaf y cwpld, gw. J. Morris-Jones: CD 175, ond ceir sawl enghraifft yng nghanu Siôn, gw. llau. 43, 57, 59, 75 yn y cywydd hwn.

## 2

Cofnodir ach Tomas Pennant, abad Dinas Basing, yn WG2 1673; PACF 214; L. Dwnn: HV ii, 305; HPF iii, 377: Tomas ap Dafydd ap Tudur ab Ithel. Enwir nifer o’i hynafiaid yn y cywydd a ganodd Gutun Owain iddo, gw. GO cerdd XXXII a 184–5. Ceir testun o gywydd Gutun Owain, ynghyd ag awdl o waith Tudur Aled, y cywydd dienw ‘Pwy a ddring y Ladingffordd?’, a’r englyn a luniwyd gan Siôn ap Hywel a Thudur Aled ar y cyd (gw. cerdd 28) yn CTC cerddi 39–42; gw. hefyd TA cerdd VI; *Meistri’r Canrifoedd*, gol. R. Geraint Gruffydd (Caerdydd, 1973), 93–7. Bardd arall a ganodd i’r abad oedd Siôn Ceri; cyhoeddwyd testun o’i gywydd moliant i’r abad (diogelwyd yr unig gopi o’r cywydd hwn ac o gywydd Siôn ap Hywel yn llawysgrif BL Add 14999) a’i farwnad anghyflawn i’r un gŵr yn GSC cerddi 46–7.

Tystia Gutun Owain a Thudur Aled i’r modd y bu i Domas Pennant atgyweirio adeiladau Dinas Basing, gwaith a esgeuluswyd gan ei ragflaenwyr: *Er bod arni abadau, / Rhag gwynt ni cheisyrnt ei chau*, gw. *Meistri’r Canrifoedd*, 94. Yn nawdegau’r bymthegfed ganrif, ac yn ystod tymor abadaeth Tomas Pennant, yr adeiladwyd y capel gerllaw ffynnon Gwenfrewy, diolch i nawdd Margaret Beaufort, mam y brenin Harri VII, gw. Nia M.W. Powell, ‘Mam y Mab Darogan’, *Bosworth a’r Tuduriaid*, gol. Dafydd Glyn Jones a John Ellis Jones (Caernarfon, 1985), 58–9. Ar sail cywyddau Siôn Ceri, gellid tybio mai ffrwyth nawdd ac ysgogiad yr abad oedd y capel hwn. Ni fanylir ar y gweithgarwch hwn yng nghywydd Siôn ap Hywel, a chynnil yw’r hyn a awgrymir yng nghwpld 75–6, ond telir teyrnged bwrpasol i’r gwaith adeiladu y bu’r abad yn gysylltiedig ag ef yn y flwyddyn 1512 yn yr

awdl a ganodd yr un bardd i Wenfrewy, gw. cerdd 18.

Ymddengys i Domas Pennant roi'r gorau i'w ddyletswyddau abadaidd a phriodi ag Angharad, merch Gwilym ap Gruffudd ap Gwilym. Dilynodd Nicolas Pennant ei dad yn abad Dinas Basing, gw. WCCR 401, ac efallai mai swydd a fu gan y tad a ddaeth i feddiant mab arall, Tomas, a benodwyd yn ficer Treffynnon, gw. CTC 342 a D.R. Thomas: HDStA ii, 195. Tomas Pennant ap Tomas yw'r enw cyntaf a restrir yn yr olaf.

Y mae gwallau amlwg yn yr unig lawysgrif, ac awgryma'r rhain, a'r terfyniadau llafar niferus, ddarfod codi'r cywydd o ffynhonnell lafar yn hytrach nag o un ysgrifenedig.

1–4 Tystia dau gwpled agoriadol y cywydd mai yn y flwyddyn 1527 y bu farw'r abad.

2 *r* wreiddgoll.

6 *r* berfeddgoll, neu gamosodiad d.r = r.d.

7 **Ethna** Y mynydd tân yn Sicilia.

13 *n* wreiddgoll.

16 **Berned** Rhoes Bernard o Clairvaux hwb i'r gyfeillach fynachaidd yn Citeaux, ac fe'i cyfrifir yn sefydlydd Urdd y Sistersiaid. Cf. y ffurf *Barnad* yn GLM XI.5. Nid tŷ Sistersaidd oedd yn Ninas Basing yn y lle cyntaf, fodd bynnag, gw. J.E. Lloyd: HW 500.

17–18 'Ac ni bu un o blith yr holl abadau yn wŷr cyfryw ei barch â hwn yn ein golwg'. *vn fawr barch* a ysgrifennodd y copïwr yn y lle cyntaf, ond dilewyd y llythrennau *fa*.

18 *f*led-lafarog, a chyfatebiaeth  $r = r.[f].r$ .

19 **Bened** Dilynai'r Sistersiaid reolau Sant Bened.

20 **Beuno** Ef a gododd Wenfrewy o farw i fyw, a phriodol ei enwi yng ngoleuni'r cyswllt rhwng Tomas Pennant a Ffynnon Gwenfrewy yn Nhreffynnon, gw. LBS i, 208–21.

22 Gellid gwella'r ystyr o ddiwygio *do* > *doe*. Yr arfer oedd claddu drannoeth marwolaeth, ond y mae lle i gredu mai ymhen y mis y datganai'r beirdd eu marwnadau gerbron teulu'r ymadawedig. Ensynia Siôn, fodd bynnag, iddo ddatgan tair o'i farwnadau drannoeth y gladdedigaeth: 2.32 *Caewyd ddoe ei arch, Cadw Ddoeth*, 4.61 *I'r ddaear gau ddoe'r âi'r gŵr*, 10.15 *Os ddoe'r âi is y ddaear*. Efallai na ddylid dehongli'r adferf yn llythrennol yn y llinellau hyn (ond cf. hefyd 3.39, 8.111, 11.1, lle yr awgrymir mai newydd farw y mae'r gwrthrych), ond tâl cofio hefyd mai gwŷr a drigai nid nepell o'i gartref a farwnadwyd gan y bardd. Yn y cyswllt hwn, dadlennol yw'r hyn a ddywedodd D.J. Bowen am Rys Cain a ganai yn ail hanner y ganrif, 'Gwelsom fod Rhys Cain wrth farwnadu rhai o wŷr Croesoswallt yn mydryddu dydd y

- claddu, nid dydd y farwolaeth ... gan fod Rhys yn trigo yn y dref, odid na ellid sicrhau ei wasanaeth fel herodr ar gyfer angladd ar fyr rybudd, pe dymunid hynny', gw. *Barn*, 212 (Medi 1980), 272.
- 25 **pren Antwn** Sant o'r Aifft a aned tua 251 ac a fu farw yn 356; fe'i hystyrir yn dad mynachaeth. Cyfeiria Lewys Glyn Cothi at grair Antwn, at ei flew, ei ŵn a'i ofal, gw. GLGC 61.57; 90.4; 205.13; 238.18, ac ymhellach NCE i, 594; NEB i, 443–4.
- 32 **Cadw Ddoeth** Dionysius Cato a oedd yn enwog am ei ddoethineb, gw. TYP<sup>2</sup> 291. Gwelir ffurfiau eraill ar yr enw, sef *Cado* (GLD 12.14), *Catwn* (GLD 25.29), *Catw* (GO XLII.42).
- 33 **padrau** Nodir y ffurf l. reolaidd *paderau* yn GPC 2666, a'r ll. dwbl, *pad(e)reuau*. Rhaid wrth ffurf ddeusill i gynganeddu â *padriarch* (yn ddeusill), ond rhydd hyn l. ac ynddi chwe sillaf. Ceir bai crych a llyfn os diwygir yn *paderau* (neu os cyfrifir *padriarch* yn air trisill).
- 36 Barnwyd bod y calediad a gyfleir yn y llsg. yn cynrychioli *byd hwn* (gw. Darlleniadau'r llawysgrif), ond efallai y dylid adfer *byd twn*, 'byd toredig'.
- 41 **ym min bedd** Geill yr ymadrodd awgrymu bod y bardd yn sefyll ar lan bedd Tomas Pennant, neu fod angau ar fin ei daro.
- 42 *n* berfeddgoll.
- 43 Neu *Drwg oedd, gwae fi'n dragwyddol ...*
- 49 **diwyg wan** Dengys GPC 1062 yr ystyrir *diwyg* yn eb. yn ogystal ag yn eg.
- 51 Ll. yn cynnwys y bai twyll gynghanedd g cyn ei diwygio.
- 53 *n* berfeddgoll.
- 62 **Lloegy** Rhaid wrth ffurf ddeusill i sicrhau'r saith sillaf angenrheidiol.
- 65 **gŵr y tŷ** Cf. yr enghreifftiau y gelwir sylw atynt yn GLD 12.34n. Y mae'r ymadrodd yn amwys yn y cwpled hwn; gall gyfeirio at Domas Pennant neu at Dduw (os yr olaf darllener *Gŵr y Tŷ*).
- 69 'Arferai arian [Tomas] lenwi dwylo [eirchiaid] yn fynych'.
- 70 **drab** 'Darn, dernyn, cerpyn', gw. GPC 1080 (ond i'r 18g. y perthyn yr enghraifft gynharaf), yn ffig. 'anghenus, tlodion'. Digwydd y gair yn y Saesneg yn yr 16g., gw. OED<sup>2</sup> iv, 1005, ond efallai mai gair yn tarddu o'r Wydd. *drabog* 'A dirty and untidy woman; a slut, slatten' sydd yma.
- 71 **croniel** Yn ffig. 'esiamp, awdurdod', a chyffelyb yw ystyr *Peibl* yn ail fraich y cwpled. Ond awgrymir yn 'Basingwerk Abbey', Arch Camb, First Series, i (1846), 110–12 mai deunydd a baratowyd ar gyfer y cynulliad yn Ninas Basing yw Llyfr Du Basing (= LIGC 7006D) sydd yn rhannol yn llaw Gutun Owain. Gw. hefyd GWL<sup>2</sup> ii, 242–3. Yn y cyswllt hwn, nid dibwys yr hyn a honnodd Tudur Aled yn ei awdl i'r

abad, gw. TA VI.41–2 *Nid anheirdd na'th feirdd na'th fyrddau—na'th gôr, / Na'th gerygl na'th lyfrau.*

Twyll gynghanedd *c*, ond geill fod gair yn eisiau yma; chwe sillaf sydd yn y ll.

74 Nid oes bwlch yn y llsgr., ond anodd darllen y gair a gynrychiolir gan y bachau petryal. Ymdebyga i *gwuad*.

77 **tri Thomas** Tomas Pennant, yr apostol Tomas (cf. GLM LXIV.55–6 *Llaw Domas, os addas, ynn; / a llw'r India'n llaw'r undyn*) a Thomas Ferthyr, sef Thomas Becket (cf. GLGC 125.45–6 *Un nerth â Thomas Ferthyr, / un wyrth oedd hwn wrth ei wŷr*).

78 **India** Yn ôl traddodiad, Tomas oedd yr apostol a aeth â'r efengyl i'r India.

80 *r* berfeddgoll (ar ôl diwygio'r ll. a'i chryfhau).

83 Neu *Pab a gaem ...*

86 Neu *Di-gam ras, digymar oedd.*

87 y **tri symud** Y dinistr triphlyg a ddisgrifir yn llau. 7–12, sef y tân, y dilyw a marw Tomas Pennant.

88 *r* berfeddgoll.

90 **rhy hir** Diwygiwyd er mwyn sicrhau bod saith sillaf yn y ll., ond gellid *Ni bu reir gan neb yr oes*, gw. GPC 3140 lle y rhestrir *rheir* ymhlith yr amrywiadau ar *ryhir*.

101 **n f'au** 'Yn fy iau', neu gellid yn *fau*, 'yn eiddo i mi, i'm rhan'.

## 3

Gwelir ach Syr Hywel yn WG1 284; WG2 557: Syr Hywel ab y Dai ab Ithel ap Cynfrig ap Bleddyn ... Edwin ap Goronwy o Degeingl, a phennaeth un o'r pymtheg llwyth. Fe'i disgrifiwyd yn 'dirfeddiannwr cyfoethog o waed bonheddig', gw. R. Alun Charles, 'Noddwyr y Beirdd yn Sir y Fflint', LICy xii (1972–3), 34–5, ac yn 'offeiriad mewn enw'n unig', gw. D.J. Bowen, 'Beirdd a Noddwyr y Bymthegfed Ganrif', LICy xviii (1994–5), 86. Fe'i moliannwyd gan Ddafydd ab Edmwnd, Guto'r Glyn, Gutun Owain a Lewys Môn, a diogelwyd darn o gywydd iddo o waith Lewys Glyn Cothi. Rhoddir cryn amlygrwydd i'w ach syberw yn y cerddi hyn. Cafodd ganoniaeth yn eglwys Llanelwy yn 1476, a rheithoriaeth Chwitffordd yn 1484, gw. D.R. Thomas: HDStA i, 331; ii, 206. Ei olynnydd yn rheithor Chwitffordd oedd Robert Puleston a ymgwymerodd â'r swydd honno rywdro yn ugeiniau'r unfed ganrif ar bymtheg (ond bu farw hwn yn 1517, yn ôl y nodyn yn *ib.* i, 331).

*Mesurau'r Awdl*

- 1–44 11 englyn unodl union  
 45–52 2 bennill gwawdodyn byr (ond hyd y llau. yn afreolaidd ac felly yn y penillion sy'n dilyn)  
 53–8 Hir a thoddaid  
 59–70 3 phennill gwawdodyn byr  
 71–6 Hir a thoddaid  
 77–80 Gwawdodyn byr  
 81–6 Hir a thoddaid  
 87–92 Pennill o 3 chwpled 10 sillaf (ond heb y toddaid y tro hwn)  
 93–100 2 bennill gwawdodyn byr

1 **cadach—rhuddwisg** Gŵn Syr Hywel, a cf. 4.24 y *llew ... â'r llurig coch*, ac ymhellach 3.62 *eryr gasul euraid* 'casul [megis] eryr euraid'. O gofio am y modd yr ymgyfenwyd Elis Prys, Plas Iolyn, yn Ddoctor Coch ar sail ei gyswllt â Phrifysgol Caer-grawnt, gw. CLC 488, nid dibwys yr hyn a awgrymir am ddysg Syr Hywel, yntau, yn y cywyddau a ganodd Lewys Môn a Lewys Glyn Cothi iddo. Gw. yn benodol GLM XIX.29–32 *mab yt, ŵr, ymhob taraw, / a chwi'n droed Rhydychen draw: / a nyini yn y neuadd, / a chwi roed yn uwch o radd*, a GLGC 216.7–11 *Saith gelfyddyd byd, sy bêl, / yw saethau eos Ithel. / Mae'n profi sawstri bob saith, / mae'n ŵr tal mewn art eilwaith, / mae'n sefyll mewn y sifil ...*

8 *n* wreiddgoll.

10 **i wastad** Ymadrodd adferfol, 'yn wastadol', neu '[maen] yn gydwastad â'r llawr'. Yn GPC 1598 cynigir i'r a. *gwastad* yr ystyron 'cadarn, cyfiawn, dianwadal', a gweddaï hynny hefyd yn y cyd-destun.

13 11 sillaf yn ll. gyntaf y paladr.

17 Gellid diwygio yn *Temlau, allorau ...* am na nodir y ffurfiau ll. *temloedd, alloroedd* yn GPC, ond dewiswyd cadw darlleniad y llsgr.

17–18 Cyfatebiaeth th = thr o dan yr acen.

18 **aruthraidd** 'Erchyll, arswydus'; nis nodir yn GPC 213.

28 *n* wreiddgoll. Nid atebir yr *r* sydd o dan yr acen yn *rhoir* yn y brifodl.

29 **Samwel** Y proffwyd yr aed ag ef, ac yntau'n fachgen ifanc, at Eli i'w hyfforddi.

31 *r* berfeddgoll neu gamosodiad r.th = th.r.

32 Wyth sillaf yn y ll.

33 **Edwin** Gw. y nodyn brig.



11 sillaf yn ll. gyntaf y paladr.

34 **fernagl** ‘Llun wyneb Crist a arhosodd ar y lliain a roes y Santes Veronica iddo’, gw. GPC 1269. Swyddogaeth yr ymadrodd yw cyfleu sancteiddrwydd a duwioledeb Syr Hywel.

35 Gadawyd bwlch yn y llsg.

37–8 Y gair cyrch yn proestio â dechrau ail l. y paladr. Ar y nodwedd hon, gw. J. Morris-Jones: CD 260–2.

41 **llechlas** *Llech + glas*, ‘maen llwyd’, yn ffig. ‘carreg fedd’.

46 **toddiaid** Naill ai i. ffurf l. afreolaidd *toddaid*, un o fesurau caeth y beirdd neu ii. ffurf l. *toddiad*, ‘y cyflwr o fod yn doddedig, hylif, gwlybwr, saws’.

47 **yr haid wenyn** Cf. yr ymadrodd *cynnal gwenyn* (sef ‘cynnal medd / gwleddoedd’) yn 5.4, a gw. hefyd Marged Haycock, “‘Canu y Cwrw’ o Lyfr Taliesin’, *Dwned*, iv (1998), yn fwyaf arbennig tt. 9–16.

Rhyw ffurf ar gynghanedd bengoll sydd yn y ll. hon, ac yn llau. 48, 50, 76, 80.

52 **dewrion** Naill ai ffurf l. *dewr*, neu *dewr + iôn*.

54 **dygiad** ‘Y weithred o ddwyn; ymddygiad, arweddiad’. Gwedda hyn yn well na’r ffurf *dygiaid* sydd yn y llsg., gw. GPC 1131 *dygiad*<sup>2</sup> ‘dygwr, cludwr’.

55 Nid oes bwlch yn y llsg. yma nac yn ll. 65, ond y mae’r mesur, yr ailadrodd, a’r cymeriad llythrennol yn ail adran yr awdl, llau. 45–100, yn awgrymu yn gryf fod ll. wedi ei cholli yn y pennill hwn a’r nesaf ond un.

58 *r ... r* berfeddgoll.

60 Twyll gynghanedd *l*.

62 *r* berfeddgoll.

67 *n* berfeddgoll.

77 **rhoddiad** Ffurf l. *rhoddiad* ‘un sy’n rhoi rhodd’, ond yma yr ystyr yn ddiau yw ‘un sy’n derbyn rhodd’.

78 *r* wreiddgoll.

79 **efryd** Bernir mai ffurf l. *afrad* ydyw, cf. *afall* > *efyll*, GMW 27. Ni ddigwydd yn G, ac fe’i priodolir i William Owen-Pughe yn GPC 1172, a’i ystyr ‘astudiaeth, myfyrdod’. Byddai *efrydd* yn ystyrllon, ond yn difetha’r gynghanedd sain.

80 Diwygiwyd *trowssed* y llsg., er mwyn sicrhau cynghanedd sain bengoll, cf. ll. 76.

83 *n* berfeddgoll.

- 84 **wyr Rys** Catrin, merch Rhys Wyn ap Dafydd, oedd mam Syr Hywel, gw. WG1 287.
- 85 **Awstin** On o'r Tadau Eglwysig, sef Augustine o Hippo (354–430).
- 86 **y Ladin** Cf. IGE<sup>2</sup> 239 *Y Ladin berffaith loywdeg*, a gw. y drafodaeth yn Treigladau 14–15. Cf. hefyd a ddywed Dafydd ab Edmwnd wrth foli Syr Hywel yn DE LI.21–2 *A lladin gwŷr eilliedig / a rydd fraint lle yr oedd ei frig*.
- 87 **cyniseifiad** Ffurf l. *cyfnesaf* 'perthynas agos, câr', gw. GPC 703. Ni chofnodir yr union ffurf hon, ond rhestrir sawl ffurf gyfatebol, er mai i gyfnod diweddarach y perthyn y rhain: *cyfnesyfiad*, *cynaseifiad*, *cynyseifiad*, *cynesafiad*.
- 90–1 **Beuno ... / ... Lasar** Cyfeirir at y ddau hyn yn fynych mewn cywyddau marwnad, e.e., yn y cywydd a ganodd Lewys Glyn Cothi i'w fab, Siôn y Glyn, gw. GLGC 237.21–24, ac ym 'Marwnad Merch' Dafydd Nanmor, gw. OBWV 82.41–2, 47–8.
- 92–3 Nid oes bwlch yn y llsgr. gyda golwg ar y ll. hon na'r ll. sy'n dilyn, a gw. ymhellach ll. 55n uchod. Nid ysgrifennwyd yr awdl ar ffurf penillion, ac ni fuasai'r copïwr mor ymwybodol felly o fwlch yn ei destun.
- 95 **Llaw Arian** Nudd Hael, gw. TA LVIII.42n.

## 4

- 3 Cywasgwyd y geiriau *mae ynn*.  
**aflafen** Amrywiad ar *aflawen* 'creulon; digalon, truenus', gw. GPC 42, ond yma â grym enwol.  
*n* berfeddgoll (ar ôl diwygio'r ll.); *f* led-lafarog.  
*7* led-lafarog.
- 20 **y tri blaidd** Dyma arwydd herodrol Rhirid Flaidd, gw. DWH i, 146. Nain Syr Hywel o du ei dad oedd Lleucu, merch Ieuan ap Gruffudd ap Madog ab Iorwerth ap Madog ap Rhirid Flaidd, gw. WG1 754.
- 24 **llurig coch** Gw. 3.1n. 'Crys mael, arfwig' yw ystyron arferol *llurig*, gw. GPC 2229, ond 'mantell' yw'r ystyr sy'n gweddu orau yma.
- 25 **Samson** Adroddir yr hanes hwn yn Barnwyr xvi.  
 26 *r* berfeddgoll.  
 28 *r* berfeddgoll.
- 35–8 Mentrwyd newid trefn y ddau gwpled hyn i wella'r rhediad.
- 41 **afarwy** 'Tristwch', gw. GPC 41, ond gellid yr ep. *Afarwy*, gw. TYP<sup>2</sup> 269–70. At ei filwriaeth y cyfeirid fynychaf, fel y tystia'r cwpled a gan-

lyn o waith Gutun Owain, GO XVII.35–6 *Avarwy a glodvorrwyd / A'th gleddav, Mathav, ym wyd.*

42 **para** Ffurf ar *pa ryw*, a cf. *pary, pa'r*, gw. GPC 2661.

47 Twyll gynghanedd *g*.

50 **Asa** Iddo ef y cysegrwyd eglwys Llanelwy, gw. LBS i, 177–85. Tua dechrau'r 12g. y dechreuwyd arfer yr enw S. ar yr eglwys.

52 Twyll gynghanedd *d*.

56 *r* berfeddgoll, neu gynghanedd groes o gyswllt sydd hefyd yn cynnwys camosodiad s.r = r.s yn safle'r benthyca. Digwydd llau. cyffelyb yng nghywyddau Siôn Ceri, gw. GSC 16. Gwelwyd un enghraifft arall yng nghanu Siôn ap Hywel, gw. 14.82.

61 *r* wreiddgoll.

62 **cywyddwr** 'Cyfansoddwr cywyddau', gw. yr enghreifftiau a gofnodir yng GPC 837. Ond yma, y mae'n amlwg mai'r ystyr yw 'gwrthrych cywyddau [moliant], gŵr sy'n prisio ac yn gwerthfawrogi cywyddau'.

63 **gresynt** Ffurf ar *gresyn* nas nodir yng GPC 1530.

75 Bu'n rhaid diwygio *lles* y llsgr. er mwyn sicrhau odl lusg.

## 5

Pirs (neu Peter) Conwy, mab Siôn Aer y Conwy Hen ap Siancyn Conwy ap Siôn Aer y Conwy, gw. WG2 326, 329; hefyd PACF 260; L. Dwnn: HV ii, 295–6; R. Alun Charles, 'Noddwyr y Beirdd yn Sir y Fflint', LICy xii (1972–3), 13–14. Ni roddir amlygrwydd i ach y gwrthrych yn y cywydd, fodd bynnag. Yr oedd Pirs yn archddiacon Llanelwy erbyn 1508, gw. D.R. Thomas: HDStA i, 247, a chanwyd y cywydd rhwng y flwyddyn honno a 1532 pan brofwyd ei ewyllys, gw. 'Extracts from Old Wills relating to Wales', Arch Camb, Fourth Series, xi (1880), 220. Cafodd reithoriaeth Llaneanrain erbyn 1531, gw. D.R. Thomas: HDStA ii, 435. Priododd dair gwaith, a bu iddo ddeunaw o blant. Dewisodd tri o'i feibion yrfa eglwysig, sef Robert, ficer Rhuddlan (D.R. Thomas: HDStA i, 417), Christopher, ficer Nannerch a Thomas, person Helygain (*ib.* 407). Canodd Lewis ab Edward i un o'i feibion, sef Harri, gw. Lewis ab Edward: Gw cerdd 17.

Pan fu farw Michael Diacon, esgob Llanelwy, a rhagflaenydd Dafydd ab Ieuan (a ddilynwyd yn ei dro gan Ddafydd ab Owain, gwrthrych cerdd 1), yn 1499, 'Peter Conway, archdeacon of St. Asaph, and Hoell ap Day, rector of the church of Whitford, were appointed on Nov. 1st Stewards of the Courts and Guardians of the Temporalities within the County of Flint during pleasure', gw. D.R. Thomas: HDStA i, 220.

Priododd un o ferched Pirs, Marged, ag Elis, mab Syr Hywel ab y Dai

(gw. cerddi 3 a 4).

- 1 Wyth sillaf yn y ll., oni chywesgir *duoer* ar ddelw *dioer*.
- 3 **erw** Yn ddeusill. Neu gellid diwygio yn *da ynn dor bryn*.
- 4 **cynnail** ‘Adail, fframwaith’, gw. GPC 794, ac yn ffig. ‘cartref, nodded’. Y mae *cynnail* hefyd yn ffurf 3 un.pres.myn. y f. *cynnal*, gw. GPC 785.
- gwenyn** Cf. 3.47n. Bernid bod i wenyn gysylltiadau arallfydol, gw. DrOC 163–5, *Bonhed gwenyn o paradwys pan yw ac o achaws pechawt dyn y doethant odyo ac y dodes Duw y rat arnunt ...* (td. 165). Tybed a yw’r gwenyn yn drosiad am y prydyddion yn y cwpled hwn? Fel hyn yr esboniodd Rhys Goch Eryri darddiad yr awen, gw. IGE<sup>2</sup> LXI.87–91 *Nid oes chwaith awen ond un. / O’r Ysbryd Glân, gwiwgan gwawd, / Y tyf honno i’r tafawd. / Ac o’r nef, cartref pob ced, / Yn fynych a ddanfoned*.
- 11 **chwegair** Gall gynnwys yr elfennau *chwe* + *gair*, neu *chweg* ‘melys, dymunol’ (gw. GPC 848) + *gair*.
- 12 **gein** Ffurf 3 un.pres.myn. y f. *genni*.
- 14 *m* wreiddgoll, neu *m* = *n*.
- 19–22 Cyfeiriad pellach at y gwrthdaro rhwng y Cymry a’r Saeson a’r cystadlu am swyddi eglwysig, a cf. 6.17–20 mewn cywydd arall i Birs Conwy. Ai awgrymu y mae’r bardd mai’r esgob Dafydd ab Owain a sicrhaodd i Birs yr archddiaconiaeth?
- n* wreiddgoll.
- 22 **llygad** ‘Craidd, hanfod’, neu ‘er ei fod a’i lygad [ar swydd yng Nghymru]’.
- 25 **Fyrdsyl** Ystyrid ei fod yn ddewin yn yr Oesoedd Canol, ond ei ddoethineb a fawrygir yma. *Fferyll* yw’r ffurf a welir fynychaf yn y canu, gw., e.e., GDG 84.57–8. Ni nodir y ffurf *Fyrdsyl* yn G 505; GPC 1272, 1284, ond cf. GST 135.11–12 *Ef a roddai frau addysg, / Frawd Sele ddoeth, Fyrdsil ddysg*.
- Diwygiwyd y ll. er mwyn sicrhau odl (lafar) fewnol a fyddai’n sicrhau cynghanedd sain.
- 26 **morfur** *Môr* + *mur*, ond i’r flwyddyn 1815 y perthyn yr enghraifft gynharaf a gofnodir yn GPC 2490. *mor fyr* yw darlleniad y ddwy lsgr., ond y mae’r ffurf ddiwygiedig *morfur* yn ategu’r hyn a awgrymwyd yn y cwpled blaenorol am gadernid Pirs oblegid fe’i gelwir yn *aber o ddŵr ... afon ... heb faen atal*.
- 27 **y Llyfr Coch** Llyfr Coch Asaph, sef cofrestr cadeirlan Llanelwy y dechreuwyd ei chadw yn gynnar yn y 14g., gw. D.L. Evans, ‘Llyfr Coch Asaph’, Cylchg LIGC iv (1945–6), 177–83; ‘Index to “Llyfr Coch Asaph”’, Arch Camb, Third Series, xiv (1868), 151–66, 329–40. Gw.

hefyd O.E. Jones, 'Llyfr Coch Asaph: a textual and historical study' (M.A., Cymru [Aberystwyth], 1968).

*r* berfeddgoll, neu gamosodiad ll.r = r.ll.

28 **ffresiant** Nis nodir yn GPC 1313. E. o'r a. *ffres* 'ireidd-der, newydd-deb'.

*r* wreiddgoll.

29 **W newyddaur** Torch o aur ar ddelw'r llythyren 'W'.

30 *n* wreiddgoll.

31 **Stanlai** Ail wraig Siôn Aer y Conwy Hen, a mam Pirs, oedd Sioned, merch Edmwnd Stanlai a'i wraig, Angharad, merch Hywel ap Tudur ab Ithel Fychan o Fostyn ... Uchdryd ab Edwin (ll. 38) o Degeingl ... ap Cadell (ll. 38) ap Rhodri Mawr, gw. WG2 1618; WG1 281, 283, 285.

Twyll gynghanedd *l*, ond sylwer ar y modd y cynganeddir *Stanlai* yn 6.10 a 9.17.

33–4 Cf. yr hyn a awgrymwyd yng nghywydd Tudur Aled i'r un gŵr, gw. TA XXX.30 *Dewr wyd ar farch pe d'ordr fai*.

38 **Edwin a Chadell** Gw. 5.31n uchod.

40 **Rhufeinwyr** Y mân guradiaid o dan awdurdod y pab yn Rhufain.

41–6 Perthynai gallu goruwchnaturiol i ffon Moesen (sef Moses); gyda'i chymorth hi y llwyddodd Moesen i agor llwybr trwy'r Môr Coch, cf. GDLI 18.5–6 *Prif afon a droes Foesen / A'i ffon big o'r cerrig hen*, a hefyd y gerdd 'Gwialen Moses' yn BI BGCC 80–91. Yng nghywydd Siôn, fel yn GLM XXIII.35–40, cysylltir y ffon â'r tri hedyn a roes Seth o dan dafod ei dad. Tyfodd tair gwialen o'r hadau hynny, ac o'r pren y lluniwyd y groes y bu farw Crist arni. Adroddir yr hanes yn 'Ystoria Adaf', a chyhoeddwyd testun (wedi ei gamenwi yn 'Euangel Nicodemus') yn THSC, 1919–20, 121–9; gw. hefyd *ib.* 129–31 lle y gelwir sylw at olion yr hanes yng nghanu'r Gogynfeirdd a'r Cywyddwyr.

50 **Iefan lwyd** Gŵyl Ifan, ond geill mai cyffelybu Pirs i'r ddau Ieuan a fu'n esgobion Llanelwy yn ail hanner y 14g. oedd bwriad y bardd, ac os felly, dylid atalnodi fel a ganlyn: *O fewn y wledd, Iefan lwyd*. Gw. trafodaeth Enid Roberts ar y ddau gywydd o waith Iolo Goch i Ieuan Trefor I (1346–57) ac Ieuan Trefor II (1394–1404), 'Llys Ieuan, Esgob Llanelwy', TCHSDd xxiii (1974), 70–103, ac ymhellach GIG 275 lle y dadleuir mai'r ail Ieuan a gyferchir yn y ddau gywydd.

51 **darllaw** Dyma'r unig ffurf a nodir yn GPC 894.

52 **ancur** *fyknvr* sydd yn y ddwy lsgr. Bernir mai ffurf ddeusill ar *ancr*, *ancar* yw hon, gw. GPC 110, sydd yn ateb gofynion yr odl ac yn parchu gofynion y mesur. Ond tybed a oedd rhyw chwedl am Gaer Fyncur yn hysbys i'r bardd?

55 **siwgr** Yn ddeusill.

56 **saig Ludd** Crybwyll Dafydd Nanmor yn ei gywydd i Rys ap Maredudd o'r Tywyn, gw. DN I, dair gwledd adnabyddus, sef Crist yn porthi'r pum mil (a cf. GHC XVII.55–60), gwledd Arthur yng Nghaerllion, a'r wledd a drefnodd Caswallon fab Beli i ddathlu ei fuddugoliaeth ar wŷr Rhufain. Nid oedd a wnelo ei frawd, Lludd fab Beli, â'r wledd olaf hon, ond fe'i cynhaliwyd yng Nghaer-ludd sy'n dwyn ei enw, gw. TYP<sup>2</sup> 424–7; BD 20, 44; DN I.17–18 *A'r llall a wnaeth Caswallawn / Yn Nhre' Ludd yn reiol iawn.*

59 Wyth sillaf yn y ll.

60 Cyfatebiaeth th..dd = th. Digwydd yr un gyfatebiaeth ar achlysuron eraill, gw. 6.18, 53, 16.32, 23.8.

64 Gadawyd bwlch yn y ddwy lawysgrif.

66 **Aer Conwy** Ai cyfeiriad at frawd Pirs sydd yma, sef Siôn Aer y Conwy (Ifanc)?

## 6

6 **Pedr** Yn ddeusill. Gair mwys. Gall gyfeirio at y rhoddwr, Pirs neu Peter Conwy, neu at enw'r disgybl, a gw. ll. 10 isod lle yr enwir Andras.

8 **Diserth** Gadawodd Pirs Conwy yn ei ewyllys (dyddiwyd 16 Rhagfyr, 1531, gw. 'Extracts from Old Wills relating to Wales', Arch Camb, Fourth Series, xi (1880), 220) ugain morc i bedair eglwys y bu yn gysylltiedig â hwy, ynghyd â deng morc tuag at gost gosod ffenestr liw yn eglwys Diserth lle y'i claddwyd, gw. D.R. Thomas: HDStA i, 247.

9–10 **mab i deyrn wyd / Drwy Stanlai** Gw. 5.31n.

10 *n* berfeddgoll o dan yr acen. Sylwer ar ddarllenadau'r llsgrau., ond cf. hefyd 9.17.

12 **Edwin** Disgynnai Pirs o du ei fam o Uchdryd ab Edwin o Degeingl, gw. 5.31n.

17–Cyfeiriad pellach at y gwrthdaro rhwng Pirs Conwy ac esgob o Sais, cf. 5.19–22.

18 Cyfatebiaeth th = dd..th, a cf. ll. 53 isod.

21 **Rhuddallt** Treflan yng nghyffiniau Rhiwabon ym Maelor Gymraeg. Cynrychiola ffin ddwyreiniol Cymru yn y fan hon.

23 **atlaes** Ai ffurf ar *adlaes*, gw. GPC 22 lle y cynigir yr ystyron 'hardd, mwyn'?

27 **Mastr Llwyd** Erchir y tarw ar ran Robert Llwyd, person Gwytherin (gw. llau. 30, 86). Daliai'r swydd honno erbyn y flwyddyn 1532, yn ôl

- tystiolaeth D.R. Thomas: HDStA ii, 315, ond gellid tybio ddarfod canu'r cywydd cyn 1532 oblegid yn y flwyddyn honno y profwyd ewyllys y rhoddwr, Pirs Conwy (gw. nodyn brig cerdd 5). Enwir Robert Llwyd ymhlith 'y mydrwyr or Bryttanniaid ar a oedd ar vnwaith an cyfoes ni yn canu ar ei bwyd ei hun ... sir Ddimbech ... Sr Robert Llwyd o wytherin', gw. CC 6. Un gerdd yn unig y gellir ei phriodoli iddo â sicrwydd, a honno yn gerdd rydd sy'n rhan o ymryson â gŵr eglwysig arall, sef Syr Elis [ap Rhisiart ap Rhys], gw. MFGLI 3059. Cyfeirir at Robert Llwyd yn ysgrif Cledwyn Fychan, 'Y Canu i Wŷr Eglwysig Gorllewin Sir Ddinbych', TCHSDd xxviii (1979), 135–7. Awgrymir mai tua 1581–2 y bu farw.
- 33 Wyth sillaf yn y ll., ond sylwer ar ddarlleniad LIGC 18B (at ei gilydd llwgr ddigon yw'r testun yn y llgr. hon).
- 42 **drymer** I'r flwyddyn 1744 y perthyn yr enghraifft gynharaf a gofnodir yn GPC 1095.  
**ceuder** 'Ceudod, gwacter, canol', ond ni nodir y ffurf yn GPC 472.
- 43 *n* berfeddgoll.
- 49 Geill fod *sigl* yn air deusill at ddiben cyfrif sillafau a sicrhau'r hyd angenrheidiol, ond unsill ydyw at ddiben yr odl a'r gynghanedd, gw. 23.25, 25.21 a cf. GSC 13.5n (ond sylwer eto ar ddarlleniad LIGC 18B).
- 51–Collwyd rhannau o ymyl y ddalen yn llgr. A, a gwelir bylchau cyfatebol yn nhestun C.
- 61 **mawno** *Mawn* + *glo* (a cf. y disgrifiad yn ll. 78), ond nis nodir yn GPC 2379.
- 64 **yn llwch** Naill ai i. 'yn llychlyd', neu ii. 'yn lleidiog', gw. GPC 2233–4.
- 69 **tuth** Eg. ydyw yn GGH 106.46 *Ac yn llafn tuth ysgafn tew*, ond eb. yma ac yn DN 119 *Dwc dvth didawl drvth daly dri—dewr Dvdvr*.
- 71 **daearol** Gw. yr ystyron a gynigir yn GPC 877. 'O liw'r pridd' yw'r ystyr sy'n gweddu orau yma.
- 74 **clawdd** Trosiad am y fuwch yr eir i'r afael â hi?
- 79 **gweini** Naill ai be. y f. *gweinyddaf* 'gwasanaethaf', gw. GPC 1621, neu fe. y f. *gweiniaf* 'dodi mewn gwain', gw. GPC 1619, ond yma yn ffig. 'trywanu, picellu'.  
**hylog** Gall fod yn ffurf ar *hulog* 'tomen, pentwr', gw. GPC 1910, ond tebycach mai'r gair cyfansawdd *hylog*, *hy* + *llog*, 'hawdd ei hurio' sydd yma, er mai i'r flwyddyn 1722 y perthyn yr enghraifft gynharaf yn GPC 1968. Rhodder iddo yma yr ystyr 'buddfawr, mawr ei elw'.
- 82 Disgwyliid treigladr ar ôl bf. 2 un.orch., gw. Treigladau 204 a cf. GLM XLVIII.77–8 *Llywia'n gall, llaw Owain Goch; / lluddia drais: llaw Dduw drosoch*; TA CII.86 *Dyro geffyl a dyrr gwaywffon*, ond cf. 7.80

isod *Derbyn gwalch drwy bân ac aur.*

- 83–4 **lleisgryg / ... byg** Yn BL Add 31078 yn unig y digwydd y darlleniad hwn. Diau mai *llais* yn hytrach na *llaes* yw'r elfen gyntaf yn y cyfansoddair, a cf. *lleisgroch*, *lleisgroyw*, GPC 2148. Ystyrion hefyd yw'r modd y delweddir dŵch yr anifail trwy ei gyffelybu i byg.
- 88 **morlo** Geill fod yn un o ddau air cyfansawdd, sef *môr* + *glo* neu *môr* + *llo*, gw. GPC 2492. Anodd dewis rhyngddynt oherwydd cyffelybir y tarw i *forwch* (ll. 63), ac i *for-dwrch* (ll. 68), ond gelwir sylw hefyd at ei liw: *lliw mwg glo* (ll. 74), *lliw mawnbwll llwm* (ll. 78).
- 89 Bai crych a llyfn, onid ystyrir mai'r ardd. *o* sydd yn safle'r orffwysfa. Nid yw Siôn yn chwannog i lunio cynganeddion o'r math hwn, fodd bynnag, yn wahanol i Lewys Glyn Cothi yn y 15g., gw., e.e., GLGC 25.46 *a sonied am Siwan Du, ib. 37.20 Morgan o'r muriau a'i gwnaeth.*

## 7

Y gŵr a gyferchir yn y cywydd hwn yw Ithel ap Gruffudd ap Belyn (neu Fleddyn) ap Cadwgan Deca, gw. WG1 634; WG2 1218; hefyd Pen 287, 493–503. O ran ei gynnwys, cyfetyb y cywydd hwn i'r un a ganodd Siôn Ceri i Owain ap Gruffudd ap Maredudd Fychan, Llanbister, gw. GSC cerdd 39. Cyfeirir at anghaffael a ddaeth i ran Ithel, ac at wrthdaro rhyngddo a rhyw swyddog o Sais, ond nid yw'r hyn a gofnodir yn y cywydd yn cynnig goleuni ar yr amgylchiad dan sylw, ac nid yw o gymorth ychwaith wrth geisio dyddio'r gerdd.

Dyfynnir rhai o gwpledi'r cywydd (sef llau. 1–6, 29–34) yn LlyB XXIII.

- 1– Yr hud ar Ddyfed yn nhrydedd gainc y Mabinogi yw cefndir llau. agoriadol y cywydd.
- 4 **ym maen a dŵr** *Ef a welei* [Pryderi] *ual am gymheruedd llawr y gaer, fynnawn a gweith o uaen marmor yn y cylch*, gw. PKM 56. Y rhain a gaethiwodd Bryderi a Rhiannon, a diau i'r bardd ddewis dwyn eu hanes hwy i gof wrth iddo ddisgrifio tynged Ithel. Ond geill mai ystyr *ym maen a dŵr* yw '[yng ngharchar] mewn caer wedi ei hamgylchynu â dŵr'.
- 5 **mab Elen** Trafodir yr amryfal draddodiadau a gysylltir ag enw Elen yn TYP<sup>2</sup> 341–3, sef i. ei chyswllt â chwedl 'Breuddwyd Macsen'; ii. ei gwneud yn ferch i Goel; iii. ei huniaethu â'r santes Rufeinig, Helena, y dywedir iddi ddarganfod y Grog. Ei mab hi oedd yr ymherawdr Custennin. Cf. y llau. hyn o waith Hywel Rheinallt, o'i farwnad i Elin Bwlclai, Glynllifon, gw. Hywel Rheinallt: Gw 24.7–10 *A gwiw Elen a goelynt / Merch Goel a'i mab mawrwych gynt. / Arch a roed, oerach*



*yw'r iaith / Heb Elin a'i mab eilwaith.*

- 6 **Mawndfil hen** Cyhoeddwyd hanes teithiau Siôn Mawndfil i'r Dwyrain yn Ffrangeg tua 1357–71, a chafwyd cyfieithiadau niferus o'r cyfryw, gw. W. Beynon Davies, 'Siôn Mawndfil yn Gymraeg', B v (1929–31), 287–327. Lluniwyd y fersiwn Cymraeg cyntaf yn 1586, ond cyfeirid at Fawndfil yng nghanu'r Cywyddwyr ganrif dda ynghynt. Cf. *Myned mal hynt Mawndfil hen* (Rhys Nanmor); *A mynd fal hynt Mawndfil hen* (Morys ab Ieuan ab Einion) a ddyfynnir yng nghorff yr ysgrif.
- 10 [y] **Ddelw Fyw** Bernid bod rhai delwau yn fyw, a'u bod yn symud, yn gwaedu, &c. Yn eglwys y Santes Fair yn Yr Wyddgrug yr oedd yr enwocaf, gw. LBS i, 113–14, GDG 86.24n a cf. GLIBH 4.17n. Cyfeirir ati ar fwy nag un achlysur yn y cerddi i Reinallt ap Gruffudd ap Bleddyn o'r Tŵr, e.e., GTP 12.51 *Y ddelw fyw o'r Wyddgrug oedd ddialwr*; GHC VIII.33–4 *I roi sawd Iorus ydyw, / Urddol i Fair a'r Ddelw Fyw.*
- 16 *n* berfeddgoll (neu d..d = d).
- 25 *r* berfeddgoll; bai caled a meddal t = d.
- 30 **dyn un sir** Naill ai *sir* 'rhaniad daearyddol', neu *sir* 'llawenydd', o'r *S. cheer*. Y darlleniad yn LlyB yw *dynnu'n sir dan ewin Sais*, ond ni ddi-gwydd hwn yn yr un o'r llsgrau.
- 31 **Salsbri** Gw. *Rhyddiaith Gymraeg ... 1488–1609*, gol. T.H. Parry-Williams (Caerdydd, 1954), 65 ... *Kor y Kowri ar vynydd Ambri ger llaw Kaer Garadawc, yr honn a elwir heddiw Salsbri, yn y lle i kladdwyd twyssogion y Bryttaniaid a laddysid drwy dwyll a brad Hengest ysgymun, twyssoc y Saesson.*
- 34 **Muellt** Ffurf ar *Buellt* (bydd *m a b* yn ymgyfnewid yn gyson). Yno y lladdwyd Llywelyn ap Gruffudd, y Llyw Olaf, y *taid* ('hynafiad', ll. 33). Mewn nodyn yn llsgr. BL Add 14866, 46<sup>v</sup>, ar ddiwedd cywydd i Owain Glyndŵr, a briodolir i Ruffudd Llwyd, gw. IGE<sup>2</sup> XLI, honnir 'teityl owain ir dwysogaeth oedd i fod ef yn dyfod o ferch llywelyn ap gruff a las o dwyll ym muellt'.
- gwallt euraid** Ithel ap Gruffudd.
- 35 *n* wreiddgoll.
- 36 **ŵr gywirach** Ar y treiglاد hwn i'r a. cymharol mewn datganiad negyddol, gw. Treigladau 66–7.
- 37 **'nylu** Ffurf ar *anelu* yw *enylu*, 'cyfeirio, cyrchu, saethu, taro', gw. GPC 112.
- f*led-lafarog.
- 38 **Pendrasus ... Brutus** *Ac val yd oedd Pandrasus a'e lu yn kyrchu y dyffeyth y tebygynt uot Brutus yndav ... eu kyrchu yn dyrybyd a oruc Brutus udunt, a theyr myl o wyr aruavc gantav ... Ac eu kyrchu a oruc*

- gwyr Tro udunt yn vychyr dyavyrdvl, a llad aerua dyruavr y meynt onadunt*, gw BD 6.
- 41 Nid yw'r gyfatebiaeth yn gwbl reolaidd. Gellid esbonio'r ll. fel a ganlyn: i. *m wreiddgoll*; n = m neu ii. *camosodiad m.br = br.m*; n *berfeddgoll*.
- 42 **gwaed Reinallt** Ar yr arfer o dreiglo'r ep. sy'n dilyn gair megis *gwaed, hil, merch, &c.*, gw. Treigladau 108 a cf. GSC 7.9n. Ond ni threiglir bob tro, gw. 12.16 *gwaed Rhobin*.
- Rheinallt** Marged, merch Rhys ap Rheinallt ... Edwin ap Goronwy, tywysog Tegeingl (gw. ll. 78) oedd gwraig Gruffudd ap Bleddyn, gw. WG2 522. Perthynai Ithel i dylwyth Llywelyn Aurdorchog, ac efallai fod Siôn yn cyffelybu gwrthrych y cywydd i aelod arall o'r un tylwyth, sef Rheinallt ap Gruffudd ap Bleddyn y bu ei helyntion yn destun sylw Lewys Glyn Cothi, Tudur Penllyn a'i fab Ieuan, Hywel Cilan, a Gutun Owain.
- 44 *n wreiddgoll*.
- 47 *n wreiddgoll*.
- 51 *n wreiddgoll*.
- 52 *Camosodiad r.th = th.r*.
- 53 *m wreiddgoll*.
- 55 **Tŵr Gwyn** Tŵr Llundain. Yno y carcharwyd Gruffudd ap Llywelyn Fawr, tad y Llyw Olaf. Bu farw wrth geisio dianc oddi yno, gw. J.E. Lloyd: HW 700–1.
- 57 *n wreiddgoll*.
- 58 **perth euraid** Trosiad am wallt Ithel, a cf. y disgrifiadau yn llau. 34, 39, 53–4, 56. Gw. hefyd y dyfyniad o eiddo Ieuan Deulwyn yn GPC 2780 d.g. *perth: a gwallt y vun gun a gaid / perth aur val y porth eurraid*.
- porthoriaeth** 'Swydd porthor', gw. GPC 2858, ond yma, yn ffig. 'carchar'.
- 65 **Syr Gei** Gw. DNB xxiii, 386–8, a cf. hefyd CSTB X.23–6 *Sorraist ferch, syrhaist fi, / Soriant nis dygai'r siri. / Ni sorrai Iarlles Warwig / Mor ddwys, ni chymerai ddig*. Cyffelybir Ithel i Syr Gei o Warwig, a manylir ar hanes yr arwr chwedlonol hwn yn y ddau gwpled sy'n dilyn. Bu'n rhaid iddo gyflawni anturiaethau lu cyn ennill llaw Ffelis, ond wedi iddo ei phriodi, fe'i gadawodd, ac ymroes i fywyd o feudwyaeth. Rhoes Ffelis fodrwy iddo, ac anfonodd Gei hon ati pan oedd ar ei wely angau. Am grynodedb o'r hanes, gw. George Ellis, *Specimens of Early English Metrical Romances* (revised ed., London, 1848), 190–238. Y mae'n amlwg nad oedd y copïwyr yn gyfarwydd â'r hanes, a bu cryn lygru ar y ddau gwpled, llau. 67–70. Bu'n rhaid diwygio sawl ymadrodd

yng ngoleuni'r hanes a amlinellwyd uchod.

**fiswr** O'r S. *viso(u)r*, gw. GPC 1270 a hefyd 2466 lle y cofnodir y ffurf *miswr(n)*.

71 **bortwin** *Bort* + *gwin*. Disgwyliid i'r e. cyfansawdd fod yn eg., ond ymddengys mai cyfansoddair llac a geir yma.

71–2 **brenin ... / ... iason** Tywyll yw'r cyfeiriad hwn. Efallai mai atgof annelwig am stori Iason a'r Argonautica sydd yma, ond dichon hefyd fod y testun yn llwgr megis yn llau. 67–70—sylwer ar y modd yr ailadroddir *cost* yn ll. 74. Mentruwyd diwygio'r ail yn *cist*. (Diolchaf i Mr Ceri Davies am ei gymorth wrth i mi ymgodymu â'r ddau gwpled hyn.)

77 *r wreiddgoll*.

79 *r wreiddgoll*.

83 *dd berfeddgoll*.

## 8

Cywydd marwnad yw hwn i Dudur Llwyd ap Dafydd Llwyd ap Tudur ab Ieuan ap Llywelyn, gw. WG1 830; WG2 1589–90; L. Dwnn: HV ii, 352–3; HPF v, 130–1. Priododd â Chatrin, merch Siôn Edwart Hen.

Canwyd dwy farwnad arall i Dudur Llwyd, y naill gan Dudur Aled, TA LXXIX, a'r llall gan Lewys Môn, GLM LXVIII. Disgrifir yr anaf a barodd farwolaeth Tudur Llwyd yng nghywydd Siôn ap Hywel, gw. llinellau 23–6, a digwydd y ddau gwpled air am air yng nghywydd Tudur Aled (llau. 23–4 = 69–70; 25–6 = 59–60). Gresyna Tudur, *Gwae fi ... friw bychan* (llau. 55–6), a thystia Lewys Môn, *Ei friw ytoedd ... draen yn bin drwy ewin bys* (llau. 11–12). Pwysleisia'r tri bardd nad oedd a wnelo marwolaeth Tudur â gwrhydri'r gelyn-ddyn. Ond os cofnodir achos y farwolaeth mewn dull pur ddiamwys, ni ddisgrifir y digwyddiad a arweiniodd ati mor glir. Rhaid ystyried yr hyn a awgrymir yn llinellau 17–18, 21–2 yng nghywydd Siôn yng ngoleuni tystiolaeth Tudur Aled, *Ar i farch yr âi f'erchwyn / Yn y llu ddoe ...* (llau. 39–40) a Lewys Môn, *Pwy'n y gorchwyl pan gyrchwyd / at waedu'r llu?* (llau. 7–8). Gwelodd T. Gwynn Jones y geiriau 'Marwnad i Dudur Llwyd ap Dafydd o Iâl, a las ym Merwig' uwchben cywydd Siôn yn Pen 86, 59 (gw. TA 666); ond os buont yno ar ryw adeg, nid ydynt yno bellach. Er bod y llinellau a ddyfynnwyd yn awgrymu'r rhan a fu i Dudur mewn cyrch milwrol, sonnir hefyd yng nghywyddau Tudur Aled a Lewys Môn am ddial: *dial undyn*, medd Lewys (ll. 42), a mynnodd Tudur, *Angeu a fu ing i faint, / Dal carw yn dial ceraint!* (llau. 75–6), a *Dy ras, Duw, dros y dial* (ll. 109). Dichon felly mai dial rhyw gam yr oedd Tudur pan anafwyd ef, ond geill fod y ddau fardd yn galw am ddial ar y sawl a barodd yr anaf. Ni ddylid anwybyddu'r pwyslais ar frad a dichell y gorffennol sydd yn

thema amlwg yng nghwyddau Siôn a Lewys Môn.

- 3 **Medrod** Hawlia le yn nifer o'r Trioedd, ond gw. yn benodol rif 51, TYP<sup>2</sup> 131–9: 'Trywyr Gwarth a fu yn Ynys Prydain' sef Afarwy fab Beli a wahoddodd y Rhufeiniaid, Gwrtheyrn Gwrthenau *a rodes tir gyntaf y Saesson yn yr Ynys honn ... Ac yn y diwed Uthur ac Emrys a losgasant Wrtheyrn*, ac yn drydydd, a *gvaethaf, uu Vedravt ... A phan gogleu Vedravd gvahanu niuer Arthur, yd ymchoelawd ynteu yn erbyn Arthur ... A phan gogleu Arthur hynny, yd ymchoelavd dracheuyn ... Ac yna y bu Weith Camlan y rvng Arthur a Medravt*. Fe'i mawrygir yng nghanu'r Gogynfeirdd, ac esbonia Rachel Bromwich mai Tudur Aled yw'r cyntaf i grybwyll ei ddichell, gw. TYP<sup>2</sup> 454–5.
- 4 **brad ... gan gyllyll** Brad y Cylllyll Hirion. Adroddir yr hanes yn BD 98–100. Y mae a wnelo'r digwyddiad hwn â dyfodiad y Saeson i Brydain.
- 5–6 **brwd gyrchu / Brytaen fawr** Crybwyllwyd dau o blith y tri brad a gysylltir â'r triawd 'Trywyr Gwarth', ac nid annichon mai cyfeiriad at hanes Afarwy yn gwahodd y Rhufeiniaid i Brydain sydd yn y cwpled hwn, gw. BD 50–1. Ond geill mai ymhelaethiad naill ai ar yr hanes am dwyll Medrod neu ar ddichell y Saeson yw'r cwpled. Os felly, lladd Tudur Llwyd yw'r trydydd brad.
- 16 **llew du** Darlunnid llew ar arfbais Bleddyn ap Cynfyn, gw. isod ll. 53 a DWH i, 201.
- 17 *n wreiddgoll.*
- 19 **[yr] Arglwydd Rhys** Cyfeiriodd Lewys Môn yn ei gywydd ef at farwolaeth Rhys Gryg, mab yr Arglwydd Rhys. Megis Tudur Llwyd, fe'i clwyfwyd, a bu farw yn fuan wedyn, gw. J.E. Lloyd: HW 680.
- 21 **Berwig** 'Berwick is often used by the Welsh poets to denote the utmost boundary of England', BI N 212. Fe'i henwir drachefn ym marwnad Lewys Môn, ond pwysleisio helaethrwydd daearyddol yr arswyd a'r galar a wnaeth y bardd hwnnw. Ni honnir mai ym Merwig y lladdwyd Tudur, gw. GLM LXVIII.45–8 *clych abad dros dengwlad oedd; / crio 'Merwig, cau'r muroedd. / E fu'n Anwig ofn anial, / ar Ogledd Iorc, arglwydd Iâl.*
- 23 **cythrudd** 'Gofid; syndod; dychryn; terfysg', gw. GPC 827, ond a grym a. yma.
- 27–8 'Os câi (Tudur) ei anafu, ni lwyddai neb i'w daro (â'i waywffon) yn ei wyneb', ond y mae dehongliad arall yn bosibl: 'Os anafai Tudur (arall), ni fyddai fyth yn ei daro yn ei wyneb'.
- 29 *n wreiddgoll.*
- 31 *n wreiddgoll.*

- 34 **Ongler, Olifer** Yr oedd Ongler (neu Engeler), *duc Angyw*, ac Olifer, *tywysawc lluoed*, y *marchawc gwyhaf*, ymhlith y tywysogion a fu'n ymladd gyda Siarllys yn erbyn y paganiaid, gw. YCM 14–15.
- 35 Cf. TA.LXXIX.81 *A gwayw draw llas Hector llwyd*.
- 37 *n wreiddgoll*, neu *n = ng*.
- 39–44 Mydryddir rhan o Gronicl Turpin, gw. YCM 24–5:  
 A'r nos kynny y urwydyr yd erchis Chyarlys y Duw menegi idaw y neb a dygwydei yn y urwydyr honno o'e wyr ef. A thrannoeth, gwedy gwisgaw y lluoed, nachaf groes goch ar ysgwyd y neb a ledit o'r Cristonogyon ar warthaf eu llurugeu. A phan arganuu Chyarlys hynny, atal y niuer hwnnw a oruc yn y gapel rac eu llad yn y urwydyr. Oia Duw! mor anhawd ymordiwes a brodyeu Duw ac ymganlyn a'e fyrd. Wedy daruot y urwydyr ... y kauas Chyarlymaen y niuer a warchayssei yn y gapel yn veirw.
- 44 *n wreiddgoll*.
- 48 Camosodiad *n.r = r.n*.
- 50 **Banbri** Dienyddiwyd Wiliam Herbert, Iarll Penfro, ei frawd, Syr Rhisiart Herbert, ynghyd ag eraill o gefnogwyr Plaid Iorc, wedi'r frwydr hon yn 1469.
- 52 *n wreiddgoll*.
- 53 **fal blaidd** Cf. GLM 485 *wŷr y Blaidd*, 'disgynnydd Bleddyn ap Cynfyn', ond sylwer mai (*g*)*wŷr y Blaidd* yw darlleniad y testun, gw. GLM LXVIII.83.
- 57 **y baedd o Warwig** Gei o Warwig.
- 67–70 Tybed a fu i Dudur Llwyd gynnal gwledd cyn iddo adael ei gynefin, fel y gwnaeth Wiliam Herbert ar drothwy brwydr Banbri, cf. GGI<sup>2</sup> L?
- 71 **Eidol** Iarll Caerloyw; un o'r Cymry na laddwyd trwy frad y Saeson, gw. BD 99–100.  
**Padarn** Padarn Peisrudd, taid Cunedda Wledig, gw. TYP<sup>2</sup> 484, yn hytrach na'r sant, gw. LBS iv, 39–51.
- 73 **Idwal** Fe'i henwir yntau drachefn yng nghywydd Lewys Môn, a chynigir mai cyfeiriad sydd yma at Iago ab Idwal ap Meurig a laddwyd gan ei wŷr ei hun yn y flwyddyn 1039, gw. J.E. Lloyd: HW 358. Ond ni ddigwydd ei enw yn y rhan o'r cywydd sy'n ymdrin â brad. Tybed ai cyfeiriad mwy cyffredinol sydd yma, a bod y bardd yn mawrygu Tudur Llwyd trwy ei gyffelybu i ffigur hanesyddol adnabyddus fel y gwnaeth wrth foli Dafydd ab Owain. Yr oedd Idwal ap Meurig yn hendaidd i Ruffudd ap Cynan, ac Idwal ap Anarawd, brenin Gwynedd, oedd ei daid yntau.
- 75–6 'Nid âi cysgod ei darian helaeth oddi arnom (hyd yn oed am)

- ddiwrnod, ac nid oedd rhaid (i Dudur) ei defnyddio [am nad amheuid ei awdurdod ]’.
- 76 *n wreiddgoll.*
- 90 **Siôn Abad** Siôn ap Dafydd Llwyd, brawd Tudur Llwyd; olynodd Dafydd ab Ieuan ab Iorwerth yn abad Llanegwestl yn 1503, gw. WCCR 387. Canodd Tudur Aled awdl a chywydd iddo, gw. TA I, XXVIII.
- 91 **brodyr** Siôn Llwyd, uchod, Lewys, Syr Lewys, person Llansanffraid-ym-Mechain, a Gruffudd.
- 92 **nai** Siôn Llwyd, mab ac etifedd Tudur Llwyd, a nai Siôn Abad. Fe'i dewiswyd yn Siryf Dinbych yn 1550, a thrachefn yn 1567, gw. *Lists and Indexes IX: List of Sheriffs for England and Wales* (Public Records Office, London, 1898), 251.
- 94 Camosodiad f.r = r.f.
- 101 **galaeth** Amrywiad ar *alaeth*, gw. GPC 73, ond gellid diwygio yn *Galath*, un o farchogion Arthur, gw. TYP<sup>2</sup> 353–4.
- 102 **gwlad Trefawr** Orlheiniai teulu Catrin eu hachau hyd at Dudur Trefor, mab yng nghyfraith Hywel Dda.
- 105 **reiad** ‘Ymddygiad swnllyd, terfysg’. Nodir y ffurfiau *reiat*, *reiet*, *riat* yn GPC 2979.
- 107 Cf. llau. 7–8 ym marwnad Siôn i Domas Pennant.  
*n wreiddgoll.*
- 113 *n wreiddgoll.*
- 116 **llaw Gai** Parthed y treigladd, cf. *llaw Grist* yn ll. 118 isod. Diwygiwyd *llaw gaem* y llsg. Ond ceir yr un darlenniad yn y rhan fwyaf o'r llsgrau. sy'n cynnwys testun o gywydd Lewys Daron i Faredudd ab Ieuan ap Robert, gw. GLD 21.14, sef *bedd kaem*. Diwygiwyd hwn drachefn yn *bedd Cai*.
- Teÿrnlug** Cadell D(d)yrnlug oedd sylfaenydd llinach frenhinol Powys, gw. J.E. Lloyd: HW 243.

Merch Robert ab Ieuan Fychan o Goetmor, Llanllechid, ap Madog ap Hywel ... Iarddur oedd Sioned, gw. WG1 528; WG2 1032; PACF 277; L. Dwnn: HV ii, 165–6. Ail wraig Robert, a mam Sioned, oedd Marsli, merch Emwnt Stanlai. Priododd Rhys ap Robert, ei brawd, â Marged, merch Siôn Aer Conwy ap Siancyn Conwy, hithau yn chwaer i Birs Conwy, gwrthrych cerddi 5–6. Ei chwaer, Gwerful ferch Robert, oedd ail wraig Wiliam ap

Gruffudd ap Robin, Cwchwillan (ond y wraig gyntaf oedd mam Wiliam ap Wiliam a gyferchir yng ngherdd 13). Siôn ap Dafydd ab Ithel Fychan oedd gŵr priod Sioned, a marwnadwyd yntau yn ei dro gan Siôn ap Hywel (gw. cerdd 10).

Collwyd rhannau o'r testun yn llawysgrif LIGC 17113E, sef diwedd llinellau 55–8 a 118–22, oherwydd treulio ochr y ddalen.

1–2 Dyfynnir y cwpled cyntaf yn Pen 221, 10, sef y rhestr a baratoes John Jones, Gellilyfdy, o gynnwys ei gasgliadau o ganu'r beirdd, *Ni welir tes o law yr tad / na llewyrch yn y llevad*. Collwyd y llgr. y copïwyd y cywydd hwn ynddi; ar y llgr. goll hon, gw. M.T. Burdett-Jones, 'Trydydd llyfr cywyddau John Jones, Gellilyfdy', YB xvi (1990), 127–40.

1 *n* wreiddgoll.

3 *n* wreiddgoll.

4 *n* wreiddgoll.

13 **crynwst** 'Cryndod', ond eg. ydyw yn ôl GPC 625.

16 *n* wreiddgoll.

17 **gwenloer** *Gwenlloer* yn unig a gofnodir yn GPC 1638, a thystia'r ffurf i'r caledu sy'n digwydd mewn cyfansoddeiriau rhywiog pan ddilynir *n* gan *ll*, gw. Treigladau 27–9. Ond nodir yn *ib.* rai enghreifftiau o beidio â chaledu.

20 **Ieuan Llwyd** Gwladus, merch Ieuan Llwyd, oedd gwraig Ieuan Fychan ap Madog.

23 **tri baich** Disgrifir y tri yng nghywydd cymod Guto'r Glyn i Ieuan Fychan, gw. GGI<sup>2</sup> XXVII.1–8, sef Sain Cristoffir yn cario Crist, Ercles yn cynnal y byd, a baich drain y gŵr ar y lleuad. Gw. ymhellach Eurys I. Rowlands, 'Y Baich Drain', LICy iv (1956–7), 172–6.

25 **bâr** Nid llai ystyrion *bar* 'brawdlys, barn', gw. GPC 256.

29 Camosodiad f.r = r.f.

29–30 Cf. yr odl yn 16.33 *iaf* / *Addaf*.

30 **tysinaf** Ffurf ar *tisio* 'to sneeze', gw. Thomas Jones, *Y Gymraeg yn ei Disgleirdeb* (Caerlŷdd, 1688).

31 Yn yr holl lsgrau. (ac eithrio Pen 82), cyfrifir *marw* yn air deusill.

39 **Dwynwen** Cyffelybir Sioned i Ddwynwen, nawddsantes y cariadon, gw. LBS ii, 387–92, ac awgrymir i ŵr Sioned, a'i holl gydnabod, golli gwrthrych eu serch.

40 *f* led-lafarog.

42 **dewinion** Diau mai'r ystyr 'beirdd' yn hytrach na 'gwŷr hudol' sydd

fwyaf priodol yma, gw. GPC 941.

44 Ychwanegwyd y geiriau *dawn y synwyr* yn LIGC 17113E.

49 **Croes Naid** Crair a fu ym meddiant Tywysogion Cymru, gw. GPC 604 a J. Beverley Smith, *Llywelyn ap Gruffudd* (Caerdydd, 1986), 391.

53 Cynghanedd groes o hanner cyswllt, d = nt, ond y mae'r gyfatebiaeth yn rheolaidd yn 14.56. Gw. y drafodaeth ar y dosbarth hwn o gynganeddion yng nghanu Siôn Ceri, GSC 14–16.

59 *r* berfeddgoll.

64 *n* wreiddgoll.

65 **Sabel** Y mae'n amlwg na allai Lewis Morris esbonio pwy ydoedd: 'Sabel pro Isabel, qu?', gw. *Celtic Remains* (London, 1878), 384. Tybed ai Isabella (1451–1504) ydyw, brenhines Castilla, a gwraig a ymenwogodd ar gyfrif ei buchedd sanctaidd a'i dysg?

**Elen** Elen Fannog yn ddiau, gw. TYP<sup>2</sup> 343.

66 **Pria'** Priaf Hen, Brenin Tro, a thad Policsena a Sibli, gw. TYP<sup>2</sup> 494–5.

67 **boneddigion** Awgrym cynnil mai ar gyfer eu datgan yn gyhoeddus y llunnid cerddi defodol y Cywyddwyr.

67–8 **Ni ddygynt ... / ... gannwyll i hon** 'Ni thalai cymharu'r rhain â Sioned' neu 'ni allai'r rhain ddysgu dim iddi', a cf. yr ymadrodd Saesneg '*not to be able or fit to hold a candle to*', gw. OED<sup>2</sup> ii, 826 (perthyn yr enghraifft gynharaf i ganol yr 16g.).

72 **Sibli** Sibli Ddoeth, sef un o'r 'Tri dyn a gafas Ddoethineb Addaf', gw. TYP<sup>2</sup> 128, 508. Merch Priaf Frenin oedd hi. Ceir testun o'r broffwydoliaeth a briodolir iddi yn Llyfr Coch Hergest yn R. Wallis Evans, 'Proffwydoliaeth Sibli Ddoeth', Llyfr xiv (1981–4), 216–23.

Camosodiad g.l = l.g.

74 Digwydd yr un ll., i bob pwrpas, yn un o gywyddau Guto'r Glyn, gw. GGI<sup>2</sup> CV.11–12 *A Thegau uwch Porth Wgon / A llaes yw'r fantell i hon*. Esbonnir y gyfeiriadaeth yn y darn a ganlyn o waith Gwilym ab Ieuan Hen, gw. GDID XII.37–44:

Tebyg, wŷr Feurig, farwn,  
Yw dy bais, o dyb a wn,  
I fantell, pes dyellynt,  
Ti a gai gerdd, Tegau gynt;  
Yn amser rhi Caerllion  
Prif oed dydd y profwyd hon:  
Ber oedd i bawb, ber heb au,  
A digon llaes i Degau.

Ar Degau Eurfron (gwelir Siôn yn chwarae ar yr enw hwn ym mraich gyntaf y cwpled, ll. 73 uchod), gw. TYP<sup>2</sup> 512–14. Trafodir y chwedlau



am Degau gan Graham C.G. Thomas, 'Chwedlau Tegau Eurfron a Thristfardd, bardd Urien Rheged', B xxiv (1970–2), 1–9.

- 88 **brenin Pers** Mab Danae a Zeus oedd Perseus. Ai cyfeiriad sydd yma at ei alar wedi iddo ladd ei daid yn ddamweiniol?
- 89 *n* wreiddgoll.
- 102 **lliny** Yn ffig. 'rheol (bucedd), safon (bywyd)', gw. GPC 2185.
- 108 **Einion** Cyfeiriad at dylwyth Marged, gwraig Madog ap Hywel. Merch Ieuan ab Einion ap Gruffudd oedd hi, gw. WG1 431, 433. Canodd Gruffudd Gryg i'r Einion hwn, a mawrygwyd ei fab, Ieuan, gan Iolo Goch a ganodd hefyd i frawd Einion, sef Syr Hywel y Fwyall, cwnstabl Cricieth, gw. DGG<sup>2</sup> LXXVIII; GIG II, III.
- 110 **car** Darlleniad llsgrau. BE yw *karr*, 'cerbyd, ffram', gw. GPC 421–2. Tybed ai'r ystyr drosiadol 'rhwym, llyffethair' a gyfleir yma?
- 111 **trillew** Meibion Sioned. Fe'u henwir yn y cywydd nesaf.
- 115 **Moesen** Gw. 5.41n.
- 116 **ffrwd dŵr Pharo** Adroddir yr hanes yn Ecsodus xiv.19–31.
- 117 Cynghanedd sain ond nid atebir y gytsain o dan yr acen.
- 126 Y mae darlleniad LIGC 435B (a'r llsgrau. sy'n dilyn y testun hwn) yn rhagori, ond perchir darlleniad y llsgrau. eraill y pwyswyd arnynt wrth lunio'r testun.

## 10

Canodd Siôn ap Hywel farwnad i Sioned ferch Robert (gw. cerdd 9), ac i'w gŵr, Siôn ap Dafydd ab Ithel Fychan ap Cynfrig ap Robert ... Rhirid ... Ednowain Bendew, gw. WG1 262–4; WG2 504, 509; L. Dwinn: HV ii, 305; HPF iii, 100. Un o chwe mab Dafydd ab Ithel Fychan oedd Siôn, a chanodd Dafydd ab Edmwnd iddo ef a'i bum brawd, gw. DE XLIII, LIX.

- 1–2 Cofnodwyd y cwpled cyntaf yn Pen 221, 2, *Bwriwyd terwen brav i ttorres / brig mawr lle by rowiog mes.*
- 3 *f*led-lafarog (neu *n* wreiddgoll).
- 4 *n* wreiddgoll.
- 10 **clwydau** Trosiad am asennau'r galarwyr.
- 13 **baedd du** Arwydd herodrol Ednowain Bendew, gw. DWH i, 138–9.
- 15 Diau mai'r darlleniad y ceisiwyd ei gyfleu yn llsgrau. B–FJ yw *Mwy oedd enw ym myddinoedd.*
- 17 **chwemaib** *Chwe(ch) + maib*, ffurf l. arbennig *mab*, a ddefnyddir ar ôl

- rhifol fel arfer, gw. GMW 47.
- 22 Twyll gynghanedd *dd*. Lluniodd Siôn linellau tebyg, gw. 13.41, 20.14, 24.4 hefyd 11.2 a 16.14 lle y digwydd *dd* o dan yr acen.
- 23 **holliad** Y ffurfiau *holliad*, *holliad* a nodir yn GPC 1894–5, ond cofnodir dwy ffurf ar y be., sef *holli* a *holli*.
- 24 *n* berfeddgoll. Ychwanegwyd *llu* uwchben *llan* yn LIGC 435B.
- 26 **Iefan** Un o chwe mab Dafydd ab Ithel Fychan. Goroedd ei bum brawd, ac fe'i marwnadwyd yntau yn ei dro gan Lewys Daron a chan Dudur Aled, gw. GLD cerdd 26; TA LXXVII.
- 27 **Broneirian** Dyma'r darlenniad yn nwy Isgr. John Jones, Gellilyfdy, gw. isod ll. 72.
- 33 Gweddai darlenniad Brog (y gyfres gyntaf) 6, *Aeth hin...*
- 38 **marw** Yn ddeusill, a thrachefn yn ll. 47.
- 39 *n* wreiddgoll.
- 40 **nawny** Y Nawyr Teilwng. Fe'u rhestrir yng nghywydd Guto'r Glyn i Siôn Hanmer, gw. GGI<sup>2</sup> LXIII, ac ymhellach Dafydd Ifans, 'Nawwyr Teilwng Plas Bodwrda', Cylchg LIGC xviii (1973–4), 181–6.
- 43 Un o'r ychydig enghreifftiau o'r gynghanedd sain gadwynog yn y canu.
- 45 **bryf** 'Gwrit, gorchymyn swyddogol', gw. GPC 339, ond geill mai ffurf ar *prif* yw *pryf*, gw. GPC 2886, 2921. Os felly, dylid diwygio yn *yn ei bryf*, 'yn ei anterth'.
- 47 **Emrys** Emrys Wledig; gw. TYP<sup>2</sup> 345–6. Priodol ei enwi oblegid fe'i lladdwyd trwy ei wenwyno, gw. BD 130–1.
- 60 **Syr Harri** Ficer Chwitfordd, yn ôl WG2, ond nid yw ei enw i'w weld yn y rhestrau a gyhoeddwyd yn D.R. Thomas: HDStA ii, 206–8.
- 65 **Hywel** Canodd Huw ap Dafydd iddo, gw. GHD cerdd 2, ac fe'i marwnadwyd mewn awdl o waith Gruffudd Hiraethog, gw. GGH cerdd 9.
- 72 **Wiliam** Un o hynafiaid John Jones, Gellilyfdy, gw. L. Dwnn: HV ii, 305.
- 76 **tri llawenydd** Y tri mab a grybwyllwyd yn y llau. uchod, ond diau fod Siôn ap Hywel yn chwarae ar yr ymadrodd *pum llawenydd Mair*, gw. GPC 2928.

Gwelir testun o'r farwnad i Dudur Aled (arno gw. CLC<sup>2</sup> 733), yn seiliedig ar ddwy lawysgrif, sef Card 2.114 [= RWM 7] a 4.10 [= RWM 84], yn TA Atodiad VIII. Awen ddilyffethair y golygydd, yn hytrach na chynnwys y

llawysgrifau yr ymgynghorodd â hwy, sy'n esbonio'r gwahaniaethau rhwng y testun a gyhoeddir yma a'r hyn a gyhoeddwyd yn TA.

2 *dd..dd* berfeddgoll. *Dirwyodd Duw yr awen* yw darlleniad TA.

3 *n* wreiddgoll.

5 **gwydyn** Yr odl yn mynnu'r ffurf lafar ddeusill. Llurguniwyd y testun yn TA *Gwedi a wnaed, gwaith gwydn* [ydyw], / *Gorwedd gwawd fal y gwraidd gwyw*.

8 **arian gadair** Sef yr gadair arian a enillodd Tudur yn yr eisteddfod a gynhaliwyd yng Nghaerwys yn 1523, gw. TA xxix–xxxix a cf. GLD 25.75–6 *Gwedi'r ir gadair arian / Y'n gelwir fyth yn glêr fân*. Gw. hefyd D.J. Bowen, 'Graddedigion Eisteddfodau Caerwys, 1523 a 1567/8', LICy ii (1952–3), 129–4.

9 **iaith Roeg** Esbonnir y cyswllt rhwng yr iaith hon a'r Gymraeg yn BD 19 *Ac o hynny allan yr yeith, a elwyt kyn no hynny yeith Tro, neu ynteu Kam Roec, a elwit gvedy hynny Brytanec*.

11 *n* wreiddgoll.

12 *n* wreiddgoll.

16 Digwydd yr un ll. mewn cywydd arall o eiddo'r bardd, gw. 8.63.

24 Mewn un llsg. ddiweddar yn unig, sef LIGC 668C, y digwydd y darlleniad hwn.

26 **bwriodd feirdd** 'Trechodd feirdd' (yn eisteddfod Caerwys, yn ddiau).

29 Chwe sillaf yn y ll. fel y'i ceir yn yr holl lsgrau., ac eithrio J 139 [= RWM 14].

30 Cynghanedd wallus, ond nid yw yn annhebyg i'r un a drafodwyd uchod, gw. 1.15n.

32 Wyth sillaf yn y ll.

39 Twyll gynghanedd *c*, ond ceid cynghanedd sain reolaidd o fabwysiadu darlleniad LIGC 2288B, gw. yr Amrywiadau a 11.67n isod.

43 **cun** 'Hardd, aruchel', gw. GPC 630, ond gellid yr e. 'arglwydd, pennaeth', gw. GPC 629.

44 **Caerfyrddin** Canodd Tudur yn helaeth i Syr Rhys ap Tomas, ac yng Nghwrt y Brodyr yng Nghaerfyrddin y bu farw. Cyfeirir isod, gw. ll. 52, at yr 'eisteddfod' a gynhaliwyd yn Aberteifi dan nawdd yr Arglwydd Rhys. Dygir yr achlysur hwnnw i gof yn Ystatud Gruffudd ap Cynan, gw. Thomas Parry, 'Statud Gruffudd ap Cynan, B v (1929–31), 26, ond yn arwyddocaol, ni chrybwyllir yn y ddogfen honno yr eisteddfod a gynhaliwyd tua chanol y bymthegfed ganrif gerbron Gruffudd ap Nicolas, gw. TA xxxvi. A awgrymir yma i Dudur etifeddu mantell

- Dafydd ab Edmwnd, pencerdd eisteddfod Caerfyrddin? Os felly, nid amhriodol ei gyffelybu i Daliesin, am i'r bardd hwnnw, yn ôl y traddodiad, orchfygu beirdd Maelgwn Gwynedd, gw. CLC 559; TYP<sup>2</sup> 511; IGE<sup>2</sup> LVI.53–6.
- 46 *n* berfeddgoll.
- 47–8 **Edyrn ... / Dafod Aur** Yn ôl traddodiad, lluniodd ramadeg a dosbarthu rheolau cerdd dafod yn y 13g., gw. CLC 173; ByCy 165.
- 50 **Tydai** Yn Englynion y Beddau yn Llyfr Du Caerfyrddin y gwelir y cyfeiriad cynharaf ato, gw. LIDC 18.10. Fe'i henwir yn fynych (ynghyd â ffigurau megis Taliesin ac Adda Fras) yn y marwnadau a ganodd y beirdd i'w cyd-brydyddion, gw., e.e., GIF 45.21–2; GIG XXII.35; OBWV 99.51. Digwydd y ffurf *Tydain* hefyd, gw. llsgr. D.
- 52 **[yr] Arglwydd Rhys** Teilyngai Tudur y parch a roddwyd i fuddugwyr yr eisteddfod gyntaf a gynhaliwyd yn llys yr Arglwydd Rhys yn Aberteifi. Ar yr achlysur hwnnw, gw. J.E. Caerwyn Williams, 'Yr Arglwydd Rhys ac 'Eisteddfod' Aberteifi 1176: y cefndir diwylliannol' yn *Yr Arglwydd Rhys*, gol. Nerys Ann Jones a Huw Pryce (Caerdydd, 1996), 94–128.
- 54 **pióedd** Yn acennog, ond nid felly bob tro, gw. GHC 1.18 *Llew pioedd llywio Powys*.
- 59 **ewythr** Ymdrinnir ag ach Siôn ap Hywel yn y Rhagymadrodd, tt. 1–3. Priododd un o'i hynafiaid, sef Cynfrig ab Ieuan, â Thangwystl ferch Robert, gw. WG1 263, a chwaer Ithel ap Robert, yr archddiacon, a farwnadwyd gan Iolo Goch. Yr oedd chwaer i'r ddau hyn yn briod â Chynfrig ap Bleddyn Llwyd, gorphendaidd Tudur Aled, gw. WG1 511; WG2 971; hefyd Cledwyn Fychan, 'Tudur Aled: Ailystyried ei Gynefin', *Cylchg LIGC xxiii* (1983–4), 50–1, 53–7.
- 62 **cyfrinach** '[Athro ar] y ddysg farddol'.
- 67 **cadwynnai** Diau mai'r ffurf ferfol, yn hytrach na'r e.ll., *cadwynau*, sydd ei hangen, ond mewn un llsgr. ddiweddar yn unig y digwydd, sef LIGC 2288B.
- 81 **nawdd Dduw** *Nawdd Duw* yw darlleniad y rhan fwyaf o'r llsgrau., ond rhydd hyn linell ac ynddi dwyll gynghanedd *d*. Ar yr ymadrodd *nawdd Dduw*, a'r treigladau, gw. Treigladau 107 a GPC 2556.
- 97–8 Gwelir yr un odl mewn cywydd arall o waith y bardd, sef 21.33–4.

ii, 333–4; PACF 223. Dyddiwyd ei ewyllys 5 Mehefin 1543, gw. GST ii, 141, ac fe'i marwnadwyd gan Ruffudd Hiraethog, gw. GGH cerdd 79, a chan Lewys ab Edward, gw. Lewis ab Edward: Gw cerdd 27. Diogelwyd cywydd Siôn yn llawysgrif LIGC 6495C y dechreuodd Wiliam Cynwal ei llunio yn 1570 ar gais Catrin o Ferain, wyres Robert Fychan. Gwelir yn y casgliad hwnnw ugain cerdd i Dudur ap Robert Fychan, tad Catrin.

Nid enwir yr eirchiad yn y ffynhonnell hon, ond gwelir y geiriau 'dros Ddafydd y canv' uwchben y cywydd yn y ddwy lawysgrif arall sy'n cynnwys y cywydd. Methwyd â tharo ar y gŵr hwn yn WG1 nac yn WG2, ond efallai i Wiliam Bodwrda gamddehongli'r cwpled 29–30, ac mai *Dafydd ... wyf fi* yw'r prif ddatganiad yn hytrach na *Dafydd [y] ... Canu wyf fi*.

- 1 **diodwin** 'Hoff o yfed gwin', gw. GPC 1023, ond priodol hefyd yr ystyr 'un sy'n darparu diod o win'.
- 8 **Melwas** Gw. GO XVI.47n a GDG 64.23n lle y nodir mai 'prin iawn yw'r cyfeiriadau at Felwas yn Gymraeg ac amhendant yw'r rhan fwyaf ohonynt', ond ceir sawl cyfeiriad canmoliaethus ato yng nghanu Tudur Aled.
- 11 **t'wysogryw** Gw. 12.56n isod.
- 14 Bernir na ddewisai'r bardd ailadrodd yr un gair ar ddechrau dwy l. y cwpled. Dilynwyd llsgrau. BC yma felly (ailadroddir y gair *llin* yn llsgr. A), ond dilynwyd llsgr. A yn achos cwpled 45–6 (y tro hwn, ailadroddir *ffroenau* yn llsgrau. BC).
- 15 **gweled** Ffurf amhrs.grff.myn. y f. *gweld*, gw. G 654; GCC 85.
- 16 **gwaed Rhobin** Gw. 7.42n  
**Rhobin** Gwraig Tudur ab Ieuan oedd Lleucu, merch Siôn ap Robin ap Gruffudd Goch ... Marchudd (ll. 19), gw. WG2 1305.
- 21 Tystia darlleniadau llsgr. B ddarfod codi'r cywydd o ffynhonnell lafar (naill ai gan Wiliam Bodwrda ei hun, neu gan ei gynsail), ac fe'i dilynwyd gan C.
- 32 **chwarwyfa** 'Man chwarae, llannerch chwarae, theatr', gw. GPC 846, a cf. y ffurf *chwaraefa*, gw. GPC 843. Gresyn na fanylodd y bardd ar natur yr adloniant a gynigid yn y cyfryw le.  
*r wreiddgoll, neu f'led-lafarog.*
- 37 **garrir** 'Hir ei arrau', gw. GPC 1382, ond nid yw'r gynghanedd lusz yn gwbl foddhaol. Ceid odl reolaidd o newid *gweirbawr* yn *gwirbawr*, ond prin yr ychwanega hyn at werth y ll. Sylweddolodd copiwr llsgr. C fod y ll. sillaf yn brin, a gadawodd fwllch ar ôl y gair *carn*.
- 38 **egwydfain** *Egwyd* ('y twddf neu'r chwydd ac arno dusw o flew sydd y tu ôl i goes ceffyl yn union uwchlaw'r carn', gw. GPC 1180) + *main*.

- 40 **carwffos** 'Ffos i atal neu i ddal ceirw'. Nis nodir yn GPC 435.
- 41 **gweill** Ffurf l. *gwaell* 'darn hirfain o fetel, bwcl', gw. GPC 1550. Fe'i defnyddir yma yn drosiad am bedolau'r march.
- 44 **aethnen** 'Math o boplysen nodedig am ei dail crynedig', gw. GPC 40.
- 46 **meginau mawr** Adlais, o bosibl, o'r disgrifiad yn chwedl 'Breuddwyd Rhonabwy', *A phan rynnei y march y anadyl y wrthaw y pellaei y gwyr y wrthaw. A phan y tynnei attaw y nesseynt wynteu attaw hyt ym bron y march*, BRh 4 (llau. 16–19).
- 51 **llygadlon** Cynigir yr ystyr 'llon neu lawen ei lyga(i)d' yn GPC 2263, ond rhoddir i *llon* yr ystyron 'cadarn, cryf, craff (am y golwg)', gw. GPC 2206, a gweddaï'r ystyr 'craff ei olwg' yn y cyd-destun.
- 55 **Urien** Cyfrifid Marchweithian, pennaeth un o bymtheg llwyth Gwynedd, yn un o ddisgynyddion Pasgen ab Urien Rheged, gw. WG1 tabl 51.
- 56 **Coedmor** Priododd Siôn ap Robin ap Gruffudd Goch â Nest, merch Gruffudd ap Hywel Coetmor ... Gruffudd ap Cynan, gw. WG2 832.
- 57 '**Lidir** Methwyd ag esbonio'r cyfeiriad hwn, ond cf. 1.18n.
- 58 **Siob** Cyfeirir yn fynych at ei sancteiddrwydd, ond fe'i hynodid hefyd (a barnu wrth y cyfeiriadau ato yn y canu) ar gyfrif ei ddewrder a'i gyfoeth. Yr olaf a fawrygir yn y ll. hon, a cf. GIF 4.65–6 *Dy olud felly delo / mal y doeth am olud Io*.

## 13

Erchir y llechi gan Wiliam ap Wiliam ap Gruffudd ap Robin o Gwchwillan. Am ei ach, gw. WG2 1270–1; PACF 186; L. Dwnn: HV ii, 86; Hefyd ByCyAt 171–2 lle y dangosir ddarfod penodi Wiliam ap Gruffudd (a fu farw yn 1500) yn siryf Arfon am oes yn 1485. Lowri, merch Harri Fychan Salbri ap Tomas Salbri Hen, oedd gwraig Wiliam ap Wiliam, gw. WG2, 1569, 1576.

Collwyd rhannau o ymyl y ddalen yn BL Add 14901.

- 2 **aur yn dorch** Deisyfiad Siôn yw gweld Wiliam yn siryf Arfon, fel ei dad o'i flaen. Deuai'r anrhydedd hwn i'w ran yn 1541, 1546 a 1552, gw. *Lists and Indexes IX: List of Sheriffs for England and Wales* (Public Records Office, London, 1898), 248.
- 4 **sir Gaer** Sir Gaernarfon. Am enghreifftiau eraill, gw. GLM XL.39, XLVIII.31–2.
- 5–6 Awgrymir i Wiliam ap Gruffudd a'i gymdogion esgeuluso eu cartrefi pan aethant i gynorthwyo Harri Tudur yn y frwydr dyngedfennol yn

1485. Dygodd Lewys Daron i gof orchestion Wiliam ar faes y gad, gw. GLD 8.29–30 *Carwr Harri, crair hirwych, / Ac i'r maes gŵr grymus gwyh*. Ond efallai fod yma gyfeiriad at ganlyniadau ymrwymiad cynharach Wiliam wrth achos y Lancastriaid. Ei wraig oedd Angharad, merch Dafydd ab Ieuan ab Einion, a fu'n cynnal castell Harlech ar ran y blaid yn chwedegau'r 15g.

7 *n* wreiddgoll.

11 **Tai Ruffudd** Am y treigladd meddal, gw. Treigladau 110.

15 **Rhys** Gwraig Robin oedd Angharad, merch Rhys ap Gruffudd ap Goronwy, gw. WG1 530.

16 Gw. yr Amrywiadau. *wiliam* a ysgrifennwyd yn y lle cyntaf yn Pen 100, ond fe'i newidiwyd yn *willam*.

18 **Derwas** Gruffudd Derwas ap Meurig Llwyd, Nannau. Ei ferch, Maltt, oedd gwraig Gruffudd ap Robin, gw. WG1 78. Ysgrifennodd David Ellis ar ochr y ddalen yn CM 12, 'Bryn derwas, a house near Cwchwillan'.

20 **yr Hendwr** Priod Wiliam ap Gruffudd oedd Angharad, merch Dafydd ab Ieuan ab Einion o'r Cryniarth, gw. WG1 728. Mam y Dafydd hwn oedd Angharad, merch Dafydd ab y Gŵn Llwyd (gw. ll. 22 isod) ap Dafydd ap Madog o'r Hendwr, gw. WG1 53–4.

22 Wyth sillaf yn y ll. Gellid *Aur egin, llew'r Gŵn Llwyd*.

33 **Huw ap Rhys** Priododd Annes, chwaer Lowri, â Siôn Gruffudd ap Gruffudd ap Llywelyn o'r Chwaen, gw. WG2 1012. Enwir hi yn y cywydd marwnad a ganodd Lewys Môn i'w gŵr, gw. GLM VII. Eu mab hwy oedd Siôn Gruffudd II, a phriododd yntau ag Elin, merch Huw ap Rhys, gw. WG2 1036, a chynigir mai ar ran yr olaf yr erchir y llechi. Cais Siôn ap Hywel sicrhau'r rhodd trwy bwysleisio'r cyswllt (trwy briodas) rhwng Elin ferch Huw ap Rhys a Lowri, gwraig Wiliam ap Wiliam, Cwchwillan.

**glaswen** 'Gwelw, di-raen', a cf. 16.60 y *Grog laswyn*, ond 'disglair, prydferth' yw ystyron *glaswyn* yn 13.45, yn y rhan o'r cywydd lle y disgrifir y to wedi ei orchuddio â llechi.

35 Twyll gynghanedd *l; n* berfeddgoll.

37 **aberffos** Cyfansoddair o *aber* a *ffos*, 'llifeiriant megis llifeiriant ffos' (oherwydd ansawdd simsan y to). Ond o ystyried mai dros ŵr o Fôn yr erchir y llechi, gellid diwygio yn *Dido Aberffro ni bu*. Gyda golwg ar y ffurf *Aberffro*, cf. GLM XI.72.

39–40 Deisyfiad a fynegir yn y sangiad, sef '[bydded] main yn faich da a sylweddol i orchuddio[‘r to]’.

40 **uwchdan** Lle tân sefydlog yn hytrach na tân agored. Yr arfer, o ganol

y 15g. ymlaen, oedd adeiladu tai ac ynddynt le tân a simnai. Yng Nghwchwillan gosodwyd y tân hwnnw yn y wal hwyaf, gw. llun o'r neuadd a adeiladwyd yn ystod oes Wiliam ap Gruffudd ap Robin yn Peter Smith, *Houses of the Welsh Countryside* (London, 1975), platiau 26–7.

*f*led-lafarog.

- 41 Camosodiad l.n = n.l; twyll gynghanedd *dd*. Neu gellid diwygio yn *Cael neuadd, tâl cynnal tŷ* (ond prin yw'r cynganeddion sain cadwynog yn y canu).
- 44 Ar y gyfatebiaeth t = -d s-, gw. J. Morris-Jones: CD §381.
- 47 **murddun** 'Adeilad', ond 'adfail' yw'r ystyr arferol, gw. GPC 2503.
- 49–50 Cf. disgrifiad Dafydd Nanmor o abaty Ystrad-fflur, gw. OBWW 80.11–12 *Lliw'r gynau oll rhyg Ionawr, / Lliw dŵr marl fel llwydrew mawr*.
- 52 **mantell o wreichion** Ar yr olwg gyntaf, ymddengys mai trosiad am y llechi yw *mantell o wreichion*. Ond yng ngoleuni cwpled agoriadol cywydd Guto'r Glyn i ofyn ysglats gan Risiart Cyffin, deon Bangor, dros Syr Gruffudd ab Einion, gw. GGI<sup>2</sup> XCVIII.1–2 *Rhoi tŷ'r wyffry ar y fron, / Rhoi caer uchel rhag gwreichion*, tebycach mai trosiad am y sêr ydyw.
- 53 Dangoswyd yn llsgrau. AB fod gair yn eisiau ar ôl *bleidwaith*. Ni ddisgwylid treigladd yma, *bleidwaith ... blad*. Ceidw'r bardd y cymeriad llythrennol yn gyson yn y rhan hon o'r cywydd, a dichon iddo ddewis treiglo er mwyn cynnal y cymeriad yn y cwpled.
- pleidwaith** Sef *plaid* ('gwaith o wiail; pared, clwyd') a *gwaith*.
- plad** Ffurf amrywiol ar *plât* 'darn tenau o fetel, un o'r platiau sy'n ffurfio arfwisg'. Datblygir y syniad trwy gyffelybu'r llechi i frigawns yn ail fraich y cwpled.
- 59–60 Dichon y gellid gwella'r rhediad pe lleolid y cwpled hwn ar ôl llau. 57–8.
- 63 **hawl y wlad** 'Yr hyn y mae'r wlad yn ei erchi neu ei fynnu'.
- 65–6 **y main / ... o Rufain** O chwedl 'Breuddwyd Macsen Wledig' y daw'r cyfeiriad hwn, gw. BrM 9 *Ac yna y dewissawd [Macsen] g\6neuthur y gaer uchaf yn Aruon idi, ac y ducp\6yt eg\6eryt Ruuein yno, hyt pann uei iachussach yr amhera\6dyr y gyscu, ac y eisted, ac y ymdeith. Odyna y g\6naethp\6yt y d\6y gaer ereill idi, nyt amgen, Kaer Llioni, a Chaer Vyrdin*.
- 68 **tir 'Werddon** Yn ôl yr hanes, gw. BD 126–9, yn Iwerddon y safai meini Côr y Cewri yn wreiddiol. Cyfeiria Guto'r Glyn, yntau, gw. GGI<sup>2</sup> XCVIII.53, 56–7 (ac y mae lle i gredu bod Siôn ap Hywel yn gyfarwydd



â'i gywydd i ofyn ysglats, gw. 13.52n uchod), at *Main cowri ail Salbri sydd* ac at y *Main o Rufain a rwyfynt / O'r llanw i Gaerlleon gynt*.

Camosodiad dd.r = r.dd.

70 *m* wreiddgoll.

71 *n* wreiddgoll.

73 Gellid atalnodi'r cwpled yn wahanol: *Doir â'i long i dir y wlad / Fw dwyn; llaw Dduw amdanad*.

#### 14

Ceir arolwg o'r canu cynnar i Fôn yn ysgrif Gruffydd Aled Williams, 'Môn y Beirdd' yn *Ynys Môn: Cyfres Bro'r Eisteddfod 3*, gol. Bedwyr Lewis Jones a Derec Llwyd Morgan (Llandybie, 1983), 93–111. Gw. hefyd gan yr un awdur 'Cywydd Gruffydd Gryg i Dir Môn', YB xiii (1985), 146–54.

3 *n* wreiddgoll.

9 **meirion** Tybiodd sawl copïwr fod yn y ll. gyfeiriad at enw'r sir, ond un o ffurfiau ll. *maer* sydd yma yn ddiau, gw. GPC 2311 lle y rhestrir y ffurf hon a'r ffurfiau ll. *meiri*, *meiriau*, *meirydd*, *maeriaid*.

10 **mam** Gw. hefyd ll. 60 isod. Cynnar yw'r traddodiad am Fôn Mam Cymru. Y mae'r ymadrodd i'w weld yn un o awdlau Prydydd y Moch, *Gorfydd udd dremrudd dra môr lliant—ym Môn*, / *Mam Gymru y'i meddant*, gw. GLIL1 23.145–6.

**y tair talaith** Tair talaith Cymru, sef Gwynedd, Powys a Deheubarth, fel yr esbonia Gutun Owain, gw. GO LXIII.23–8:

Mae tair gwlad, am Vto'r Glyn  
Mawl Powyswyr, mal peiswyn:  
Y Deav feirdd wedi 'fo  
Sydd wanach i swydd yno;  
Gwyr Gwynedd gwiw ar ganv,  
Gwae'r fan wrth y gŵr a fv!

Gw. ymhellach GO XLII.19–29 a GLM LXXXIV.15–18. Cyfeiria Siôn Brwynog, fodd bynnag, yn ei ymryson â Gruffudd Hiraethog ynghylch rhinweddau Môn a Thegeingl, at 'bum gwlad' Cymru, sef Gwynedd, Powys, Deheubarth, Morgannwg a Gwent, gw. GGH 125.17–18 a td. 539 *Môn gadarn, lle myn godiad*, / *Mae imp amgylch mam pum gwlad*.

13 **Duw'n ei grys** Camosodiad g.n = n.g y gellir ei oresgyn o dderbyn y darlleniad *Dwg yno rad Duw gwyn rys*. Ond diau mai ymdrech copïwr diweddarach i resymoli'r darlleniad gwreiddiol sydd yma. Disgrifir yr arfer o addurno'r ddelw o Grist ar y Groes yn yr awdl o waith Siôn ap

- Hywel i Dduw a'r Grog yn Llanfair (cerdd 15). Y mae'r ymadrodd *Duw'n ei grys* i'w ddeall yng ngoleuni cyfeiriadau megis 15.41 *Yr wyd, y Grog euraid grys*, 15.73 *Gwisgwyd, bendigwyd gwirion—sidangrys*, a gthg. 15.92–3 *Pan fych ... / Yn Arglwydd gwaedgrys, cofus, cyfion*.
- 14 **ei Dywell Ynys** Mewn un llsgr. yn unig y digwydd ffurf fenywaidd yr a.; y *dywyll ynys* sydd yn y lleill. Gwelir yr un disgrifiad yn y cywydd marwnad a ganodd Iolo Goch i Feibion Tudur ap Goronwy, gw. GIG VI.43–4, ac egyr cywydd Lewys Glyn Cothi i'r sir—cywydd pur boblogaidd, fe ymddengys, oblegid fe'i ceir mewn 34 copi—â'r cwpled *Nos da i'r Ynys Dywell, / ni wn oes un ynys well*, gw. GLGC 226.1–2. Tywyllwch ei choedwigoedd a roes i Fôn yr enw hwn, yn ôl Henry Rowlands, gw. *Mona Antiqua Restaurata* (Dublin, 1723), 24.
- 23 Yn Aberffro yng nghantref Malltraeth yr oedd llys brenhinol tywysogion Gwynedd gynt.
- 27 **Harri** Nid oes modd dyddio'r cywydd, a geill fod yma gyfeiriad at Harri Tudur neu at ei fab, Harri VIII. Ni ddylid synnu bod y bardd yn dewis pwysleisio'r cyswllt rhwng y Goron a Môn. Ar y cyswllt hwn, gw. *Bosworth a'r Tuduriaid*, gol. Dafydd Glyn Jones a John Ellis Jones (Caernarfon, 1985), ac yn fwyaf arbennig tt. 25–30.  
*n wreiddgoll.*
- 28 *n wreiddgoll.*
- 30 **rhotio'r nos** Lladron neu ysbeilwyr yw'r sawl sy'n *rhotio'r nos*. Cf. yr ymadrodd *cyrchu'r nos* yng nghywydd Lewys Môn i Edwart Grae *gwarchae'r neb a gyrcho'r nos*, gw. GLM LXXXIV.39, a'r ymadrodd *tramwy'r nos* yng nghywydd Siôn Tudur i Siôn Wyn ap Cadwaladr *Trumiwch wŷr, trwm yw'ch aros, / Trumia'r neb sy'n tramwy'r nos*, gw. GST 49.53–4.
- 31 *n wreiddgoll.*
- 33 Yn ôl y traddodiad, yr oedd digon o ŷd ym Môn i gynnal Cymru am flwyddyn gron, gw. J.E. Lloyd: HW 230; DE XLIV.1–2.
- 35 Wyth sillaf yn y ll., ond gellir ynganu *cymydau* yn ddeusill.
- 38 **chwe chwmwd ym Môn** Sef Menai, Malltraeth a Llifon (a enwir yn y llau. sy'n dilyn), ynghyd â Dindaethwy, Talybolion a Thwrcelyn, gw. WATU 233.
- 44 **Neifion** Dyfalai Lewis Morris mai ffurf ar yr enw Eneas oedd Neifion, gw. *Celtic Remains* (London, 1878), 329, ond ffurf ar enw duw'r môr ydyw yn ôl John Rhŷs, *Celtic Folklore* (London, 1908), 444–5 a WCD 502. Y mae'n amlwg fod rhyw draddodiad gynt ynghylch Neifion a Môn, gw. DE IV.27–8 *Y nofiad a wnaeth neifion / o droya vawr draw i von*.

46 **Cynfarch** Tad Urien Rheged, gw. TYP<sup>2</sup> 322; G 247. Anodd gwybod ar ba sail y cyfeirir ato yn y cywydd hwn.

47 *f*led-lafarog.

50 **Cynan** Cynan ab Iago, tad Gruffudd ap Cynan, ac arglwydd Gwynedd rhwng 1033–9, gw. ByCy 81–2. Fe'i henwir yng nghywydd ymryson cyntaf Siôn Brwynog â Gruffudd Hiraethog, gw. GGH 125.19–22 a td. 539. Ond efallai mai cyfeiriad at Gynan Dindaethwy, mab Rhodri ab Idwal ap Cadwaladr, sydd yma. Bu'n rheoli Môn nes ei farw yn y flwyddyn 816, gw. ByCy 82 a J.E. Lloyd: HW 231. Ei ferch, Esyllt, oedd mam Merfyn Frych, gw. ymhellach GLGC 226.43–8 (ond fe'i gwneir yn fam Rhodri Mawr yng nghywydd Lewys Glyn Cothi).

51 *f*led-lafarog.

56 *n* berfeddgoll.

57 Y ll. sillaf yn fyr yn y rhan fwyaf o'r llsgrau.

60 y **Fam Ynys** Gw. 14.10n.

66 *r* berfeddgoll.

69 **Idwal** Idwal Foel, brenin Gwynedd yn y 10g., gw. ByCy 385 a J.E. Lloyd: HW 332–3.

77 **tylodion** Dyma ddarlleniad yr holl llsgrau., a rhaid wrth air trisill.

81 **Cybi** Gw. LBS ii, 202–15.

**Seiriol** Gw. LBS iv, 177–80. Y gynghanedd sy'n mynnu'r ffurf hon; disgwylid *Seirioel*, sef y ffurf a droes yn *Seiriol* erbyn ein dyddiau ni.

82 **Eilian** Gw. LBS ii, 435–44. Honnir iddo ddod o Rufain, gyda'i deulu a'i eiddo, a glanio ym Mhorthyrychen.

**Dwynwen** Un o ferched Brychan, a nawddsantes y cariadon; cysylltir ei henw â Llanddwyn yng nghantref Menai, gw. LBS ii, 387–92.

*n* berfeddgoll, neu gynghanedd groes o gyswllt sy'n cynnwys camosodiad l.n = n.l, cf. 4.56.

84 **llyna groes** Y mae'n amlwg fod y bardd yn ymwybodol o ddaearyddiaeth Môn, oherwydd y mae'r pedwar sant a enwir yn llau. 81–2 yn cynrychioli pedwar pegwn yr ynys, sef Penmon, lle yr ymsefydlodd Seiriol, a Chaergybi, Llanddwyn a Llaneilian.

87 *n* wreiddgoll.

Egyr yr awdl, o ran ei ffurf, yn gonfensiynol ddigon, gyda chyfres o englynion unodl union, ond ceir hefyd ddau gwpled ar fesur y cywydd (llau. 21–4) ac un englyn proest sy'n cynnwys dwy sillaf leddf a dwy dalgron

(llau. 41–4); digwydd y blaenaf yn llinellau 42 a 43 (*dwys / ebrwyddloes*) a'r olaf yn llinellau 41 a 44 (*grys / ddangos*). Ni chlymir pob pennill wrth y nesaf trwy gyrch-gymeriad. Ni cheir yr addurn hwn rhwng penillion 1 a 2, 5 a 6, 6 a 7, 9 a 10, ond gelwir sylw'r darlennydd at yr amrywiadau ar linellau 21 a 25, a gellir awgrymu bod y copiŵyr yn ymwybodol o'r diffyg ac iddynt geisio adfer yr addurn ar y ddau achlysur hyn.

Anos dosbarthu'r llinellau yn ail ran yr awdl, sef llinellau 49–105. Y mae yn yr adrannau cyfatebol yn y tair awdl arall a briodolir i Siôn ap Hywel benillion rheolaidd y gellir eu hadnabod ar y darlenniad cyntaf (er nad yw hyd y llinellau unigol yn gyson bob tro). At hyn, gwneir defnydd pur helaeth o'r cymeriad geiriol a'r cymeriad llythrennol, yn enwedig yn achos yr awdl farwnad i Syr Hywel ab y Dai (cerdd 3), ac y mae'r ddyfais hon yn gyfrwng amlygu cwmpas pob pennill unigol. Cyfres o doddeidiau a chwpledi â deg sillaf ym mhob llinell (at ei gilydd) a welir yn ail ran yr awdl hon, ond fe'u cyfunir blith draphlith. Gwelir mai toddaid a chwpled sy'n agor y gyfres, ac fe'u dilynr gan bennill sy'n cynnwys dau doddaid. Ofer, felly, geisio diffinio pob pennill unigol, fel y gwnaed yn achos yr awdlau eraill.

Yn llawysgrif A yn unig—ac yn D sy'n perthyn yn agos ati—y dosbarthwyd y llinellau yn benillion, a gwelir bod pob un o'r penillion hynny yn cynnwys pedair llinell. Yr unig eithriad yw'r un adran y ceir ynddi bum llinell (llau. 81–5). Ni ddilynwyd y patrwm hwn wrth olygu'r awdl, a cheisiwyd dosbarthu'r llinellau mewn modd a oedd yn gydnaws â'r synnwyr. Tâl nodi hefyd fod un llinell yn eisiau yn llawysgrifau BCE, ac efallai fod llinell wedi ei cholli yn yr unig adran o bum llinell (llau. 81–5), er nad oes bwch amlwg yn rhediad y frawddeg.

Gwelir bod nifer o gynganeddion pengoll yn ail ran yr awdl, megis yn yr awdl farwnad a grybwyllwyd uchod; at hyn, ceir nifer o linellau digynghanedd. Yr odl fewnol yw'r unig addurn yn y rhain. Cynnwys cyfartaledd uchel o'r llinellau cynganeddol oddefiadau cyfarwydd, sef cytseiniaid gwreiddgoll a pherfedd-goll, a beiau megis camosodiad a thwyll gynghanedd.

Y mae'r testun a gynigir yn un cyfansawdd, ac yn tynnu ar ddarlleniadau y pum llawysgrif sy'n cynnwys yr awdl. Y mae perthynas agos rhwng AD, a pherthynas gyfatebol rhwng BC. Er mai A a B yw'r testunau hynaf, llwyddwyd i osgoi yn y ffynonellau diweddarach, C a D, nifer o lithriadau a wnaed gan eu rhagflaenwyr. Ar brydiau bydd E yn dilyn AD, droeon eraill BC, ond ceir hefyd yn y ffynhonnell hon rai darlleniadau nas ceir yn y pedair arall.

6 **pumoes** Dosberthid oed y byd, cyn dyfodiad Crist, yn bump o gyfnodau. Bu farw Crist er achub trigolion y pum oes hyn, medd y bardd, cf. ll. 27 isod a GPC 2928.

- 12 Dilynir testun E, yr unig ffynhonnell sy'n cynnig ll. ac ynddi saith sillaf.
- 18 Y ffurf lafar, ddeusill, *dygyn* sy'n cynnal y gyfatebiaeth gynganeddol yma, ac felly yn llau. 33–4 (*cwbwl / cabyll*), ond gthg. llau. 37–8 (*cabl / cwbl*).
- 21 Cynghanedd sain bengoll.
- 22 Rhyw lun ar gynghanedd lusk wydro (sy'n cynnwys yr odl *-odd / -eidd*), megis yn y ll. sy'n dilyn lle y ceir odl fewnol *-aul / -oywl*.
- 29 *r* berfeddgoll o dan yr acen.
- 33 [**y**] **dall milain** Longinus (neu Lansias) oedd y milwr a drywanodd Grist yn ei ystlys, gw. GDG 52.35n; G. Hartwell Jones, 'Celtic Britain and the Pilgrim Movement', Cy xxiii (1912), 179–81; hefyd M.P. Bryant-Quinn, "'Enaid y Gwir Oleuni": y Grog yn Aberhonddu', *Dwned*, ii (1996), 85–6.
- 37 **dyw Gwener** Cf. GLGC 2.41–2 *Dyw Gwener gwedy 'fferen / y' i rhoed ar ffrwst ar dri phren*.
- 39 **cether ddur** Eb. yn unig, yn ôl GPC 471, ond gw. yr amrywiadau. Esgeulusodd Roger Morris roi dot o dan y llythyren *d*, ac fe'i dilynwyd gan gopiwr LIGC 6209E. Bu llithriad cyffelyb yn ll. 63, ond nis efelychwyd y tro hwn.
- 40 *r* berfeddgoll a d.d = d, neu gamosodiad d.r = r.d a thwyll gynghanedd *d*.
- 44 **Llanfair** Llanfair Dyffryn Clwyd yn ddiau. Canwyd cywydd i'r grog a ddaeth yn *grair i Lanfair lân* gan Ddafydd ap Llywelyn ap Madog, tad y bardd Huw ap Dafydd, gw. Cerdd 1 yn A. Cynfael Lake, 'Gwaith Dafydd ap Llywelyn ap Madog' (M.A., Cymru [Abertawe], 1979). Yr oedd croglofft nodedig yn eglwys Llanfair Dyffryn Clwyd ar un adeg, fel y tystia'r olion yn y llawr a'r muriau, gw. D.R. Thomas: HDStA ii, 95–6. Ymddengys mai ar ran Ffowc Salbri, deon Llanellwy, y canwyd y cywydd i Deyrnog (cerdd 17). Yr oedd y gŵr hwn hefyd yn rheithor Llanfair Dyffryn Clwyd; daeth y swydd i'w ran yn 1518 neu yn fuan wedyn, ac fe'i daliodd hyd 1543, gw. D.R. Thomas: HDStA ii, 95–101.
- Cynghanedd lusk yn ail fraich y cwpled, a gw. hefyd lau. 54, 64 ac 80. Ar y drafodaeth ynghylch priodoldeb lleoli'r gynganedd hon yn y cyfryw safle, gw. J. Morris-Jones: CD 180–1.
- 45 Cynghanedd lusk wallus, ond cf. 15.22n. Gellid ei gwella trwy ddiwygio'r ll. yn *Dangosid ...*
- 50 **aberau dafnau** 'Ffrydiau o ddiferion [gwaed]', gw. GPC 2 d.g. *aber*, ac *ib*. 878 d.g. *dafn*, 'diferyn, gronyn', a cf. 16.67 isod. Ond o ystyried yr hyn sydd yn llsgrau. BCE, gellid mabwysiadu'r darlleniad *A berrau dafnau ...* 'A[*'i*] esgair yn ddiferion [gwaed]'.
- 52 **am leu** Digwydd drachefn yn ll. 59 isod. Cymerir mai'r *f. lleu* 'darllen'

- sydd yma, gw. GPC 2122 (ond efallai mai'r ystyron 'mynegi, llefaru' a fyddai'n gweddu orau). Gellid diwygio'n *amlau*, sef ffurf l. *aml*, er nas nodir yn GPC 94, neu'n *amlhau*.
- 55 **gwreichion** Perthnasol yw sylw M.P. Bryant-Quinn yn *art.cit.* 88.
- 57 Nid oes yn y ll. gynghanedd, er bod ynddi odl fewnol. Felly hefyd yn ll. 73, isod.
- 58 **dylynus** Ffurf a. y f. *dylynu* 'glynu (wrth), ymlynu', gw. GPC 1138. Twyll gynghanedd l.
- 60 **chwech** Cyfeiriad tywyll, a gw. y ll. sy'n dilyn lle y crybwyllir lladd y seithfed. Ai cyfeiriad at farwolaeth meibion Job sydd yma, gw. Job i, 18–19? (Diolchaf i M. Paul Bryant-Quinn am yr awgrym hwn.)
- 62 *f*led-lafarog; camosodiad r.th = th.r.
- 65 Bai crych a llyfn.
- 66 *n..n* berfeddgoll.
- 67 *r* wreiddgoll.
- 69 *n* wreiddgoll.
- 70 **aur ceimion** Cf. GSC 4.55–6 *Llwyr yw cymell aur ceimion / O'i fyw yn hir o fewn hon*, ac *ib.n.*
- 71 Cynghanedd bengoll.
- 72 *n* berfeddgoll.
- 73 Odl fewnol yw'r unig addurn yn y ll. hon.
- 74 *n* berfeddgoll; twyll gynghanedd *b*.
- 78 **ewerylad** Yr e. *eweryl* a'r terfyniad enwol *-ad*; nis ceir yn GPC 636.
- 80 Nid oedd cynghanedd yn y ll. cyn ei diwygio.
- 83 Dau gamosodiad yn yr un ll., sef g.r ... d.r = r.g ... r.d.
- 84 **llathraidd** Disgwyliid gair sy'n diweddu â'r terfyniad *-on* er mwyn cynnal y brifodl. Gellid diwygio yn *llathron*, sef ffurf l. yr a. *llathr*, ond y mae'n arwyddocaol fod yr un gwall yn digwydd yn ll. 90 (lle nad oes diwygiad amlwg yn ymgynnig), a thrachefn yn ll. 98 (y tro hwn, diwygiwyd *iawn* yn *Iôn*).
- 85 *r* berfeddgoll.
- 88 **afradlon** 'Gwastraffus, treulgar' yw'r ystyron a gynigir yn GPC 43, ond 'helaeth, dibrin' sy'n gweddu orau yma.
- 95 **uffernddryll** *Uffern* a *dryll*, sef i. 'darn (toredig), aelod', neu ii. 'gwaywffon', gw. GPC 1095.
- 103 **cenllystig** Ni restrir y ffurf yn GPC 464. Esbonnir bod *cenllyst* yn ffurf sydd yn cyfateb i *cenllysg*, a geill mai ffurf ansoddeiriol ar y blaenaf, ac

yn cynnwys yr ôl-ddodiad *-ig*, sydd yma, a'i ystyr 'tân [a'i wreichion] megis cawod o gesair', neu air cyfansawdd *cenllyst + dig*. Dewis arall yw diwygio yn *callestrig* 'tanlyd, disglair', gw. GPC 395.

- 105 **wyr Iesse** Gw. Eseia xi.1 *Yna y daw allan wialen o gyff Jesse; a Blaguryn a dyf o'i wraidd ef*. Gw. hefyd y gerdd 'Gwial Jesse' yn Bl BGCC 92–103.

## 16

Disgrifir yn y cywydd hwn grog a leolwyd yn y capel gerllaw ffynnon Gwenfrewy. Bu'r ffynnon o dan ofal abaty Dinas Basing er 1240, a chofnodwyd hanesion am bererindota i'r fangre cyn gynhared â'r flwyddyn 1115, gw. Edward Hubbard, *The Buildings of Wales: Clwyd* (Harmonsworth, 1986), 371.

- 2 Camosodiad s.dd = dd.s. Gellid osgoi'r gwall trwy ddiwygio *sydd* yn *sy*.
- 4 **adwyog** Nis nodir yn GPC 30. Yr ystyr 'archolledig' sy'n gweddu orau yma.
- 6 **Gwen-frewy** Canodd y bardd awdl iddi, gw. cerdd 18 isod. Holltir yr e.p. yma er mwyn sicrhau cynghanedd, megis y gwneir yn y llau. isod (a gellid amlhau enghreifftiau) o waith Lewys Glyn Cothi a Lewys Daron: GLGC 134.17 *Edn Aber Hodni obaith*, *ib.* 35.24 *erioed o Lan Wrda lys*, *ib.* 45.6 *a dart Mab Edrud y medd*; GLD 21.32 *Yn canu i Nan-Conwy'n iach*, *ib.* 22.5 *Cael art i Fedd Celart fu*.
- 10 **careglwin** *Caregl* 'y cwpan a ddefnyddir yng ngwasanaeth y Cymun' (GPC 426) a *gwin*.
- 14 Nid atebir yn safle'r brifodl y gytsain *dd* sydd o dan yr orffwysfa.
- 15 **nawradd** Y naw radd o angylion.  
Wyth sillaf yn y ll.
- 25 **dyddiol** 'Beunyddiol', gw. GPC 1121, ond geill mai a. o'r f. *dyddio*, 'cymodi', sydd yma. Ni nodir y posibilrwydd hwnnw yn GPC.
- 26 *n* berfeddgoll.
- 29 *n* wreiddgoll.
- 30 *n* berfeddgoll (ond y mae'r ll. yn cynnwys cynghanedd sain reolaidd hefyd).
- 31 *r* wreiddgoll.
- 32 Cyfatebiaeth *th* = dd..th.
- 33 Cf. yr odl yn 9.29–30.
- 37 *n* wreiddgoll.

38 *r* berfeddgoll.

45 **triphren** Cyfeiria Lewys Glyn Cothi, yntau, at dri phren y Groes, gw. GLGC 2.41–2 *Dyw Gwener gwedy ‘fferen / y’i rhoed ar ffrwst ar dri phren*. Dyma ddwyn i gof y traddodiad am y tri hedyn a blannodd Seth o dan dafod ei dad. Tyfodd y tri yn dair gwialen ac yn dri phren, a defnyddiwyd y rhain i lunio’r Groes y dioddefodd Crist arni. Gw. ymhellach 5.41–6n. Gwneir defnydd pur gableddus o’r hanes, ac o ryfeddod Duw sydd yn Un ac yn Dri, gan Lewys Glyn Cothi yn ei gywydd i ofyn bwa gan Ddafydd Llwyd ap Gruffudd, gw. GLGC 211.43–54.

**pumoes byd** Gw. 15.6n.

47 *m* berfeddgoll.

49 **y gŵr du** Suddas.

51 **gwaith yr afal** Cyffelybir brad Suddas i weithred ddichellgar y sarff a demtiodd Efa yng Ngardd Eden, a chael ganddi fwyta ffrwyth y pren gwaharddedig, a cf. 15.1–4.

55 **drwy bumwaith** Y pum clwyf a ddioddefodd Crist ar y Groes, cf. IGE<sup>2</sup> XXXIII.41–2 *Pum archoll i’n arfoll ni / Pum aelod y pum weli*. Achoswyd y clwyfau hynny gan y tair hoelen, y goron ddrain a’r waywffon, ac fe’u disgrifiwyd yng nghywydd Huw Cae Llwyd i Grog Aberhodni, gw. HCL1 XLIV.15–24. Cynigir testun diwygiedig o’r cywydd (ac awgrymir y geill mai gwaith Ieuan Brydydd Hir ydyw) gan M.P. Bryant-Quinn yn ei ysgrif ‘“Enaid y Gwir Oleuni”: y Grog yn Aberhonddu’, *Dwned*, ii (1996), 51–93.

60 **y Grog laswyn** Gw. 13.33n.

67 Llsg. *a ber oth fron*, ond bernir mai disgrifio’r ffrwd o waed a ddaw o’r clwyfau a wneir yn hytrach na disgrifio’r archoll a achoswyd gan yr hoelion (*bêr* ‘picell, gwaywffon’).

75 Diwygiodd y copiwr ei destun fel a ganlyn: *na glaw yn y glaw*. Cadwyd at y darlleniad gwreiddiol er bod bai twyll gynghanedd *d* yn y ll. fel y saif.

78 **Tomas** Tomas Pennant, ond odid. Gw. cerddi 2 a 18.

79 *r* berfeddgoll.

Cywydd i’r sant Teyrnog, a gysylltir â Llandyrnog yn Nyffryn Clwyd, yw hwn. Fe’i coffeir hefyd yn yr enw Rhos Dyrnog yn Narowen, gw. WCD 628. Yr oedd yn fab i Arwystl (neu Hawystl) Gloff, ac yn wŷr, o du ei fam, i Amlawdd Wledig. Yr oedd iddo dri brawd, sef Tyfrydog, Tudur a Deifer, a chwaer, Marchell, gw. LBS iv, 255–61 a TWS 196–8. Ymgorfforir y rhan



fwyaf o'r manylion hyn yn y cywydd, ond y mae'n amlwg fod cryn gymysgu wedi digwydd oblegid cyfeirir hefyd at achau sant arall nad oes a wnelo â Theyrnog nac â Dyffryn Clwyd. Tyrnog yw'r sant hwn, a'r ffurf hon ar yr enw sy'n digwydd yn yr holl lawysgrifau sy'n cynnwys y cywydd. Ni wyddys am eglwys a sefydlwyd ganddo, ac ni chysegrwyd yr un eglwys iddo. Y mae ei gysylltiadau teuluol, serch hynny, yn ddigon hysbys. Mab i Gorun ap Ceredig ap Cunedda ydoedd, ac fel yntau, yr oedd ei ddau frawd, Carannog a Thysul, yn saint, gw. LBS iv, 293–6. Iddo ef, ac nid i Deyrnog, y perthyn Brychan (ll. 20), Einion Yrth (ll. 24), Einion a Meirion (ll. 41), Seiriol (ll. 42), Ithel (ll. 43), Dewi a Non (ll. 46), ac esbonnir y cysylltiadau hyn isod. Dengys y pedwerydd cwpled pa mor drylwyr y bu'r cymysgu; cyfeirir yma at daid Teyrnog ac at un o hynafiaid enwog Tyrnog. Awgrymir yn TWS mai achos o 'another composite saint' sydd yma, gw. tt. 196–8, ond cymeriad ffug yw Tyrnog yn ôl WCD 628. Cynigir yno mai ffrwyth amryfusedd yw'r cyfeiriadau ato, ac y dylid disodli ei enw ag enw ei 'frawd', Tysul.

- 2 **Pedrog, Cynog** Cysylltir Pedrog â De Cymru, er mai iddo ef y cysegrwyd eglwys Llanbedrog yn Llŷn, gw. LBS iv, 94–103, a chynrychiolir y Canolbarth, sef siroedd Caerfyrddin a Cheredigion, gan Gynog, mab hynaf Brychan, gw. LBS ii, 271. Teyrnog, felly, sy'n cynrychioli'r Gogledd yn y triawd hwn.
- 3 **tri teilwng** Dengys y gynghanedd na threiglir yr a. sy'n dilyn y rhifol. Trafodir yr arfer o gadw'r gysefin yn Treigladau 65–6, ond y mae'r treiglad yn rheolaidd yn ail fraich y cwpled, *tri phaun ... tri phen-rhaith*.
- 5 **Tegeingl** Yn Nogfeiling yn Nyffryn Clwyd y mae Llandyrnog, cwmwd sydd am y ffin â Thegeingl, gw. WATU 110, ond cysylltir Deifer, brawd Teyrnog, â Bodfari yn y cantref hwnnw, gw. LBS ii, 340–2.
- 8 *r* berfeddgoll; twyll gynghanedd *l*, ond sylwer ar ddarlleniadau llsgrau. AB.
- 10 **Dier** Digwydd sawl ffurf ar ei e.: *Diheufyr, Diefyr, Deifer, Dihaer, Dier* a *Diar*, gw. LBS ii, 340.
- 16 **banhadl-wen** Disgwylid *banhadlwen* (cf. *banhadlwallt*, GPC 255), ond hawlia'r gynghanedd ffurf acennog.
- 17 *n* wreiddgoll.
- 18 *n* wreiddgoll.
- 20 **Brychan** Priododd un o ferched Brychan â Cheredig, tad Corun. *n* berfeddgoll.
- 22 **dau ar hugain** Yn ôl traddodiad, yr oedd gan Frychan un mab ar ddeg a phedair merch ar hugain, ond un ferch ar ddeg o blith y rhain a oedd yn briod, gw. WCD 64–5. Rhestrir y plant yn LBS i, 309–14, ond y mae

cryn amrywio ar yr enwau sy'n digwydd yn yr amryfal ffynonellau.

24 **Einion Yrth** Brawd Ceredig ap Cunedda.

27 y **Gwyddel** Ni ddiogelwyd yr hanes am y digwyddiad hwn ym mywyd Teyrnog, nac ym mywyd y sant o Wyddel, sef Tighernach, yr uniaethir Teyrnog ag ef ar sail gwyliau'r naill a'r llall. Ni wyddys y nesaf peth i ddim am Dyrnog, fel yr awgrymwyd yn y nodyn brig, ond efallai iddo dreulio ysbaid yn Iwerddon, megis ei frawd, Carannog. Cyffredin ym mucheddau'r saint yw'r hanesion am elynion yn cael eu trechu a'u cynlluniau ysgeler yn mynd i'r gwellt.

33 **Geram** Enw'r Gwyddel adweithiol?

35 **ysgemydd** Digwydd y ffurf *ysgemydd* yn un o'r Trioedd, gw. TYP<sup>2</sup> 42–3: 'Tri Ysgemydd Aerfaau Ynys Prydain', a drosir yn '*Three Slaughter-Blocks*'; ar y ffurf, gw. ymhellach I. Williams, 'istomid, ysgemydd', B xvi (1954–6), 192. Diau mai trosiad am y gelyn-ddyn yw *ysgemydd* yma. 'Carn dagr' yw'r ystyr a roddir iddo yn un o gywyddau Guto'r Glyn, GGI<sup>2</sup> LXXX.51 *Yn llem ar ei hysgemydd*.

37 *r* berfeddgoll.

39 **coroedd** Ffurf l. *côr*, ond y ll. *corau* yn unig a nodir yn GPC 554.

41–2 **Einion, Meirion ... / Seiriol** Meibion Owain Danwyn ab Einion Yrth, gw. LBS iv, 177.

42 **saith** Yr oedd Seiriol yn un o'r saith a aeth ar bererindod i Rufain i weddiö am law, gw. LBS iv, 179. Canodd Hywel Rheinalt i'r 'Saith Gefndyr Saint' a'u henwi, gw. Hywel Rheinalt: Gw 37:

Dewi a Chybi, achubant—beunydd,  
Dwyn Beuno dan warant.  
Cynfarch, Cadfarch, a barchant,  
A Deiniel a Seiriol sant.

Llyma'r saith, eurfaith arfer—gan feudwy,  
Gwynfydig bob amser,  
A dorrai'r maen, graen grynder,  
A'r saith a weles y sêr.

43 **Ithel** Brawd Corun oedd ef. Ychydig sy'n wybyddys amdano, ond ef oedd tad Dogfael (neu Ddogwel), gw. LBS ii, 349.

46 **Dewi ... Non** Mab Non, a Sant ap Cedig ap Ceredig, oedd Dewi. Sant, felly, oedd cyfynder Tyrnog, nid ei fab, Dewi.

62 Cynganedd draws fantach (a arferir yn bur achlysurol gan y bardd) neu l. groes ac ynddi *n* berfeddgoll a thwyll gynghanedd *d* (ond efallai fod y bardd yn cyfrif hon yn ll. groes o gyswllt, ac yn dewis peidio ag ateb y gytsain *dd*).

63 *n wreiddgoll.*

64 *n wreiddgoll; camosodiad d.r = r.d.*

67 **Rhonwen** Merch Hengist, ac fel ei thad, cynrychiola genedl y Saeson, a'r ddichell a berthyn i'r genedl honno. Llygad-dynnwyd Gwrtheyrn gan ei phrydferthwch, a hi a gynllwyniodd i wenwyno Gwrthefyr, gw. BD 94–7.

68 **hyd Duw** Ar y calediad, gw. Treigladau 394.

**Brutus** Mynegir yr hen gred mai disgynyddion Brutus o Gaerdroea oedd y Cymry.

69 Y testun yn aneglur, ond yn ymdebygu i *or kiawaed*.

71 *n berfeddgoll.*

72 **y dean** Deisyfir hir oes iddo, a gellir tybio mai ar ei gais ef y canodd Siôn y cywydd hwn. Ffowc Salbri oedd ficer Llandyrnog, ac yr oedd yn fab i Syr Tomas Salbri ap Tomas Salbri Hen, gw ByCy 844 a WG2 1572. Bu'n ficer Llandyrnog rhwng 1535 a 1543, sef blwyddyn ei farw, ond efallai iddo dderbyn y swydd ynghynt; ei enw sydd ar frig y rhestr a gyhoeddwyd yn D.R. Thomas: HDStA ii, 38. Yr oedd y gŵr hwn hefyd yn ddeon esgobaeth Llanelwy, a daliodd y ddeoniaeth am hanner canrif, rhwng 1493 a 1543, gw. D.R. Thomas: HDStA i, 319. Canodd Tudur Aled gywydd moliant iddo, gw. TA XVIII, a chywydd i erchi march, gw. TA CIX (ond priodolir y cywydd i Ruffudd ab Ieuan ap Llywelyn Fychan hefyd). Yn y ddau gywydd hyn, dangosir i Ffowc ddilyn camrau ei ewythr pan benodwyd ef yn ddeon:

Ban ddug, llew bonheddig, llwyd,  
Duw, d'ewythr, y'm didywyd;  
Deon gynt a fu'n dwyn gair,  
Dysgedig, dos i'w gadair. (TA XVIII.23–6)

Duw a'th roes, fal d'ewythr aeth,  
Doe i ynnill deoniaeth. (TA CIX.5–6)

Nid enwir yr ewythr yn y ddau gywydd. Tybed a fu dau Ffowc Salbri yn ddeoniaid yn ystod yr hanner canrif 1493–1543? Ysyaeth, ni lwyddwyd i daro ar ail Ffowc Salbri yn WG2.

Lladdwyd Gwenfrewy gan Garadog wrth iddi amddiffyn ei gwryfdod, a disgrifir trais y llanc nwydwyllt yn y pennill sy'n cloi'r awdl. Torrodd Caradog ben Gwenfrewy ymaith â'i gleddyf, a tharddodd ffynnon lle y disgynnodd pen y santes. Yn ôl traddodiad, olion gwaed Gwenfrewy sy'n cyfrif am gochni'r graig ger y ffynnon, gw. LBS iii, 185–96; WCD 315–6;

TWS 141–51. Canodd Tudur Aled i'r santes, gw. TA CXXXIX a cf. hefyd IGE<sup>2</sup> XXXV.

*Mesurau'r Awdl*

1–41 Cyfres o englynion unodl union ynghyd â phennill o bum llinell (ac wyth sillaf ym mhob un) sy'n proestio, llinellau 21–5. Ni cheir cyrch gymeriad rhwng y pedwerydd englyn a'r pumed, a rhwng y nawfed a'r degfed.

42–5 Cwpled (seithsill y tro hwn) sy'n proestio, a chwpled o gyhydedd hir sydd yn proestio yn hytrach nag yn odli, ond y mae dwy o'r sillafau yn rhai talgrwn a'r olaf yn lleddf: *-ad*, *-ud*, *-wyd*. Nid yw'r brifodl *-ir* yn gyson â'r odl sydd yn y penillion sy'n dilyn.

46–7 Cwpled seithsill sy'n proestio. Tybed a gamleolwyd llinellau 42–3 a 46–7, ac y dylai'r rhain ffurfio un pennill o bedair llinell yn proestio? A thybed ai cwpled strae yw llinellau 44–5 nad yw, fel y nodwyd, yn parchu'r brifodl a gynhelir yn ail ran yr awdl? Y drefn hon a ddilynyr yn yr holl lawysgrifau, serch hynny.

48–77 Cyfres o chwe gwawdodyn byr sy'n tueddu at 10 sillaf, ac un hir a thoddaid, llinellau 64–9. Y mae pob pennill yn diweddu â'r enw *Gwenfrewy* ac eithrio'r trydydd; ar ddiwedd y drydedd llinell y digwydd yr enw yn hwn.

1–2 Un sillaf yn ormod yn nwy l. y paladr. Gellid diwygio'r ail l. a sicrhau'r chwe sillaf angenrheidiol (*Ydyw'r aber ... yn Yw'r aber ...*), ond ni fyddai'r gynghanedd ar ei hennill.

Camosodiad r.d = d.r yn y gyfatebiaeth rhwng y cyrch a dechrau'r ail l.

4 r wreiddgoll.

5 **geirwon fantellfrig** Disgwyliid ffurf un. ar yr a. Gellid mabwysiadu darlenniad llsgrau. CD, *gwirion*, yma ac yn ll. 4 (ond ni fyddai'r ymadrodd yn taro cystal yn y fan honno).

6 **Saint y Catrin** Saint Catrin yw'r ffurf a arferir gan Lewys Glyn Cothi, gw. GLGC 25.35, 227.13, 234.53, ond digwydd *Saint y Catrin* yn un o gywyddau Lewys Môn, gw. GLM XXXIX.53. Gw. ymhellach y cyfeiriad at ei buchedd yn nodyn brig cerdd 19.

9–12 Digwydd yr englyn yn annibynnol, ac yn ddiennw, yn LIGC 436B, 67<sup>v</sup>.

9 11 sillaf yn y ll.

11 **gwingrofft** *Gwin* a *crofft* 'maes neu gae bychan', gw. GPC 608. Ni ddigwydd yr union gyfuniad hwn yn yr un o'r llsgrau.

12 8 sillaf yn y ll.

*m* berfeddgoll o dan yr acen.

- 13 Cynghanedd groes o gyswllt gymhleth (a derbyn mai *mor* sydd yn safle'r orffwysfa).
- 17 Ni ddigwydd y darlleniad hwn yn yr un o'r pum llsgr.
- 18 **nith ... i Feuno** Yr oedd Gwenlo, mam Gwenfrewy, yn chwaer i Feuno, gw. LBS iii, 188. Beuno a atgyfododd Wenfrewy, ond arhosodd craith ar ei gwddf lle y trawsai Caradog hi â'i gleddyf.
- 21–5 Copiwyd y llau. hyn yn LIGC 436B, 67<sup>v</sup> yn dilyn yr englyn, llau. 9–12, ond nid ymddengys fod y copiwr yn ymwybodol fod y ddau ddarn yn perthyn i'r un gerdd. Rhoddir i'r pum ll. hyn y pennawd 'Gweddi'.
- 32 Nid oes cynghanedd yn y ll., ond y mae un sillaf yn brin.
- 36 *r* berfeddgoll; twyll gynghanedd *b*.
- 37 Chwe sillaf yn y ll., a'r llsgrau. yn gyfûn.  
Cyfatebiaeth g.r = g.r ... g.r ar ôl diwygio.
- 38 Ceir darlleniad ystyrllon yn llsgrau. A (mae'n debyg) a B, sef *ffrawd* 'angerdd, trais, niwed', gw. GPC 1311, ond y gynghanedd yn mynnu *wedi'r frawd*.  
11 sillaf yn y ll.
- 41 Nid oes cynghanedd yn y ll. fel y saif.
- 42 **Tomas** Tomas Pennant, gw. cerdd 2.
- 45 Cyfatebiaeth d..d = d.
- 47 Camosodiad d.dd = dd.d.
- 48 Nid oes yma gynghanedd. Yn ei awdl i Dduw a'r Grog yn Llanfair, gwelwyd y bardd yn bodloni ar odl fewnol yn unig, gw. 15.55n. Amrywiad ar hynny sydd yma, sef dau air yn proestio: *punt / pont*.
- 49 **eurdderw** Yn ddeusill, a derbyn yr amcanai'r bardd lunio ll. o 10 sillaf.
- 50 **Sychnant** Rhoddodd tad Gwenfrewy dir i Feuno yn Sychnant i adeiladu capel, gw. LBS iii, 188.
- 51 Camosodiad r.f = f.r, a bai crych a llyfn. Gwelir yr un gwall yn llau. 69 a 73, a'r e. *Gwenfrewy* a gynganeddir y ddau dro hyn, megis yn y ll. dan sylw.
- 52 Trawsosodwyd dwy ran y ll. er mwyn sicrhau bod y brifodl yn cael ei chynnal. Nid yw'r diwygiad yn mennu ar y gynghanedd groes rywiog ddiacen, nac ar y cymeriad llafarog.
- 56 Diwygiwyd *mynd* yn *myned* er mwyn sicrhau odl fewnol a chynghanedd sain. Y mae'r ll. yn rhy hir (12 sillaf), ond nid yw hyd y llau. yn rheolaidd yn yr awdl hon—gw. llau. 54, 71 a 74 sydd yn 11 sillaf (ond gellid eu ceseilio)—nac yn y tair arall a luniodd y bardd.

57 *f*led-lafarog.

61 Nid oes cynghanedd yn y ll. hon.

63 Ni cheir yma gynghanedd gyflawn, ond cynganeddir y ddau air *freuach* /*frewy*.

64 **ar llawr** Rhestrir nifer o ymadroddion lle y digwydd caledu *l* yn *ll* ar ôl yr arddodiad *ar* yn Treigladau 385. Gw. hefyd, yn *ib.* 387, y drafodaeth ar y ddau ymadrodd *ar lled*, *ar lles*.

68 Cynghanedd sain ac iddi odl anarferol: *cyrchu* / *ati*.

69 Gw. uchod 18.51.

70 Twyll gynghanedd *b*.

73 **mwnai'r Afia** Awgrymir yn G 14 y geill mai ffurf gywasgedig o *Arafia*, 'Arabia', yw *Afia*, neu ffrwyth camddarllen *Asia*. Dau le gwahanol oedd *Afia* ac *Asia* yng ngolwg Lewys Glyn Cothi, gw. GLGC 41.35–6 *ac aur yr Afia'n grug a rifyn*, / *ac aur yr Asia fal egroesyn*. Dryswyd y copiwyd (ac eithrio E) gan yr ymadrodd hwn, ac ni lwyddwyd yn y llsgr. honno hyd yn oed i gynnig llinell ystyrlon. Diwygiwyd *fwnai* (llsgrau. A–D) yn *mwnai*, ond efallai mai gwall yw *mae r fwyna r afia* (llsgr. E) am *Mae mwynau'r Afia*, ac y dylid adfer y darlleniad hwnnw. Gw. uchod 18.51.

74 Cynganeddir y ddau air *mwnwgl* / *gymynu*, a cf. 18.63 uchod.

75 *n* wreiddgoll; *f*led-lafarog.

## 19

Ni ddigwydd yr awdl mewn llawysgrif gynnar—diogelwyd y gerdd mewn dau destun a gopiwyd yn ystod yr ail ganrif ar bymtheg a'r ddeunawfed, ac y mae lle i amau nifer o'r darlleniadau. O ran ei fframwaith, y mae'r awdl yn ddigon confensiynol, ac ni welir ynddi y math o benillion y gwelodd Siôn yn dda eu cynnwys yn ei awdlau eraill. Nodwedd fwyaf anghyffredin yr awdl hon yw'r dilyniant o gynganeddion pengoll yn yr ail ran, sef llinellau 53–74, a'r ffaith na chynhelir y brifodl ym mhumed linell y tri hir a thoddaid nac yn nhrydedd linell y gwawdodyn byr.

Cyhoeddwyd testun o fuchedd Catrin gan H. Idris Bell, *Vita Tatheï and Buched Seint y Katrin* (Bangor, 1909), 31–9, wedi ei seilio ar lawysgrif BM Cott. Titus, D, a cheir testun yn seiliedig ar lawysgrif Peniarth 5 yn 'Buchedd Catrin Sant', B xxv (1972–4), 265–8, gan J.E. Caerwyn Williams. Diogelwyd 17 copi o'r fuchedd, ac y mae dau o'u plith yn llaw'r bardd Gutun Owain. Perthyn y testun i ddosbarth o fucheddau i ferched dibriod; hynodrwydd arall a berthyn i'r dosbarth yw'r modd y canolbwyntir ar ddiodeffaint y santes yn hytrach nag ar ei buchedd fel y cyfryw.

*Mesurau'r Awdl*

- 1–52 Cadwyn o englynion unodl union ynghyd â dau englyn proest, llinellau 17–20 a 45–8.
- 53–8 Hir a thoddaid
- 59–64 Gwawdodyn byr
- 65–72 Dau hir a thoddaid
- 4 **Iddew frenin** Yn ôl ei buchedd, yr oedd Catrin yn ferch i frenin Caergystennin. Cyfeiria Dafydd ab Edmwnd at dras fonheddig y santes yn ei englyn i fis Tachwedd a berthyn i'r gyfres 'Englynion y Misoedd', gw. DE LXIII a *Chatrin oi heurllin hi*.
- 8 **gwyro** Gall awgrymu naill ai bod ei chenedl yn ymgrymu ger ei bron ac yn ei mawrygu, neu fod y rhan fwyaf o'i phobl yn cyfeiliorni ac yn addoli gau dduwiau, gw. GPC 1781.
- 9 **pobl** Yn ddeusill, ac felly *abl* yn y ll. nesaf. Dau air diacen sy'n cynganeddu yn yr englyn sy'n dilyn drachefn, sef *Beibl a pobl*.
- 12 **deau** Yr a. yn cyflawni swyddogaeth enwol, '(gŵr) cywir, cyfiawn, parod'.
- 13–16 Rhaid wrth y ffurfiau llafar i gynnal yr odl yn yr englyn hwn.
- 14 **a'r bobl ni losge** Ai cyfeiriad at yr athrawon a geisiodd gael gan Gatrin gefnu ar ei Duw ac addoli'r gau ddelwau, ac a drowyd i'r ffydd gan y santes? Fe'u cosbwyd trwy eu llosgi, ond *ni medavd dim or tan anrunt vy nac ar eudillat*, gw. H. Idris Bell, *op.cit.* 34.
- 24 Twyll gynghanedd *c.* Gellid diwygio *olew* yn *golau*, a goresgyn y bai, ond ni fyddai hynny, o anghenraid, yn gwella'r ystyr, gw. 19.34 isod.
- 27–8 Dwy odl ddiacen yn esgyll yr englyn.
- 28 *n wreiddgoll.*
- 30 **cytroed** Digwydd yr ymadrodd yn GLM II.62 *lle'dd âi fwy cytroed lladdfa Catraeth*, ond nis esbonnir, ac nis cofnodwyd yn GPC 824.
- 33 Twyll odl: *-au* yn y ll. gyntaf ac *-ai* yn y tair sy'n dilyn. Nid yw'r odl yn yr englyn agoriadol yn gwbl dderbiniol ychwaith, a gw. ymhellach 19.49n isod.
- 34 **Mynydd Sinai** Yno y ducpwyd Catrin i'w chladdu *ae chorff agladassant ym mynydd synai. Ar neb adel yno y geissyav gvaret a iechyt ac agrettont y diodeifyeint hi vynt ae kaffant. A phedeir ffrvt yssyd yn reded trvy y bed hi oe bronneu o olev*, gw. H. Idris Bell, *op.cit.* 39.
- 36 **y berth** Ar Fynydd Sinai y derbyniodd Moses y Deg Gorchymyn. Cyfeiria'r bardd, felly, at ddigwyddiad cynharach yn ei hanes pan

- welodd ‘y berth yn llosgi yn dân, a’r berth heb ei difa’, gw. Ecsodus iii.2. Arweiniodd Moses ei bobl o’u caethiwed yn yr Aifft trwy’r Môr Coch (*i lanw’r âi*, ll. 40).
- 38 **briwgyrn mynydd anghrys** Cyfeiriad tywyll. ‘[Megis] utgyrn maluriedig [ar] fynydd moel’ (? *an + crys*), neu tybed ai cyfuniad o *an* a bôn y f. *crysi* ‘rhuthro, cyrchu’, gw. GPC 626, sydd yma yn golygu ‘anhygyrch’?
- 40 Twyll gynghanedd *dd*.
- 45 *r* wreiddgoll.
- 49 Naw sillaf yn y ll. gyntaf ar ôl ei diwygio; wyth sillaf sydd yn y ll. fel y’i ceir yn y ddwy lsg. At hyn, y mae ail l. y paladr yn rhy hir o sillaf, ac nid oes cyfatebiaeth gynganeddol rhwng y cyrch a dechrau’r ll. ddilynol. Ceir yn yr englyn hefyd fai lleddf a thalgron; sillaf dalgron yw *tragywydd*, ond lleddf yw’r tair arall.
- 50 **gwydni** Nis nodir yn GPC 1750. Ai ffurf sy’n cyfateb i *gwydnwch*, *gwytnwch*?
- 60 Nid oes cynghanedd, nac odl fewnol ychwaith, yn y ll. Gellid yr olaf o ddiwygio *ddiffoddo* yn *ddiffydd*.
- 62 **sawl pwy** Ar *pwy* yn rhagenw perthynol, gw. GPC 2947. Anghyffredin yw cyfuno’r ddau air hyn. Ond gw. hefyd WG 310 lle y cyfeirir at y cyfuniad o *sawl y rei yssydd*.
- 63 **irdeb** E. o’r a. *ir* nas nodir yn GPC 2027.
- 69 **archfa** ‘Archiad’; ni nodir yr ystyr hon yn GPC 181.
- 71 **Leoneisa** Nid enwir mam Catrin yn y fuchedd.

## 20

- 1–6 Awgryma’r bardd ei fod wedi diysbyddu ei ddeunydd crai wrth iddo foli gwŷr, a’i fod yn bwriadu gwneud rhywbeth rheitiach, sef moli merched. Cyffelybir deunydd barddoni i bren yng nghywydd Guto’r Glyn i Ddafydd Llwyd ap Dafydd o’r Drenewydd, gw. GGI<sup>2</sup> XLII.29–72.
- 3 *r* berfeddgoll.
- 5 **gwysgerdd** *Gwŷs* ‘galwad awdurdodol, dyfyn, rhybudd’ (gw. GPC 1788) a *cerdd*, sef ‘[merch] sydd yn hawlio cerdd’.
- 7 **hyddfain** ‘Yn osgeiddig fel hydd’.
- Wyth sillaf yn y ll.  
*f*led-lafarog.
- 14 **Mawddwy** Fel hyn y disgrifiodd Iolo Morganwg ei gyd-Gymry yn un



o'i Isgrau., 'the Hwntwyr, the Deudneudwyr, Gwancwn Gwent, Adar Morganwg, a Brithiaid Brycheiniog—Cwn Edeirnon, Moch Môn, Dylluanod Ial, a Lladron Mowddwy', gw. *Y Gymraeg yn ei Disgleirdeb*, gol. Geraint H. Jenkins (Caerdydd, 1997), 110. Yr oedd hanes Gwylliaid Mawddwy, a'r modd y llofruddiwyd y Barwn Lewis ab Owain ym mis Hydref 1555, yn hysbys yn yr 16g., er mai yn ddiweddarach y tyfodd y chwedlau amdanynt, gw. CLC<sup>2</sup> 310. Ond yr oedd i arglwyddiaeth Mawddwy enw am ei hansefydlogrwydd er canol y 15g. (gw. J. Gwynfor Jones, 'Lewis Owen, Sheriff of Merioneth, and the "Gwylliaid Cochion" of Mawddwy in 1554–55', *Cylchg CHSFeir xii* (1994–7), 221–40), a diau fod Siôn ap Hywel yn defnyddio'r e.p. yn yr ystyr 'lleidr, herwr' (a sylwer ar yr hyn a honnir yn y ddau gwpled sy'n dilyn). Dewis arall yw diwygio yn *meudwy*; rhydd hyn ystyr dderbyniol, ond ceid wedyn gyfatebiaeth dd = d o dan yr acen.

Twyll gynghanedd *dd*.

27 Bai crych a llyfn.

31 Camosodiad r.m = m.r ac *n* berfeddgoll, neu m = n.

32 **hug wiail** Cyfeiriad arall at y baich drain, gw. 9.23n.

33 Chwe sillaf yn y ll.

34 **henw** Yn ddeusill, ac felly yn ail fraich y cwpled.

36 **pedair henw** Eg. yn unig yw *enw*, yn ôl GPC 1220.

37 **herod bun** 'Arwyddfardd [sy'n cyhoeddi rhinweddau] merch'.

43 Newidiwyd lleoliad y ddau air, *hael* a *haul*, ond o ystyried yr hyn a ddywed y bardd am ei gyflwr yn llau. 7–10, &c., priodol fyddai diwygio *haul drwy f'au* ('goleuni / gwres trwy fy nghorff') yn *hoel drwy f'au* ('picell / gwaywffon trwy fy nghorff').

44 **hawdd'morau** Ni nodir ffurf l. yr e. *hawddamor* yn GPC 1827, nac yn *ib.* 98 o dan *amor*.

48 **hun eos** Awgrymir na chaiff yr eos gyfle i gysgu yn ystod y nos am ei bod mor brysur yn canu. Cf. DE XVII.13–14 *hi a dyn ym hyd y nos / hin ayaf a hvn eos*.

Priodolir y cywydd athrod hwn i Ruffudd ab Ieuan mewn un ffynhonnell, sef F. Geill mai'r bardd a gynorthwyodd Dudur Aled i drefnu eisteddfod gyntaf Caerwys oedd hwn, ond y mae'n arwyddocaol fod un ffynhonnell arall yn esbonio mai ar ran gŵr o'r enw Gruffudd ab Ieuan y canodd Siôn ei gywydd. Yn llawysgrif E yn unig y gwelir yr wybodaeth allweddol hon. Ysywaeth, llwydodd yr inc ar y ddalen, a rhwygwyd yr union ddarn a gyn-

hwysai'r enw yn llawn—ai Gruffudd ab Ieuan ap Rhys Llwyd? Ni lwyddwyd i daro ar yr enw hwn yn WG1 nac yn WG2, ac nid oes dim yn y cywydd a rydd gymorth i'w leoli.

**2 cor** 'Byrddyn' a hefyd 'pryf copyn', er na restrir enghraifft gyfoes yn GPC 555. Sylwer bod y gŵr a ddychenir yn cael ei gyffelybu i greaduriaid gwrthnysig: *cranc*, *afanc* (ll. 21; ailadroddir yr un cyfuniad yn ll. 46), *arth* (ll. 29), *twrch* (ll. 39), *ci*, *cordarw* (ll. 43).

**sud** Y mae *lliw* a *sud* yn gyfystyron. Gellid atalnodi yn wahanol *Carl o liw*, *sud carl o Sais*, ond *sud* sydd yn yr orffwysfa, ac yn y canu bydd cymalau'r frawddeg a rhaniadau'r gynghanedd yn mynd law yn llaw. Y dewis arall yw derbyn mai ffurf ar y S. *shit* yw *sud* yn y fan hon. I ddiwedd yr 16g. y perthyn yr enghreifftiau cynharaf o'r e. yn S., ond digwydd y f. gyfatebol yn gynnar yn y 14g., gw. OED<sup>2</sup> xv, 286–7.

**Sais** Dilornus a difriol yw'r cyfeiriadau at y Saeson, megis at yr Iddewon, gw. isod llau. 8 a 31. Ond, yn wyneb yr hyn a awgrymir gan y geiriau *alltud* (ll. 17) a *gwestai* (ll. 35), efallai y dylid dehongli'r cyfeiriad yn llythrennol. Perthnasol yw sylwadau Saunders Lewis ar gywydd Dafydd ab Edmwnd i annog un o'i noddwyr i beidio â phriodi Saesnes yn *Meistri a'u Crefft*, gol. Gwynn ap Gwilym (Caerdydd, 1981), 124–31. Bardd arall a fynegodd ddymuniaid tebyg oedd Hywel Dafu (gw. ei gywydd *Harri Mil*, *hwyr ymweled*). Arall, fodd bynnag, yw ymateb Lewys Glyn Cothi yn ei gywydd i Huw Conwy a'i wraig Elsbeth, gw. GLGC cerdd 222.

**6 mêl** Yn drosiadol, naill ai i. 'gweniaith', neu ii. 'cyfoeth, da bydol'. Ystyrion hefyd yw'r darlleniad *moel* 'corun moel' (ac arwydd o henaint).

**milain** 'Taeog, dihiryn', gw. GPC 2455 ac isod 21.36n.

**17 cwewallt** 'Gŵr i wraig anffyddlon'. Awgrymir na ddisgwylyd i'r un wraig fod yn ffyddlon i'r gŵr hwn rhag ei hacred.

**19 cleddfoer** Cyfuniad o *cleddf* (cywasgiad o *cleddyf*) ac *oer*, ac ni ellir adfer y llafariad goll gan y byddai'r ll. o'r herwydd yn rhy hir o sillaf, ac yn cynnwys y bai crych a llyfn. Disgrifir y darpar ŵr yn un oer ei gledddyf, sef un sy'n amharod i ymladd, a cf. *cleddhwfr*, ll. 40. Ond gall yr arf dan sylw fod yn drosiad am aelod rhywiol y gŵr, ac os felly, un diserch, un sy'n anabl neu yn amharod i gyflawni ei ddyletswyddau rhywiol.

**20 rhuad awen** Gw. GPC 240–1 d.g. *awen*<sup>1</sup> ac *awen*<sup>2</sup>. Ceir yma naill ai disgrifiad dychanol o faldorddi awenyddol y gŵr (*awen*<sup>1</sup>) neu ddisgrifiad o ffynhonnell y sŵn (*awen*<sup>2</sup> 'asgwrn gën'; ond i'r flwyddyn 1632 y perthyn yr enghraifft gynharaf a ddyfynnir).

Wyth sillaf sydd yn y ll., ond ni welir y gair cyntaf yn nifer o'r llsgrau.

Fe'i cadwyd am ei fod yn cynnal y cymeriad geiriol.

- 22 **llwyd** Naill ai i. yr e.p., a gw. y nodyn brig, neu ii. 'llwyd ei wallt', am ei fod yn heneiddio, neu iii. 'diflas, di-liw'.

**begergrwyd** *Beger + crwydr*; hepgorwyd y gytsain olaf er mwyn sicrhau'r odl.

Chwe sillaf yn y ll. 'Cywirwyd' y bai mewn ambell ffynhonnell, ond dilynwyd y darlleniad a welir yn y rhan fwyaf o'r llsgrau.

- 23 **pefrfrig** Digwydd *pefrig* yn nifer o'r llsgrau., ond ni restrir y cyfuniad yn GPC 2714.

27–8 Digwydd yr un cwpled yn y cywydd a ganodd Hywel Cilan i ofyn cymod Gruffudd ap Rhys ap Dafydd, gw. GHC XXIV.23–4.

- 36 **gweddwas** 'Gwas sy'n dilyn y wedd, llafurwr', ac atgyfnerthir y disgrifiad gan yr a. *caeth* 'bilain, taeg'.

- 39 **hoen hirbryd hin** Testun llawenydd i'r gŵr cybyddlyd yw'r adegau hir o ymrydio.

- 41 Dyfynnir y ll. *hadlesstr dail elesstr dulwyd* yn GPC 1204 d.g. *elestr*.

- 42 **Essyllt** Fe'i hystyrir yn safon prydferthwch, gw. TYP<sup>2</sup> 349–50. Ond priodol oedd ei chrybwyll yn y cywydd hwn o ystyried hanes ei charwriaeth â Thrystan, a'r ymryson amdani rhwng Trystan a'i gŵr priod, March. Cyfeirir at y tri chymeriad yng nghywydd Dafydd ab Edmwnd 'I ferch a briodasai hen ŵr', gw. DE XXI.35–8 *Trystan wyf trosti yn wyllt / yn ymossod am Essyllt / march yw hwn a merch yw hi / am meirchion yw amherchi*. Gw. ymhellach Ifor Williams, 'Trystan ac Essyllt', B v (1929–31), 115–29.

- 47 **gwrthun** Ffurf gyfochrog yw *gwrthfun*, gw. GPC 1722 a'r Amrywiadau. O dderbyn y ffurf fwy cyfarwydd, sicrheir rhagorach cynghanedd am nad oes ynddi *f*led-lafarog o dan yr acen. Ond gweler sylwadau D.J. Bowen ar arfer Gruffudd Hiraethog o beidio ag ateb cytseiniaid o dan yr acen yn GGH lviii.

Priodolir y cywydd i Siôn ap Hywel mewn pedair llawysgrif ddibynadwy, a hefyd yn Llst 122 (gw. isod). Cynhwyswyd yn y testun golygedig rai cwpledi nas ceir yn y ddwy lawysgrif gynharaf a berthyn i ddiwedd yr unfed ganrif ar bymtheg ond sy'n digwydd yn y ddwy lawysgrif o'r ail ganrif ar bymtheg. Er mai 34 llinell sydd yn y fersiwn a gopiodd Wiliam Bodwrda yn Llst 122, cofnododd 10 llinell arall ar ymyl y ddalen (gw. td. 84; nodir y rhain mewn teip eidalaid. Nid oes dim i ddangos i'r darllenydd ym mha le y disgwyliai Wiliam Bodwrda iddo leoli'r ddau gwpled olaf).

Cyhoeddwyd y cywydd yn WLI XCV, ond y mae hyn yn destun syndod oblegid ni phriodolir y gerdd i Wiliam Llŷn yn yr un o'r llawysgrifau, gw. MFGLI 4347. Enwir Dafydd ap Gwilym mewn un llawysgrif, ond ni thrafodir awduraeth y cywydd yn yr adran 'Cerddi amheus ac annilys' yn GDG. Fe'i priodolir hefyd i Robin Ddu (gw. llawysgrifau GHI), ond 26 llinell o blith 52 llinell y testun golygedig sydd yn y tair llawysgrif hyn; nid yr un yw trefn y cwpledi, a digwydd yn y tair hefyd 12 llinell nas ceir yn y ffynonellau eraill.

- 6 *m* berfeddgoll. Gellid ei hosgoi trwy fabwysiadu'r darlleniad *Yn y bedd ...*
- 23 **Elen** Elen Fannog, gw. TYP<sup>2</sup> 343. Yr oedd a wnelo pob un o'r merched a enwir yn y rhan hon o'r cywydd (llau. 23–32) â rhyw anghaffael. Yr Elen hon oedd asgwrn y gynnen, *pann ddoeth gwyr Groec i ymladd a Chaer Droea i ddyal kribddeiliad Elen Vannog*.
- 25–7 **cad ... / Gamlan ... / ... Gwenhwyfar** Gw. TYP<sup>2</sup> 380–5. Cyfeirir at achos y frwydr yng Nghamlan yn y triawd 'Tair Gwŷth Balfawd Ynys Prydain' ... *A'r eil a drevis Gwenhvyuach ar Wenhvyuar. Ac o achavs hynny y bu Weith Kat Gamlan gvedy hynny*, gw. TYP<sup>2</sup> 144; hefyd *ib.* 206 (triawd 84). At hyn, diogelwyd gweddillion rhyw chwedlau am gipio Gwenhwyfar gan Fedrod, gw. BD 182–3, a chan Felwas, gw. TYP<sup>2</sup> 382, ac yng ngyd-destun y cywydd hwn, y mae'r hyn a honnir am Wenhwyfar yn y triawd 'Tair Anniwair Wraig Ynys Prydain' yn arwyddocaol, *Ac un oed aniweirach nor teir hynny: Gwenhwyvar gwreic Arthur*, gw. *ib.* 200.
- 30 Wyth sillaf yn y ll., ond gellir ei chywasgu yn saith sillaf.
- 31 **y fad felen** Y pla hwn a laddodd Faelgwn Gwynedd, ac yntau yn llochesu yn eglwys Rhos, gw. TYP<sup>2</sup> 437–41 ac ymhellach, John Cule, 'Pestis Flava: Y Fad Felen', *Wales and Medicine*, ed. John Cule (Llandysul, 1975), 141–55. Hyd y gwyddys, nid oedd a wnelo unrhyw ferch â'r pla hwn. Fodd bynnag, cyhuddodd Gildas Faelgwn o ladd ei nai a phriodi ei wraig, a thybed a oes yma awgrym mai cosb am ei weithred ysgeler oedd y fad a'i lladdodd?
- 32 *n* wreiddgoll, neu *dd* berfeddgoll.
- 39 *n* wreiddgoll.
- 45 Cynghanedd lusc sy'n cynnwys yr odl *-em / -en*.
- 47 Cyfatebiaeth caled a meddal *g = c*. Ar gadw'r gysefin ar ôl ffurfiau 3 un.pres.dib. y f. yn diweddu yn *-o*, gw. Treigladau 213, a cf. ll. 51 isod.
- 47–8 Cf. y cwpled a ganlyn o gywydd Syr Dafydd Trefor 'I ofyn gordderch a thelyn i Syr Wiliam Gruffudd', gw. Dafydd Trefor: Gw 9.71–2 *Gwell i'm un a faco llo, / A'r henaidd, na'r wawr honno*.

48 Twyll gynghanedd g. Digwydd *wawr* yn llsgrau. DF, ond collir y cymeriad llythrennol o dderbyn y darlleniad hwn.

## 23

Priodolir y cywydd i Fedo Brwynllys (3 llawysgrif), i Ddafydd ap Gwilym (2 llawysgrif), i Ruffudd ab Ieuan ap Llywelyn Fychan (1 llawysgrif) ac i Ieuan Dyfi (1 llawysgrif tra llwgr). Ar y llaw arall, enwir Tudur Aled mewn 15 llawysgrif a Siôn ap Hywel mewn 13 ffynhonnell. Gellir priodoli'r cywydd yn bur hyderus i Siôn ap Hywel ar y tir a ganlyn:

- i. fe'i henwir mewn nifer o lawysgrifau annibynnol (y mae 5 o'r llawysgrifau sy'n enwi Tudur Aled yn llaw'r copiwr Llywelyn Siôn);
- ii. at ei gilydd y cyfan y mae trefn y cwpledi yn y testunau lle y priodolir y cywydd i Siôn yn rhagori ar drefn y testunau lle yr enwir Tudur Aled;
- iii. y mae'r cyflwyniad sy'n rhagflaenu'r cywydd mewn tri thestun yn awgrymu sut y cysylltwyd Tudur â'r cywydd.

Ymddengys mai bwriad y bardd oedd disgrifio merch o'i chorun i'w sawdl. (Perthnasol yw sylwadau A.T. Matonis ar y *descriptio pulchritudinis* yn ei hysgrif 'Nodiadau ar Rethreg y Cywyddwyr', *Y Traethodydd*, 1978, yn fwyaf arbennig tt. 155–61, a'i hymdriniaeth â dau gywydd sy'n gyson â'r patrwm hwn, sef 'I Ferch' Iolo Goch, gw. GIG XXIV, a 'Cywydd Merch' Gruffudd Gryg, gw. DGG LXXII.) Y mae i'r cywydd o'r herwydd gynllun pendant a amlygir yn yr holl destunau niferus. Serch hynny, gwelir bod rhai cwpledi yn eisiau mewn ambell destun, ac nid yr un drefn yn union a ddilynir bob tro. Yn wir, mewn un llawysgrif yn unig (sef BL Add 24980) y dilynir union drefn y testun golygedig, ac ni welir yn honno ddau gwpled sy'n digwydd yn rheolaidd yn y llawysgrifau eraill.

Un cwpled ychwanegol a gafwyd y tro hwn, yn wahanol i'r cywydd blaenorol. Disgrifio'r bronau a wneir yn hwn ac y mae'n arwyddocaol na welir yn y ddau destun sy'n cynnwys y cwpled newydd gwpled 33–4 sy'n cyflawni'r union swyddogaeth. Dadlennol hefyd yw safle ambell gwpled. Cymer llinellau 29–30 eu lle yn naturiol yn y testun yn y rhan o'r cywydd sy'n disgrifio'r wyneb (llau. 7–30), ond enwir y llaw hefyd yn y cwpled hwn, a hyn yn ddiau sy'n cyfrif am y modd y lleolwyd y cwpled yn yr adran sy'n disgrifio aelodau eraill y corff (llau. 31–50) mewn sawl ffynhonnell. Yn nhestun Brog (y gyfres gyntaf) 1, er enghraifft, dilyn y cwpled linellau 43–4 lle y crybwyllir y bysedd. Yn nifer o'r llawysgrifau, er enghraifft BL Add 14866, disgrifir y traed (llau. 45–8) ac yna'r dwylo (llau. 41–4) cyn dychwelyd at gwpled 49–50 lle y cyfeirir drachefn at y traed.

Cyhoeddwyd y cywydd yn J.C. Morrice, *Detholiad o waith Gruffudd ab Ieuan ab Llewelyn Vychan* (Bangor, 1910), cerdd XXIV, yn seiliedig ar lawysgrif BL Add 14880. Gwyddai Gruffydd Robert am y cywydd a dyfynnir tair llinell yn y drafodaeth ar y cynganeddion sydd ganddo yn ei

ramadeg, gweler G.J. Williams, *Gramadeg Cymraeg gan Gruffydd Robert* (Caerdydd, 1939), [241], [267].

3 *n* wreiddgoll.

5 *m* wreiddgoll.

8 Cyfatebiaeth *th* = *th..dd*.

10 Nid atebir *r* o dan yr acen yn yr orffwysfa.

15 Ysgrifennwyd ‘pengoll’ ar ymyl y ddalen yn Card 2.68 [= RWM 19] a thrachefn yn CM 10.

25 Chwe sillaf yn y ll. oni chyfrifir *dadl* yn air deusill, ond gair unsill sydd ei angen ar gyfer yr odl; cf. 6.49 a 25.21.

34 *f* led-lafarog.

48 **ffwrwr** Ffuriau cyfochrog yw *ffwr*, *ffwrw*, *ffwryr*, gw. GPC 1331 a’r Amrywiadau. *Pwrffil* sydd yn nhestun BL Add 24980. Ychwanegwyd *porphor* ar ymyl y ddalen, ynghyd â’r nodyn ‘Pwrffil the train of a gown but it cannot be the right word here because it makes a great fault in the verse’.

49 **eira** Gwelir y ffurf unsill *eiry* yn 21.24, a digwydd yr un ffurf mewn cynifer â deg o’r llsgrau. sy’n cynnwys y cywydd dan sylw (*liw eiry* yw’r ymadrodd yn nifer o’r rhain), ond y mae’r rhan fwyaf o’r ffynonellau yn ategu darlleniad y testun.

50 *r* wreiddgoll.

53 *n* wreiddgoll.

54 *n* wreiddgoll.

56 *n* wreiddgoll.

63 Chwe sillaf yn y ll., ac felly mewn sawl llsgr. gynnar, e.e., Card 3.4 [= RWM 5] a LIGC 13067B. Y mae’n amlwg fod y copiŵyr yn ymwybodol fod y ll. sillaf yn brin a dengys yr Amrywiadau sut y ceisiwyd ei chywiro.

Dwy lawysgrif sy’n priodoli’r cywydd i Siôn ap Hywel, ond fe’i hawlir yn betrus i’r bardd hwnnw ar sail yr ystyriaethau a ganlyn:

i. fe’i henwir yn y llawysgrif gynharaf, sef Pen 76 (ond Bedo Brwynllys a enwir yn Llst 163). Enwir Bedo Brwynllys mewn 11 llawysgrif, ond un gynsail gyffredin sydd i’r rhain;

ii. y mae fersiwn Pen 76, a’r testun cyfatebol yn Pen 184, yn helaethach na’r hyn a geir yn Llst 163 a’r llawysgrifau eraill sy’n ei dilyn (deugain

llinell sydd yn Llst 163), ac y mae'r drefn yn fwy ystyrllon.

Ni chynhwyswyd y cywydd yn y detholiad CSTB.

- 1 Dyfynnir y cwpled cyntaf—*y ddyn wryn ni ddoe n vol / nos da ir wyneb estronol*—yn Pen 221, 154.
- 2 *n* wreiddgoll.
- 4 Twyll gynghanedd *dd*, ond ceid ll. reolaidd o ddilyn darlleniad llsgrau. C–L, sef *fun weddusteg*.
- 21 Camosodiad n.d = d.n.
- 25–8 Awgrymodd G.E. Ruddock, 'Prydferthwch Merch yng Nghywyddau Serch y Bymthegfed Ganrif', LlCy xi (1970–1), 168, fod yma gyfeiriad at arferion ymbincio'r merched, ond tebycach mai crybwyll yr arfer o beintio lluniau neu bortreadau sydd yma. Bydd llun o'r ferch yn ysbrydoli dynion wedi i'w rhawd ddaearol ddirwyn i ben, a cf. IGE<sup>2</sup> XXXVIII.21–4 *Gwn na wnaeth, gwae ni neithiwr, / Paentiwr balch ar galch neu gŵyr, / Llun gŵr, a'i roi'n llawn o ged, / Na delw cyn brydoled* (Gruffudd Llwyd).
- 29 *m* wreiddgoll.
- 38 *r* wreiddgoll. Unwaith eto, gellid cryfhau'r ll. (ond heb wella'r ystyr) trwy ddilyn llsgrau. C–L.
- 41 *n* wreiddgoll.
- 44 *f*led-lafarog.
- 46 *f*led-lafarog, ond gellid diwygio'r ll. *O fewn pwys rwyf yn pasiaw*.
- 53–4 Y mae darlleniad Card 2.1069 yn gwbl wahanol i'r hyn sydd yn y llsgrau. eraill, ond cymerir mai amrywiad ar y cwpled dan sylw sydd yn y llsg. honno yn hytrach na chwpled annibynnol oherwydd yr un yw'r brifodl, a digwydd yn yr un safle yn union â'r cwpled cyfatebol sydd yn llsgrau. C–L (yr un yw trefn y cwpledi yn y dosbarth hwn o lsgrau.).
- 54 **duun** Ni cheir yr ymadrodd hwn yn yr un o'r llsgrau., ond nid yw'r darlleniad yn un *â'm dynion i* yn un ystyrllon, a rhaid oedd ei ddiwygio. Diau mai wrth gofnodi'r hyn a glywyd ar lafar y digwyddodd y llygru.  
*n* wreiddgoll.
- 57 **Moesen** 'A Moses ydoedd fab ugain mlwydd a chant pan fu efe farw: ni thywyllasai ei lygad, ac ni chillasai ei ireidd-dra ef', gw. Deuteronomium xxxiv.7. Mydryddir sylwedd yr adnod gan Lewys Glyn Cothi, gw. GLGC 193.31–2 *Moesen fu farw o henaint, / ni bu ar hwn wybr o haint*.

Priodolir y cywydd i Siôn ap Hywel mewn un llawysgrif gynnar, sef Pen 76, ond enwir Dafydd ab Edmwnd mewn 11 ffynhonnell. (Trwy amryfusedd y tadogwyd y cywydd ar Iolo Goch yn RWM ii, 127. Gwelir dechrau'r cywydd yn llawysgrif Card 2.114 [= RWM 7], a diwedd cywydd wrth enw Iolo Goch ar y ddalen nesaf.) Y mae'n amlwg fod ansicrwydd ynghylch awduraeth y cywydd o gyfnod cynnar oblegid enwir y ddau fardd (ond enw Siôn sy'n digwydd gyntaf) mewn pum ffynhonnell. Hoffai Dafydd ab Edmwnd lunio cerddi gorchestol, a phob llinell yn dechrau â'r un llythyren—gw. cerddi DE I, VI, VIII, X—ond dilynodd Siôn ap Hywel, yntau, yr un arfer yng ngherdd 20, a geill mai ei gywydd ef yw hwn.

Yn achos cerddi 22 a 24, yr oedd trefn y cwpledi yn y llawysgrifau lle y priodolid y cywydd i Siôn yn bur wahanol i'r drefn yn y llawysgrifau eraill lle yr enwid bardd arall. Yn yr achos hwn, yr un yw'r drefn yn yr holl lawysgrifau.

Cynhwyswyd y cywydd yn y casgliad o ganu Dafydd ab Edmwnd, gweler DE XIX.

1–8 Cyffelyb yw agwedd y bardd at ei bwnc yn llau. agoriadol cerdd 23, a dygir i gof sylw Saunders Lewis ar ganu serch Dafydd ab Edmwnd: 'Ond y cywydd, nid y ferch, oedd ei wir gariad ef. Ysmaldod hapus ydyw caru iddo ef ...', gw. 'Dafydd ab Edmwnd', *Meistri a'u Crefft*, gol. Gwynn ap Gwilym (Caerdydd, 1981), 129.

2 **hinon** 'Tywydd (teg)', gw. GPC 1868; yma. yn ffig. 'merch brydferth, merch o bryd golau'.

4 *byn ben gall* nid *byn hen gall* yw darlleniad Pen 76 er gwaethaf *Peniarth* 76, copiwyd gan E. Stanton Roberts (Caerdydd, 1927), 98.

**bwy'n bynnag** Gw. GPC 2947 d.g. *pwy*<sup>1</sup>, *pwy un bynnag*; hefyd GSC 19.2n a cf. GIF 8.13–14 *Pen holl Went*, *pwy'n well a wedd / pwy'n bynnag fo pen bonedd?*

13 Digwydd y cwpled yn LIGC 6077B, 190, a'i briodoli i Ddafydd ab Edmwnd.

17 **bwyd i lân gorff** Perthnasol yw'r hyn a ddywed Gilbert E. Ruddock am gusan y ferch ac am y weithred o gusanu, gw. 'Rhai agweddau ar gywyddau serch y bymthegfed ganrif', *Dafydd ap Gwilym a Chanu Serch yr Oesoedd Canol*, gol. John Rowlands (Caerdydd, 1975), 95–116, ond yn fwyaf arbennig tt. 110–16 lle y gelwir sylw at gyfeiriadau yn y canu at y cusan yn gyfrwng bywyd a chynhaliaeth.

19 Cf. DE VI.27–8 *kari a wnaeth kowrain wedd / kyd bwyssso koed ai*



*bysedd.*

- 21 Gelwir sylw at y ll. hon, ac at rai eraill lle y ceir sillaf gadarnleddf yn safle'r brifodl, yn J. Morris-Jones: CD 150–1. Cf. uchod 6.49 a 23.25n. Gwelwyd un enghraifft arall yng nghanu Siôn Ceri, gw. GSC 13.5–6.
- 26 Cadwyd darlleniad Pen 76, er mai chwe sillaf sydd yn y ll. ac er ei bod yn cynnwys cynghanedd bengoll. Gwelir hefyd nad yw'r sangiad *bryf wych* yn wahanol iawn i'r hyn sydd yn ll. 2, sef *bryf hynaws* (ond digwydd y gair *bryf*, a allai fod yn ddieithr i'r copïwyr, yn un arall o gywyddau Siôn, gw. 10.43, 45). Ceid ll. gywir o ran ei hyd a'i chynghaneddiad o dderbyn y darlleniad sydd yn y rhan fwyaf o'r llsgrau., *Brofiad ar ddyn wastad wych*. Sylwer, fodd bynnag, mai cynghanedd sain sydd yn y ll. hon, ac nad oes yr un gynghanedd sain arall yn y cywydd. Pennawd y cywydd yn BL Add 14866 yw 'Cowydd merch yn cadw'r un cymeriad ar y llythyren B trwyddo, a chroes gynghanedd yn y rhan fwy ohono'.
- 30 Camosodiad dd.f = f.dd.
- 33 **anach** i. 'anhawster, rhwystr; rhwystr cyfreithiol rhag priodi'; ii. 'achos, achlysur', gw. GPC 104.
- 37–8 Y mae amlwg fod yr hyn sydd yn y rhan fwyaf o'r llsgrau. yn llwgr, oblegid ailadroddir *blin* a *blaenor* yn nwy fraich y cwpled. Yr ail l. sy'n digwydd gyntaf yn llsgrau. HJKT.
- 43 **brawychus** 'Dychrynedig, ofnus, llwfr' a gynigir yn GPC 313, ond 'dychrynlyd, arswydus, erchyll' sy'n gweddu orau yn y cyd-destun.
- 44 Dyma'r unig ddarlleniad sy'n rhoi cynghanedd, gw. yr Amrywiadau.
- 50 Cymerwyd mai'r ffurf ferfol sydd yn y ll. (a'i dilyn gan yr arddodiad *i*), ond *beri hoyw fvn* yw darlleniad Pen 76. Geill mai e. yw *beri* yma (ffurfiau cyfochrog yw *bery* a *beryf*), sef 'aderyn ysglyfaethus, barcud', gw. GPC 276.
- 51 *n* berfeddgoll.

## 26

Copi o Card 2.4 [= RWM 11] yw LlGC 95B, ond neidiodd llygaid y copïwr o frig un tudalen i frig y nesaf, a chollodd un cwpled ar ddeg o ganlyniad.

- 1–2 Gwelir y cwpled cyntaf yn Pen 221, 72, *y gwyr a wnai yr gaer yn well / di yskymvn nid oes gymell*. Nid annhebyg i'r ll. agoriadol y ll. hon o eiddo Syr Dafydd Trefor, *P'le mae Edwart, plwm ydych, / Y gŵr a wna'r gaer yn wych?* gw. Dafydd Trefor: Gw 228.

10 *n* wreiddgoll.

- 18 **gilt** Ffurf sy'n cyfateb i *gild*, ond nis nodir yn GPC 1398. *Gildwyr* yw'r ffurf a ddefnyddiodd y bardd yn ll. 11, a thrachefn yn ll. 13.
- 32 **dur** Fe'i crybwyllir drachefn yn ateb Gruffudd ab Ieuan, gw. 27.30 *Gwadu Duw wrth godi dur*. Trosiad am gleddyf neu arf arall yw *dur* ran fynychaf, ond nid yw hynny'n taro yn y cyd-destun. Tybed ai trosiad am y dis a'i gyfansoddiad caled ydyw, neu am y llestr yr yfid ohono?
- 38 **Caerloyw** Yn llsgr. A yn unig y digwydd y darlleniad hwn.
- 44 **bag** 'Crafanc' yn hytrach na 'cod' (ond gthg. ll. 6), ond i ddechrau'r 17g. y perthyn yr enghraifft gynharaf a gofnodir yn GPC 249.
- 51 Ni cheir cyfatebiaeth o dan yr acen.
- 56 **na choeliwch** Diau fod yma amwysedd bwriadol, a gellid deall i. 'peidiwch â chredu[r sawl sy'n gweld bai amoch]', neu ii. 'peidiwch â rhoi benthyc ar goel'.

## 27

O'r ddau gywydd, hwn a apeliodd fwyaf at y copi-wyr. Diogelwyd 20 copi o gywydd Siôn, a 30 copi o'r ateb. Digwydd y ddau gyda'i gilydd mewn 17 ffynhonnell (18, o gyfrif llawysgrif goll John Jones, Gellilyfdy, gw. 26.1n a 27.1n).

Dwg ateb Gruffudd ab Ieuan i gof gywydd enwog Iolo Goch i'r llafurwr, gw. GIG XXVIII. Rhoddwyd y geiriau *Cymryd parti yr Hwsmon yn erbyn y rhai a roent ogan iddo* uwchben y cywydd yn llawysgrif Card 4.156 [= RWM 64], ac yn LIGC 16129D *K. Atteb ir k vchod yn gwardd anhwsmoneth ag yn anog i hwsmonedd dra*. Dewis Glanmor Williams ddeall neges cywydd Iolo Goch yng nghyd-destun pregethau'r oes, a'u pwylais ar rinweddau megis diniweidrwydd a diymhongarwch, gw. WCCR 187–8; ond meddylfryd gwleidyddol y bardd a fynegir yn y cywydd yn ôl Dafydd Johnston, gw. *Iolo Goch* (Caernarfon, 1989), 49–51; *Barn*, 345 (Hydref 1991), 27–9.

Trafodais y cywyddau a ganwyd i'r cardiau yn fy ysgrif 'Ysgrifen y Fall', *Dwned*, ii (1996), 95–117. Galwyd sylw yn y fan honno at y chwarae a oedd yn seiliedig ar sicrhau llaw a oedd yn werth un pwynt ar hugain neu un ar ddeg ar hugain, a chyfeirir at yr un chwarae yn y cwpled ychwanegol sy'n digwydd yn llawysgrifau RS.

Priodolir yr ateb i'r bardd Gruffudd ab Ieuan ap Llywelyn Fychan mewn 13 llawysgrif, ac at y rhain gellir ychwanegu'r tair sy'n enwi Gruffudd ab Ieuan, ynghyd â dwy wrth enw Gruffudd ap Llywelyn ab Ieuan Fychan ac un wrth enw Gruffudd ap Hywel ap Llywelyn Fychan. Ni phriodolir unrhyw gerddi eraill i'r ddau fardd olaf. Enwir Gruffudd ap Llywelyn Fychan mewn pum ffynhonnell. Bu cryn gymysgu rhyngddo a Gruffudd ab Ieuan, a

thadogir nifer o gerddi ar y ddau fardd (gw. MFGLI 1023–4). Ni phriodolir unrhyw weithiau eraill i Rys ap Morys (gw. *ib.* 3270), a ffigur digon annelwig yw Ieuan Du ap Dafydd ab Owain o Frycheiniog, yntau—priodolir tri o'r chwe darn wrth ei enw i feirdd eraill (gw. *ib.* 1772).

- 1 Gwelir y ll. hon yn y gyfres 'Eiry mynydd', gw. Rhys Jones, *Gorchestion Beirdd Cymru* (Amwythig, 1773), 12.
- 1–2 Digwydd y cwpled cyntaf yn Pen 221, 58 *dvw a weryd i wirion / a dww a wyr synwyr sion*.
- 9 **arddwyr** Sef ffurf l. *arddwr*, sef i. 'llafurwr, amaethwr', neu ii. 'aradrwr', gw. GPC 189.
- 11 *n wreiddgoll*.
- 12 *a gweithred da* yw darlleniad llsgrau. BEF; cyfeiriad, ond odid, at Saith Weithred y Drugaredd.
- 14 *f*led-lafarog; *r..r* berfeddgoll.
- 15 **diwynwyr** Amrywiad ar *difwynwyr*, un. *difwynwr* 'llygrwr', gw. GPC 988.
- 17 Camosodiad f.l = l.f; *r* berfeddgoll.
- 21 Nid oes gynghanedd yn y ll. Serch hynny, dyma ddarlleniad y llsgrau. gorau. Ystyrllon hefyd—a chywir o ran y gynghanedd—yw'r darlleniad *Ymgeintach yn ddiachos*. Ar *ceintach* 'grwgnach, tuchan; cweryla', gw. GPC 454.
- 22 *n wreiddgoll*.
- 23 **brydanieth** Sef i. 'poethder, gwres', neu ii. 'nwyd, angerdd', gw. GPC 339. Er mai *-eth* yw'r odl, gwelir y terfyniad llenyddol *-aeth* yn nifer o'r llsgrau. Ysgrifennwyd *brydaniaeth* yn y lle cyntaf yn llsgrau. FP, ond dilewyd yr *a*.
- 26 **gloddest** Be. yma, 'gwledda', ond i ddiwedd yr 16g. y perthyn yr enghraifft gynharaf a welir yn GPC 1409.
- 27 **ffest** Yr a. i. 'cyflym, dygn', a ii. 'sicr, diogel', gw. GPC 1285, yn hytrach na'r e. 'gwledd'.
- 28 Y mae yma gynghanedd lusk reolaidd, ond ni chaniateid y gynghanedd honno yn ail fraich y cwpled. Ceir yma hefyd gynghanedd groes ac ynddi *f*led-lafarog a thwyll gynghanedd *l*.
- 30 **dur** Gw. 26.32n.
- 35 Cynghanedd lusk deirodl, ond ni welir y ffurf lafar *mameth* ym mhob un o'r llsgrau.
- 40 **sychedfod** 'Syched'; cofnodir y ffurf yng ngeiriadur William Salesbury (1547).
- 44 Wyth sillaf yn y ll., ond y mae sawl amrywiad ar y ll. Gellid y saith

sillaf angenrheidiol o dderbyn y darlleniad *Rhai i fythod i'w rhoi i fethu*.

45 Ll. arall sy'n ddigynghanedd, ond gellid goresgyn y diffyg o dderbyn y darlleniad *nid gwledydd glod*. Tybed a oes yma enghraifft o drin *gwladwyr* yn eb. ar ddelw *pobl*? Ar y modd y treigilir yr a. ar ôl y gair hwnnw, gw. Treigladau 11.

49 *fled-lafarog*.

59 **di-iawnwyr** Nodir y ffurf *iawnwr* a'i ffurf l. *iawnwyr* yn GPC 2007 (enghraifft gynharaf 1603). O'i ragflaenu â'r negydd *di-*, ceir yr ystyr 'dihiryn, gwalch'. Ond digwydd *diwynwyr* mewn sawl llsg., gw. 27.15n uchod.

60 **rhai'n ardwy** *Cardwyr* yw'r ffurf a ddefnyddir yn ll. 15, ond nid yw'r gynghanedd yn caniatáu'r ymadrodd *yn gardwyr*. Fe'i trinnir fel pe bai iddo ffurf gyfochrog *gardwyr*, ond ni welwyd enghraifft arall (nac o'r ffurf *gard* yn amrywiad ar *card*).

## 28

1 11 sillaf yn y ll., a phum sillaf yn ail l. y paladr.

7 Cynghanedd lusg wallus ac ynddi odl *-an = -om*, ond cf. 22.45.

## 29

Ceir yr un pennawd air am air (i bob pwrpas) yn y tair llawysgrif.

## 30

3 *n wreiddgoll*.

4 Diwygiwyd y ll. er mwyn sicrhau'r saith sillaf angenrheidiol.

## 31

Gelwir y cwpled yn 'Englyn' yn llawysgrifau EIJ, ond 'Toddaid' sydd uwch eu pennau yn BL Add 14964. Defnyddir y ddau gwpled (ond heb enwi'r beirdd) i enghreifftio 'Dadymchweliad' yn Henri Perri, *Egluryn Ffraethineb* (atgynhyrchiad, Caerdydd, 1930), 66. Copi Wiliam Bodwrda o'r gwaith sydd yn llawysgrif H. Rhwng y ddau gwpled yn llawysgrif A, digwydd y canlynol *Gwégi tragwégi trwy gogedd gwégi / ni by tragwégi na bai trwy gogedd*.

## 32

6 Twyll gynghanedd *ch*.

9–10 Cf. esgyll yr englyn a briodolir i Ddafydd Ddu o Hiraddug yn GEO 187.

10 **alltudion** Ysgrifennwyd *gwr kaethion* ar ochr y ddalen yn llsgr. B. Twyll gynghanedd *g*.

*Atodiad i*

Anodd gwrthod y cywydd hwn i Ddafydd ap Gwilym ar sail y llawysgrifau. Diogelwyd y gerdd mewn 46 ffynhonnell, ac fe'i priodolir i Ddafydd ym mhob un ac eithrio LIGC 1246D, er bod peth amheuaeth yng ngolwg copiwr llawysgrif Card 4.330 [= Haf 26]: 'D ab Glm meddantwy a thebig mae gwir'. Fodd bynnag, ni allai Thomas Parry dderbyn i Ddafydd ganu dau gywydd i'r niwl, a thybiai fod ffurfiau megis *mynd* (ll. 5), *eira* (yn ddeusill, ll. 35) yn y cywydd dan sylw, a'r ffaith mai prin yw'r geiriau cyfansawdd, yn awgrymu mai i gyfnod diweddarach y perthyn. 'Yn wyneb hyn i gyd, teg, mi gredaf, yw tybio mai A [GDG 63] yw gwaith Dafydd, ac mai rhywun heb fod yn hir iawn ar ei ôl—yn nechrau'r 15g, efallai—a ysgrifennodd B ['Oed â'm rhiaid addfeindeg'], a bod y bardd hwnnw'n gwybod am gywydd Dafydd', gw. GDG c–ci. Ni wyddai Thomas Parry ar y pryd am destun LIGC 1246D, a D.J. Bowen oedd y cyntaf i alw sylw at hwn, gw. '“Oed â'm rhiaid addfeindeg”', B xvi (1954–6), 103; hefyd '*Barddoniaeth yr Uchelwyr*', LICy iv (1956–7), 231. Cyfeiriodd D.J. Bowen at dair ystyriaeth o blaid derbyn tystiolaeth y copiwr, Rhys Jones o'r Blaenau, a dadogodd y cywydd ar Siôn ap Hywel, sef i. yr oedd yn ŵr hyddysg yn y traddodiad barddol. Bellach gw. A. Cynfael Lake, 'Rhys Jones: y golygydd a'r bardd', YB xxii (1997), 204–26. Sylwer, fodd bynnag, mai i Dudur Aled y priodolir rhif 23 (*Medra' o'm pwyll ...*) yn LIGC 1246D, ac mai i Ddafydd ab Edmwnd y rhoddir rhif 25 ('Bwriais fryd, briwais y fron') yn yr un llawysgrif; ii. yr oedd y traddodiad llafar yn hyfyw yn ei ddyddiau ef; iii. geill iddo weld llawysgrifau sydd bellach wedi eu colli.

O ystyried darlenniadau LIGC 1246D, ymddengys mai cysail ysgrifenedig a oedd gan Rys Jones. Camgopiodd y geiriau *tugeuwern taith* yn ll. 44—*fignwern faith* sydd yn y rhan fwyaf o'r llawysgrifau eraill. At hyn gellir ychwanegu un ystyriaeth arall. Yn nhestun Rhys Jones yn unig y digwydd cwpled 23–4, a dyma awgrym fod iddo ryw gysail annibynnol. Gwelir y cwpled hwn, fodd bynnag, mewn un man arall, yn Card 4.156 [= RWM 64], yr unig llawysgrif sy'n cynnwys yr holl gwpledi, gan gynnwys y pedwar ychwanegol. Nid dibwys mai gwraig o Feirion a gopiodd y llawysgrif hon. Ar Margaret Davies, gw. ByCy 131.

